# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 11/06/2014

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
Questions to the Counsel General

Araith y Frenhines
The Queen's Speech

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Gofalwyr
Welsh Liberal Democrats Debate: Carers

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer: Datganoli: Ysgogwr Arloesedd
Short Debate: Devolution: A Driver of Innovation


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

I call the National Assembly for Wales to order.

The National Assembly is in session.

Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

13:30

# Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

# Questions to the Minister for Health and Social Services

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Question 1, OAQ(4)0441(HSS), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(4)0441(HSS), yn ôl.

### Gwasanaethau Cardioleg

### Cardiology Services

13:30

## William Powell

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau cardioleg yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda? OAQ(4)0442(HSS)*

*2. Will the Minister make a statement on cardiology services in the Hywel Dda health board area? OAQ(4)0442(HSS)*

13:30

## Mark Drakeford

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Hywel Dda patients are entitled to cardiology services that match those available to patients elsewhere in Wales, delivered in ways which reflect the characteristics of the area.

Mae hawl gan gleifion Hywel Dda i wasanaethau cardioleg cystal â'r rhai sydd ar gael i gleifion mewn mannau eraill yng Nghymru, wedi'u darparu mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu nodweddion yr ardal.

13:30 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to thank the Minister very much for that response. As we celebrate and mark the fifteenth year of devolution, I think it would be fair to say that a joined-up approach to policy making was one of the things that the people of Wales looked to us to deliver in that connection. Certainly from the casework that has come my way in recent weeks and months in Mid and West Wales, there is real concern out there, Minister, with regard to the proposed centralisation of cardiology services in Carmarthen, particularly in Ceredigion and Pembrokeshire. Would you accept that the Welsh Government should do more to integrate decision making in that area with commensurate improvements in the transport infrastructure so as to minimise the effects of travel time, which could badly affect patient outcomes?

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am ei ymateb. Wrth i ni ddathlu a nodi pymtheg mlynedd ers datganoli, rwy'n credu y byddai'n deg dweud bod ymagwedd gydgysylltiedig tuag at lunio polisi yn un o'r pethau roedd pobl Cymru yn disgwyl i ni eu cyflawni yn y cyswllt hwnnw. Yn sicr, o'r gwaith achos a ddaeth i fy sylw yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, mae pryder gwirioneddol yn bodoli, Weinidog, yn enwedig yng Ngheredigion a Sir Benfro o ran y bwriad i ganoli gwasanaethau cardioleg yng Nghaerfyrddin. A fyddech yn derbyn y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i integreiddio'r broses o wneud penderfyniadau yn yr ardal honno gyda gwelliannau cymesur yn y seilwaith trafnidiaeth er mwyn lleihau effeithiau amser teithio a allai effeithio'n wael ar ganlyniadau i gleifion?

13:31 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think it is a very important point that William Powell makes, and one which I fully accept, that, when changes are made of the sort that are proposed but are still simply for discussion in the Hywel Dda board area, transport solutions to sit alongside service change are essential. I know that the Welsh Ambulance Services NHS Trust is fully involved in the discussions that will go on around the royal college report into cardiac services, and I, too, see the letters. I have very many letters from people who are concerned about the report, and travelling times is one of the themes that come through very strongly in that correspondence.

Rwy'n credu bod William Powell yn gwneud pwynt pwysig iawn ac mae'n un rwy'n ei dderbyn yn llwyr. Pan wneir newidiadau o'r math a gynigir ond sy'n dal yn syml ar gyfer eu trafod yn unig yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda, mae'n hanfodol fod atebion trafnidiaeth yn cael eu hystyried ochr yn ochr â newid yn y gwasanaethau. Gwn fod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau a gynhelir ynghylch adroddiad y coleg brenhinol ar wasanaethau cardiaidd, ac rwyf finnau'n gweld y llythyrau hefyd. Rwy'n cael llawer iawn o lythyrau gan bobl sy'n pryderu am yr adroddiad ac mae amser teithio yn un o'r themâu sy'n amlwg iawn yn yr ohebiaeth honno.

13:32 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Morriston Hospital plays an important role in the provision of cardiology services to the patients in west Wales. May I ask the Minister to consider expanding these services at Morriston and to further develop the hub-and-spoke model of cardiac services into west Wales?

Mae Ysbyty Treforys yn chwarae rhan bwysig yn y ddarpariaeth o wasanaethau cardioleg i gleifion yng ngorllewin Cymru. A gaf fi ofyn i'r Gweinidog ystyried ehangu'r gwasanaethau hyn yn Nhreforys a datblygu ymhellach y model 'prif ganolfan a lloerennau' o wasanaethau cardiaidd i orllewin Cymru?

13:32 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Mike Hedges for that question. Dirprwy Lywydd, I think it is important for me to just take a second to remind Members where the cardiology developments in Hywel Dda have come from, because they are the result of whistleblowing concerns raised by cardiologists in that health board area with the chief medical officer about 12 months ago. She was sufficiently concerned by what she heard in those reports to require the board to commission an independent review of the services that they provide. That report emphasises the hub-and-spoke model as a way of combining the need for the concentration of expertise for procedures that are genuinely specialist with retaining generalist services in other parts of the area. It says in the report itself that the spokes are equally as important as the hub, and both need attention. Morriston, as Mike Hedges indicates, comes into the picture because of the role it already plays in providing cardiology services to the Hywel Dda population. The south Wales programme, with its three acute alliances, will make that relationship even more important for the future.

Diolch i Mike Hedges am y cwestiwn. Ddirprwy Lywydd, rwy'n credu ei bod yn bwysig i mi roi eiliad i atgoffa'r Aelodau o ble y deilliodd y datblygiadau cardioleg yn Hywel Dda, gan mai canlyniad pryderon chwythu'r chwiban a fynegwyd gan gardiolegyddion yn ardal y bwrdd iechyd wrth y prif swyddog meddygol tua 12 mis yn ôl yw'r rhain. Roedd hi'n ddigon pryderus ynglŷn â'r hyn a glywodd yn yr adroddiadau hynny i'w gwneud yn ofynnol i'r bwrdd gomisiynu adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r model 'prif ganolfan a lloerennau' fel ffordd o gyfuno'r angen i grynhoi arbenigedd o ran gweithdrefnau sy'n wirioneddol arbenigol â chadw gwasanaethau cyffredinol mewn rhannau eraill o'r ardal. Mae'n dweud yn yr adroddiad ei hun bod y lloerennau yr un mor bwysig â'r brif ganolfan ac mae angen rhoi sylw i'r ddwy elfen. Fel y dangosodd Mike Hedges, daw Treforys yn rhan o'r darlun oherwydd y rôl y mae eisoes yn ei chwarae yn darparu gwasanaethau cardioleg i boblogaeth Hywel Dda. Bydd rhaglen de Cymru, gyda'i thair cynghrair acíwt, yn gwneud y berthynas honno hyd yn oed yn bwysicach yn y dyfodol.

13:34 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I appreciate what you have said regarding the Royal College of Physicians' report. I have had a number of constituents raise concerns with me about the cardiac hub proposed to be sited in Carmarthen, stating that patients' views must be listened to in this debate. A key issue for patients in my constituency who have conditions such as arrhythmia or coronary heart failure is how, potentially, they get to Glangwili in time for that life-saving treatment. So, Minister, those views will undoubtedly be heard in the mid Wales health study review, but can you confirm that no proposals will be agreed until the outcome of that study is published?

Weinidog, rwy'n gwerthfawrogi'r hyn rydych wedi'i ddweud ynglŷn â Choleg Brenhinol y Ffisigwyr. Rwyf wedi cael nifer o etholwyr yn lleisio pryderon ynglŷn â'r ganolfan gardiaidd arfaethedig sydd i'w lleoli yng Nghaerfyrddin gan nodi bod yn rhaid gwrando ar farn cleifion yn y ddadl hon. Un mater allweddol i gleifion yn fy etholaeth sy'n dioddef o gyflyrau megis arhythmia neu fethiant coronaidd y galon yw sut y mae cyrraedd Glangwili mewn pryd ar gyfer cael triniaeth i achub eu bywyd. Felly, Weinidog, mae'n sicr y bydd y safbwyntiau hynny yn cael eu clywed yn yr adolygiad o'r astudiaeth iechyd ar gyfer canolbarth Cymru, ond a allwch gadarnhau na fydd unrhyw gynigion yn cael eu cytuno hyd nes y bydd canlyniad yr astudiaeth wedi'i gyhoeddi?

13:34 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Russell George; he will know, I am sure, that Hywel Dda health board met on 22 May to consider the royal college document and has decided to take no final position on its recommendations until November in order that the mid Wales review can be fully available to it. So, the links between the two pieces of work are well known to the local health board, and I think that they are sequencing things in order to be certain that the one piece of work will be influential in the other.

Diolch i Russell George; bydd yn gwybod, rwy'n siŵr, fod bwrdd iechyd Hywel Dda wedi cyfarfod ar 22 Mai i ystyried dogfen y coleg brenhinol a'i fod wedi penderfynu peidio â datgan safbwynt terfynol ar ei argymhellion tan fis Tachwedd fel bod yr adolygiad ar gyfer canolbarth Cymru ar gael yn llawn iddo. Felly mae'r bwrdd iechyd lleol yn gyfarwydd â'r cysylltiadau rhwng y ddau waith ac rwy'n meddwl eu bod yn trefnu pethau er mwyn bod yn sicr y bydd un gwaith yn dylanwadu ar y llall.

13:35 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un consýrn, wrth gwrs, ynglŷn ag adroddiad y coleg brenhinol oedd ei fod wedi edrych ar wasanaethau o fewn ardal Hywel Dda yn unig, ac ar gyfer cleifion Hywel Dda yn unig, heb ystyried bod ysbyty fel Bronglais yn gwasanaethu—fel sydd wedi cael ei ddweud—Gwynedd a Phowys hefyd. Felly, yn eich datganiad chi y prynhawn yma, a wnewch chi sicrhau, cyn i Hywel Dda ddod i unrhyw benderfyniad, bod gofynion pobl talgylch gyfan ardal Bronglais yn cael eu hystyried cyn bod unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r 'hub', ac, yn bwysig iawn, y 'spokes' yn cael ei gymryd yng nghyd-destun Bronglais?

One concern, of course, about the royal college report was that it looked at services within the Hywel Dda area only, and for Hywel Dda patients alone, and did not take account of the fact that hospitals such as Bronglais actually also serve Gwynedd and Powys, as has already been said. So, in your statement this afternoon, will you ensure that, before Hywel Dda comes to any decision, the requirements of people of the wider catchment of Bronglais are taken into account before any decision on the hub, and, very importantly, the spokes, is taken in the context of Bronglais?

13:36 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig. Rwyf wedi derbyn llythyron oddi wrth bobl sy'n byw i'r gogledd i Aberystwyth, er enghraifft, ac maen nhw'n gwneud yr un pwynt yn yr hyn y maent yn ei ddweud wrthyf fi. Rwy'n hollol hapus i ddweud fy mod yn fodlon codi'r pwynt hwnnw gyda Betsi Cadwaladr, a chyda Hywel Dda hefyd, a bod yn glir gyda nhw bod yn rhaid i unrhyw benderfyniadau y maent yn mynd i'w gwneud ar ddiwedd y dydd dynnu'r pwynt hwnnw mewn i'r broses.

The Member makes an important point. I have received letters from people who live to the north of Aberystwyth, for example, and they make exactly the same point as you make. I am completely content to say that I will pick that point up with Betsi Cadwaladr, and also Hywel Dda, and be clear with them that any decisions that they take at the end of the day have to bring that point into the process.

13:36 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Fel y dywedodd Mike Hedges, mae Treforys, wrth gwrs, yn gwasanaethu ac yn arwain ar lawdriniaeth gardiaidd i bobl yn y gorllewin. Mae nifer o bobl yn aros am lawdriniaeth. Gwyddom am adroddiad a chonsýrn Coleg Brenhinol y Llawfeddygon am y ffaith y gall bod pobl yn marw ar restrau aros, ac mae nifer o'r rheini yn y gorllewin hefyd. A allwch chi roi sicrwydd ac amlinelliad i ni o sut ydych chi'n bwriadu cynyddu capasiti ysbytai fel Treforys a'r Heath i fedru gwneud mwy o waith llawdriniaeth cardioleg yn y dyfodol, wrth ystyried, wrth gwrs, eich bod yn comisiynu gwasanaeth y tu allan i Gymru dros dro, ond, yn y pen draw, ein bod eisiau gweld y gwasanaeth hwn yn gwella ac yn cryfhau yn Nhreforys a'r Heath?

Mike Hedges said, Morriston serves and leads on cardiac surgery for people in west Wales. Many people are awaiting surgery. We know of the report and concern of the Royal College of Surgeons about the fact that people may be dying on waiting lists, and many of those people are in west Wales. Can you give us an assurance and an outline of how you intend to increase capacity in hospitals such as Morriston and Heath in order to do more surgical work in cardiology in the future, bearing in mind, of course, that you are commissioning services outwith Wales temporarily, but, at the end of the day, we want to see this service improving and being strengthened at Morriston and Heath hospitals?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

The relationship between Morriston and the population of Hywel Dda is a very important one. It comes through in the report that Hywel Dda commissioned, which says that people who live the furthest distance from Morriston are likely to be affected in the services that they receive by that distance. The issue of capacity for cardiac surgery is not one for Morriston alone; it can only be negotiated as a partnership between what goes on in Morriston and what goes on in Cardiff at the Heath hospital. Members here will have seen that the Royal College of Surgeons has returned to the Cardiff site, and has concluded that progress is being made there to do exactly what Elin Jones has suggested, to ensure that we have sufficient capacity inside Wales to meet the needs for treatment in the future.

Mae'r berthynas rhwng Treforys a phoblogaeth Hywel Dda yn bwysig iawn. Daw'n amlwg yn yr adroddiad a gomisiynodd Hywel Dda, sy'n dweud bod y bobl sy'n byw bellaf o Dreforys yn debygol o gael eu heffeithio gan y pellter hwnnw o ran y gwasanaethau sy'n cael eu darparu iddynt. Nid mater i Dreforys yn unig yw capasiti ar gyfer llawdriniaeth gardiaidd; ni ellir ei drafod ond fel partneriaeth rhwng yr hyn sy'n digwydd yn Nhreforys a'r hyn sy'n digwydd yng Nghaerdydd yn ysbyty'r Heath. Bydd Aelodau yma wedi gweld bod Coleg Brenhinol y Llawfeddygon wedi dychwelyd i safle Caerdydd, a daeth i'r casgliad fod cynnydd yn cael ei wneud yno i wneud yn union yr hyn a awgrymodd Elin Jones, er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti yng Nghymru i ateb yr angen o ran triniaethau yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Minister, the royal college report, and the mid Wales review, will together have produced a great deal of information and expertise, and views as well. How will you make sure that those two particular pieces of work come together, so that any decisions are taken in the light of the best available, and most comprehensive, evidence?

Weinidog, gyda'i gilydd bydd adroddiad y coleg brenhinol ac adolygiad canolbarth Cymru wedi cynhyrchu llawer iawn o wybodaeth ac arbenigedd, a safbwyntiau yn ogystal. Sut y byddwch yn sicrhau bod y ddau waith penodol yn dod at ei gilydd, fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yng ngoleuni'r dystiolaeth orau a mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael?

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

It is important, I think, that both aspects take careful account of one another. I have already reported this afternoon the way that Hywel Dda has sequenced its decision making to make sure that it has the full benefit of the mid Wales report. However, I also spoke—some weeks ago now—to Professor Marcus Longley, who has oversight of that mid Wales review, and I specifically asked him to make sure that the team of people who will be writing his report have access to, and take full account of, the Royal College of Physicians' report that the health board has commissioned.

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig i'r ddwy astudiaeth roi sylw gofalus i'w gilydd. Rwyf eisoes wedi adrodd y prynhawn yma am y modd y mae Hywel Dda wedi trefnu ei broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau ei fod yn manteisio i'r eithaf ar adroddiad canolbarth Cymru. Fodd bynnag, rai wythnosau yn ôl bellach, siaradais hefyd â'r Athro Marcus Longley sy'n goruchwylio adolygiad canolbarth Cymru a gofynnais iddo'n benodol i wneud yn siŵr bod y tîm o bobl a fydd yn ysgrifennu ei adroddiad yn cael mynediad at adroddiad Coleg Brenhinol y Ffisigwyr a gomisiynwyd gan y bwrdd iechyd, a'u bod yn rhoi sylw llawn i'r adroddiad hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

## Ymchwil a Datblygu

## Research and Development

13:39 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

*3. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglŷn â'r manteision ehangach i Gymru o ran ymchwil a datblygu ym maes gofal iechyd? OAQ(4)0443(HSS)*

*3. What discussions has the Minister had regarding the wider benefits to Wales of research and development in the field of health care? OAQ(4)0443(HSS)*

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hold very regular discussions on this matter with ministerial colleagues and officials, and with academic, business and clinical stakeholders.

Rwy'n cynnal trafodaethau rheolaidd iawn ar y mater hwn gyda chydweithwyr a swyddogion gweinidogol, a rhanddeiliaid yn y byd academaidd, y byd busnes a'r maes clinigol.

13:39 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. It was good to join you recently for the official opening of the Bill Mapleson Centre in my constituency. The centre represents an important partnership between health professionals, medical research, and private enterprise, and all involved are to be congratulated. As you know, Minister, the centre is situated in Mountain Ash. The centre brings such projects into those poorer communities that would most benefit from such innovation. What lessons can we draw from this to encourage similar projects to locate in areas such as the south Wales Valleys?

Diolch i chi, Weinidog. Pleser oedd cael ymuno â chi yn ddiweddar ar gyfer agoriad swyddogol Canolfan Bill Mapleson yn fy etholaeth. Mae'r ganolfan yn bartneriaeth bwysig rhwng gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, ymchwil feddygol a menter breifat, a dylid llongyfarch pawb sydd ynghlwm wrthi. Fel y gwyddoch, Weinidog, mae'r ganolfan wedi'i lleoli yn Aberpennar. Mae'r ganolfan yn dod â phrosiectau o'r fath i'r cymunedau tlotach a fyddai'n elwa fwyaf o arloesi o'r fath. Pa wersi y gallwn eu dysgu o hyn i annog prosiectau tebyg i ymsefydlu mewn ardaloedd fel Cymoedd y de?

13:40 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Christine Chapman for that. May I begin by saying that it was an enormous pleasure to be at the opening of the centre? For Members who do not know Professor Bill Mapleson, he is a very senior figure in the world of anaesthetics. He came to work in Cardiff in 1952 and he was there for the opening of his centre. It was said there that not a single consultant anaesthetist anywhere in the world will not have had their work touched by the work that Bill Mapleson has carried out here in Cardiff. So, it is a very fitting tribute to his eminence that we have such a centre.

Diolch i Christine Chapman am hynny. A gaf fi ddechrau drwy ddweud ei bod yn bleser enfawr cael bod yn agoriad y ganolfan? I Aelodau nad ydynt yn adnabod yr Athro Bill Mapleson, mae'n ffigwr uchel iawn ym myd anestheteg. Daeth i weithio yng Nghaerdydd ym 1952 ac roedd yno ar gyfer agoriad ei ganolfan. Dywedwyd yno na fydd yr un anesthetydd ymgynghorol mewn unrhyw fan yn y byd na fydd eu gwaith wedi'i ddylanwadu gan y gwaith a wnaed gan Bill Mapleson yma yng Nghaerdydd. Felly roedd hi'n deyrnged addas iawn i'w amlygrwydd fod gennym ganolfan o'r fath.

The lessons, I think, are these: we have to bring the health and wealth agenda closer together here in Wales, and we have to do more to create the sorts of partnerships that we saw in the Cynon Valley. There, the centre brings together Flexicare Medical Ltd, which is a private company that supplies goods and services to the health service, Cardiff University, which is the main academic player in the centre, and the NHS as well. Those three partners, brought together, have allowed that centre to be developed. It will improve healthcare in that part of Wales, but, by the commercialisation of academic research, it will also create the new wealth and industries that we will need in Wales for the future.

Rwy'n meddwl mai dyma'r gwersi: mae'n rhaid i ni ddod â'r agenda iechyd ac agenda cyfoeth yn nes at ei gilydd yma yng Nghymru a rhaid inni wneud mwy i greu'r math o bartneriaethau a welsom yng Nghwm Cynon. Yno, mae'r ganolfan yn dod â Flexicare Medical Ltd, sef cwmni preifat sy'n cyflenwi gwasanaethau a nwyddau i'r gwasanaeth iechyd, Prifysgol Caerdydd, sef y brif elfen academaidd yn y ganolfan a'r GIG hefyd at ei gilydd. Mae'r tri phartner, o'u dwyn ynghyd, wedi ei gwneud hi'n bosibl datblygu'r ganolfan. Bydd yn gwella gofal iechyd yn y rhan honno o Gymru, ond drwy fasnacheiddio ymchwil academaidd, bydd hefyd yn creu'r cyfoeth a'r diwydiannau newydd y bydd eu hangen arnom yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.

13:41 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister will be aware of the amazing improvements in the use of stem cells, particularly for great improvement in terms of macular degeneration—both improvement and arresting—at a cost of about £1,500 per patient. When does the Minister think that this might be available in Wales?

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r gwelliannau syfrdanol yn y defnydd o fôn-gelloedd, yn enwedig ar gyfer gwella dirywiad macwlaidd yn fawr—o ran ei wella a'i atal—ar gost o tua £1,500 y claf. Pryd y mae'r Gweinidog yn credu y gallai hyn fod ar gael yng Nghymru?

13:42 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. He is absolutely right to say that stem cell research is a remarkable new part of the health landscape. I can say to him that only last week I was in north Wales and went to visit an old colleague of his, Karen Sinclair, a member of this Assembly for many years who fell very seriously ill and for whom stem cell treatment has literally been a life-saving form of treatment. She sent her warm regards to her many friends here in the Assembly. Wet macular degeneration is a condition for which, only a small number of years ago, there was no treatment whatsoever available and blindness was the inevitable result. We have gone a long way in very expensive new forms of treatment for it. The research to which the Member refers in stem cells opens up a very exciting new prospect for new treatments for that condition. While I do not have an exact timescale for their application in the Welsh NHS, I can say that we are looking very closely at those developments to see what we can do for Welsh patients.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'n hollol iawn i ddweud bod ymchwil bôn-gelloedd yn rhan newydd a hynod o'r dirwedd iechyd. Gallaf ddweud wrtho fy mod yng ngogledd Cymru yr wythnos diwethaf ac wedi ymweld â hen gydweithiwr iddo, Karen Sinclair, aelod o'r Cynulliad hwn am flynyddoedd lawer, a gafodd salwch difrifol ac mae triniaeth fôn-gelloedd wedi bod yn ffurf ar driniaeth a achubodd ei bywyd yn llythrennol. Roedd hi'n anfon ei chofion cynnes at ei ffrindiau lawer yma yn y Cynulliad. Mae dirywiad macwlaidd gwlyb yn gyflwr nad oedd triniaeth o fath yn y byd ar ei gyfer ychydig iawn o flynyddoedd yn ôl a dallineb oedd y canlyniad anochel. Rydym wedi teithio ffordd bell o ran y triniaethau newydd drud iawn ar ei gyfer. Roedd yr ymchwil y mae'r Aelod yn cyfeirio ati ar fôn-gelloedd yn cynnig gobaith newydd cyffrous iawn o driniaethau newydd ar gyfer y cyflwr. Er nad oes gennyf union amserlen ar gyfer eu defnydd yn GIG Cymru, gallaf ddweud ein bod yn edrych yn ofalus iawn ar y datblygiadau i weld beth y gallwn ei wneud ar gyfer cleifion Cymru.

13:43 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister join me in commending Velindre Cancer Centre in my constituency, and in particular the clinical research treatment unit there? It gives patients access to a range of cutting-edge, phase 1 cancer clinical trials and really illustrates the strong record that Wales has on research, funded by the Welsh Government. That work will ultimately bring benefits to people all over the world.

A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i ganmol Canolfan Ganser Felindre yn fy etholaeth ac yn enwedig yr uned driniaeth ymchwil clinigol yno? Mae'n cynnig mynediad at ystod o dreialon canser cam 1 arloesol ac yn gwirioneddol ddangos y record gref sydd gan Gymru ym maes ymchwil, wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru. Bydd y gwaith yn creu manteision i bobl ledled y byd yn y pen draw.

13:43 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Julie Morgan is absolutely right to say that Velindre has an outstanding record in the field of research in cancer. It is why it is able to attract world-leading clinicians to come and work here in Wales. The new clinical research treatment unit is the first unit that we have in Wales that can do stage 1 trials, and those, of course, are the trials that bring drugs to patients, albeit on an experimental basis. Visiting the unit, I was absolutely struck by the huge generosity of Welsh patients in taking part in those clinical trials. Of course, people hope that, by having an experimental form of treatment, it will do some good in their own lives, but, without exception, the people whom I spoke to that day emphasised that their motivation in putting themselves forward for trials was the hope that their experience would do good in the lives of others.

Mae Julie Morgan yn llygad ei lle yn dweud bod gan Felindre record ragorol ym maes ymchwil canser. Dyna pam y gall ddenu clinigwyr gorau'r byd i ddod i weithio yma yng Nghymru. Yr uned driniaeth ymchwil clinigol newydd hon yw'r uned gyntaf o'i bath yng Nghymru sy'n gallu gwneud treialon cam 1, ac wrth gwrs, dyna'r treialon sy'n dod â chyffuriau i gleifion, er bod hynny'n digwydd ar sail arbrofol. Wrth ymweld â'r uned, cefais fy nharo'n fawr gan haelioni enfawr cleifion o Gymru sy'n cymryd rhan yn y treialon clinigol. Wrth gwrs, mae pobl yn gobeithio y bydd ffurf arbrofol ar driniaeth yn gwneud peth daioni yn eu bywydau eu hunain, ond yn ddieithriad, roedd y bobl y siaradais â hwy y diwrnod hwnnw'n pwysleisio mai'r hyn oedd yn eu cymell wrth gynnig eu hunain ar gyfer y treialon oedd y gobaith y byddai eu profiad yn gwneud daioni i fywydau pobl eraill.

### Lefelau Gordewdra

### Obesity Levels

13:45 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau gordewdra yng Nghymru? OAQ(4)0439(HSS)*

*4. Will the Minister make a statement on obesity levels in Wales? OAQ(4)0439(HSS)*

13:45

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Eluned Parrott for that question. Obesity levels in Wales remain a significant challenge. A successful approach requires cross-sectorial collaboration to make deep, sustainable changes to our living environment that promote healthy choices and healthy weight for all. It also requires people to take responsibility for their own health and their families' health.

Diolch i Eluned Parrott am y cwestiwn. Mae lefelau gordewdra yng Nghymru yn parhau i fod yn her sylweddol. Mae dull llwyddiannus yn galw am gydweithio traws-sector er mwyn gwneud newidiadau dwfn, cynaliadwy i'n hamgylchedd byw sy'n hybu dewisiadau iach a phwysau iach i bawb. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bobl gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd.

13:45

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for that answer. Obviously obesity is a very complex condition. In many cases, it is like an addiction, but where the sufferers cannot simply abstain from the cause of their complaints, so patients often require a range of psychological and advisory services alongside things like medicines and, perhaps, surgery in the future. The vice-president of the Royal College of Physicians recently described the delivery of health services for patients with an existing obesity problem as extremely patchy in Wales and called for there to be a lead physician for obesity in every health board to ensure that there is an appropriate multidisciplinary approach to tackling this crisis. Will you give your agreement to piloting such an approach to see whether it can make a real impact?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Yn amlwg, mae gordewdra'n gyflwr cymhleth iawn. Mewn llawer o achosion, mae'n debyg i fod yn gaeth i gyffuriau ond nid yw'n bosibl i ddioddefwyr ymatal yn syml rhag y rheswm dros eu cwynion, felly'n aml, bydd cleifion angen amrywiaeth o wasanaethau seicolegol a chyngor ochr yn ochr â phethau fel meddyginiaethau, a llawdriniaethau yn y dyfodol o bosibl. Yn ddiweddar, disgrifiodd is-lywydd Coleg Brenhinol y Meddygon y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd ar gyfer cleifion sydd â phroblemau gordewdra fel un ddarniog dros ben yng Nghymru a galwodd am bennu meddyg arweiniol ar gyfer gordewdra ym mhob bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod yna ddull amlddisgyblaethol priodol o fynd i'r afael â'r argyfwng hwn. A wnewch gytuno i dreialu dull o'r fath er mwyn gweld a all wneud gwahaniaeth go iawn?

13:46

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I completely agree with what the Member says about the need for a multidisciplinary approach to providing obesity services. Of course the Health and Social Care Committee has recently concluded an inquiry into the obesity pathway here in Wales. I think that it is fair to say that what it heard showed that stage 1 and stage 2 services are available everywhere in Wales, but that there are significant gaps at the third level, which do need to be addressed. I am very happy to look at the specific suggestion that Eluned Parrott makes about a clinical need at a health board level to draw those strands together. I do not recall it emerging in the committee's report, but I can look there too to see whether there are any views.

Rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud am yr angen am ymagwedd amlddisgyblaethol tuag at ddarparu gwasanaethau gordewdra. Wrth gwrs, yn ddiweddar, cwblhaodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymchwiliad i'r llwybr gordewdra yma yng Nghymru. Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod yr hyn a glywodd yn dangos bod gwasanaethau cam 1 a cham 2 ar gael ym mhob man yng Nghymru ond bod bylchau sylweddol ar y drydedd lefel sydd angen eu llenwi. Rwy'n hapus iawn i edrych ar yr awgrym penodol a wnaeth Eluned Parrott am yr angen clinigol ar lefel bwrdd iechyd i dynnu'r llinynnau hynny at ei gilydd. Nid wyf yn cofio ei fod wedi codi yn adroddiad y pwyllgor ond gallaf edrych ar hynny hefyd i weld a oes unrhyw sylwadau.

13:46

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, we know that obesity is indeed a complex issue, but will you join me in welcoming the findings of the Sport Wales active adult survey, which shows that the participation in sport has increased from 56% in 2008-09 to 70% in 2012 and that now 39% of adults are hooked on sport, meaning that they participate in sport more than three times a week? That is an increase of 10%.

Weinidog, rydym yn gwybod bod gordewdra yn fater cymhleth yn wir ond a wnewch chi ymuno â mi i groesawu canfyddiadau arolwg oedolion egnïol Chwaraeon Cymru sy'n dangos bod nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon wedi cynyddu o 56% yn 2008-09 i 70% yn 2012 a bellach, mae 39% o oedolion yn gwirioni ar chwaraeon, sy'n golygu eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon fwy na thair gwaith yr wythnos? Mae hynny'n gynnydd o 10%.

13:47

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that some very significant evidence is emerging from Sport Wales under the leadership of Professor Laura McAllister. In the last few months, it has reported not just those striking figures of physical activity among adults, but Mick Antoniw will recall that a short while before that it produced figures that showed that the participation in sport among young people had also risen strongly in Wales at a time when it was falling back in other parts of the United Kingdom. There is more that Sport Wales wants to do. It knows that there are gaps: men, for example, are still more likely to participate than women, and young people from ethnic-minority communities still do not access opportunities at the same rate as others. However, as a contribution to the obesity agenda, the work that Sport Wales does is very significant.

Credaf fod tystiolaeth sylweddol yn dod i'r amlwg gan Chwaraeon Cymru o dan arweiniad yr Athro Laura McAllister. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae wedi adrodd nid yn unig ar y ffigurau trawiadol hynny o ran gweithgarwch corfforol ymhlith oedolion, ond bydd Mick Antoniw yn cofio ei fod wedi cynhyrchu ffigurau ychydig iawn cyn hynny a ddangosai fod cyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu llawer yng Nghymru ar adeg pan oedd yn disgyn mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae mwy y mae Chwaraeon Cymru am ei wneud. Mae'n gwybod bod bylchau'n bodoli: mae dynion, er enghraifft, yn dal yn fwy tebygol o gymryd rhan na menywod ac nid yw pobl ifanc o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn manteisio ar gyfleoedd i'r un graddau ag eraill o hyd. Fodd bynnag, fel cyfraniad at yr agenda gordewdra, mae'r gwaith y mae Chwaraeon Cymru yn ei wneud yn arwyddocaol iawn.

13:48

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Wales has the highest childhood obesity rates in the UK. It is clear, therefore, that school meals should play their part in tackling obesity by providing pupils with healthy and nutritious diets. Given the current pressure on budgets, what discussion has the Minister had with Cabinet colleagues and others to ensure that local authorities are not tempted to go for cheaper and less healthier options for school meals in order to eradicate obesity here?

Weinidog, gan Gymru y mae'r cyfraddau gordewdra plentyndod uchaf yn y DU. Mae'n amlwg felly y dylai prydau ysgol chwarae eu rhan yn y gwaith o fynd i'r afael â gordewdra drwy ddarparu deiet iach a maethlon i ddisgyblion. O ystyried y pwysau cyfredol ar gyllidebau, pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chydweithwyr yn y Cabinet ac eraill i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn cael eu temtio i ddewis opsiynau rhatach a llai iach ar gyfer prydau ysgol er mwyn dileu gordewdra yma?

13:49

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is another important point. Our programme of healthy school breakfasts in Wales has put school food at the forefront of this agenda. We also now have, as a result of legislative work that went on in this Assembly, specific nutritional requirements for school meals, which all local authorities have to abide by. That is the result of cross-departmental work within the Welsh Government. Again, it puts us in Wales at the forefront of what can be done in the school food field.

Dyna bwynt pwysig arall. Mae ein rhaglen frecwastau ysgol iach yng Nghymru wedi rhoi bwyd ysgol ar flaen yr agenda hon. Bellach hefyd, o ganlyniad i waith deddfwriaethol a digwyddodd yn y Cynulliad hwn, mae gennym ofynion maethol penodol ar gyfer prydau ysgol sy'n rhaid i bob awdurdod lleol gydymffurfio â hwy. Dyna ganlyniad gwaith trawsadrannol yn Llywodraeth Cymru. Unwaith eto, mae'n ein rhoi ni yng Nghymru ar flaen y gad o ran yr hyn y gellir ei wneud ym maes bwyd ysgol.

13:49

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A chymryd bod hon yn broblem wirioneddol, pa ran ragweithiol y mae meddygon teulu yn ei chwarae yn yr ymgyrch hon i geisio sicrhau bod llai o blant a phobl ifanc yn dioddef o ordewdra?

Given that this is a serious problem, what proactive role can general practitioners play in this campaign to ensure that fewer children and young people are affected by obesity?

13:50

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r cyngor mae'r meddygon teulu yn ei roi i rieni ac i blant yn y maes gordewdra yn hollol bwysig. Maent yn gallu defnyddio pethau fel y 'referral to exercise scheme' yng Nghymru. Mae nifer fawr o bobl yng Nghymru wedi llwyddo i gymryd rhan yn y rhaglen honno. Y peth pwysig i'r meddygon teulu yw, pan maent yn rhoi cyngor i bobl, fod pobl yn gwrando ar beth maent yn ei ddweud, ond hefyd eu bod yn gweithio gyda phobl eraill y tu fas i'r byd meddygol, ac yn tynnu pethau at ei gilydd i helpu pobl ifanc yn enwedig er mwyn cael effaith ar ordewdra.

The advice that GPs give to parents and children in the obesity field is vital. They can use things such as the referral to exercise scheme in Wales. Very many people in Wales have succeeded to participate in that scheme. The important thing for GPs is that, when they give people advice, people listen to what they say, but also that they work with other people outwith the medical sphere, and bring things together to help young people in particular in order to have an impact on obesity.

13:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you described obesity as challenging in Wales. Given that, are you satisfied that the outcomes delivered by tier 1 and tier 2 services are such that we will see obesity levels in Wales fall?

Weinidog, rydych yn disgrifio gordewdra fel mater heriol yng Nghymru. O ystyried hynny, a ydych yn fodlon fod y canlyniadau a sicrhawyd gan wasanaethau haen 1 a haen 2 yn golygu y byddwn yn gweld lefelau gordewdra yn disgyn yng Nghymru?

13:51 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is no doubt that getting the outcomes we need from services in this area is a challenge, because what services are able to provide is a fraction of the picture rather than the whole of the picture. I tried to say in my answer that we have to have a combination of things: the role that Government can play in creating the conditions in which people can eat healthily, take exercise and look after their own health, and then that people must act responsibly to take advantage of those opportunities.

Nid oes unrhyw amheuaeth fod cael y canlyniadau rydym eu hangen gan wasanaethau yn y maes hwn yn her oherwydd mai rhan fach o'r darlun, yn hytrach na'r darlun llawn, yw'r hyn y gall gwasanaethau eu cynnig. Ceisiais ddweud yn fy ateb fod yn rhaid inni gael cyfuniad o bethau: y rôl y gall Llywodraeth ei chwarae o ran creu'r amodau lle y gall pobl fwyta'n iach, gwneud ymarfer corff a gofalu am eu hiechyd eu hunain, a bod yn rhaid i bobl ymddwyn yn gyfrifol a manteisio ar y cyfleoedd hynny.

Outside what services can do, for example, the work that the UK Government has led on the new responsibility deal with the food industry has shown real successes in reducing salt in processed foods. There was an event in the Assembly today that I think Darren Millar sponsored with a firm that can demonstrate real success in reducing salt levels in its products. I have written to the Secretary of State at the Department of Health urging him to apply the same energy to sugar levels in processed food, because we know that children in particular take in a very significant amount of the sugar that they ingest through the food and drink that they consume. We need to do that, and that will allow the services that we provide to have a better chance of success, because sometimes I feel that services have to roll a stone uphill in trying to make the difference that is needed in the obesity field.

Ar wahân i'r hyn y gall gwasanaethau ei wneud, er enghraifft, mae'r gwaith y mae Llywodraeth y DU wedi'i arwain ar y fargen cyfrifoldeb newydd gyda'r diwydiant bwyd wedi dangos llwyddiannau go iawn o ran lleihau lefelau halen mewn bwydydd wedi'u prosesu. Cynhaliwyd digwyddiad yn y Cynulliad heddiw y credaf iddo gael ei noddi gan Darren Millar gyda chwmni sy'n gallu dangos llwyddiant go iawn o ran lleihau lefelau halen yn ei gynnyrch. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Iechyd yn ei annog i gyfeirio'r un egni tuag at lefelau siwgr mewn bwyd wedi'i brosesu oherwydd gwyddom fod plant yn arbennig yn cael llawer iawn o siwgr drwy'r bwyd a diod y maent yn ei fwyta. Mae angen i ni wneud hynny, a bydd yn caniatáu i'r gwasanaethau a ddarparwn gael gwell siawns o lwyddo oherwydd weithiau rwy'n teimlo bod yn rhaid i wasanaethau wthio carreg i fyny'r rhiw er mwyn ceisio gwneud y gwahaniaeth sydd ei angen ym maes gordewdra.

13:53 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You also went on to say that there were significant gaps in tier 3 services; that is an understatement, Minister. In the health boards that we have in Wales, only one of them, the Nye Bevan board, has a recognised multidisciplinary tier 3 services, under the leadership of Dr Haboubi. When do you anticipate that all local health boards will have a tier 3 service, as outlined in your obesity pathway, which is now a number of years old?

Aethoch ymlaen i ddweud hefyd fod bylchau sylweddol mewn gwasanaethau haen 3; a dweud y lleiaf, Weinidog. Yn y byrddau iechyd sydd gennym yng Nghymru, dim ond un ohonynt, bwrdd Nye Bevan, sydd â gwasanaethau haen 3 amlddisgyblaethol cydnabyddedig o dan arweiniad Dr Haboubi. Pryd rydych yn rhagweld y bydd gan bob bwrdd iechyd lleol wasanaeth haen 3 fel yr amlinellwyd yn eich llwybr gordewdra sydd bellach yn nifer o flynyddoedd oed?

13:53 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is a genuine effort needed by health boards to make sure that level 3 services are available across Wales. Public Health Wales, as I think Kirsty Williams will have heard in the evidence that it provided to the Health and Social Care Committee, is drawing up a service specification for level 3 services to make sure that we do not simply have services everywhere in Wales, but that we have services that are of a common standard with a common purpose, delivered in a common sort of way. That work is very nearly concluded, and it will be with health boards very shortly. The new director general of the health service in Wales, who comes, of course, from Aneurin Bevan, where the only level 3 service is available, intends to take a close interest in that roll-out.

Mae angen i'r byrddau iechyd wneud ymdrech go iawn i sicrhau bod gwasanaethau lefel 3 ar gael ledled Cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel y bydd Kirsty Williams wedi'i glywed yn y dystiolaeth a ddarparodd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn llunio manyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau lefel 3 i wneud yn siŵr ein bod nid yn unig yn cael gwasanaethau ym mhob man yng Nghymru, ond bod gennym wasanaethau o safon gyson gyda diben cyffredin, wedi'u darparu mewn modd cyffredinol. Mae'r gwaith hwnnw bron ar ben a bydd ar gael i'r byrddau iechyd yn fuan iawn. Mae cyfarwyddwr cyffredinol newydd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, sy'n dod, wrth gwrs, o fwrdd iechyd Aneurin Bevan, yr unig fwrdd sy'n darparu gwasanaeth lefel 3, yn bwriadu cadw llygad manwl ar y broses o'i gyflwyno.

13:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 5, OAQ(4)0455(HSS), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ(4)0455(HSS), yn ôl.

### Adolygiad 'Ymddiried mewn Gofal'

### 'Trusted to Care' Review

13:54 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur canlyniadau yn dilyn argymhellion yr adolygiad 'Ymddiried mewn Gofal'? OAQ(4)0449(HSS)*

*6. How will the Welsh Government measure outcomes from the recommendations in the 'Trusted to Care' review? OAQ(4)0449(HSS)*

13:54 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i Bethan Jenkins am y cwestiwn. Mae'r argymhellion yn gosod camau gweithredu penodol i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg eu cwrdd ar adegau penodol dros y flwyddyn nesaf. Bydd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn adrodd ar hyn yn gyhoeddus, a bydd fy swyddogion yn monitro hyn. Bydd yr adroddiad dilynol ymhen 12 mis yn dangos a gyflawnwyd y canlyniadau angenrheidiol.

I thank Bethan Jenkins for the question. The recommendations set specific actions for Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board to meet at fixed points during the next 12 months. The Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board will report on this publicly, and my officials will monitor this. The follow-up report in 12 months' time will demonstrate whether the necessary outcomes have been achieved.

13:55 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb hynny, Weinidog. Fel rydych chi'n gweld o adolygiad Andrews, mae'n debyg bod y cyngor iechyd cymunedol wedi cael cryn feirniadaeth oherwydd yr hyn sydd wedi digwydd. Er enghraifft, dim ond naw ymweliad a wnaed i ysbytai 'acute' a phump i sefydliadau iechyd meddwl, tra, yn Betsi Cadwaladr, er enghraifft, roedd 129 ymweliad i ysbytai. Mae hyn yn amlwg yn wahaniaeth mawr o ran ystadegau, felly pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda'r cyngor iechyd cymunedol ynglŷn â hyn er mwyn gwella'r sefyllfa o ran ei waith yn monitro'r hyn sy'n digwydd o fewn y bwrdd iechyd lleol?

Thank you for that response, Minister. As you see from the Andrews review, it appears that the community health council has been criticised in the wake of what happened. For example, there were only nine visits to acute hospitals and five to mental health institutions, while in Betsi Cadwaladr, for example, there were 129 visits to hospital. There is clearly a huge discrepancy here in terms of the statistics, therefore what discussions have you had with the community health council on this in order to improve the situation in terms of its work in monitoring what happens within the local health board?

13:55 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i Bethan Jenkins am y pwynt pwysig hwnnw. Fel mae'n ei ddweud, nid yw'r cyngor lleol yn dod mas o adroddiad Andrews yn rhy dda a dweud y gwir. Felly, rwyf i wedi siarad â'r bwrdd cenedlaethol o gynghorau sydd gennym ac wedi gofyn iddo i gwrdd â'r cyngor lleol i fynd trwy'r hyn y mae adroddiad Andrews yn ei ddweud ac i gael atebion oddi wrtho hefyd. Mae'n bosibl bod ganddo rai pethau i'w ddweud. Fodd bynnag, rwyf eisiau gweld yr hyn y mae Bethan Jenkins eisiau ei weld, sef cynghorau cryf sy'n gwneud y gwaith sydd ganddynt i'w gwneud ac yn ei wneud ledled Cymru.

I thank Bethan Jenkins for that important point. As she says, the local council does not come out of the Andrews review too well. So, I have spoken to the national board of councils that we have and asked it to meet with the local council in order to go through what the Andrews review states and to get a response from it, too. It is possible that it has a view on this. However, I want to see what Bethan Jenkins wants to see, namely strong CHCs that carry out the work that they have to do throughout Wales.

13:56 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I agree with you that we need strong CHCs because they are part of the public voice and one of the mechanisms that have been put in place towards the latter end of last year is a friends and family test pilot project in the Princess of Wales Hospital, which is aimed at looking at rating the care and standards at the hospital. Are you able to provide any information that has arisen from that pilot on the standards of care at PoW hospital, and how will that feed into the monitoring process arising from the 'Trusted to Care' recommendations?

Weinidog, rwy'n cytuno â chi fod angen Cynghorau Iechyd Cymuned cryf arnom oherwydd eu bod yn rhan o'r llais cyhoeddus ac un system a roddwyd ar waith tuag at ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf yw'r prosiect peilot prawf teulu a chyfeillion yn Ysbyty Tywysoges Cymru sy'n anelu i edrych ar raddio'r gofal a'r safonau yn yr ysbyty. A ydych yn gallu rhoi unrhyw wybodaeth sydd wedi codi o'r cynllun peilot ar y safonau gofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru a sut y bydd hynny'n bwydo i mewn i'r broses fonitro sy'n deillio o argymhellion 'Ymddiried mewn Gofal'?

13:57 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank David Rees for that. It is very important that all of our local health boards and hospitals have an organised way of obtaining the views of patients who use their services. Partly because of the attention that the Princess of Wales Hospital has received, it has embarked on using the friends and family test that the Prime Minister in Westminster has been influential in developing. The latest figures that I have seen, I believe, come to the end of December last year when just fewer than 800 people had participated in such a survey. Over 90% of those who had replied to it said that they would be very happy to recommend the service that they had received at that hospital to friends and family.

Diolch i David Rees. Mae'n bwysig iawn fod gan bob un o'n byrddau iechyd lleol a'n hysbytai ffordd drefnus o geisio barn cleifion sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Yn rhannol oherwydd y sylw y mae Ysbyty Tywysoges Cymru wedi'i gael, mae wedi cychwyn defnyddio'r prawf teulu a chyfeillion y bu'r Prif Weinidog yn San Steffan yn ddylanwadol yn y broses o'i ddatblygu. Rwy'n credu bod y ffigurau diweddaraf a welais yn cyrraedd diwedd mis Rhagfyr y llynedd pan oedd ychydig llai na 800 o bobl wedi cymryd rhan mewn arolwg o'r fath. Dywedodd dros 90% o'r rhai a ymatebodd iddo y byddent yn hapus iawn i argymell y gwasanaeth roeddynt wedi'i gael yn yr ysbyty hwnnw i deulu a chyfeillion.

13:58 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, it has been four weeks now since the publication of the Andrews report. You said that you were seeking immediate assurances that the shocking findings of Andrews were not taking place elsewhere in Wales and you gave an opportunity for local health boards across the country to provide some assurances to you. What feedback have you had from local health boards and do you have those assurances as yet?

Weinidog, mae wedi bod yn bedair wythnos bellach ers cyhoeddi adroddiad Andrews. Dywedasoch eich bod yn ceisio sicrwydd ar unwaith nad oedd canfyddiadau dychrynllyd Andrews yn digwydd mewn mannau eraill yng Nghymru a rhoesoch gyfle i fyrddau iechyd lleol ar draws y wlad roi rhywfaint o sicrwydd i chi. Pa adborth rydych wedi'i gael gan fyrddau iechyd lleol ac a ydych chi wedi cael y sicrwydd hwnnw eto?

13:58 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar will know that what I said was that there would be a four-week period for health boards to study the report and to assure themselves that the difficulties that it identified were not taking place in their health boards, and that I would not be satisfied simply with self-assurances, but that I would institute a programme of unannounced spot checks across hospitals in Wales.

Bydd Darren Millar yn gwybod mai'r hyn a ddywedais oedd y byddai cyfnod o bedair wythnos i'r byrddau iechyd astudio'r adroddiad a sicrhau eu hunain nad yw'r anawsterau a nodai yn digwydd yn eu byrddau iechyd ac na fyddwn yn fodlon â hunansicrwydd yn unig, ond y byddwn yn sefydlu rhaglen o hapwiriadau dirybudd ar draws ysbytai Cymru.

The four-week period will be up by the end of this week and I am pleased to be able to say to Darren that all of the arrangements are in place for the spot checks to begin immediately thereafter.

Bydd y cyfnod o bedair wythnos wedi dod i ben erbyn diwedd yr wythnos hon ac rwy'n falch o allu dweud wrth Darren fod yr holl drefniadau'n barod i'r hapwiriadau ddechrau ar unwaith ar ôl hynny.

13:59 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to hear that progress is being made in terms of the spot checks. Do you accept now, Minister, given the findings of Andrews, and given the impression that it gives of the over-reliance, perhaps, on self-assessment throughout the national health service, particularly in relation to the findings that Andrews made in respect of the fundamentals of care process, that there needs to be much more fundamental change in how health boards approach the governance arrangements around the assurance systems that they have in place? Is it a matter of concern to you that the person who has been appointed to lead the project that is going to review the fundamentals of care system is the very same former nurse director who was responsible for nursing care at these two hospitals on the wards in which significant failings were found?

Rwy'n falch iawn o glywed bod cynnydd yn cael ei wneud o ran yr hapwiriadau. O ystyried canfyddiadau Andrews ac o ystyried yr argraff y mae'n ei rhoi o orddibyniaeth efallai ar hunanasesu ar draws y gwasanaeth iechyd gwladol, yn enwedig o ran canfyddiadau Andrews ynglŷn â phroses hanfodion gofal, a ydych yn derbyn yn awr, Weinidog, fod angen newid llawer mwy sylfaenol yn y modd y mae'r byrddau iechyd yn llywodraethu'r systemau sicrwydd sydd ganddynt ar waith? A yw'n destun pryder i chi mai'r person a benodwyd i arwain y prosiect sy'n mynd i adolygu'r system hanfodion gofal yw'r un cyn-gyfarwyddwr nyrsio a oedd yn gyfrifol am ofal nyrsio yn y ddau ysbyty ar y wardiau lle y gwelwyd methiannau sylweddol?

14:00 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I say to Darren Millar that my view is that systems of assurance can never rely on a single strand, but what health boards need and what we all need is to have a variety of voices and a variety of reports into the quality of care so that we can put all that evidence together in drawing a conclusion? Deputy Presiding Officer, I wonder if I might do something that I very rarely do, because, given the question and the discussions that we have had in this Chamber very regularly on standards of care in the Welsh NHS, I just wanted to read a few lines from a letter that came to me over this last weekend. It comes from somebody outside Wales, who lives not in our country at all, but who visited his grandmother at the Princess of Wales Hospital in the last few weeks, because it was known that she was in the last days of her life. He says to me,

A gaf fi ddweud wrth Darren Millar na all systemau sicrwydd byth ddibynnu ar un edefyn yn unig, ond yr hyn sydd ei angen ar fyrddau iechyd a'r hyn sydd ei angen arnom i gyd yw amrywiaeth o leisiau ac amrywiaeth o adroddiadau ar ansawdd gofal fel y gallwn roi'r holl dystiolaeth gyda'i gilydd er mwyn dod i gasgliad? Ddirprwy Lywydd, tybed a gaf fi wneud rhywbeth nad wyf yn ei wneud yn aml oherwydd, o ystyried y cwestiwn a'r trafodaethau rydym wedi'u cael yn y Siambr hon yn rheolaidd iawn ar safonau gofal GIG Cymru, hoffwn ddarllen ychydig linellau o lythyr a gefais dros y penwythnos. Mae'n dod gan rywun y tu allan i Gymru, nad yw'n byw yn ein gwlad o gwbl, ond a oedd wedi ymweld â'i fam-gu yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf gan wybod bod ei bywyd yn dirwyn i ben. Mae'n dweud,

'Mr Drakeford, I would like to let you know that, as a manager of over 110 staff myself, I understand that a few negative comments have a profound effect on the whole department. The individuals that we dealt with were dedicated, passionate and professional, and that dedication needs public acknowledgement.'

'Mr Drakeford, hoffwn roi gwybod i chi, fel rheolwr dros 110 o staff fy hun, fy mod yn deall bod rhai sylwadau negyddol yn cael effaith fawr ar adran gyfan. Roedd yr unigolion y daethom i gysylltiad â hwy yn ymroddedig, yn angerddol ac yn broffesiynol ac mae angen cydnabod y fath ymroddiad yn gyhoeddus.'

He goes on to name the people who provided care to his grandmother on ward 18 of the Princess of Wales Hospital. I cannot imagine that any of us would not want to hear what he had to say about the quality of care that he saw and experienced there. He names the individuals. He says, talking to the individuals who provided that care,

Mae'n mynd ymlaen i enwi'r bobl a ofalai am ei fam-gu ar ward 18 Ysbyty Tywysoges Cymru. Ni allaf ddychmygu na fyddai unrhyw un ohonom yn awyddus i glywed beth oedd ganddo i'w ddweud ynglŷn ag ansawdd y gofal a welodd ac a brofodd yno. Mae'n enwi'r unigolion. Gan siarad â'r unigolion a ddarparodd y gofal hwnnw, mae'n dweud,

'Thank you for your time, patience with us all and our many demands, your care and kindness shown to us all. You all are truly wonderful people'.

'Diolch i chi am eich amser, eich amynedd gyda ni i gyd a'n galwadau niferus, a'ch gofal a'ch caredigrwydd a ddangoswyd i ni i gyd. Rydych chi i gyd yn bobl wirioneddol wych'.

That sort of evidence is every bit as important as other pieces of evidence that we hear about the Welsh NHS. It deserves to be heard with respect in this Chamber, just as we hear the views of others who have other things to say.

Mae'r math hwn o dystiolaeth lawn mor bwysig â darnau eraill o dystiolaeth a glywn am GIG Cymru. Mae'n haeddu cael ei glywed gyda pharch yn y Siambr hon yn union fel y clywn farn eraill sydd â phethau eraill i'w dweud.

14:02 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you may be aware of a series of e-mails between an independent journalist and ABMU's press office regarding ward audits, which a number of Assembly Members were copied into. You may also be aware that ABMU is one of the few health boards that has not published the outcomes of freedom of information requests on its website. Do you agree that transparency is absolutely key in terms of tackling this issue, and will you tackle ABMU about the level of transparency that it operates in terms of publishing information, whether it was requested under freedom of information or otherwise?

Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol o gyfres o e-byst rhwng newyddiadurwr annibynnol a swyddfa'r wasg Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg mewn perthynas ag archwiliadau ward y mae nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi cael copïau ohonynt. Efallai y byddwch hefyd yn ymwybodol fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn un o'r ychydig fyrddau iechyd nad yw wedi cyhoeddi canlyniadau ceisiadau rhyddid gwybodaeth ar ei wefan. A ydych yn cytuno bod tryloywder yn gwbl allweddol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn ac a wnewch chi fynd i'r afael â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ynghylch ei lefel o dryloywder o ran cyhoeddi gwybodaeth, pa un a ofynnwyd amdano o dan drefniadau rhyddid gwybodaeth ai peidio?

14:03 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that it is right that freedom of information requests are recorded publicly on websites and, if that does not take place in ABMU, I am very happy to raise it with that board.

Rwy'n meddwl ei bod yn iawn i geisiadau rhyddid gwybodaeth gael eu cofnodi'n gyhoeddus ar wefannau ac os nad yw hynny'n digwydd ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, rwy'n hapus iawn i godi'r mater gyda'r bwrdd hwnnw.

### Cleifion Canser

### Cancer Patients

14:03 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu Cynlluniau Gofal Unigol ar gyfer cleifion canser yng Nghymru? OAQ(4)0447(HSS)*

*7. Will the Minister make a statement on the provision of Individual Care Plans for Welsh cancer patients? OAQ(4)0447(HSS)*

14:03 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Andrew Davies for that question. Our cancer delivery plan reinforces the importance of agreeing care plans. In the recent cancer patient experience survey, 86% of patients said they were given the right amount of information both about their condition and about their treatment.

Diolch i Andrew Davies am y cwestiwn. Mae ein cynllun cyflawni ar gyfer canser yn atgyfnerthu pwysigrwydd cytuno ar gynlluniau gofal. Yn yr arolwg o brofiadau cleifion canser yn ddiweddar, dywedodd 86% o gleifion eu bod yn cael y lefel gywir o wybodaeth am eu cyflwr ac am eu triniaeth.

14:04 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Minister, for that answer. In a written reply to me on 28 May, you indicated that only 22% of patients in Wales have a cancer patient assessment plan in place and, in respect of a key worker, only 66% of patients in Wales had a key worker allocated to them. In the programme for government report from last year, the figure quoted for the number of patients achieving that was 100%. Why have so many fallen foul of the system and why are they not getting that key worker allocated to them? Secondly, given that it is a Government commitment to have the other part of the question—the assessment care plans—in place, are you confident that you will hit the 100% target by 2016?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mewn ymateb ysgrifenedig ataf ar 28 Mai, dywedasoch mai dim ond 22% o gleifion yng Nghymru sydd â chynllun asesu cleifion canser ar waith ac mewn perthynas â gweithwyr allweddol, dim ond 66% o gleifion yng Nghymru oedd â gweithiwr allweddol wedi'i ddynodi ar eu cyfer. Yn yr adroddiad ar y rhaglen lywodraethu y llynedd, roedd y ffigwr a ddyfynnwyd ar gyfer nifer y cleifion â gweithiwr allweddol yn 100%. Pam y mae cynifer wedi'u colli o'r system a pham nad oes gweithiwr allweddol wedi'i bennu ar eu cyfer? Yn ail, o ystyried mai un o ymrwymiadau'r Llywodraeth yw cael rhan arall y cwestiwn—y cynlluniau gofal asesu—ar waith, a ydych yn hyderus y byddwch yn cyrraedd y targed o 100% erbyn 2016?

14:04 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that it is important for me to be completely accurate. I do not believe that my written answer will have said that only 22% of patients have a care plan. I think that it will have said that only 22% of them have a written care plan. I agree that we need more patients who have written care plans. However, not every patient in Wales actually wants their care plan provided to them in a written format. There is an important right of patients to receive their care plans in the way that they want to receive them, although I do agree with the general point that I think was being made that the figure of 22% needs to be raised.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig imi fod yn fanwl gywir. Nid wyf yn credu y byddai fy ateb ysgrifenedig wedi dweud mai dim ond 22% o gleifion sydd â chynllun gofal. Rwy'n meddwl y byddai wedi dweud mai dim ond 22% ohonynt sydd â chynllun gofal ysgrifenedig. Rwy'n cytuno bod angen sicrhau bod gan fwy o gleifion gynlluniau gofal ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid yw pob claf yng Nghymru am i'w cynlluniau gofal fod wedi'u darparu ar eu cyfer mewn ffurf ysgrifenedig. Mae hawl pwysig gan gleifion i gael eu cynlluniau gofal yn y ffordd y maent eisiau eu derbyn, er fy mod yn cytuno â'r pwynt cyffredinol a wnaed, rwy'n credu, sef bod angen codi'r ffigur o 22%.

There are some interesting findings in the patient survey from which the other figures are drawn: 66% of patients said that they had a key worker, and 88% of patients were able to name their clinical nurse specialist. Sometimes, that is one and the same person, and we think that, sometimes, there is confusion at health board level that feeds through to patients as to what exactly the key worker is. Following the publication of a cancer patient experience report, we have been working with third sector organisations and others to produce new and clear guidance for health boards on exactly what we expect a key worker to be, and what exactly we expect them to do. We are very close now to being able to publish that. When we do that we will see some extra rationalisation in the system, and hopefully more people being able to identify their key worker.

Mae'r arolwg cleifion yn cynnwys canfyddiadau diddorol sy'n sail i'r ffigurau eraill: dywedodd 66% o gleifion fod ganddynt weithiwr allweddol ac roedd 88% o gleifion yn gallu enwi eu nyrs glinigol arbenigol. Weithiau, yr un un yw'r ddau a chredwn weithiau, fod dryswch ar lefel y bwrdd iechyd sy'n bwydo drwodd i gleifion ynglŷn â beth yn union yw gweithiwr allweddol. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad ar brofiadau cleifion canser, rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau yn y trydydd sector ac eraill i gynhyrchu canllawiau newydd a chlir ar gyfer byrddau iechyd ar beth yn union y disgwyliwn i weithiwr allweddol fod a beth yn union y disgwyliwn iddynt ei wneud. Bellach, rydym yn agos iawn at allu cyhoeddi'r canllawiau. Pan wnawn hynny, byddwn yn gweld rhywfaint o resymoli ychwanegol yn y system a gobeithio y bydd mwy o bobl yn gwybod pwy yw eu gweithiwr allweddol.

14:06 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will know, of course, that a diagnosis of cancer can cause significant financial hardship to patients, and that Macmillan Cancer Support found that 91% of patients lost, on average, £640 a month. You acknowledged earlier this year that hospitals need to improve the advice offered to patients on financial support. Are you satisfied that enough has been done to improve this area of the care given to cancer patients?

Weinidog, byddwch yn gwybod, wrth gwrs, y gall diagnosis o ganser achosi caledi ariannol sylweddol i gleifion a bod Cymorth Canser Macmillan wedi canfod bod 91% o gleifion yn colli £640 y mis ar gyfartaledd. Yn gynharach eleni, cydnabuoch fod angen i ysbytai wella'r cyngor a gynigir i gleifion ar gymorth ariannol. A ydych yn fodlon fod digon wedi'i wneud i wella'r maes hwn o ofal a roddir i gleifion canser?

14:07 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not as yet. I think that more needs to be done. The new advice that we will publish on key workers will include information on the financial advice that patients who are diagnosed with cancer need to receive. However, we also need to do more to reinforce the ability of general advice services to be able to respond to the rather specialist needs that cancer patients will have. We have to do more alongside Macmillan Cancer Support to lobby the Department for Work and Pensions to make sure that the part that it has to play in making sure that people in these positions get the benefits to which they are entitled, and get them without delay.

Ddim eto. Rwy'n meddwl bod angen gwneud rhagor. Bydd y cyngor newydd y byddwn yn ei gyhoeddi ar weithwyr allweddol yn cynnwys gwybodaeth am y cyngor ariannol sydd ei angen ar gleifion sy'n cael diagnosis o ganser. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud rhagor hefyd i atgyfnerthu gallu gwasanaethau cyngor cyffredinol i allu ymateb i anghenion eithaf arbenigol cleifion canser. Mae'n rhaid i ni wneud mwy ochr yn ochr â Cymorth Canser Macmillan i lobïo'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o'i swyddogaeth o ran sicrhau bod pobl yn y sefyllfaoedd hyn yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael ac yn eu cael yn ddi-oed.

### Meddygon Teulu

### General Practitioners

14:08 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio meddygon teulu yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0456(HSS)*

*8. Will the Minister make a statement on GP recruitment in north Wales? OAQ(4)0456(HSS)*

14:08 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Across Wales, work is being undertaken, with health boards, the Wales Deanery and the General Practitioners Committee Wales, to improve the retention and supply of GPs and to develop innovative ways of providing primary care in the future.

Ledled Cymru, mae gwaith yn cael ei wneud gyda byrddau iechyd, Deoniaeth Cymru a Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru ar wella'r trefniadau ar gyfer cyflenwi a chadw meddygon teulu a datblygu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal sylfaenol yn y dyfodol.

14:08 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The British Medical Association and several GPs have warned of a looming crisis in GP recruitment and retention, particularly in north Wales, and that this could bring the whole system into collapse within just three years, as 45% of our GPs are over 55, with some wanting to retire and take early pension. However, in February, you dismissed such a crisis. Given Monday's announcement and that the clock is ticking towards that three-year deadline, what immediate actions are you and your Government taking to radically improve GP recruitment and retention in north Wales and to actually address the concerns raised by the BMA?

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain a nifer o feddygon teulu wedi rhybuddio bod argyfwng ar y gorwel o ran recriwtio a chadw meddygon teulu, yn enwedig yng ngogledd Cymru, ac y gallai hyn olygu methiant y system gyfan o fewn tair blynedd yn unig gan fod 45% o'n meddygon teulu dros 55 gyda rhai eisiau ymddeol a chymryd pensiwn yn gynnar. Fodd bynnag, ym mis Chwefror, diystyrwyd argyfwng o'r fath gennych. O ystyried y cyhoeddiad ddydd Llun fod y cloc yn tician tuag at y terfyn amser hwnnw o dair blynedd, pa gamau uniongyrchol sydd ar y gweill gennych a'ch Llywodraeth i wella'n sylweddol y broses o recriwtio a chadw meddygon teulu yng ngogledd Cymru ac i fynd i'r afael o ddifrif â'r pryderon a godwyd gan y BMA?

14:09 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not use the language of crisis because I think that it is a positive barrier to achieving the sorts of results that I think the questioner would like to achieve. 'Come and work in north Wales; it is about to collapse' is a fine slogan to go out to recruit more GPs. I just do not think that use of that sort of inflated language is helpful to the shared agenda of trying to make sure that we get the people that we need to work in our services. It is important that we are accurate about the facts of the matter: there has been an 11.2% increase in the number of GPs in Wales over the past decade.

Nid wyf yn defnyddio iaith argyfwng oherwydd fy mod yn credu ei fod yn rhwystr go iawn rhag cyflawni'r mathau o ganlyniadau y credaf y byddai'r holwr yn eu dymuno. Mae 'Dewch i weithio yng ngogledd Cymru; mae pethau ar fin methu'n llwyr yno' yn slogan wych ar gyfer mynd allan i recriwtio mwy o feddygon teulu. Nid wyf yn credu bod defnydd o'r fath o iaith chwyddedig yn ddefnyddiol i'r agenda o geisio sicrhau ein bod yn cael y bobl sydd eu hangen arnom i weithio yn ein gwasanaethau. Mae'n bwysig inni gael ein ffeithiau'n fanwl gywir: bu cynnydd o 11.2% yn nifer y meddygon teulu yng Nghymru dros y degawd diwethaf.

14:09 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What about north Wales?

Beth am ogledd Cymru?

14:09 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, including north Wales. Last year, for the first time, the number of GPs working in Wales went above the level of 2,000—and yes, you know, they work in north Wales, too. It is important to be accurate about figures. You quote the figure of 45% of GPs in north Wales being over the age of 55. The official figures, which were published on 31 March this year, show that it was 24.5%. So, there is a very big gap between the figure that you quote and the reality on the ground.

Do, yn cynnwys y gogledd. Y llynedd, am y tro cyntaf, cododd nifer y meddygon teulu sy'n gweithio yng Nghymru uwchlaw 2,000—ac ydynt, maent yn gweithio yng ngogledd Cymru hefyd. Mae'n bwysig bod yn fanwl gywir ynghylch ffigurau. Rydych yn honni bod 45% o'r meddygon teulu yng ngogledd Cymru dros 55 oed. Mae'r ffigurau swyddogol a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth eleni yn dangos ei fod yn 24.5%. Felly mae bwlch mawr iawn rhwng y ffigur rydych chi'n ei ddyfynnu a'r realiti ar lawr gwlad.

Let me say, though, that the important point of your question is: what are we doing to address the real problems that are there in some parts? This is what the local health board itself is doing: it is investing in a new salaried service for north Wales; it has carried out interviews already, and more are scheduled to take place; it is increasing the number of training places available through the deanery for GPs in Wales, because that is what brings young GPs to an area and persuades them to stay; and it is diversifying the primary care team. If we are going to have a challenge in attracting GPs in the future, then we will need to do more through advanced nurse practitioners, pharmacists with independent prescribing rights, and other members of the wider primary care family who can go on providing the services that patients depend on so hugely.

Gadewch imi ddweud, fodd bynnag, mai pwynt pwysig eich cwestiwn yw hyn: beth rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau go iawn sydd yno mewn rhai mannau? Dyma'r hyn y mae'r bwrdd iechyd lleol ei hun yn ei wneud: mae'n buddsoddi mewn gwasanaeth cyflogedig newydd ar gyfer gogledd Cymru; cynhaliodd gyfweliadau eisoes ac mae rhagor wedi'u trefnu; mae'n cynyddu nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael drwy'r ddeoniaeth ar gyfer meddygon teulu yng Nghymru oherwydd dyna sy'n dod â meddygon teulu ifanc i ardal ac yn eu perswadio i aros; ac mae'n arallgyfeirio'r tîm gofal sylfaenol. Os ydym yn mynd i wynebu her o ran denu meddygon teulu yn y dyfodol, yna bydd angen i ni wneud mwy drwy uwch-ymarferwyr nyrsio, fferyllwyr â hawliau presgripsiynu annibynnol ac aelodau eraill o'r teulu gofal sylfaenol ehangach sy'n gallu parhau i ddarparu'r gwasanaethau y mae cleifion yn dibynnu cymaint arnynt.

14:11 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for saying that, as I was going to raise that issue with you around salaried GPs. For me, I think that the way forward is to have salaried GPs, so that those who have family commitments and caring commitments can actually have a salaried contract. I know what the Member for Aberconwy was saying, but that is one GP who speaks on behalf of the local medical committee, I suppose. Perhaps I could draw your attention to another GP, from my constituency, who, in the letters page of today's 'Daily Post', said that perhaps the problem is that GPs are not working long hours they used to work, and perhaps their contracts and conditions of employment are different now. Perhaps that is something that we have to look at as well. However, I would be interested in how you will support Betty Cadwaladr LHB in its push to see more salaried GPs, but with more use of practice nurses.

Weinidog, diolch i chi am ddweud hynny. Roeddwn am godi mater meddygon teulu cyflogedig gyda chi. I mi, rwy'n meddwl mai'r ffordd ymlaen yw cael meddygon teulu cyflogedig, fel y gall y rhai sydd ag ymrwymiadau teuluol ac ymrwymiadau gofalu gael contract cyflogedig. Rwy'n gwybod beth y dywedodd yr Aelod dros Aberconwy ond tybiaf mai un meddyg teulu yw hwnnw sy'n siarad ar ran y pwyllgor meddygol lleol. Efallai y caf fi dynnu eich sylw at feddyg teulu arall yn fy etholaeth sy'n dweud mewn llythyr yn y 'Daily Post' heddiw mai'r broblem o bosibl yw nad yw meddygon teulu yn gweithio'r oriau hir yr arferent weithio ac efallai bod eu contractau a'u hamodau cyflogaeth yn wahanol yn awr. Efallai fod hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni edrych arno hefyd. Fodd bynnag, hoffwn wybod sut y byddwch yn cynorthwyo Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr yn ei ymdrech i sicrhau mwy o feddygon teulu cyflogedig, ond gyda mwy o ddefnydd o nyrsys practis.

14:12 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The important point that Ann Jones makes is that the nature of the workforce is changing. People coming in to be GPs are not, in the way that they used to be, people who saw their future as running small businesses for the next 40 years, working in one place. They are people who want a different sort of experience, and the salaried option is increasingly important to them, and it is why it is important that BCU is doing more to attract salaried GPs into the area. I think that all GPs work very hard; I think that they do a difficult job and they put huge hours in to do it.

Y pwynt pwysig y mae Ann Jones yn ei wneud yw bod natur y gweithlu yn newid. Nid yw pobl sy'n cychwyn ar yrfa fel meddygon teulu yn ystyried y byddant yn rhedeg busnesau bach am y 40 mlynedd nesaf, gan weithio mewn un man, fel yr arferent ei wneud. Maent yn bobl sydd am gael math gwahanol o brofiad ac mae'r opsiwn cyflogedig yn gynyddol bwysig iddynt. Dyna pam y mae'n bwysig i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wneud rhagor i ddenu meddygon teulu cyflogedig i'r ardal. Rwy'n meddwl bod pob meddyg teulu yn gweithio'n galed iawn; rwy'n credu eu bod yn gwneud gwaith anodd dros oriau eithriadol o hir.

14:12 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un broblem arall, wrth gwrs, sydd wedi cael ei chodi gyda fi, yw'r sefyllfa lle mae doctoriaid sydd wedi cymhwyso yn y Deyrnas Unedig sy'n dewis—yn ddoctoriaid ifanc yn aml iawn—mynd dramor am ychydig o flynyddoedd i deithio ac i weithio, ond wedyn, pan fyddant am ddod yn ôl, maent yn ffeindio, efallai ar ôl dwy flynedd o fod i ffwrdd, eu bod yn gorfod ymgymryd â blwyddyn ychwanegol o hyfforddiant ar gost i'w hunain. Mae hynny yn gweithredu fel rhwystr sylweddol, wrth gwrs, i garfan bwysig iawn o ddoctoriaid posibl yma i ni yng Nghymru. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i drio mynd i'r afael â hynny?

One other problem, of course, which has been raised with me, is the situation where doctors who have qualified in the United Kingdom who then choose—young doctors very often—to go abroad for a few years to travel and to practise, but then, when they wish to return, they find, perhaps after two years of being away, that they are required to undertake an additional year of training at a cost to themselves. This acts as a significant barrier, of course, to an important cohort of potential doctors here in Wales. What is the Welsh Government doing to try to address that problem?

14:13 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are working closely with GPC Wales, and I have a meeting with it tomorrow. It has provided a document to me that sets out a series of things that we could do to make it easier for people to rejoin the GP workforce here in Wales. Simplifying the process for returners—particularly people who have very good experience elsewhere in the world—is part of that, and I look forward to discussing that with GPC leaders tomorrow.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru ac mae gen i gyfarfod â'r pwyllgor yfory. Mae wedi darparu dogfen ar fy nghyfer sy'n nodi cyfres o bethau y gallem eu gwneud i'w gwneud yn haws i bobl ailymuno â'r gweithlu meddygon teulu yma yng Nghymru. Mae symleiddio'r broses ar gyfer rhai sy'n dychwelyd-yn enwedig pobl sydd â phrofiad da iawn mewn mannau eraill o'r bydyn rhan o hynny ac rwy'n edrych ymlaen at drafod hynny gydag arweinwyr y Pwyllgor Meddygon Teulu yfory.

### Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

### Hywel Dda Local Health Board

14:14 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal sylfaenol yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda? OAQ(4)0452(HSS)*

*9. Will the Minister make a statement on primary care in the Hywel Dda health board area? OAQ(4)0452(HSS)*

14:14 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i Simon Thomas. Oherwydd natur wledig ardal Hywel Dda, mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn allweddol i'r boblogaeth. Wrth i Bernie Rees, cyn-brif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro a chyfarwyddwr gofal sylfaenol yng Nghwm Taf gael ei phenodi yn gadeirydd ar Hywel Dda, mae'n golygu y bydd ffocws o'r newydd ar y gwasanaethau hyn.

I thank Simon Thomas. Given the rural nature of the Hywel Dda area, primary care services are crucially important to the population. Bernie Rees, former chief executive of Pembrokeshire Local Health Board and director of primary care ion Cwm Taf, has been appointed chair of the Hywel Dda LHB, and this will mean that there will be a renewed focus on these services.

14:14 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y newyddion hynny, Weinidog. Mae'n dipyn o job, a dweud y gwir, yn ardal Hywel Dda, achos dim ond 57% o feddygon teulu sydd ar agor yn ystod oriau craidd, neu o fewn awr i'r oriau hynny, yn unol â'ch dymuniad chi fel Llywodraeth. Os edrychwch chi ar rywle fel Dinbych-y-pysgod, lle mae'r uned mân anafiadau wedi cau, tri meddyg teulu a 'nurse practitioner' a fydd yno dros yr haf I gyd ar gyfer trigolion yn ogystal ag ymwelwyr. Felly, pa gamau yr ydych yn disgwyl y bydd y cadeirydd newydd yn eu rhoi ar waith ar gyfer gwella gofal sylfaenol yn ardal Hywel Dda?

Thank you for that piece of news, Minister. It is quite difficult in the Hywel Dda area because only 57% of GPs are available during core hours, or within an hour of those hours, according to your aspirations as a Government. If you look at somewhere like Tenby, where the minor injuries unit has closed, only three GPs and a nurse practitioner will be available for the whole of the summer for all residents as well as visitors. So, what steps do you expect the new chair to take in order to improve primary care in the Hywel Dda area?

14:15 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i Simon Thomas am y cwestiwn.

I thank Simon Thomas for the question.

He is quite right to point out that, while very significant advances have been made in Wales in terms of extending opening hours, not closing for half a day a week and so on, Hywel Dda GPs are not quite in the forefront of that as yet. Yet, satisfaction levels in relation to primary care among the Hywel Dda population are among the highest anywhere in Wales. There is more that the health board can do and is doing to strengthen primary care for the future. If I was advising Bernie Rees in taking up her new post, I would suggest to her, for example, that she should go to Amman- Gwendraeth dementia pathfinder, which I visited recently in Penygroes at the eastern end of Hywel Dda, where a GP-led service in the community will look after patients—often patients for whom the Welsh language is the language of choice—who are suffering from dementia. I would suggest that she should go to the western sea board as well, to see the Pembrokeshire north coastal network, where there are five small GP practices working with the local health board to create a rural health GP fellowship. It will bring a new permanent locum post to that part of Pembrokeshire to grow the next generation of GPs. There are exciting and innovative things that the health board is doing and I am sure that Bernie Rees, as the new chair, will want to see that taken even further.

Er bod datblygiadau arwyddocaol iawn wedi bod yng Nghymru o ran ymestyn oriau agor, peidio â chau am hanner diwrnod yr wythnos ac yn y blaen, mae'r Aelod yn hollol iawn i nodi nad yw meddygon teulu Hywel Dda ar flaen y gad yn hollol ar hynny hyd yma. Eto i gyd, mae lefelau boddhad mewn perthynas â gofal sylfaenol ymysg poblogaeth Hywel Dda ymhlith yr uchaf drwy Gymru. Gallai'r bwrdd iechyd wneud rhagor, ac mae eisoes yn gwneud rhagor, i gryfhau gofal sylfaenol ar gyfer y dyfodol. Pe byddwn yn cynghori Bernie Rees wrth iddi ymgymryd â'i swydd newydd, byddwn yn awgrymu, er enghraifft, y dylai ymweld â llwybr dementia Aman-Gwendraeth. Ymwelais â hwy'n ddiweddar ym Mhenygroes ym mhen dwyreiniol ardal bwrdd iechyd Hywel Dda lle y bydd gwasanaeth dan arweiniad meddygon teulu yn y gymuned yn edrych ar ôl cleifion sy'n dioddef o ddementia, a chleifion sydd â'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt yn aml. Byddwn yn awgrymu y dylai fynd i'r arfordir gorllewinol hefyd i weld rhwydwaith arfordir gogleddol Sir Benfro lle y mae pump o bractisau meddygon teulu bach yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol i greu cymrodoriaeth o feddygon teulu gwledig. Bydd yn dod â swydd locwm parhaol newydd i'r rhan honno o Sir Benfro er mwyn datblygu'r genhedlaeth nesaf o feddygon teulu. Mae'r bwrdd iechyd yn gwneud pethau cyffrous ac arloesol ac rwy'n siŵr fod Bernie Rees, fel y cadeirydd newydd, yn awyddus i weld hynny'n cael ei ddatblygu ymhellach.

14:16

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, there is a clear correlation between good access to primary care and the reduction in attendances at A&E. Clinicians, including GPs, have led the way in creating a new model for the emergency unit at Prince Philip Hospital, which has attracted positive attention from the Royal College of Physicians. As the local AM, I have kept in regular contact with Hywel Dda. Minister, do you agree that at a time when many on the opposition benches are talking down the NHS, the innovation that we have seen involving staff will sustain health services into the future—not just in Llanelli but across Wales, too?

Weinidog, mae cydberthynas eglur rhwng mynediad da i ofal sylfaenol a'r lleihad yn nifer y bobl sy'n mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae clinigwyr, gan gynnwys meddygon teulu, wedi arwain y ffordd drwy greu model newydd ar gyfer yr uned achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip sydd wedi denu sylw cadarnhaol gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr. Fel yr AC lleol, rwyf wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â Hywel Dda. Weinidog, ar adeg pan fo llawer ar feinciau'r wrthblaid yn lladd ar y GIG, a ydych yn cytuno y bydd yr arloesi a welsom o ran staff yn cynnal gwasanaethau iechyd yn y dyfodol—nid yn unig yn Llanelli ond ar draws Cymru hefyd?

14:17

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

One of the most interesting mornings that I have spent since becoming Minister for health was in the department in Llanelli. It was a huge encouragement to see the commitment, the innovation and the determination of people from the consultant level through to GPs, practice nurses and the whole team there, to design a new emergency service at Prince Philip Hospital. I went away enormously encouraged that it will provide the service that the people of Llanelli will need for years to come.

Un o'r boreau mwyaf diddorol a dreuliais ers dod yn Weinidog iechyd oedd yr un a dreuliais yn yr adran yn Llanelli. Calondid mawr oedd gweld ymrwymiad, arloesedd a phenderfyniad pobl o lefel meddygon ymgynghorol i lefel meddygon teulu, nyrsys practis a'r tîm cyfan yno, ynglŷn â'r gwaith o lunio gwasanaeth brys newydd yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Euthum oddi yno wedi fy nghalonogi'n enfawr y bydd yn darparu'r gwasanaeth y bydd ei angen ar bobl Llanelli am flynyddoedd i ddod.

14:17 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am sure that you will appreciate the importance of vaccinations in tackling a range of diseases and that, in rural areas, access to these primary care services is absolutely crucial. Figures from Public Health Wales show that, in Pembrokeshire, the take-up of vaccinations is low in some circumstances. Will you tell us, therefore, Minister, what the Welsh Government is doing to encourage the take-up of vaccinations in Pembrokeshire and can you tell us whether the Welsh Government will use the public health Bill as an opportunity to address some of these issues?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi pwysigrwydd brechiadau wrth fynd i'r afael ag ystod o glefydau a bod mynediad at y gwasanaethau gofal sylfaenol hyn yn gwbl hanfodol mewn ardaloedd gwledig. Dengys ffigurau Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y niferoedd sy'n manteisio ar frechiadau yn Sir Benfro yn isel mewn rhai amgylchiadau. A wnewch chi ddweud wrthym felly, Weinidog, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog pobl i gael brechiadau yn Sir Benfro ac a allwch ddweud wrthym a fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Bil iechyd cyhoeddus fel cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn?

14:18 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Paul Davies for a really important question. Vaccination is among the most significant tools that we have to address health inequalities here in Wales. The Pembrokeshire figures stand out in some dimensions as a place where young people, for example, lose out on vaccination opportunities that are taken up almost everywhere else in Wales. Public Health Wales is the vehicle that the Government uses to address these issues. I know that it is in dialogue with public health physicians in that part of Wales. I am very keen for the consultation on the public health Bill, which will close next week, to generate a new set of ideas as well as the ones that the Government has put into the public domain. If there are things that we can do on the vaccination front through the Bill, I will be very keen to look at those possibilities.

Diolch i Paul Davies am gwestiwn pwysig iawn. Mae brechu ymhlith y dulliau mwyaf arwyddocaol sydd gennym o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yma yng Nghymru. Mae ffigurau Sir Benfro yn sefyll allan ar rai agweddau fel man lle y mae pobl ifanc, er enghraifft, yn colli allan ar gyfleoedd brechu y manteisir arnynt ym mhob man arall bron drwy Gymru. Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r cyfrwng y mae'r Llywodraeth yn ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r materion hyn. Gwn ei fod yn trafod gyda meddygon iechyd cyhoeddus yn y rhan honno o Gymru. Rwy'n awyddus iawn i'r ymgynghoriad ar y Bil iechyd y cyhoedd a ddaw i ben yr wythnos nesaf greu set newydd o syniadau yn ogystal â'r rhai y mae'r Llywodraeth wedi'u cyflwyno i'r cyhoedd. Os oes pethau y gallwn eu gwneud drwy'r Bil o ran brechu, rwy'n awyddus iawn i edrych ar y posibiliadau hynny.

14:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

## Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

### Cymunedau yn Gyntaf yn Llanelli

### Communities First in Llanelli

14:19 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar ei flaenoriaethau ar gyfer darpariaeth Cymunedau yn Gyntaf yn Llanelli? OAQ(4)0191(CTP)*

*1. Will the Minister provide an update on his priorities for the provision of Communities First in Llanelli? OAQ(4)0191(CTP)*

14:19 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi / The Deputy Minister for Tackling Poverty*

Yes, and I thank Keith Davies for the question. I expect to see improved co-ordination and action between Communities First, Families First and Flying Start. The Carmarthenshire cluster, which includes the most deprived—the poorest—areas of Llanelli, should continue to prioritise improving health, learning and work outcomes. I am especially interested in the partnership work that is being done with Job Centre Plus to help parents into work.

Gwnaf, a diolch i Keith Davies am y cwestiwn. Rwy'n disgwyl gweld gwell cydlynu a gweithredu rhwng Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Dylai clwstwr Sir Gaerfyrddin, sy'n cynnwys yr ardaloedd mwyaf difreintiedig—mwyaf tlawd—yn Llanelli, barhau i flaenoriaethu gwella iechyd, dysgu a chanlyniadau gwaith. Mae gen i ddiddordeb arbennig yn y gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i helpu rhieni i mewn i waith.

14:19 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae ein gweithredu ar drechu tlodi yn golygu bod mwy o ardaloedd yn Llanelli yn defnyddio rhaglenni a luniwyd i greu cymunedau mwy addysgol, iachus a llewyrchus. Ers y rhaglen mae 91% yn fwy hyderus yn edrych am waith, gan gynnwys mewnbwn gan Dwf Swyddi Cymru, cynnydd mewn gweithgareddau corfforol, a 219 gyda chymwysterau dysgu. A yw'r Gweinidog yn cytuno er bod costau byw yn effeithio pobl Llanelli, mae'n dda i weld Cymru yn arwain y ffordd gyda chymorth o'r fath?

Our action on tackling poverty means that more areas in Llanelli use programmes designed to create more educated, healthy and prosperous communities. Since the programme, 91% are more confident in looking for work, including input from Jobs Growth Wales, an increase in physical activity, and 219 with learning qualifications. Does the Minister agree that although the cost of living is affecting the people of Llanelli, it is good to see Wales leading the way with help of this kind?

14:20 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, Communities First has a good record of delivery right across a number of areas within Wales. I am pleased to hear that it is having a direct impact in Llanelli, which the Member recognises. It is part of the key infrastructure for us to tackle poverty right across Wales. We want to see main services using Communities First to greater effect to have a bigger impact within our poorest communities. You are right to point out that there is a reality to the cost of living impact for families in Llanelli, and that is why we continue to call for a different course of action from the UK Government.

Ydw, mae gan Cymunedau yn Gyntaf hanes da o ddarparu gwasanaeth ar draws nifer o ardaloedd yng Nghymru. Rwy'n falch o glywed ei fod yn cael effaith uniongyrchol yn Llanelli a bod yr Aelod yn cydnabod hynny. Mae'n rhan o'r seilwaith allweddol ar gyfer trechu tlodi ledled Cymru. Rydym am weld prif wasanaethau'n defnyddio Cymunedau yn Gyntaf yn fwy effeithiol er mwyn cael mwy o effaith yn ein cymunedau tlotaf. Rydych yn iawn i dynnu sylw at y ffaith bod yr effaith ar gostau byw yn realiti i deuluoedd yn Llanelli a dyna pam rydym yn parhau i alw am ddull gwahanol o weithredu gan Lywodraeth y DU.

14:20 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tra'n cydnabod y gwaith da sy'n cael ei wneud gan Gymunedau yn Gyntaf yn Llanelli, un o'r cwynion mwyaf sydd gan drigolion Llanelli, mewn ardaloedd fel Seaside a Thyisha, yw cyflwr y gymuned y maent yn byw ynddi, yn enwedig o gwmpas Station Road, sy'n rhedeg trwy ganol yr ardal, gan ddechrau yn yr orsaf ei hunan, a dweud y gwir, sy'n simpil iawn. Sut y gallwch gydweithio â gweddill adrannau'r Llywodraeth i wneud yn siŵr bod adeiladwaith yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn adlewyrchu'r balchder newydd sy'n cael ei greu gan y rhaglen ei hunan?

While acknowledging the good work being done by Communities First in Llanelli, one of the major complaints from the residents of Llanelli, in areas such as Seaside and Tyisha, is the state of the community in which they live, particularly around Station Road, which runs through the heart of the area, starting at the station itself, to be honest, which is in poor condition. How can you collaborate with other Government departments to make sure that the infrastructure of the Communities First areas reflects the new pride that is generated by the programme itself?

14:21 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This was exactly the point that I started making in the answer to Keith Davies, the constituency Member, because Communities First is part of the infrastructure to get mainstream programmes to address challenges and problems in our poorest areas and communities. So, that is mainstream services from the local authorities, and mainstream services from health in particular. The work that we have already set out on tackling poverty drawing together those partners is exactly designed to do that, because Communities First alone will not tackle poverty. It must be a joined-up, collective effort from all forms of the public, private and voluntary sector.

Dyma'r union bwynt y dechreuais ei wneud wrth ateb Keith Davies, yr Aelod dros yr etholaeth, oherwydd bod Cymunedau yn Gyntaf yn rhan o'r seilwaith i gael rhaglenni prif ffrwd i fynd i'r afael â heriau a phroblemau yn ein hardaloedd a'n cymunedau tlotaf. Felly, gwasanaethau prif ffrwd gan yr awdurdodau lleol a gwasanaethau prif ffrwd ym maes iechyd yn benodol, hynny yw. Mae'r gwaith rydym eisoes wedi'i amlinellu ar drechu tlodi gan ddod â'r cyfryw bartneriaid at ei gilydd wedi'i gynllunio i wneud yn union hynny, gan na fydd Cymunedau yn Gyntaf ar ei ben ei hun yn trechu tlodi. Rhaid iddi fod yn ymdrech gydgysylltiedig ar y cyd ym mhob ffurf ar y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

14:22 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am delighted that the Carmarthenshire cluster has been chosen to pilot the Lift scheme to help people who are long-term unemployed into training and employment. How will you be resourcing, monitoring and evaluating that scheme? What do you expect it to achieve for the people of Llanelli?

Rwyf wrth fy modd bod y clwstwr yn Sir Gaerfyrddin wedi cael ei ddewis i dreialu'r cynllun Esgyn i helpu pobl sy'n ddi-waith yn hirdymor i ddod o hyd i hyfforddiant a gwaith. Sut y byddwch yn darparu adnoddau, yn monitro ac yn gwerthuso'r cynllun hwnnw? Beth rydych chi'n disgwyl iddo ei gyflawni ar gyfer pobl Llanelli?

14:22 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Rebecca Evans for the question. The Life programme is, of course, a key part of the tackling poverty action plan, to create 5,000 work and training opportunities across Wales for people who live in a household where no-one works. There is about £1.5 million that Communities First has across Carmarthenshire, but the Lift programme has two additional brokers to help source and support people into work and training opportunities. There is around about £100,000 in that and we will be looking to see, in the reports that we get on a regular basis, how many work and training opportunities are being created, how many of those are being taken up, and are we putting people's time to good use. So, there are national partnerships with national organisations like the Welsh Government, and local ones too, and I will be happy to update Members, with the Minister, in due course on what Lift is actually delivering.

Diolch i Rebecca Evans am y cwestiwn. Wrth gwrs, mae'r rhaglen Esgyn yn rhan allweddol o'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi sy'n cynnwys creu 5,000 o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant ledled Cymru i bobl sy'n byw mewn cartref lle nad oes neb yn gweithio. Mae tua £1.5 miliwn gan Cymunedau yn Gyntaf ar draws Sir Gaerfyrddin ond mae gan y rhaglen Esgyn ddau o froceriaid ychwanegol sy'n helpu i ddod o hyd i bobl a'u cynorthwyo i gael gwaith a chyfleoedd hyfforddi. Mae tua £100,000 wedi'i neilltuo ar gyfer hynny ac yn yr adroddiadau a gawn yn rheolaidd, byddwn yn edrych i weld faint o gyfleoedd gwaith a hyfforddi sy'n cael eu creu, faint o'r rheini y manteisir arnynt ac a ydym yn gwneud defnydd da o amser pobl. Felly, mae partneriaethau cenedlaethol yn bodoli gyda sefydliadau cenedlaethol fel Llywodraeth Cymru a rhai lleol hefyd, a byddaf yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau a'r Gweinidog maes o law ynglŷn â'r hyn y mae Esgyn yn ei gyflawni mewn gwirionedd.

### Trechu Tlodi

### Tackling Poverty

14:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar allu Llywodraeth Cymru i drechu tlodi yng Nghymru? OAQ(4)0183(CTP)*

*2. Will the Minister make a statement on the impact of UK Government welfare reforms on the Welsh Government's ability to tackle poverty in Wales? OAQ(4)0183(CTP)*

14:23 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I thank the Member for Rhondda for that question. The UK Government's welfare reforms present a significant challenge in our ability to tackle poverty in Wales. We estimate that, in 2016 alone, some of the key reforms will take around £900 million out of Wales. Despite this challenge, we remain committed to our action to reduce poverty in Wales.

Diolch i'r Aelod dros y Rhondda am y cwestiwn. Mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn her sylweddol i'n gallu i drechu tlodi yng Nghymru. Rydym yn amcangyfrif y bydd rhai o'r diwygiadau allweddol yn mynd â thua £900 miliwn allan o Gymru yn ystod 2016 yn unig. Er gwaethaf yr her, rydym yn parhau'n ymrwymedig i'n camau gweithredu i leihau tlodi yng Nghymru.

14:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the Minister agree with me that that loss of £900 million, possibly more on some other estimates, not only has a severe impact on the individuals affected, but also has a deleterious effect on the communities in which those individuals live, as it means less money being spent in local shops and on local services? Will the Government consider what might be the multiplier impact of the loss of that money in those communities?

A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi fod y golled honno o £900 miliwn, a mwy na hynny o bosibl yn ôl rhai amcangyfrifon, nid yn unig yn cael effaith ddifrifol ar yr unigolion yr effeithir arnynt, ond ei bod yn cael effaith andwyol hefyd ar y cymunedau lle y mae'r unigolion hynny'n byw gan ei fod yn golygu bod llai o arian yn cael ei wario mewn siopau lleol ac ar wasanaethau lleol? A wnaiff y Llywodraeth ystyried beth yw effaith lluosydd colli'r arian ar y cymunedau hynny?

14:24 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, thank you for that supplementary question. We do know that, particularly because of the greater preponderance of sickness and disabilities in many of the south Wales Valleys communities, for example, the actual loss will be greater than the average. We know that the average loss per working age adult in Wales is about £500; in all the Valleys communities it is greater than that, and in the case of Merthyr Tydfil, Blaenau Gwent and Neath Port Talbot it will be over £600. So, the impact in some of our most deprived areas will be considerable indeed.

Ydw, diolch ichi am y cwestiwn atodol. Yn enwedig am fod cyfradd uwch o salwch ac anabledd yn llawer o gymunedau Cymoedd de Cymru er enghraifft, gwyddom y bydd y golled wirioneddol yn uwch na'r cyfartaledd. Gwyddom fod y golled gyfartalog fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru tua £500; yn holl gymunedau'r Cymoedd mae'n fwy na hynny ac yn achos Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Chastell-nedd Port Talbot, bydd yn fwy na £600. Felly, bydd yr effaith ar rai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig yn sylweddol iawn.

14:24 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, when you look at that multiplier effect, I hope that you will take into account the increase in the personal allowance by £1,100, two years ago, taking 155,000 people in Wales out of tax altogether since 2010. Last week's Queen's Speech saw legislation to remove exclusivity restrictions on those employed on zero-hours contracts. Do you accept, Minister, that those measures and reforms are actually of benefit to the Welsh economy?

Weinidog, pan fyddwch yn edrych ar yr effaith lluosydd, rwy'n gobeithio y byddwch yn rhoi sylw i'r cynnydd o £1100 yn y lwfans personol ddwy flynedd yn ôl sydd wedi eithrio 155,000 o bobl yng Nghymru rhag talu treth ers 2010. Roedd Araith y Frenhines yr wythnos ddiwethaf yn cynnwys deddfwriaeth i ddileu cyfyngiadau ar bobl a gyflogir ar gontractau dim oriau. A ydych yn derbyn, Weinidog, fod y mesurau a'r diwygiadau hynny o fudd i economi Cymru mewn gwirionedd?

14:25 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You cannot hide your party's culpability in the damage that has been done to Wales. The Institute for Fiscal Studies has taken into account the tax changes as well as the benefit changes, and it concurs broadly with our analysis.

Ni allwch guddio bai eich plaid am y difrod a wnaed i Gymru. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi ystyried y newidiadau treth yn ogystal â'r newidiadau o ran budd-daliadau ac mae'n cyd-fynd yn fras â'n dadansoddiad ni.

14:25 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwy'n derbyn y feirniadaeth rydych wedi'i chyflwyno o'r polisïau sy'n cael eu gorfodi arnom gan y glymblaid yn San Steffan. Rwyf am ofyn cwestiwn ynglŷn ag ymrwymiad y Llywodraeth Lafur yn y fan hon i fynd i'r afael â thlodi. Cawsom ddatganiad ddoe ar adfywio rhai o ardaloedd tlotaf Cymru. Mae'r gwariant sydd wedi'i nodi yn y datganiad hwnnw yn sylweddol llai na'r arian a glustnodwyd yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un rhwng 2007 a 2011. Sut ydych yn esbonio'r gostyngiad yn y buddsoddiad hollbwysig hwn?

Minister, I accept your criticism of the policies being imposed on us by the coalition in Westminster. I want to ask a question about the commitment of the Labour Government here to tackling poverty. We had a statement yesterday on the regeneration of some of the poorest areas of Wales. The expenditure set out in that statement is significantly less than the money earmarked during the One Wales Government between 2007 and 2011. How do you explain the decrease in this vital investment?

14:26 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have to work with the resources that we have. There has been a considerable cut, as I am sure you know, in our overall budget from the UK Government. We have to work within that parameter. What I can say is that we continue to invest in our advice services right across Wales. We do that so that the impact on those who face great financial hardship can be minimised to the best of our effect.

Mae'n rhaid i ni weithio gyda'r adnoddau sydd gennym. Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, mae Llywodraeth y DU wedi torri ein cyllideb gyffredinol yn sylweddol. Mae'n rhaid i ni weithio o fewn yr amodau hynny. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw ein bod yn parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cynghori ledled Cymru. Rydym yn gwneud hynny hyd eithaf ein gallu fel bod modd lleihau'r effaith ar y rhai sy'n wynebu caledi ariannol mawr.

14:27 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the UK Government makes proposals in respect of the reform of pensions. We know that, in the 1980s, deregulation of the pensions system resulted in hundreds of thousands of working people being ripped off by the finance industry. Some of these reforms may appear benign, but there are potential consequences if people do not handle the sums that formerly would have gone into annuities, in which case it will be the welfare system that picks up these responsibilities. Will you be engaging with the UK Government on the potential consequence of this issue, in order to identify what contingencies might be in place for such events?

Weinidog, mae Llywodraeth y DU yn gwneud cynigion mewn perthynas â'r gwaith o ddiwygio pensiynau. Rydym yn gwybod bod dadreoleiddio'r system pensiynau yn y 1980au wedi golygu bod cannoedd o filoedd o bobl mewn gwaith wedi cael eu twyllo gan y diwydiant cyllid. Efallai y bydd rhai o'r diwygiadau hyn yn ymddangos yn ddiniwed ond mae canlyniadau posibl os nad yw pobl yn trin y symiau a fyddai wedi mynd i mewn i flwydd-daliadau o'r blaen, ac yn hynny o beth, y system les fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn. A fyddwch yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â chanlyniadau posibl y mater hwn er mwyn nodi pa drefniadau wrth gefn a allai fod ar waith ar gyfer digwyddiadau o'r fath?

14:27 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that question. We are aware of the dangers that he has outlined. My officials will look at the full implications of the pensions tax Bill when those details become available. That could well result in the type of representations to the UK Government that he has outlined and suggested.

Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn. Rydym yn ymwybodol o'r peryglon y mae'r Aelod wedi'u hamlinellu. Bydd fy swyddogion yn edrych ar oblygiadau llawn y Bil treth pensiynau pan fydd y manylion ar gael. Gallai hynny arwain yn hawdd at gyflwyno'r math o sylwadau y mae wedi'u hamlinellu a'u hawgrymu i Lywodraeth y DU.

14:28 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you know that I favour assisting tenants with appealing against their bedroom tax decisions; first, it is the best way to help them, in that their housing benefit will be restored if they win—and the majority do—and secondly, of course, it is the best way to undermine this policy while it still exists. Will you undertake to have discussions with the Minister for housing to see if the Welsh Government can ensure that all affected tenants know that they have the right of appeal and that they are able to appeal with confidence?

Weinidog, byddwch yn gwybod fy mod yn ffafrio cynorthwyo tenantiaid i apelio yn erbyn eu penderfyniadau treth ystafell wely; yn gyntaf, dyna'r ffordd orau o'u helpu gan y bydd eu budd-dal tai yn cael ei adfer os ydynt yn ennill—ac mae'r mwyafrif yn ennill—ac yn ail, wrth gwrs, dyna'r ffordd orau o danseilio'r polisi tra'i fod yn dal i fodoli. A wnewch chi ymrwymo i gynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog tai i weld a all Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob tenant yr effeithir arnynt yn gwybod bod ganddynt hawl i apelio ac y gallant apelio yn hyderus?

14:28 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you very much for that question. We remain committed and we keep telling Lord Freud and others that the bedroom tax should be abolished. Strangely, we do not get a positive response to our suggestions. Having said that, we want to do as much as we can to mitigate the worst effects of the bedroom tax. That is why we have provided an additional £1.3 million for discretionary housing payments. In terms of your specific question, yes, I will meet with my colleague the Minister for Housing and Regeneration to discuss what further support we might be able to provide.

Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn. Rydym yn parhau i fod yn ymroddedig ac yn parhau i ddweud wrth yr Arglwydd Freud ac eraill y dylid diddymu'r dreth ystafell wely. Yn rhyfedd iawn, nid ydym yn cael ymateb cadarnhaol i'n hawgrymiadau. Wedi dweud hynny, rydym yn awyddus i wneud cymaint ag y gallwn i liniaru effeithiau gwaethaf y dreth ystafell wely. Dyna pam rydym wedi darparu £1.3 miliwn ychwanegol ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn. O ran eich cwestiwn penodol, byddaf yn cyfarfod â'm cydweithiwr, y Gweinidog Tai ac Adfywio, i drafod pa gymorth pellach y gallem ei ddarparu.

## Trechu Tlodi

## Tackling Poverty

14:29 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru i drechu tlodi mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0179(CTP)*

*3. Will the Minister make a statement on Welsh Government policies to tackle poverty in rural communities? OAQ(4)0179(CTP)*

14:29 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

People across Wales are supported by programmes aimed at preventing poverty and helping people into work. The Minister for Natural Resources and Food and I share a commitment to tackling poverty in rural communities. The rural development plan will provide a platform for more help to tackle rural poverty in Wales.

Mae pobl ledled Cymru yn cael eu cefnogi gan raglenni sy'n anelu i atal tlodi a helpu pobl i mewn i waith. Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd a minnau'n rhannu ymrwymiad i drechu tlodi mewn cymunedau gwledig. Bydd y cynllun datblygu gwledig yn darparu llwyfan ar gyfer mwy o gymorth i drechu tlodi gwledig yng Nghymru.

14:29 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister. I will be very careful how I ask this question. The tackling poverty action plan does not really have much in it about rural proofing, does it? That has been a constant complaint against the plan and the Government's policy in this area. Where are we with the issue of rural proofing? There are large clumps of poverty in rural areas, which are often ignored or are not as prominent as urban poverty spots. Are we getting to grips with this and have you had a discussion with the Minister regarding how we deal with poverty in country areas?

Diolch i chi, Ddirprwy Weinidog. Byddaf yn ofalus iawn ynglŷn â sut rwy'n gofyn y cwestiwn hwn. Nid oes llawer yn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi ynglŷn â phrawfesur polisïau gwledig, oni chytunwch? Mae honno wedi bod yn gŵyn gyson yn erbyn y cynllun a pholisïau'r Llywodraeth yn y maes hwn. Ble rydym ni ar fater prawfesur polisïau gwledig? Mae clystyrau mawr o dlodi mewn ardaloedd gwledig sy'n aml yn cael eu hanwybyddu neu sydd heb fod mor amlwg â thlodi ardaloedd trefol. A ydym yn mynd i'r afael â hyn ac a ydych wedi cael trafodaeth gyda'r Gweinidog ynglŷn â sut rydym yn ymdrin â thlodi mewn ardaloedd gwledig?

14:30 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I want to make it clear that I do not agree with the suggestion that we ignore rural poverty. We do take seriously poverty right across Wales. The commitment we had in the tackling poverty action plan to reassess what we are doing and the evidence on tackling remote poverty is being taken forward. It is one of the more disappointing aspects for me that every time this Chamber discusses the rural development plan there is not a single opposition Member who mentions the RDP's role in tackling rural poverty. I have had a number of discussions with the Minister for Natural Resources and Food on how we take this forward. We will continue to do that, so there is a real and tangible commitment and resource that accompanies that to help tackle rural poverty in Wales.

Ydw. Rwyf am ei gwneud hi'n glir nad wyf yn cytuno â'r awgrym ein bod yn anwybyddu tlodi gwledig. Rydym o ddifrif ynghylch tlodi ledled Cymru. Rydym yn symud ymlaen ar ein hymrwymiad yn y cynllun gweithredu ar drechu tlodi i ailasesu'r hyn rydym yn ei wneud a'r dystiolaeth ar drechu tlodi mewn ardaloedd anghysbell. Un o'r pethau sy'n fy siomi fwyaf bob tro y bydd y Siambr hon yn trafod y cynllun datblygu gwledig yw nad oes yr un Aelod o'r wrthblaid yn sôn am rôl y Cynllun Datblygu Gwledig yn trechu tlodi gwledig. Cefais nifer o drafodaethau gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar sut rydym yn mynd i fwrw ymlaen â hyn. Byddwn yn parhau i wneud hynny fel bod ymrwymiad ac adnoddau gwirioneddol a diriaethol i gyd-fynd â hynny er mwyn helpu i drechu tlodi gwledig yng Nghymru.

14:31 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The UK Government's so-called Help to Work scheme requires people to attend a jobcentre every day and it can only really be understood as an additional punishment for the long-term unemployed. It is certainly especially punitive for people living in rural Wales, where journeys to the jobcentre daily would be impractical, expensive and difficult. What assessment have you made of how this policy is affecting people in rural Wales and what is the Welsh Government's approach to delivering jobs and growth in rural Wales to help to tackle poverty?

Mae cynllun Llywodraeth y DU a elwir yn Help to Work yn ei gwneud yn ofynnol i bobl fynychu canolfan waith bob dydd ac ni ellir ei ddeall mewn gwirionedd ond fel cosb ychwanegol ar bobl sy'n ddi-waith yn hirdymor. Mae'n bendant yn cosbi pobl sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru yn arbennig, lle y byddai teithiau dyddiol i'r ganolfan waith bob dydd yn anymarferol, yn ddrud ac yn anodd. Pa asesiad a wnaethoch o sut y mae'r polisi hwn yn effeithio ar bobl yn y Gymru wledig a beth yw dull Llywodraeth Cymru o ddarparu swyddi a thwf yng nghefn gwlad Cymru er mwyn helpu i drechu tlodi?

14:31 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the question. I set out in the answer to Nick Ramsay that the key role we see the RDP having is in trying to generate jobs and growth and tackling poverty in rural communities. The point that you make on the Help to Work scheme is an important one. For those who do not know, Help to Work is the successor scheme for those who do not find work under the Work Programme, which, as we know, given its relative failure as a scheme, there are going to be significant numbers of people moving into that programme. So, I take on board and take seriously the points that you make. We will be happy to write to the Minister, Lord Freud, again to ask what consideration the Department for Work and Pensions has given to assisting people to attend, if there is a daily attendance requirement. If, in theory, there is an ability to help people, what in practice is being done to assist? We also want to understand what assessment it has made of what will be done and how it will assess the success or otherwise of this particular part of welfare reform. I do not think that we will get a response. We will certainly ask the right sort of question to try to understand what is being done to whom.

Diolch i chi am y cwestiwn. Nodais yn yr ateb i Nick Ramsay mai swyddogaeth allweddol y Cynllun Datblygu Gwledig yn ein barn ni yw ceisio creu swyddi a thwf a threchu tlodi mewn cymunedau gwledig. Mae'r pwynt a wnewch ynglŷn â'r cynllun Help to Work yn un pwysig. I rai nad ydynt yn gwybod, Help to Work yw'r cynllun olynol ar gyfer pobl nad ydynt yn dod o hyd i waith o dan y Rhaglen Waith ac fel y gwyddom, o ystyried ei fethiant cymharol fel cynllun, bydd nifer sylweddol o bobl yn symud i'r rhaglen honno. Felly rwy'n derbyn y pwyntiau a wnewch ac yn eu hystyried yn ddifrifol. Byddwn yn hapus i ysgrifennu eto at y Gweinidog, yr Arglwydd Freud, i ofyn pa ystyriaeth y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i rhoi i gynorthwyo pobl i fynychu canolfan waith, os oes gofyn iddynt ei mynychu'n ddyddiol. Mewn theori, os oes gallu i helpu pobl, beth sy'n cael ei wneud yn ymarferol i helpu? Rydym hefyd am ddeall pa asesiad a wnaeth o'r hyn a wneir a sut y bydd yn asesu llwyddiant neu fethiant y rhan benodol hon o ddiwygio lles. Nid wyf yn meddwl y cawn ymateb. Byddwn yn sicr yn gofyn y math cywir o gwestiwn i geisio deall beth sy'n cael ei wneud ac i bwy.

14:32 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs mae costau byw yn benodol, ar gyfartaledd, rhyw 10% i 20% yn uwch mewn ardaloedd gwledig nag ydynt mewn ardaloedd trefol. A gaf i ofyn, felly, beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn ei strategaethau taclo tlodi i fynd i'r afael â'r costau byw hynny mewn ardaloedd gwledig?

Of course, costs of living specifically are, on average, some 10% to 20% higher in rural areas than in urban areas. May I ask you, therefore, what the Government is doing in its poverty eradication strategies to tackle those high living costs in rural areas?

14:32 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

We recognise that there are a number of factors in rural Wales that are different to the context of urban placed poverty. So, that is why we are going to look at what happens in the RDP. Part of that, for example, could be looking at childcare in rural areas and rural communities. So, we are looking at how we try to address and tackle that as a particular issue. It goes though into a whole range of interventions that take place within rural communites and urban ones. Our focus on early years intervention, our focus on closing the attainment gap between children on free school meals and others—all of these things matter in rural Wales as much as they do in urban Wales. I really do not want to be drawn into this idea that it is urban against rural. Our approach must be one that cuts across the whole country because we recognise that, in every part of Wales, there is a challenge of tackling and eradicating poverty.

Rydym yn cydnabod bod nifer o ffactorau yn y Gymru wledig sy'n wahanol i gyd-destun tlodi trefol. Felly dyna pam rydym yn mynd i edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn y Cynllun Datblygu Gwledig. Gallai rhan o hynny gynnwys edrych ar ofal plant mewn ardaloedd gwledig a chymunedau gwledig er enghraifft. Felly rydym yn edrych ar sut rydym yn ceisio mynd i'r afael â hynny fel problem benodol. Mae'n cynnwys ystod eang o ymyriadau sy'n digwydd mewn cymunedau gwledig a rhai trefol. Mae ein ffocws ar ymyrraeth y blynyddoedd cynnar, ein ffocws ar gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n cael prydau ysgol am ddim ac eraill—mae'r holl bethau hyn yr un mor bwysig yn y Gymru wledig ag y maent yn y Gymru drefol. Nid wyf am gael fy nhynnu i mewn i'r syniad o gystadleuaeth rhwng y trefol a'r gwledig. Rhaid i'n dull o weithredu fod yn un sy'n torri ar draws y wlad i gyd oherwydd ein bod yn cydnabod yr her o drechu a dileu tlodi ym mhob rhan o Gymru.

Senedd.tv
Fideo Video

14:33 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Chi sy'n awgrymu bod 'conflict'. Nid wyf i yn sicr wedi awgrymu hynny am eiliad, ond mae yna realiti, wrth gwrs. Mae yna realiti. Er enghraifft, yn yr wythnos ddiwethaf yn unig rwyf wedi dod ar draws dwy enghraifft o bobl sydd, mae'n debyg, yn mynd i orfod rhoi'u swyddi i fyny oherwydd colli gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Mae hynny mewn dwy ran wahanol o ogledd Cymru. A gaf ofyn, felly, gyda thlodi trafnidiaeth, wrth gwrs, yn bwnc sy'n dringo'r agenda mewn gwirionedd, beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i daclo hynny, oherwydd heb gar mewn ardaloedd gwledig mae'n mynd yn anoddach i gynnal swydd a gyda'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn crebachu mae realiti mewn ardaloedd gwledig yn wahanol iawn?

It is you who is suggesting that there is a conflict. I have certainly not suggested for one second that there is conflict, but there is reality, of course. There is a reality. For example, just in this last week I have come across two examples of people who, it seems, will have to give up their jobs because of the loss of transport services in rural areas. That is in two different parts of north Wales. May I ask, therefore, with transport poverty, of course, an issue that is climbing up the agenda, what the Government is doing to tackle that issue, because without a car in rural areas it becomes even more difficult to maintain a job and with public transport services shrinking, the reality in rural areas is very different?

Senedd.tv
Fideo Video

14:34 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

There is an additional challenge in transport in rural areas and I recognise that. Again, this is not an issue that does not exist in urban Wales either. That is why I am keen not to say that this is only an issue for rural Wales. The Minister for Economy, Science and Transport is looking at concessionary fares and what support can be provided. I am interested in understanding what interventions are going to make the biggest difference to the biggest number of people. Obvioulsy, that will lead us to look seriously at the levers that the RDP has and a whole range of factors, and in particular how we get different communties and different organisations with responsibilities across rural Wales to collaborate more effectively because, frankly, we have been too poor in the past at getting the same people with the same sorts of interests to help the same people to work effectively together. It is still a challenge for us, although I think that we have made real progress on it. So, I think that you will see, on a whole range of indicators—not just transport—real progress being made, and, of course, I will be publishing the annual report on the tackling poverty action plan at the start of July.

Ceir her ychwanegol o ran trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig ac rwy'n cydnabod hynny. Unwaith eto, nid yw hyn yn fater nad yw'n bodoli yn ardaloedd trefol Cymru chwaith. Dyna pam rwy'n awyddus i beidio â dweud mai mater i gefn gwlad Cymru yn unig yw hyn. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn edrych ar docynnau teithio rhatach a pha gymorth y gellir ei ddarparu. Mae gennyf ddiddordeb mewn deall pa ymyriadau sy'n mynd i wneud y gwahaniaeth mwyaf i'r nifer fwyaf o bobl. Yn amlwg, bydd hynny'n ein harwain i edrych o ddifrif ar ysgogiadau'r Cynllun Datblygu Gwledig ac ystod eang o ffactorau, ac yn benodol, sut rydym yn cael gwahanol gymunedau a gwahanol sefydliadau â chyfrifoldebau ar draws y Gymru wledig i gydweithio'n fwy effeithiol gan and ydym wedi llwyddo, a dweud y gwir, i fynd ati yn y gorffennol i gael yr un bobl gyda'r un mathau o ddiddordebau i helpu'r un bobl i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Mae'n dal i fod yn her inni er fy mod yn credu ein bod wedi gwneud cynnydd gwirioneddol ar hyn. Felly rwy'n meddwl y gwelwch fod cynnydd go iawn yn cael ei wneud ar ystod eang o ddangosyddion—nid trafnidiaeth yn unig—ac wrth gwrs, byddaf yn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi ddechrau mis Gorffennaf.

Senedd.tv
Fideo Video

## Biosffer Dyfi

## Dyfi Biosphere

14:35 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad Biosffer Dyfi i ddatblygu cynaliadwy? OAQ(4)0188(CTP)*

*4. Will the Minister make a statement on the contribution of the Dyfi Biosphere to sustainable development? OAQ(4)0188(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:35 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

May I thank the Member for that question? Dyfi Biosphere, as well as biospheres more generally, plays an important role in helping to demonstrate innovative approaches to sustainable development at local and international levels. I welcome the contribution that Dyfi Biosphere will make to advancing the sustainable development of Wales.

Hoffwn ddiolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae Biosffer Dyfi, yn ogystal â biosfferau'n fwy cyffredinol, yn chwarae rhan bwysig yn y broses o helpu i arddangos dulliau arloesol o ddatblygu'n gynaliadwy ar lefel leol a rhyngwladol. Rwy'n croesawu'r cyfraniad y bydd Biosffer Dyfi yn ei wneud i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:35 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Fel y dywedoch chi, mae biosffer yn rhywbeth rhyngwladol, sy'n dangos bod gyda ni yng Nghymru—yr unig un, wrth gwrs, yw Biosffer Dyfi—rywbeth y dylem ni fod yn ei glodfori ac yn ei ddefnyddio fel templed ar gyfer datblygu cynaliadwy, yn enwedig o gofio bod y biosffer yn gartref i walch y môr erbyn hyn, ac yn gartref i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn ogystal. Mae'n dempled y gallwn ni ei ddefnyddio. Os nad ydych wedi ymweld â Biosffer Dyfi, a gaf ofyn i chi ystyried hynny? A gaf ofyn i chi yn fwy penodol i ystyried beth all y Llywodraeth ei wneud i wneud yn siŵr bod y biosffer yn llwyddo, a bod Cymru'n arwain yn rhyngwladol ar faterion datblygu cynaliadwy, fel yr ydym wedi ei wneud yn y gorffennol?

Thank you for that response, Minister. As you said, a biosphere is an international thing that demonstrates that we in Wales—of course, the Dyfi Biosphere is the only one in Wales—have something that we should be very proud of and should use as a template for sustainable development, particularly bearing in mind that the biosphere is home to the osprey now, and home to the Welsh language and culture also. It is a template that we can use. If you have not visited the Dyfi Biosphere, may I ask you to consider doing so? More specifically, may I ask you to consider what the Government can do to ensure that the biosphere succeeds and that Wales leads internationally on sustainable development issues, as we have done in the past?

Senedd.tv Fideo Video

14:36 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

May I thank you for that supplementary question? May I confirm that I would be more than happy to visit the Dyfi Biosphere? I think that, in terms of what the Government can do, I will need to discuss that matter with my colleague the Minister for Natural Resources and Food. However, there is no doubt that the Dyfi Biosphere offers a wide range of social, economic and environmental wellbeing projects. It includes tourism, education, the Welsh language and culture—as you outline—arts, heritage, and maritime issues, all in combination with nature conservation. So, I think that it is a good model, and I will be happy to learn more about its work.

Hoffwn ddiolch i chi am y cwestiwn atodol. A gaf fi gadarnhau y byddwn yn fwy na pharod i ymweld â Biosffer Dyfi? O ran yr hyn y gall y Llywodraeth ei wneud, credaf y bydd angen i mi drafod y mater â'm cydweithiwr, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth fod Biosffer Dyfi yn cynnig ystod eang o brosiectau lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'n cynnwys twristiaeth, addysg, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru—fel rydych yn nodi—y celfyddydau, treftadaeth a materion morol, i gyd mewn cyfuniad â chadwraeth natur. Felly rwy'n meddwl ei fod yn fodel da a byddaf yn hapus iawn i ddysgu mwy am ei waith.

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Russell George** Bywgraffiad Biography

The Dyfi valley is a wonderful place to live and to work. The biosphere project is an international example of sustainable, ecological living. It was also good to see the osprey project on BBC 'Springwatch' last night. Given the vital nature of explaining the tangible outcomes of the future generations Bill to the wider Welsh public, may I ask how the Welsh Government is looking at the biosphere project as an educational tool, to show Welsh citizens what the Government is looking to achieve from its legislation, right across Wales? I am pleased that you will be visiting the centre as well.

Mae dyffryn Dyfi yn lle gwych i fyw ac i weithio. Mae prosiect y biosffer yn enghraifft ryngwladol o fyw'n gynaliadwy ac yn ecolegol. Roedd hefyd yn braf gweld prosiect y gweilch ar raglen 'Springwatch' y BBC neithiwr. O ystyried natur hanfodol egluro canlyniadau diriaethol y Bil cenedlaethau'r dyfodol i'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru, a gaf fi ofyn sut y mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar brosiect y biosffer fel offeryn addysgol i ddangos i ddinasyddion Cymru beth y mae'r Llywodraeth yn ceisio'i gyflawni drwy ei deddfwriaeth ar hyd a lled Cymru? Rwy'n falch y byddwch yn ymweld â'r ganolfan hefyd.

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I thank the Member very much for that, and the link that he makes to the future generations Bill, which I think is quite right, certainly in terms of the goals of the Bill, all of which will be laid before the Assembly on 7 July? There will be clear signs of the importance of this issue about environmental protection and conservation. As I said, in answer to the previous question, I think that that particular biosphere has got a lot to teach us, and I will be looking into it in much further detail.

A gaf fi ddiolch yn fawr iawn i'r Aelod am hynny a'r cyswllt y mae'n ei wneud â Bil cenedlaethau'r dyfodol? Credaf ei fod yn hollol iawn yn hynny o beth, yn sicr o ran amcanion y Bil y bydd pob un ohonynt yn cael ei osod gerbron y Cynulliad ar 7 Gorffennaf. Bydd ynddo arwyddion clir o bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd a chadwraeth. Fel y dywedais wrth ateb y cwestiwn blaenorol, rwy'n credu bod gan y biosffer dan sylw lawer i'w ddysgu inni a byddaf yn edrych arno'n llawer mwy manwl.

14:38 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I share the feelings of the Members who have already spoken with regard to the importance of the Dyfi Biosphere. I would like to pay particular tribute to Andy Rowland, for the inspirational work that he and his colleagues have put in, in actually securing that precious status for Wales. As you know, Minister, the Dyfi Biosphere is also home to the Centre for Alternative Technology at Machynlleth, which this year celebrates the fortieth anniversary of its opening. I believe that, this month—

Weinidog, rwy'n rhannu teimladau'r Aelodau sydd eisoes wedi siarad mewn perthynas â phwysigrwydd Biosffer Dyfi. Hoffwn dalu teyrnged arbennig i Andy Rowland am y gwaith ysbrydoledig y mae ef a'i gydweithwyr wedi'i wneud o ran sicrhau'r fath statws gwerthfawr i Gymru. Fel y gwyddoch, Weinidog, mae Biosffer Dyfi hefyd yn gartref i Ganolfan y Dechnoleg Amgen ym Machynlleth, sydd eleni'n dathlu deugain mlynedd ers ei hagor. Y mis hwn, credaf fod—

14:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can we have a question now?

A allwn gael cwestiwn yn awr?

14:39 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—Adrian Ramsay takes up his position as chief executive in that centre. Minister, if you are able to commit the time to come up to visit the biosphere yourself, would you also consider visiting that inspirational centre, to help to take on board its work, and the contribution that it could make to the future of Wales?

[Parhau.]—Adrian Ramsay yn dechrau yn ei swydd fel prif weithredwr y ganolfan. Weinidog, os gallwch roi amser i ddod i ymweld â'r biosffer eich hun, a fyddech hefyd yn ystyried ymweld â'r ganolfan ysbrydoledig honno er mwyn helpu i ddeall ei gwaith a'i chyfraniad posibl i ddyfodol Cymru?

14:39 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. I am happy to say that, in a private capacity, I visited the CAT last summer. I am always happy to go back—I have been there a few times. However, as I have said, the overarching project of the biosphere is something that we can learn from. I know that the sustainable development commissioner, Peter Davies, is very impressed by it, and, in my regular discussions with him, I will discuss this matter further.

Diolch yn fawr iawn i chi. Rwy'n falch o ddweud fy mod wedi ymweld â'r Ganolfan yn breifat yn ystod yr haf diwethaf. Rwyf bob amser yn hapus i fynd yn ôl—rwyf wedi bod yno sawl tro bellach. Fodd bynnag, fel y dywedais, mae prosiect trosfwaol y biosffer yn rhywbeth y gallwn ddysgu oddi wrtho. Gwn ei fod wedi creu cryn argraff ar y comisiynydd datblygu cynaliadwy, Peter Davies a byddaf yn trafod y mater hwn ymhellach yn fy nhrafodaethau rheolaidd ag ef.

### Hysbysebu Undebau Credyd

### Advertising Credit Unions

14:39 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r amcan ar gyfer gwerthuso'r gwariant diweddar o £679,000 ar hysbysebu undebau credyd? OAQ(4)0175(CTP)*

*5. Will the Minister outline the objective by which the recent expenditure of £679,000 on advertising credit unions is to be evaluated? OAQ(4)0175(CTP)*

14:40 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I thank Peter Black for that question? Work is already under way to monitor the number of inquiries resulting from the national campaign and, in the coming months, the number of new members will be analysed and complemented by an omnibus survey to assess public awareness of credit unions.

A gaf fi ddiolch i Peter Black am y cwestiwn? Mae gwaith eisoes ar y gweill i fonitro nifer yr ymholiadau sy'n deillio o'r ymgyrch genedlaethol ac yn y misoedd nesaf, bydd nifer yr aelodau newydd yn cael ei ddadansoddi a'i ategu gan arolwg omnibws i asesu ymwybyddiaeth y cyhoedd o undebau credyd.

14:40 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. Could you tell us what work has being done to establish a baseline for growth in terms of that expenditure and who did that work?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A allech ddweud wrthym pa waith a wnaethpwyd i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer twf o ran y gwariant a phwy wnaeth y gwaith hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

14:40 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

It was the North Wales Credit Union that won the funding to organise the campaign, and I am sure that Members will have seen the very successful television adverts. In the short term, we are looking for a 25% increase in the predicted growth acceleration of credit union membership. Crucially, that is what this is about—increasing the membership of credit unions.

Undeb Credyd Gogledd Cymru a enillodd y cyllid i drefnu'r ymgyrch ac rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau wedi gweld yr hysbysebion teledu llwyddiannus iawn. Yn y tymor byr, rydym yn anelu tuag at gynnydd o 25% yng nghyflymder y twf a ragwelir yn aelodaeth yr undebau credyd. Yn allweddol, â hynny y mae'n ymwneud—cynyddu aelodaeth undebau credyd.

Senedd.tv Fideo Video

14:41 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that information, Minister. The Old Bell 3 report identified a problem with a lack of common branding and a common core product range. How has that limited the impact of this marketing spend?

Diolch i chi am yr wybodaeth honno, Weinidog. Nododd adroddiad Old Bell 3 broblem gyda diffyg brandio cyffredin ac ystod o gynnyrch craidd cyffredin. Sut y mae hynny wedi cyfyngu ar effaith y gwariant hwn ar farchnata?

Senedd.tv Fideo Video

14:41 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

The Old Bell 3 report also praised the work of access to financial products through credit unions, which has supported over 33,000 financially excluded individuals over the lifetime of the project, which significantly exceeded its target. So, in terms of branding, that is becoming far better, and we trust that this current advertising campaign will help that further.

Mae adroddiad Old Bell 3 hefyd yn canmol gwaith ar sicrhau mynediad at nwyddau ariannol drwy undebau credyd sydd wedi cefnogi dros 33,000 o unigolion wedi'u hallgáu'n ariannol dros oes y prosiect, nifer a oedd yn sylweddol uwch na'r targed. Felly, o ran brandio, mae hynny'n dod yn llawer gwell a hyderwn y bydd yr ymgyrch hysbysebu gyfredol yn helpu hynny ymhellach.

Senedd.tv Fideo Video

14:41 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

The North Wales Credit Union, which is an excellent credit union as you indicate, is leading this advertising spend. At its annual general meeting this year, it was widely recognised that credit unions need to serve a range of incomes and sections of society in order to be sustainable. How will this advertising spend and other investment aim to support that goal?

Mae Undeb Credyd Gogledd Cymru, undeb credyd rhagorol fel y dywedwch, yn arwain y gwariant hwn ar hysbysebu. Yn ei gyfarfod cyffredinol blynyddol eleni, cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol fod angen i undebau credyd wasanaethu ystod o incwm a rhannau o'r gymdeithas er mwyn bod yn gynaliadwy. Sut y bydd y gwariant ar hysbysebu a buddsoddiadau eraill yn cefnogi'r nod hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

It will do so by increasing the membership of credit unions, and we are also looking at savers. It is a bit of a no-brainer that that will increase the sustainability and resource levels of credit unions. However, you mention the particular role of the North Wales Credit Union and I do want to congratulate it on co-ordinating this collaborative venture—11 credit unions are taking part. The North Wales Credit Union has also reached an agreement with Betsi Cadwaladr University Local Health Board about payroll deduction. These are good examples coming from that particular credit union that will increase sustainability and resource levels.

Bydd yn gwneud hynny drwy gynyddu aelodaeth undebau credyd ac rydym hefyd yn edrych am bobl i gynilo. Mae'n eithaf amlwg y bydd yn cynyddu cynaliadwyedd a lefelau adnoddau undebau credyd. Fodd bynnag, rydych yn sôn am rôl benodol Undeb Credyd Gogledd Cymru ac rwyf am ei longyfarch ar gyd-drefnu'r fenter gydweithredol hon—mae 11 o undebau credyd yn cymryd rhan. Mae Undeb Credyd Gogledd Cymru hefyd wedi dod i gytundeb â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch didyniadau cyflogres. Mae'r rhain yn enghreifftiau da sy'n dod o'r undeb credyd penodol hwnnw a fydd yn cynyddu cynaliadwyedd a lefelau adnoddau.

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Several credit unions in Wales, including the North Wales Credit Union, are involved in implementing the UK Government's credit union expansion programme in Wales, with the Association of British Credit Unions Limited. How will you address concern that the Welsh Government thus far is not engaging as fully as it needs to with those credit unions that are working with ABCUL in Wales to help credit unions to become self-sustaining? Will you meet them and listen to their concerns to see how you can integrate that programme with your own programmes to maximise the mutual benefit for all?

Mae nifer o undebau credyd yng Nghymru, gan gynnwys Undeb Credyd Gogledd Cymru, yn cymryd rhan yn y broses o weithredu rhaglen ehangu undebau credyd Llywodraeth y DU yng Nghymru gyda Chymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig (ABCUL). Sut y byddwch yn ateb y pryder nad yw Llywodraeth Cymru hyd yn hyn yn ymgysylltu mor llawn ag y mae angen iddi ei wneud â'r undebau credyd hynny sy'n gweithio gydag ABCUL yng Nghymru i helpu undebau credyd i fod yn hunangynhaliol? A fyddwch yn eu cyfarfod i wrando ar eu pryderon er mwyn gweld sut y gallwch integreiddio'r rhaglen â'ch rhaglenni eich hunain er mwyn uchafu'r budd i bawb fel ei gilydd?

14:43 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I have to say that credit unions have not written to me with that concern. We are working with all credit unions in Wales, and indeed, next month, I will be holding a joint Welsh Government credit union conference in Wales, where examples of good practice, and further examples of how we can work together for the benefit of the members of credit unions and to increase that base, will take place. So, we have no doubt about the voracity and the strength of our support for credit unions and that will continue to be the case.

Mae'n rhaid i mi ddweud nad yw undebau credyd wedi ysgrifennu ataf yn mynegi pryder o'r fath. Rydym yn gweithio gyda phob undeb credyd yng Nghymru, ac yn wir, byddaf yn cynnal cynhadledd ar y cyd rhwng undebau credyd Cymru a Llywodraeth Cymru y mis nesaf i edrych ar enghreifftiau o sut y gallwn weithio gyda'n gilydd er budd aelodau undebau credyd a sut i gynyddu'r sylfaen honno. Felly nid oes gennym amheuaeth ynglŷn â brwdfrydedd a chryfder ein cefnogaeth i undebau credyd a bydd hynny'n parhau.

## Strwythurau Atebolrwydd Comisiynydd Plant Cymru

## Accountability Structures of the Children's Commissioner for Wales

14:43 **Aled Roberts** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*6. Cyn penodi'r Comisiynydd newydd, a oes unrhyw gynlluniau i adolygu strwythurau atebolrwydd Comisiynydd Plant Cymru? OAQ(4)0177(CTP)*

*6. Prior to the appointment of the new Commissioner, are there any plans to revise the accountability structures of the Children's Commissioner for Wales? OAQ(4)0177(CTP)*

14:44 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

May I thank Aled Roberts for that question? The accountability structures of the Children's Commissioner for Wales are set out in statute. You will be aware that I have commissioned an independent review of the role and functions of the children's commissioner—a review indeed that the current commissioner has called for on a number of occasions.

A gaf fi ddiolch i Aled Roberts am y cwestiwn? Mae strwythurau atebolrwydd Comisiynydd Plant Cymru wedi'u nodi mewn statud. Gwyddoch fy mod wedi comisiynu adolygiad annibynnol o rôl a swyddogaethau'r comisiynydd plant—adolygiad y mae'r comisiynydd presennol wedi galw amdano ar sawl achlysur.

14:44 **Aled Roberts** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Mae hefyd gofyn wedi bod yn ystod dadleuon yn y Senedd yma i wella atebolrwydd, fel bod y comisiynydd yn atebol i'r Cynulliad hwn yn hytrach nag i'r Prif Weinidog sydd wrth gwrs, ar hyn o bryd, yn penodi'r comisiynydd. Felly, a allwch ddweud beth yw'r amserlen o ran yr adolygiad, ac a fydd yr amserlen yn ddigonol er mwyn i'r comisiynydd newydd ddod o dan y strwythurau newydd hyn?

There have also been demands during debates in this Senedd to improve accountability, so that the commissioner is accountable to this Assembly rather than the First Minister who of course, at present, appoints the commissioner. So, can you tell us what the timetable is in terms of the review and whether that timetable will be adequate for the new commissioner to be under these new structures?

14:44 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

To answer your last bit first, no, the new commissioner will be appointed under the current arrangements, although they will be aware that the review, of course, is taking place and will help to inform it. I will be announcing next week the details of the review—that review will then get under way—including the name of the person who is to lead that review. That review is due to report by the end of this year and that will inform future arrangements. I am sure that views on appointment and accountability will be given to that review and I will see what the conclusions and recommendations are.

I ateb eich rhan olaf yn gyntaf, na, bydd y comisiynydd newydd yn cael ei benodi o dan y trefniadau presennol, er y bydd yn ymwybodol fod yr adolygiad yn cael ei gynnal wrth gwrs a bydd yn helpu i ddylanwadu arno. Yr wythnos nesaf, byddaf yn cyhoeddi manylion yr adolygiad—a bydd yr adolygiad hwnnw wedyn yn cychwyn—gan gynnwys enw'r person a fydd yn arwain yr adolygiad. Mae i fod i adrodd erbyn diwedd y flwyddyn hon a bydd yn dylanwadu ar drefniadau yn y dyfodol. Rwy'n siŵr y bydd safbwyntiau ar y penodiad ac atebolrwydd yn cael ei roi i'r adolygiad hwnnw, a chaf weld beth fydd y casgliadau a'r argymhellion.

14:45 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Conservatives, of course, have long supported the principle of commissioners being answerable to this Assembly rather than to Government. As tackling poverty is a responsibility of all departments, you may have a view on commissioners and arm's-length bodies that are accountable to your colleagues. Do you think that the longer the arm and the more independent commissioners and arm's-length bodies are from Government, the more creative they are able to be in their approaches to tackling poverty?

Ers amser hir wrth gwrs, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cefnogi'r egwyddor fod comisiynwyr yn atebol i'r Cynulliad hwn yn hytrach nag i'r Llywodraeth. Gan fod trechu tlodi yn gyfrifoldeb i'r holl adrannau, efallai fod gennych safbwynt ar gomisiynwyr a chyrff hyd braich sy'n atebol i'ch cydweithwyr. A ydych yn credu mai po hwyaf y fraich a pho fwyaf annibynnol yw comisiynwyr a chyrff hyd braich oddi ar y Llywodraeth, y mwyaf creadigol y gallant fod yn eu dulliau o drechu tlodi?

14:46 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are absolutely right, in terms of tackling poverty, that that is an inter-departmental responsibility and the Welsh Government takes that very seriously. However, in terms of the appointment of commissioners, and particularly the children's commissioner, there is nothing that I can add to the answer that I have already given to Aled Roberts.

Rydych yn llygad eich lle o ran trechu tlodi, mai cyfrifoldeb rhyngadrannol ydyw, ac mae Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch hynny. Fodd bynnag, o ran penodi comisiynwyr, ac yn enwedig y comisiynydd plant, nid oes unrhyw beth y gallaf ei ychwanegu at yr ateb rwyf eisoes wedi'i roi i Aled Roberts.

14:46 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Beth yw prif gyfraniad y comisiynydd a'i swyddfa i wella lles a gobeithion plant Cymru?

What is the main contribution of the commissioner and his office to improving the wellbeing and hopes of the children of Wales?

14:46 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The commissioner acts very much as an independent voice and raises with me regularly—I meet him on a quarterly basis—issues that affect children, particularly issues around advocacy, around those who are not in education, employment or training, around the school curriculum, and, certainly, how poverty and the austerity policies of the UK Government are impacting most negatively on children across Wales.

Mae'r comisiynydd yn gweithredu i raddau helaeth fel llais annibynnol ac yn trafod materion sy'n effeithio ar blant gyda mi yn rheolaidd-rwy'n ei gyfarfod ar sail chwarterolyn enwedig materion sy'n ymwneud ag eiriolaeth, rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, y cwricwlwm ysgol, ac yn sicr, sut y mae tlodi a pholisïau caledi Llywodraeth y DU yn effeithio'n fwyaf negyddol ar blant ledled Cymru.

14:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 7, OAQ(4)0187(CTP), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ(4)0187(CTP), yn ôl.

### Lleihau Tlodi Plant

### Reducing Child Poverty

14:47 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i fesur cynnydd o ran lleihau tlodi plant yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0182(CTP)*

*8. What steps has the Welsh Government taken to measure progress in reducing child poverty in South Wales Central? OAQ(4)0182(CTP)*

14:47 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our agreed actions to reduce child poverty are in the tackling poverty action plan. I will be publishing the annual progress report in July. The transparent approach that we take is in direct contrast to that of the UK Government, which has no milestones or targets in its strategy, which the Social Mobility and Child Poverty Commission said this week made the strategy meaningless.

Mae ein camau gweithredu y cytunwyd arnynt i leihau tlodi plant wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi. Byddaf yn cyhoeddi'r adroddiad cynnydd blynyddol ym mis Gorffennaf. Mae ein hagwedd dryloyw yn cyferbynnu'n llwyr ag agwedd Llywodraeth y DU nad oes ganddi gerrig milltir na thargedau yn ei strategaeth, sy'n ei gwneud yn ddiystyr yn ôl y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yr wythnos.

14:47 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the things that obviously helps to reduce poverty is good access to public transport. The Welsh Government has recently reconfigured its support for public transport, and, in the Vale of Glamorgan in particular, a huge amount of public services has been withdrawn. What assessment have you made across Government, working with colleagues in the Department for Transport and other departments, on what direct impact these measures are having on your poverty strategy in Wales?

Un o'r pethau sy'n amlwg yn helpu i leihau tlodi yw trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ad-drefnu ei chymorth i drafnidiaeth gyhoeddus ac ym Mro Morgannwg yn arbennig, mae llawer iawn o wasanaethau cyhoeddus wedi cael eu tynnu'n ôl. Pa asesiad a wnaethpwyd gennych ar draws y Llywodraeth, gan weithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth ac adrannau eraill, o'r effaith uniongyrchol y mae'r mesurau hyn yn ei chael ar eich strategaeth tlodi yng Nghymru?

14:48 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I said in answer to an earlier question, the Minister for Economy, Science and Transport is looking at concessionary fares and, in particular, the department will be looking at how they support measures taken to tackle poverty. However, on the issue of support for bus transport, I really do have to say that you are in an incredibly difficult position because your own budget proposals are to significantly reduce support for transport and yet you come here demanding action in an area where if you could make a choice to make the services even worse, you would—[Interruption.]

Fel y dywedais wrth ateb cwestiwn yn gynharach, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn edrych ar docynnau teithio rhatach ac yn benodol, bydd yr adran yn edrych ar sut y mae'n cefnogi mesurau i drechu tlodi. Fodd bynnag, o ran cymorth ar gyfer trafnidiaeth bws, mae'n rhaid i mi ddweud eich bod mewn sefyllfa hynod o anodd am mai eich cynigion cyllidebol eich hunain yw lleihau cymorth ar gyfer trafnidiaeth yn sylweddol ac eto rydych yn dod yma gan alw am weithredu mewn maes lle y byddech yn dewis gwneud y gwasanaethau hyd yn oed yn waeth pe gallech-[Torri ar draws.]

14:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Stop please. You can put the questions, but you must listen to the answers. I remind all Members of that discipline.

Trefn. Stopiwch os gwelwch yn dda. Gallwch ofyn y cwestiynau ond mae'n rhaid i chi wrando ar yr atebion. Rwy'n atgoffa'r holl Aelodau ynglŷn â'r ddisgyblaeth honno.

### Cymunedau yn Gyntaf yn Abertawe

### Communities First in Swansea

14:49 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Cymunedau yn Gyntaf yn Abertawe? OAQ(4)0184(CTP)*

*9. Will the Minister provide an update on Communities First in Swansea? OAQ(4)0184(CTP)*

14:49 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. There are five clusters in the Swansea area and all are making a real difference in some of our most challenged communities. I had the opportunity to see this at first hand when I visited a range of projects in Swansea earlier this year.

Gwnaf. Mae pum clwstwr yn ardal Abertawe ac mae pob un yn gwneud gwahaniaeth go iawn yn rhai o'n cymunedau sy'n wynebu fwyaf o heriau. Cefais y cyfle i weld hyn yn uniongyrchol pan ymwelais ag amrywiaeth o brosiectau yn Abertawe yn gynharach eleni.

14:49 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, Deputy Minister, and it was great to host your visit at that Communities First cluster. We have had many discussions on the effect of Communities First on integration and sustainability in our communities. As a result of recent and completely heartless changes to asylum seeker support under the dispersal policy in Wales, we have much less to help the already traumatised and desperate people who arrive in our city. I know that we, unfortunately, cannot help those who are still seeking status, but can Communities First play a real role in helping them to integrate and make their extremely valuable and welcome contribution to our city once they become refugees?

Diolch i chi am eich ateb, Ddirprwy Weinidog, ac roedd yn dda cael croesawu eich ymweliad â'r clwstwr Cymunedau yn Gyntaf hwnnw. Rydym wedi cael llawer o drafodaethau ar effaith Cymunedau yn Gyntaf ar integreiddio a chynaliadwyedd yn ein cymunedau. O ganlyniad i newidiadau diweddar cwbl ddidostur i gymorth ar gyfer ceiswyr lloches o dan y polisi gwasgaru yng Nghymru, mae gennym lawer llai o adnoddau ar gyfer helpu'r bobl druenus ac wedi'u trawmateiddio sy'n cyrraedd ein dinas. Yn anffodus, gwn na allwn helpu'r rhai sy'n dal i geisio statws, ond a all Cymunedau yn Gyntaf chwarae rhan go iawn yn eu helpu i integreiddio a gwneud eu cyfraniad hynod werthfawr sydd i'w groesawu i'n dinas ar ôl iddynt ddod yn ffoaduriaid?

14:49 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I would expect Communities First clusters to take account of the needs of refugee families and communities within their cluster areas. The community involvement plan should set out how local people are represented, engaged, and their interests involved, in delivery by Communities First clusters.

Gall, byddwn yn disgwyl i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ystyried anghenion teuluoedd ffoaduriaid a chymunedau yn eu hardaloedd clwstwr. Dylai'r cynllun cynnwys y gymuned nodi sut y caiff pobl leol eu cynrychioli, sut y cysylltir â hwy a sut y caiff eu buddiannau eu cynnwys wrth i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf gyflawni'r cynllun.

I know that Swansea has, across the five clusters, an equality engagement officer. If you are finding that that is not happening in practice, and that refugee families or communities are not getting access to the services and support that Communities First does provide, I would be happy to look at the matter in more detail if you could write to me, or I am happy to sit down and meet with you if that is more helpful.

Rwy'n gwybod bod gan Abertawe swyddog cydraddoldeb ac ymgysylltu ar draws y pum clwstwr. Os gwelwch nad yw hynny'n digwydd yn ymarferol ac nad yw'r gwasanaethau a'r gefnogaeth y mae Cymunedau yn Gyntaf yn eu darparu yn cyrraedd teuluoedd ffoaduriaid, byddwn yn hapus i edrych ar y mater yn fwy manwl os ysgrifennwch ataf neu rwy'n hapus i'ch cyfarfod os yw hynny'n fwy defnyddiol.

14:50 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, in the community cohesion delivery plan that came into effect in April, one of the key outcomes was to ensure that Communities First staff are knowledgeable about community cohesion issues. My question concerns training. Will you update us as to what you expect Communities First staff to know about community cohesion issues? What issues, particularly, led to this key outcome? Given that the plan came into effect in April, by when do you expect staff to be trained?

Ddirprwy Weinidog, yn y cynllun cyflenwi cydlyniant cymunedol a ddaeth i rym ym mis Ebrill, un o'r canlyniadau allweddol oedd sicrhau bod staff Cymunedau yn Gyntaf yn wybodus ynglŷn â materion cydlyniant cymunedol. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â hyfforddiant. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch yr hyn rydych yn disgwyl i staff Cymunedau yn Gyntaf ei wybod am faterion cydlyniant cymunedol? Yn benodol, pa faterion a arweiniodd at y canlyniad allweddol hwn? O ystyried bod y cynllun wedi dod i rym ym mis Ebrill, erbyn pryd rydych yn disgwyl i staff gael eu hyfforddi?

14:51 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There is a regular programme of training for Communities First staff. On community cohesion, there is an officer based in Swansea who works to improve integration and equality of opportunity across Swansea, Neath Port Talbot and Bridgend. That post is part-funded by Communities First. We want to see them having a real impact in the communities that they are serving. It is, of course, a fact that the Minister launched the community cohesion plan in Swansea earlier this month.

Mae rhaglen reolaidd o hyfforddiant ar gael ar gyfer staff Cymunedau yn Gyntaf. Ar gydlyniant cymunedol, mae swyddog yn Abertawe sy'n gweithio i wella integreiddio a chyfle cyfartal ar draws Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Caiff y swydd ei hariannu'n rhannol gan Cymunedau yn Gyntaf. Rydym am eu gweld yn cael effaith go iawn yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Wrth gwrs, mae'n ffaith bod y Gweinidog wedi lansio'r cynllun cydlyniant cymunedol yn Abertawe yn gynharach y mis hwn.

14:51 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ddirprwy Weinidog, tybed a fedrwch ddweud wrthym a yw'r rhai sy'n gweithio fel swyddogion Cymunedau'n Gyntaf yn Abertawe yn cael unrhyw fath o hyfforddiant mewn addysg ariannol. Rydym yn gwybod bod lot o bobl yn dioddef ar hyn o bryd yn sgil dyledion enbyd ac oherwydd newidiadau i'r system fenthyciadau ar lefel San Steffan. Tybed a yw hyn yn rhywbeth sydd wedi digwydd yn Abertawe neu unrhyw ardal arall o Gymru.

Deputy Minister, I wonder whether you could tell us whether those working as Communities First officers in Swansea are given any training in financial education. We know that many people are suffering at present because of huge debts and because of changes to the benefits system at a Westminster level. I was wondering whether this is something that has happened in Swansea or in any other area of Wales.

14:51 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is especially good practice in Swansea in equipping people to take greater ownership of managing their resources. The campaign run by the Bonymaen mums is a good example of where Communities First has a role in supporting people to access appropriate training and resources to help them to budget more effectively. Sometimes that activity is delivered directly by Communities First and sometimes it is in partnership with other organisations. For me, the important part is whether they are making a difference, either on their own or with other partners. This is an area in which I would expect them to work with a range of different partners, whether it is citizens advice bureaux, credit unions or housing associations, which all have a role and an interest in helping people to manage their finances better.

Mae arfer arbennig o dda i'w weld yn Abertawe o ran cyfarparu pobl i gymryd mwy o berchnogaeth o'r broses o reoli eu hadnoddau. Mae'r ymgyrch sy'n cael ei rhedeg gan famau Bôn-y-maen yn enghraifft dda o'r rhan sydd i Cymunedau yn Gyntaf yn cynorthwyo pobl i ddod o hyd i hyfforddiant ac adnoddau priodol i'w helpu i gyllidebu yn fwy effeithiol. Weithiau, caiff y gweithgaredd ei ddarparu'n uniongyrchol gan Cymunedau yn Gyntaf ac weithiau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. I mi, yr hyn sy'n bwysig yw a ydynt yn gwneud gwahaniaeth, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda phartneriaid eraill. Dyma faes lle y byddwn yn disgwyl iddynt weithio gydag amrywiaeth o wahanol bartneriaid, boed yn ganolfannau cyngor ar bopeth, undebau credyd neu gymdeithasau tai, ac mae gan bob un ohonynt ei ran i'w chwarae a diddordeb mewn helpu pobl i reoli eu harian yn well.

14:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 10, OAQ(4)0185(CTP), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 10, OAQ(4)0185(CTP), yn ôl.

### Canolfannau Cyngor ar Bopeth

### Citizens Advice Bureaux

14:52 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. Pa gefnogaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i Ganolfannau Cyngor ar Bopeth mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0178(CTP)*

*11. What support does the Welsh Government provide to the Citizens Advice Bureau in rural areas? OAQ(4)0178(CTP)*

14:52 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Elin Jones for that question. The Welsh Government provides significant funding to support independent advice providers, including citizens advice bureaux, in rural parts of Wales. The Welsh Government's support for Citizens Advice includes £2.2 million per annum for the Better Advice, Better Lives service.

Diolch i Elin Jones am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid sylweddol i gefnogi darparwyr cyngor annibynnol, gan gynnwys canolfannau cyngor ar bopeth, mewn rhannau gwledig o Gymru. Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Cyngor ar Bopeth yn cynnwys £2.2 miliwn y flwyddyn ar gyfer y gwasanaeth Cyngor Da, Byw'n Well.

14:53 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byddwch yn gwybod, Weinidog, gan fy mod wedi dweud wrthych yn flaenorol, fod Cyngor ar Bopeth, oherwydd diffyg ariannu yng Ngheredigion, wedi gorfod cau ei swyddfa yn Aberystwyth, er, efallai, fod yna bosibilrwydd o ailagor rhyw fath o bresenoldeb yn y fan honno. Nid oes gwasanaeth Cymunedau'n Gyntaf a chefnogaeth felly yng Ngheredigion bellach, felly sut ydych yn gallu cydweithio â Chyngor ar Bopeth Cymru i sicrhau bod rhwydwaith ddigonol yn ardaloedd gwledig sy'n gallu cwrdd ag anghenion o fewn cyrraedd i gymunedau gwledig ac, yn y cyd-destun hwn, mewn tref sydd mor strategol bwysig ag Aberystwyth?

You will know, Minister, as I have told you previously, that Citizens Advice, because of a lack of funding in Ceredigion, has had to close its office in Aberystwyth, although there may be a possibility of reopening some kind of presence there. There is no Communities First service and support in Ceredigion any longer, so how can you collaborate with Citizens Advice Cymru to ensure that there is an adequate network in rural areas that can meet the needs within the reach of rural areas and, in this context, within a town that is as strategically important as Aberystwyth?

14:53 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. We have exchanged letters on the case of the withdrawal from Aberystwyth, in terms of its main building, although I am advised by Citizens Advice in Ceredigion that it will continue to provide the service in Aberystwyth, albeit in different facilities, such as doctors' surgeries. Of course, I am concerned about the provision of the service, rather than the building itself. Nevertheless, I will discuss the matter further with Citizens Advice Cymru. I meet it from time to time, and I can certainly put this on the agenda for further discussion.

Diolch i chi. Rydym wedi cyfnewid llythyrau ar fater tynnu'n ôl o Aberystwyth, o ran ei brif adeilad, er fy mod yn deall gan Cyngor ar Bopeth yng Ngheredigion y bydd yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth yn Aberystwyth, ond mewn gwahanol gyfleusterau, megis meddygfeydd. Wrth gwrs, y modd y darperir y gwasanaeth yn hytrach na'r adeilad ei hun sy'n fy mhryderu. Serch hynny, byddaf yn trafod y mater ymhellach â Cyngor ar Bopeth Cymru. Rwy'n eu cyfarfod o bryd i'w gilydd ac yn bendant, gallaf roi hyn ar yr agenda i'w drafod ymhellach.

14:54 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in my region, Citizens Advice has also abandoned centralised offices in favour of a more localised delivery of its services, including to more rural communities. That localised approach is something that, generally, I would support. Nevertheless, there is still a question about how to monitor the quality of that delivery, particularly as public money is invested in that service. What did your predecessor's review of free advice provision find was the best way to monitor and identify best practice in that localised model?

Weinidog, yn fy rhanbarth i hefyd mae Cyngor ar Bopeth wedi gadael swyddfeydd canolog er mwyn cyflwyno'u gwasanaethau yn fwy lleol, gan gynnwys i gymunedau mwy gwledig. Yn gyffredinol, mae'r dull lleol yn rhywbeth y byddwn yn ei gefnogi. Serch hynny, mae cwestiwn yn codi o hyd ynglŷn â sut i fonitro ansawdd y ddarpariaeth, yn enwedig am fod arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi yn y gwasanaeth hwnnw. Beth oedd adolygiad eich rhagflaenydd o'r ddarpariaeth o gyngor rhad ac am ddim yn ei gasglu oedd y ffordd orau i fonitro a nodi arfer gorau yn y model lleol hwnnw?

14:55 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

All our advice services are regularly reviewed to make sure that they are effective and that, where they are using public money, it is allocated in line with our tackling poverty action plan in particular. So, officials meet with the advice services on a regular basis. I agree with you that, very often, services are best delivered through local outlets. I think it is fair to say that there is no one-size-fits-all approach, and we need to ensure that what works well in particular areas is highlighted as good practice and is rolled out as appropriate.

Mae pob un o'n gwasanaethau cynghori yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithiol a bod arian cyhoeddus a ddefnyddir yn cael ei ddyrannu'n unol â'n cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi yn benodol. Felly mae swyddogion yn cyfarfod â'r gwasanaethau cyngor yn rheolaidd. Rwy'n cytuno â chi mai'r ffordd orau yn aml iawn yw darparu gwasanaethau drwy allfeydd lleol. Credaf ei bod yn deg dweud nad oes un dull sy'n ateb i bawb ac mae angen inni sicrhau bod yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn ardaloedd penodol yn cael ei amlygu fel arfer da a'i gyflwyno fel y bo'n briodol.

## Cydraddoldeb Anabledd

## Disability Equality

14:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod cydraddoldeb anabledd yn cael ei ymgorffori wrth gyflwyno deddfwriaeth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0181(CTP)*

*12. How will the Minister ensure that disability equality is incorporated into the delivery of Welsh Government legislation? OAQ(4)0181(CTP)*

14:55 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mark Isherwood for that question. All legislation developed and delivered by the Welsh Government is subject to impact assessments, including consideration of equality and human rights, which clearly includes disability equalities.

Diolch i Mark Isherwood am y cwestiwn. Mae'r holl ddeddfwriaeth a ddatblygir ac a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn destun asesiadau effaith, gan gynnwys ystyriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol, sy'n amlwg yn cynnwys cydraddoldebau anabledd.

14:56 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Action on Hearing Loss, as I am sure you are aware, has identified gaps in social services for the people highlighted. It has also said that we need to involve people who are deaf and hard of hearing in the design and delivery of the services they use, and that the public health strategy in Wales—and, obviously, there is impending legislation in that regard—needs to focus, among other things, on hearing loss. It cites the 66,000 hearing tests carried out annually in Wales, driven by the public with no strategic focus, and adds that all of this would save the Welsh Government considerable resource. In that context, given the many different legislative strands currently going through this place, could you ensure that these concerns are addressed on behalf of people in Wales who are deaf or hard of hearing?

Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, mae Action on Hearing Loss wedi nodi bylchau yn y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y bobl a nodwyd. Mae hefyd wedi dweud bod angen inni gynnwys pobl sy'n fyddar a thrwm eu clyw yn y broses o lunio a darparu'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a bod angen i'r strategaeth iechyd cyhoeddus yng Nghymru—ac mae deddfwriaeth ar y gweill yn hynny o beth wrth gwrs—ganolbwyntio ar nam ar y clyw ymhlith pethau eraill. Mae'n cyfeirio at yr 66,000 o brofion clyw a gynhelir yn flynyddol yng Nghymru, wedi'u hysgogi gan y cyhoedd heb ffocws strategol, gan ychwanegu y byddai hyn oll yn arbed arian sylweddol i Lywodraeth Cymru. Mewn cyd-destun o'r fath, ac o ystyried y nifer o wahanol feysydd deddfwriaethol sy'n mynd drwy'r lle hwn ar hyn o bryd, a allwch sicrhau bod y pryderon hyn yn cael sylw ar ran y bobl yng Nghymru sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw?

14:57 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for those points. I certainly will take them into account. All actions, and certainly the spending plans, of Welsh Ministers must go through an equality impact assessment. We have the budget advisory group for equality, which the Minister for Finance and I jointly chair, and these issues are certainly dealt with. The specific issue of deaf awareness is a key part of our framework for action on independent living. Much of that framework was designed by disabled people themselves and on evidence that they provided. The issue of sensory loss, which obviously includes hearing loss, is a very important part of that programme. If you have specific information that you want to pass to me, then I would be grateful to receive it.

Diolch yn fawr iawn am y pwyntiau hynny. Byddaf yn sicr o'u hystyried. Mae'n rhaid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar holl gamau gweithredu Gweinidogion Cymru, a'r cynlluniau gwariant yn sicr. Mae gennym grŵp cynghorol y gyllideb ar gydraddoldeb y mae'r Gweinidog Cyllid a minnau yn ei gadeirio ar y cyd, ac mae'r materion hyn yn bendant yn cael eu trafod. Mae'r mater penodol ynghylch ymwybyddiaeth o fyddardod yn rhan allweddol o'n fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol. Mae llawer o'r fframwaith wedi'i lunio gan bobl anabl eu hunain ac ar dystiolaeth a ddarparwyd ganddynt. Mae mater colli defnydd o synhwyrau, sy'n amlwg yn cynnwys nam ar y clyw, yn rhan bwysig iawn o'r rhaglen honno. Os oes gennych wybodaeth benodol rydych am ei rhoi i mi, byddwn yn falch o'i chael.

### Cymunedau Cydweithredol

### Collaborative Communities

14:57 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar ei gamau i gefnogi'r sector gwirfoddol er mwyn hybu cymunedau cydweithredol? OAQ(4)0190(CTP)*

*13. Will the Minister provide an update on his actions to support the voluntary sector in order to promote collaborative communities? OAQ(4)0190(CTP)*

14:58 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I thank the Member for Llanelli for that question? Our new third sector scheme makes a long-term commitment to the sector. The Welsh Government is committed to supporting communities across Wales. I have committed £7.2 million in this financial year to support an integrated third sector infrastructure to encourage volunteering, support grass-roots organisations, and help to build resilient communities.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod dros Lanelli am y cwestiwn? Mae ein cynllun trydydd sector newydd yn gwneud ymrwymiad hirdymor i'r sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau ar draws Cymru. Rwyf wedi neilltuo £7.2 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon i gefnogi seilwaith trydydd sector integredig ar gyfer annog gwirfoddoli, cefnogi sefydliadau ar lawr gwlad a helpu i adeiladu cymunedau cadarn.

14:58 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog. Wythnos diwethaf, cynhaliwyd digwyddiad Cymunedau Cydweithredol ym Mharc y Scarlets yn Llanelli i ddathlu ei lwyddiant yn cefnogi dros 600 o asiantaethau lleol, creu dros 100 o swyddi, a chael miliynau o bunnoedd o gyllid i'r gorllewin. Gyda'r rhaglen gyfredol yn dod i ben, mae peth amser cyn y rownd cyllid nesaf. A ddylem edrych ar gau'r gap rhwng amseroedd cyllid fel bod arbenigedd staff, profiad cymunedol a momentwm yn parhau?

Thank you, Minister. Last week, a Collaborative Communities event was held in Parc y Scarlets in Llanelli to celebrate its success in supporting over 600 local agencies, creating over 100 jobs and bringing millions of pounds of funding to west Wales. With the current programme drawing to a close, there is some time until the next funding round. Should we look at closing the gap between funding rounds so that staff expertise, community experience and momentum can be maintained?

14:59 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that question. I am aware of the good work of the Collaborative Communities project. It is a £5.1 million project, with £4.1 million coming from the European Regional Development Fund. However, I have to say that continuity of funding is often a challenge. There cannot be an assumption that an organisation funded now will automatically be successful in bidding for a follow-on programme. However, I know that the Welsh European Funding Office is very keen that project sponsors discuss issues with it as soon as possible so that a way forward can be identified, and I would suggest that you pass that information on.

Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn. Rwy'n ymwybodol o waith da'r prosiect Cymunedau Cydweithredol. Mae'n brosiect gwerth £5.1 miliwn, gyda £4.1 miliwn yn dod o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud bod parhad cyllid yn aml yn her. Ni ellir rhagdybied y bydd sefydliad a ariennir yn awr yn llwyddo'n awtomatig yn ei gais ar gyfer rhaglen ddilynol. Fodd bynnag, gwn fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn awyddus iawn i noddwyr prosiectau drafod materion â hwy cyn gynted ag y bo modd fel y gellir nodi ffordd ymlaen a byddwn yn awgrymu eich bod yn trosglwyddo'r wybodaeth honno.

## Trechu Tlodi

## Tackling Poverty

14:59 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau i drechu tlodi yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0180(CTP)*

*14. Will the Minister outline his plans to tackle poverty in north east Wales? OAQ(4)0180(CTP)*

14:59 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I expect to see partners from health, local government, housing and direct Welsh Government programmes continue to work more effectively together to make progress on our shared ambition to tackle poverty. The north Wales leadership forum is an especially important and helpful body to support this work, as it includes a range of non-devolved public services.

Rwy'n disgwyl gweld partneriaid o feysydd iechyd, llywodraeth leol, tai a rhaglenni uniongyrchol Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd er mwyn datblygu'r uchelgais a rannwn i drechu tlodi. Mae fforwm arweinyddiaeth gogledd Cymru yn gorff arbennig o bwysig a defnyddiol ar gyfer cefnogi'r gwaith hwn gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus heb eu datganoli.

15:00 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, you will be aware that I have raised on several occasions the issue of rural poverty. No Communities First clusters exist in rural areas, and the Wales Rural Observatory household survey last year found that 66% of respondents in Denbighshire perceived that there was poverty in their area. Now that the Wales Rural Observatory reports have come out, will you look again at the possibility of having Communities First clusters in rural areas that will tackle rural poverty?

Ddirprwy Weinidog, byddwch yn ymwybodol fy mod wedi codi mater tlodi gwledig ar sawl achlysur. Nid oes unrhyw glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn bodoli mewn ardaloedd gwledig a chanfu arolwg cartrefi Arsyllfa Wledig Cymru y llynedd bod 66% o'r ymatebwyr yn Sir Ddinbych yn ystyried bod tlodi yn eu hardal. Gan fod adroddiadau Arsyllfa Wledig Cymru bellach wedi'u cyhoeddi, a wnewch edrych eto ar y posibilrwydd o gael clystyrau Cymunedau yn Gyntaf mewn ardaloedd gwledig er mwyn trechu tlodi gwledig?

15:00 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

First of all, it is not true to say that Communities First has no footprint and no interest in rural communities; that is just not the case. It is primarily based on urban communities because that is where the most concentrated areas of deprivation are. Communities First areas are drawn up based on objective evidence about the scale, the extent and the depth of poverty. That does not mean, however—as I said in answer to earlier questions—that we do not take rural poverty seriously. As I said in answer to earlier questions, we will use the tools available to us in the rural development plan to have a real and meaningful strategy to tackle rural poverty in Wales.

Yn gyntaf oll, nid yw'n wir dweud nad oes gan Cymunedau yn Gyntaf ôl troed na diddordeb mewn cymunedau gwledig; nid yw hynny'n wir o gwbl. Mae'n seiliedig yn bennaf mewn cymunedau trefol am mai dyna lle y mae'r ardaloedd mwyaf poblog o amddifadedd. Caiff ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf eu llunio ar sail tystiolaeth wrthrychol ynghylch graddau, maint a dyfnder tlodi. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu—fel y dywedais mewn ateb i gwestiynau cynharach—nad ydym o ddifrif ynghylch tlodi gwledig. Fel y dywedais wrth ateb cwestiynau cynharach, byddwn yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael inni yn y cynllun datblygu gwledig er mwyn cael strategaeth real ac ystyrlon ar gyfer trechu tlodi gwledig yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

### Gwirfoddolwyr yn Ynys Môn

### Volunteers in Ynys Môn

15:01 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

*15. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi gwirfoddolwyr yn Ynys Môn? OAQ(4)0176(CTP)*

*15. What steps does the Welsh Government take to support volunteers in Ynys Môn? OAQ(4)0176(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Thank you for that question. The Welsh Government is committed to supporting communities and volunteers across Wales. As I have just said, we have committed £7.2 million this financial year to support an integrated infrastructure to encourage volunteering and to support national and grass-roots organisations. That includes over £158,000 for Medrwn Môn, the county voluntary council and volunteer centre for Ynys Môn.

Diolch i chi am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau a gwirfoddolwyr ledled Cymru. Fel rwyf newydd ei ddweud, rydym wedi ymrwymo £7.2 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon ar gyfer cefnogi seilwaith integredig i annog gwirfoddoli a chefnogi sefydliadau cenedlaethol ac ar lawr gwlad. Mae hynny'n cynnwys mwy na £158,000 ar gyfer Medrwn Môn, y cyngor gwirfoddol sirol a'r ganolfan wirfoddolwyr ar gyfer Ynys Môn.

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr iawn. Un pryder a gafodd ei godi efo fi mewn sesiwn holi ac ateb efo Heneiddio'n Dda yn Amlwch yn ddiweddar oedd bod costau parcio yn achosi i rai pobl beidio â gwirfoddoli. O ystyried bod gwirfoddolwyr bellach yn cynnig mwy a mwy o wasanaethau y mae'r Llywodraeth a chynghorau yn torri yn ôl arnynt, mae'n bwysig ein bod yn annog gymaint â phosibl o bobl i wirfoddoli. O ystyried hynny, pa ystyriaeth allwch chi ei roi fel Gweinidog i gyflwyno, neu i weithio efo cynghorau i gyflwyno, cerdyn parcio i wirfoddolwyr, fel nad ydynt yn cael eu hatal rhag gwirfoddoli oherwydd y pryderon am gostau parcio?

Thank you very much. One concern that was raised with me in a question and answer session with Ageing Well in Amlwch recently was that car parking charges cause some people not to volunteer. Considering that volunteers are by now offering an increasing number of services that the Government and councils are cutting back on, it is important that we encourage as many people as possible to volunteer. Taking that into consideration, what can you as a Minister do to introduce, or collaborate with councils to introduce, a parking pass for volunteers, so that they are not hindered from volunteering because of concerns about parking charges?

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Ynys Môn for that supplementary question. I am aware of the issue of car parking charges and the impact that this might have on volunteers. If you have examples of specific incidents where this has created a reluctance to take part in volunteering, I would be very keen to have that evidence. I will certainly discuss the matter with my colleague the Minister for Local Government and Government Business to see what we can do in this regard.

Diolch i'r Aelod dros Ynys Môn am y cwestiwn atodol. Rwy'n ymwybodol o fater taliadau parcio ceir a'r effaith y gallai hyn ei chael ar wirfoddolwyr. Os oes gennych enghreifftiau o achosion penodol lle yr achosodd hyn amharodrwydd i wirfoddoli, byddwn yn awyddus iawn i gael y dystiolaeth honno. Byddaf yn sicr yn trafod y mater gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i weld beth y gallwn ei wneud yn hyn o beth.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Relate Cymru attracts volunteers from Ynys Môn and across north Wales, and provides the only opportunity through its Choose 2 Change project for non-convicted male perpetrators of domestic abuse to access programmes for change and support for their partners and families. However, funding for the post ends in August. It has written to every local authority, including Ynys Môn, seeking continued support. Could you place on record your support for this programme, and the need for perpetrator programmes such as this in north Wales?

Mae Relate Cymru yn denu gwirfoddolwyr o Ynys Môn ac ar draws Gogledd Cymru, ac yn darparu'r unig gyfle drwy ei brosiect Choose 2 Change i dramgwyddwyr gwrywaidd heb eu collfarnu o gam-drin domestig allu dilyn rhaglenni newid, a chymorth ar gyfer eu partneriaid a'u teuluoedd. Fodd bynnag, daw cyllid ar gyfer y gwaith i ben ym mis Awst. Maent wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol, gan gynnwys Ynys Môn, i geisio parhau'r cymorth. A allwch gofnodi eich cefnogaeth i'r rhaglen hon a'r angen am raglenni fel hyn i dramgwyddwyr yng ngogledd Cymru?

15:04 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I suggest that you ask it to write to me directly with its case, and I will look at it.

Rwy'n awgrymu eich bod yn gofyn i'r corff ysgrifennu ataf yn uniongyrchol yn amlinellu ei achos a byddaf yn edrych arno.

15:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

## Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

## Questions to the Counsel General

### Bil Cymru

### The Wales Bill

15:04 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael gyda Chomisiwn y Gyfraith ynglŷn â Bil Cymru? OAQ(4)0065(CG)*

*1. What discussions has the Counsel General had with the Law Commission regarding the Wales Bill? OAQ(4)0065(CG)*

15:04 **Theodore Huckle**

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon, everyone. Together with the First Minister, I met the chairman of the commission last month. We touched on the Wales Bill in the discussion.

Prynhawn da, bawb. Cefais gyfarfod â chadeirydd y comisiwn y mis diwethaf gyda'r Prif Weinidog. Rhoesom sylw i Fil Cymru yn ystod y drafodaeth.

15:04 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, the Wales Bill allows Welsh Ministers to refer issues to the Law Commission for England and Wales for advice, but does not place on them a statutory requirement to review and make recommendations as to law reform in Wales. However, having met with the Law Commission recently as part of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, it is clear that it is willing and able to take up Wales-only projects referred to it via its consultation processes. Therefore, what is the Welsh Government doing to encourage civic society and individuals in Wales to engage with those consultation processes and to encourage Wales-only projects to be brought forward?

Yn amlwg, mae Bil Cymru yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfeirio materion at Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr am gyngor ond nid oes gofyniad statudol arnynt i adolygu a gwneud argymhellion ynghylch diwygio'r gyfraith yng Nghymru. Fodd bynnag, ar ôl cyfarfod â Chomisiwn y Gyfraith yn ddiweddar fel rhan o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, mae'n amlwg ei fod yn gallu ac yn barod i ystyried prosiectau Cymru'n unig a gyfeirir ato drwy gyfrwng ei brosesau ymgynghori. Felly, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog y gymdeithas ddinesig ac unigolion yng Nghymru i ymgysylltu â'r cyfryw brosesau ymgynghori ac i annog prosiectau ar gyfer Cymru'n unig i gael eu cyflwyno?

15:05 **Theodore Huckle**

Senedd.tv Fideo Video

I am not sure that I am the right person to ask that question, actually. My involvement with the Law Commission, as you might expect, is to deal with it in relation to the legal matters as it undertakes its work. Obviously, we have done so in relation to the Wales Bill proposals. We made representations that the legislative changes should be slightly broader based than is proposed.

Nid wyf yn siŵr mai fi yw'r person iawn i ofyn y cwestiwn hwnnw iddo mewn gwirionedd. Fel y gallech ddisgwyl, ymwneud â materion cyfreithiol wrth iddo ymgymryd â'i waith y mae fy nghysylltiad â Chomisiwn y Gyfraith. Yn amlwg, rydym wedi gwneud hynny mewn perthynas â chynigion Bil Cymru. Rydym wedi cyflwyno sylwadau y dylai fod sylfaen ychydig yn ehangach i'r newidiadau deddfwriaethol na'r hyn a gynigir.

However, as we understand it, the commission is content that it will be able to operate properly in respect of Wales, given that it will now be placed under a duty to consider properly and respond to requests from Welsh Ministers to undertake projects by reference. As you have said, we know that, as things stand, there are some proposals that might be taken forward by the commission in respect of that process.

Yn ôl yr hyn a ddeallwn, fodd bynnag, mae'r comisiwn yn fodlon y gall weithredu'n briodol mewn perthynas â Chymru o gofio y bydd dyletswydd arno yn awr i ystyried yn briodol ac ymateb i geisiadau gan Weinidogion Cymru i ymgymryd â phrosiectau trwy gyfeirio. Fel y dywedasoch, fel y mae pethau, gwyddom fod rhai cynigion y gallai'r comisiwn eu symud ymlaen mewn perthynas â'r broses honno.

As to the broader question, I really do not think that that is one that I am in a position to answer.

O ran y cwestiwn ehangach, nid wyf yn meddwl wir fy mod mewn sefyllfa i'w ateb.

### Materion Sy'n Effeithio ar Gymru

### Matters Affecting Wales

15:06

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*2. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am sylwadau y mae wedi eu gwneud ar faterion sy'n effeithio ar Gymru? OAQ(4)0064(CG)*

*2. Will the Counsel General make a statement on representations he has made on matters affecting Wales? OAQ(4)0064(CG)*

15:06

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In addition to my responsibilities in providing advice and views to Welsh Ministers, I continue to maintain a dialogue with the other individuals and organisations on matters relating to my responsibilities.

Yn ogystal â fy nghyfrifoldebau o ran darparu cyngor a barn i Weinidogion Cymru, rwy'n parhau mewn trafodaeth â'r unigolion a'r sefydliadau eraill ar faterion sy'n ymwneud â fy nghyfrifoldebau.

15:06

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you and apologies for my absolutely riveting question earlier but that appears to be the only way that I can ask you a proper question, which is—[Laughter.] How seriously are the courts taking the very important matter of the conservation of fishing stocks? I refer you to a case in April when somebody who was a serial offender in the trawling of scallop beds, and who trawled over £400,000-worth of scallops just on the occasions when he had been caught, was fined just over £40,000, which is absolutely nothing compared with the amount of profit that he was able to make out of that. That was in the High Court. The magistrates' court had referred the case to the High Court precisely because he required a higher level of fine to deter others from doing such things, but, instead, it sent a message that anybody can come into Wales and destroy our fishing stocks. So, what are the courts doing to ensure that we are having the law obeyed and we are conserving our fishing stocks?

Diolch i chi ac ymddiheuriadau am fy nghwestiwn hynod o ddiddorol yn gynharach, ond ymddengys mai dyna'r unig ffordd y gallaf ofyn cwestiwn priodol i chi, sef-[Chwerthin.] Pa mor o ddifrif yw'r llysoedd ynghylch mater hynod bwysig gwarchod stociau pysgod? Rwy'n eich cyfeirio at achos ym mis Ebrill pan roddwyd ychydig dros £40,000 o ddirwy i rywun a oedd wedi troseddu fwy nag unwaith drwy dreillio gwelyau cregyn bylchog, ac a oedd wedi treillio gwerth dros £400,000 o gregyn bylchog ar yr adegau pan gafodd ei ddal yn unig. Dyma ddirwy nad oedd yn ddim byd o gwbl o'i gymharu â'r elw y gallai ei wneud. Roedd hynny yn yr Uchel Lys. Yr unig reswm y cyfeiriodd y llys ynadon yr achos i'r Uchel Lys oedd am fod angen gosod dirwy ar lefel uwch er mwyn atal eraill rhag gwneud pethau o'r fath ond yn hytrach na hynny, mae'n cyfleu'r neges y gall unrhyw un ddod i mewn i Gymru a dinistrio ein stociau pysgod. Beth y mae'r llysoedd yn ei wneud felly i sicrhau bod pobl yn ufuddhau i'r gyfraith a'n bod yn gwarchod ein stociau pysgod?

15:07

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Member will understand that, as a member of the Executive, there are some restrictions on what I may properly say about the activities of the courts. In fact, the case to which you refer was a sentencing exercise undertaken by Swansea Crown Court rather than the High Court, and you rightly identify that the total fines imposed were up to £42,000, actually. There were 28 charges to which the master of the ship pleaded guilty, relating to 14 separate occasions of illegal scallop fishing.

Fel aelod o'r Weithrediaeth, bydd yr Aelod yn deall bod rhai cyfyngiadau ar yr hyn y mae'n briodol i mi ei ddweud am weithgareddau'r llysoedd. Mewn gwirionedd, dedfryd gan Lys y Goron Abertawe yw'r achos y cyfeiriwch ato yn hytrach na'r Uchel Lys, ac rydych yn gywir i nodi mai cyfanswm y dirwyon oedd hyd at £42,000 mewn gwirionedd. Plediodd meistr y llong yn euog i 28 cyhuddiad, yn ymwneud â 14 o achlysuron pan gafodd cregyn bylchog eu pysgota'n anghyfreithlon.

From our point of view, of course, what we do via the agency officers is to investigate allegations—first, to patrol and, secondly, to investigate allegations of breach of criminal law in that respect—and then to bring the matter before the courts. Once that is done, I am afraid that we do have to leave it to the courts to deal with the matter properly. You rightly say that the magistrates' court, having accepted the pleas from the master, committed the matter to the Crown Court for sentencing on the basis that the magistrates' court's sentencing powers were insufficient. The fines imposed were in excess of the magistrates' court's sentencing powers. You also rightly point out that the total value of the shellfish involved was over £400,000. It is difficult for me to know at this stage what element of profit was involved in that sum, of course. I do not know.

O'n safbwynt ni, wrth gwrs, yr hyn rydym yn ei wneud drwy'r swyddogion asiantaeth yw ymchwilio i honiadau-yn gyntaf, patrolio ac yn ail, ymchwilio i honiadau o dorcyfraith troseddol yn hynny o beth-cyn dod â'r mater gerbron y llysoedd. Ar ôl gwneud hynny, ofnaf ein bod yn gorfod gadael i'r llysoedd ymdrin â'r mater yn briodol. Rydych yn llygad eich lle i ddweud bod y llys ynadon, ar ôl derbyn ple meistr y llong, wedi traddodi'r mater i Lys y Goron i'w ddedfrydu ar y sail bod pwerau dedfrydu'r llys ynadon yn annigonol. Roedd y dirwyon a osodwyd yn uwch na'r hyn a oedd o fewn pwerau dedfrydu'r llys ynadon. Rydych hefyd yn gywir i nodi bod cyfanswm gwerth y pysgod cregyn dan sylw yn fwy na £400,000. Mae'n anodd gwybod ar hyn o bryd faint o'r swm oedd yn elw wrth gwrs. Nid wyf yn gwybod.

In any event, I come back to the same point, which is that, having brought the matter before the court, to some extent, we do have to accept the result that we are given by the court. We do consider, however, that imposition of fines at that level is a matter of significant deterrence. It is right to say that the extent to which the fines that the court feels able to impose upon offenders reflects the amount of money involved in the taking of the fish, and will undoubtedly affect our approach in future to other remedies that may be available to us, such as, for example, under the Proceeds of Crime Act 2002.

Beth bynnag, ar ôl dod â'r mater gerbron y llys, dof yn ôl at yr un pwynt, sef bod ein bod yn gorfod derbyn y canlyniad y mae'r llys yn ei roi. Fodd bynnag, ystyriwn fod gosod dirwyon ar y lefel hon yn ataliaeth sylweddol. Mae'n iawn i ddweud bod maint y dirwyon y teimla'r llys y gall eu gosod ar droseddwyr yn adlewyrchiad o faint o arian sydd ynghlwm wrth gymryd y pysgod ac yn ddi-os, bydd yn effeithio ar ein hymagwedd at atebion eraill a allai fod ar gael i ni yn y dyfodol, er enghraifft, o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.

15:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I remind all Members that, in individual cases, we do not question the judgment of the courts. You must make your questions more general in those instances.

Rwy'n atgoffa'r holl Aelodau nad ydym yn cwestiynu barn y llysoedd mewn achosion unigol. Rhaid i chi wneud eich cwestiynau'n fwy cyffredinol yn yr achosion hynny.

15:10

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Gwnsler Cyffredinol, o ran eich ymateb i gwestiwn a ofynnais ychydig fisoedd yn ôl ynglŷn â sicrhau bod deddfwriaeth Cymru ar gael yn ein llyfrgelloedd lleol, rwyf jest am ofyn i chi a ydych chi wedi cael cyfle eto i weld a oes unrhyw rwystrau rhag sicrhau bod y gwasanaeth hwn ar gael i'r cyhoedd, gan ystyried bod cymaint o ddeddfwriaeth rŵan yn dod o flaen y Senedd ac i ddod yn y blynyddoedd nesaf.

Counsel General, in terms of your response to a question that I asked a few months ago about ensuring that Welsh legislation is available within our local libraries, I just wish to ask you whether you have yet had an opportunity to see whether there are any obstacles to ensuring that this service is available to the public, considering that so many Bills and Acts are coming before Parliament and are to come in the next few years.

15:10

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

I remember your question. I cannot now remember whether I provided any supplementary answer to it, and if I did not, I apologise. It is certainly a matter that I can have looked into, but I am afraid that I am in the same position as I would have been in the last time, which is not being able to give a direct answer as to what matters are in train in that respect.

Rwy'n cofio eich cwestiwn. Ni allaf gofio yn awr a roddais ateb atodol iddo ac os na wneuthum, rwy'n ymddiheuro. Mae'n bendant yn fater y gallaf edrych i mewn iddo ond mae arnaf ofn fy mod yn yr un sefyllfa ag y byddwn wedi bod ynddi y tro diwethaf, sef na allaf roi ateb uniongyrchol o ran pa faterion sydd ar y gweill yn hynny o beth.

The general position, however, is that, as Members know, we are very concerned to ensure that the legislation emanating from this Assembly is readily accessible by members of the public. The principal methods by which we are pursuing that matter are, first, to work with legislation.gov.uk to make sure that these matters are available online to anyone who can access them in that way, which would include, as I understand it, via public libraries, for example, and, secondly, to work with Westlaw in the provision of commentary material that will, I understand, shortly be available through the Welsh Government website.

Y sefyllfa gyffredinol, fodd bynnag, fel y gŵyr yr Aelodau, yw ein bod yn awyddus iawn i sicrhau bod y ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Cynulliad hwn yn hygyrch i aelodau o'r cyhoedd. Ein prif ddulliau o wneud hynny yw gweithio gyda legislation.gov.uk yn gyntaf i wneud yn siŵr bod y materion hyn ar gael ar-lein i unrhyw un sy'n gallu cael hyd iddynt yn y ffordd honno gan gynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus er enghraifft, yn ôl a ddeallaf, ac yn ail, gweithio gyda Westlaw i ddarparu deunydd esboniadol y deallaf y bydd ar gael yn fuan drwy wefan Llywodraeth Cymru.

### Comisiwn y Gyfraith

### The Law Commission

15:11

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*3. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cynnal gyda Chomisiwn y Gyfraith? OAQ(4)0063(CG)*

*3. What discussions has the Counsel General held with the Law Commission? OAQ(4)0063(CG)*

15:11

## Theodore Huckle

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

As I said in answer to a previous question, the First Minister and I met with the chairman of the commission last month. We touched on the Wales Bill and also the commission's forthcoming programme of law reform, details of which will, I understand, be announced shortly.

Fel y dywedais mewn ateb i gwestiwn blaenorol, cyfarfu'r Prif Weinidog a minnau â chadeirydd y comisiwn y mis diwethaf. Trafodwyd Bil Cymru gennym, ynghyd â'r rhaglen sydd i ddod gan y comisiwn ar ddiwygio'r gyfraith, y bydd ei manylion yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir.

15:12

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Gwnsler Cyffredinol. Mae'n braf iawn cael cwmni yn ystod eich cwestiynau chi y tro hwn a gobeithio y bydd hynny'n parhau. [Chwerthin.]

Thank You, Counsel General. It is good to have company in asking questions of you this time and I hope that that will continue. [Laughter.]

Wrth ymateb i Eluned Parrott, roeddech chi'n sôn am y cyfarfod a fuoch chi iddo gyda Chomisiwn y Gyfraith. A fuoch chi'n trafod gyda'r comisiwn y ffaith ei fod wedi sefydlu panel ymgynghorol ar gyfer Cymru, sydd yn fath o ddolen gyswllt rhyngddo a'r gymdeithas 'civic' ehangach? Pa rôl ydych chi'n gweld y byddech chi'n gallu ei chwarae i gefnogi'r gwaith hwnnw fel bod y gymdeithas yn ehangach yng Nghymru yn cael dweud pa ran o'r gyfraith sydd angen ei diwygio neu ei newid yn ei barn hi a bod hynny'n bwydo i mewn i chi fel rhan o'r 'Executive', fel rydych chi'n ei ddweud, fel eich bod chi wedyn yn gallu rhoi cyngor priodol o dan Fil Cymru yn uniongyrchol i Gomisiwn y Gyfraith?

In response to Eluned Parrott, you mentioned the meeting that you had with the Law Commission. Did you discuss with the commission the fact that it had established an advisory panel for Wales, which is a kind of link between the commission and the wider civic society? What role do you see that you could play in supporting that work so that wider society in Wales can have a say about what parts of the law need to be reformed or changed in its view and that that feeds into you as part of the Executive, as you say, so that you can then provide appropriate advice under the Wales Bill directly to the Law Commission?

15:12 **Theodore Huckle**

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We did not discuss that matter, although it is right to say that I have been fully apprised of those developments. In fact, I was at the original event in Aberystwyth at which establishing that panel was considered. As far as my direct involvement is concerned, although I raised the question of whether the Government should have a direct voice on that panel, everybody else—I understand the reasons why—seemed to think that it was better if the Government did not have a direct voice, because the Government would necessarily be consulted on any proposals that were raised. It was thought that it was better for the panel, as you say, to be drawn from and reflect the views of civic society more generally, for ideas to be mooted in that context and then for discussions to be had between the Law Commission and the Welsh Government as to possible legislation projects.

Ni thrafodasom y mater hwnnw, er ei bod yn iawn i ddweud fy mod wedi cael fy hysbysu'n llawn ynghylch y datblygiadau hynny. Yn wir, roeddwn yn y digwyddiad gwreiddiol yn Aberystwyth lle yr ystyriwyd sefydlu'r panel dan sylw. O ran fy ymwneud uniongyrchol, er fy mod wedi codi'r cwestiwn a ddylai'r Llywodraeth gael llais uniongyrchol ar y panel, ymddengys bod pawb arall—ac rwy'n deall y rhesymau pam—yn meddwl ei bod yn well i'r Llywodraeth beidio â chael llais uniongyrchol, gan na fyddai ymgynghori'n digwydd â'r Llywodraeth o reidrwydd ar y cynigion a gâi eu cyflwyno. Y farn oedd y byddai'n well dewis panel o blith y gymdeithas ddinesig, fel y dywedwch, ac y dylai adlewyrchu barn y gymdeithas honno yn fwy cyffredinol, er mwyn gwyntyllu syniadau yn y cyd-destun hwnnw i'w trafod wedyn rhwng Comisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru o ran prosiectau deddfwriaethol posibl.

### Achosion Cyfreithiol

### Legal Cases

15:13 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*4. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei ddyletswyddau o ran cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn achosion cyfreithiol? OAQ(4)0062(CG)*

*4. Will the Counsel General make a statement on his responsibilities in representing the Welsh Government in legal cases? OAQ(4)0062(CG)*

15:13 **Theodore Huckle**

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have responsibility for oversight of Welsh Government litigation. I have the power to bring, defend or appear in legal proceedings where I consider it is appropriate to do so to promote or protect the public interest. I have the power to refer Assembly Bills to the Supreme Court.

Gennyf fi y mae'r cyfrifoldeb am oruchwylio prosesau ymgyfreitha Llywodraeth Cymru. Mae gennyf bŵer i gyflwyno, amddiffyn neu ymddangos mewn achosion cyfreithiol lle rwy'n ystyried ei bod yn briodol imi wneud hynny er mwyn hybu neu ddiogelu lles y cyhoedd. Mae gennyf bŵer i gyfeirio Biliau'r Cynulliad i'r Goruchaf Lys.

15:14 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ar y pwynt hwnnw, rydym ni'n dal i aros am ddau benderfyniad gan y Goruchaf Lys parthed un Bil rydych chi wedi ei gyfeirio at y llys, sef Bil Mick Antoniw ynglŷn ag asbestos, a Bil mae Llywodraeth San Steffan wedi ei gyfeirio at y llys, sef y Bil Sector Amaethyddol (Cymru). A fedrwch chi roi diweddariad o gwbl i'r Cynulliad ynglŷn â lle mae'r Biliau hynny yn y broses yn y Goruchaf Lys? Pryd ydym ni'n disgwyl canlyniad y penderfyniadau hynny, achos byddwn i'n mentro i ddweud bod y penderfyniadau yng nghyd-destun y ddau Fil hynny yn bwysig i drafodaethau sydd yn digwydd nawr o ran Bil Cymru a chymhwysedd y lle hwn i ddeddfu?

On that point, we are still awaiting two decisions by the Supreme Court relating to one Bill referred by you, namely Mick Antoniw's Bill on asbestos, and a Bill referred by the Westminster Government to the court, namely the Agricultural Sector (Wales) Bill. Can you give an update to the Assembly about where those Bills are in the process in the Supreme Court? When should we expect the outcome of those decisions, because I would go as far as to say that decisions in the context of those two Bills are very important to discussions currently ongoing on the Wales Bill and the competence of this place to legislate?

15:14 **Theodore Huckle**

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The general position is that the hearing in the second of those references took place on the fourteenth and fifteenth of last month, and we await the outcome, as you say, of both hearings. It was a little to my surprise that I was told, when on my feet addressing the court in the second of the references, that a decision had been made to hold the giving of judgment in the first of those references pending the hearing of the second reference. The reasons for that are not entirely clear to me, but we await with interest the way that the Supreme Court deals with the two references separately.

Y sefyllfa gyffredinol yw bod y gwrandawiad yn yr ail o'r cyfeiriadau hynny wedi digwydd ar y pedwerydd ar ddeg a'r pymthegfed o'r mis diwethaf ac rydym yn aros am ganlyniad y ddau wrandawiad fel y soniwch. Pan oeddwn yn cyfarch y llys yn yr ail gyfeiriad, testun peth syndod i mi oedd clywed bod penderfyniad wedi'i wneud i ymatal rhag rhoi dyfarniad yn y cyfeiriad cyntaf hyd nes y cynhelid gwrandawiad yr ail gyfeiriad. Nid yw'r rhesymau am hynny yn gwbl glir i mi ond disgwyliwn yn eiddgar i weld sut y bydd y Goruchaf Lys yn ymdrin â'r ddau gyfeiriad ar wahân.

We were very pleased at the—well, it is difficult to say 'high-level' interests when one is talking about the Supreme Court because it is all at a pretty high level. However, even within the Supreme Court, there is certainly what we perceive to be high-level interest in the cases, and their status as the first purely constitutional cases being brought before that Supreme Court, because, after all, they do not involve parties and they have not gone through the process of going through a first hearing, a Court of Appeal hearing, and then getting to the Supreme Court. Therefore, they are very much viewed as constitutional cases of a unique kind, at present, in the United Kingdom. As I say, there is a great deal of interest within the court. Both the president, Lord Neuberger, and the vice president, Lady Hale, have sat on both of the last references, as has the Lord Chief Justice, Lord Thomas of Cwmgiedd. However, as to when we will get the results of those references, as you will expect, we have asked but we have not been given any date as yet.

Roeddem yn falch iawn o'r diddordeb—wel, mae'n anodd dweud 'lefel uchel' wrth sôn am y Goruchaf Lys oherwydd bod y cyfan ar lefel eithaf uchel. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y Goruchaf Lys, mae yna'n bendant yr hyn a ystyriwn yn ddiddordeb lefel uchel yn yr achosion a'u statws fel yr achosion cyfansoddiadol pur cyntaf i gael eu dwyn gerbron y Goruchaf Lys. Wedi'r cyfan, nid ydynt yn cynnwys partïon ac nid ydynt wedi mynd drwy'r broses o wrandawiad cyntaf a gwrandawiad yn y Llys Apêl cyn cyrraedd y Goruchaf Lys. Felly, cânt eu hystyried i raddau helaeth fel achosion cyfansoddiadol o fath unigryw ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig. Fel y dywedais, mae llawer iawn o ddiddordeb yn y llys. Mae'r llywydd, yr Arglwydd Neuberger, a'r is-lywydd, yr Arglwyddes Hale, wedi gwrando'r ddau gyfeiriad diwethaf, fel y gwnaeth yr Arglwydd Brif Ustus, Arglwydd Thomas o Cwmgiedd. Fodd bynnag, o ran pryd y byddwn yn cael canlyniadau'r cyfeiriadau hynny, fel y gallwch ddisgwyl, rydym wedi gofyn ond nid ydym wedi cael dyddiad eto.

15:16

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Counsel General.

Diolch i chi, Gwnsler Cyffredinol.

## Araith y Frenhines

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Elin Jones, gwelliannau 4, 5, 6, 7, 8 ac 11 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 9 a 10 yn enw Paul Davies.*

## The Queen's Speech

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Elin Jones, amendments 4, 5, 6, 7, 8 and 11 in the name of Aled Roberts, and amendments 9 and 10 in the name of Paul Davies.*

15:16

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on a member of the Business Committee to move the motion.

Rwy'n galw ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5522 Rosemary Butler

Motion NDM5522 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2014/2015.

Notes the content of the UK Government's legislative programme 2014/2015.

15:16

### Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

15:16

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am delighted to welcome the Right Honourable David Jones to the Senedd this afternoon. I now invite the Secretary of State for Wales to address us.

Rwy'n falch iawn o groesawu'r Gwir Anrhydeddus David Jones i'r Senedd y prynhawn yma. Rwy'n awr yn gwahodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'n hannerch.

15:16

### David Jones

*Ysgrifennydd Gwladol Cymru / The Secretary of State for Wales*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddechrau drwy ddweud cymaint o bleser yw hi i fod yma heddiw i drafod pedwaredd raglen seneddol y Llywodraeth.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I wish to start by saying what a pleasure it is to be here today to discuss the Government's fourth legislative programme.

May I say what a pleasure it is to be here today to debate the Government's fourth legislative programme? When I last came here, just over a year ago, I made it clear how committed I am to working closely with the Welsh Government, with this Assembly, and with Welsh business to bring to Wales the infrastructure investment, the jobs and the growth that are part of our long-term economic plan. Over the past year, that co-operation, I believe, has delivered real results. Work is progressing on Wylfa Newydd in Anglesey; we have confirmed a £212 million investment in the new prison in Wrexham; and today's labour market figures confirm that there are 10,000 more people in work in Wales today than there were a year ago.

A gaf fi ddweud cymaint o bleser yw cael bod yma heddiw i drafod pedwaredd raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth? Pan ddeuthum yma ddiwethaf ychydig dros flwyddyn yn ôl, gwneuthum yn eglur pa mor ymrwymedig rwyf fi i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, gyda'r Cynulliad hwn a gyda busnesau Cymru i ddod â'r buddsoddiadau seilwaith, y swyddi a'r twf sy'n rhan o'n cynllun economaidd hirdymor i Gymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, credaf fod y cydweithrediad hwn wedi sicrhau canlyniadau go iawn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Wylfa Newydd ar Ynys Môn; rydym wedi cadarnhau buddsoddiad o £212 miliwn yn y carchar newydd yn Wrecsam; ac mae ffigurau'r farchnad lafur heddiw yn cadarnhau bod 10,000 yn fwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru heddiw nag a oedd flwyddyn yn ôl.

As this will be the last Secretary of State's address to this Assembly in this Parliament, I want to begin by reflecting on what this Government has delivered for Wales since we took office. We have delivered all of the commitments in our programme for government specific to Wales, including enabling the 2011 referendum on primary law-making powers for this Assembly—and, since then, 14 Acts of the Assembly have received Royal Assent—and establishing the Silk commission, which has now fulfilled its remit. I would like to place on record, once again, my thanks to Paul Silk and his commissioners for their diligence and hard work. We are, of course, presently legislating to implement the commission's first set of recommendations.

Gan mai dyma anerchiad olaf yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad yn nhymor y Senedd hon, rwyf am ddechrau drwy ystyried yr hyn y mae'r Llywodraeth hon wedi'i ddarparu ar gyfer Cymru ers i ni ddod i rym. Rydym wedi cyflawni pob un o'r ymrwymiadau yn ein rhaglen lywodraethu sy'n benodol i Gymru, gan gynnwys galluogi refferendwm 2011 ar bwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad hwn—ac ers hynny, mae 14 o Ddeddfau'r Cynulliad wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol—a sefydlu comisiwn Silk sydd bellach wedi cyflawni ei gylch gwaith. Hoffwn gofnodi fy niolch unwaith eto i Paul Silk a'i gomisiynwyr am eu diwydrwydd a'u gwaith caled. Ar hyn o bryd wrth gwrs, rydym yn deddfu ar gyfer gweithredu'r set gyntaf o argymhellion y comisiwn.

We have also agreed with the Welsh Government a process to address any future convergence in funding levels between Wales and England. These commitments demonstrate the Government's commitment to devolution and to making devolution work well, but they are only a part of the story. By raising personal allowances, we are cutting income tax for over 1.2 million people in Wales, which is worth up to £805 per person a year by the end of this Parliament. By April next year, we will have taken 155,000 people out of tax altogether. We have cancelled the fuel duty rises planned by the last Government, including the one planned for September this year, so that fuel is now 20p per litre cheaper for the owners of the 1.75 million vehicles in Wales than it would otherwise have been.

Gyda Llywodraeth Cymru, rydym hefyd wedi cytuno ar broses i fynd i'r afael ag unrhyw gydgyfeirio yn y lefelau ariannu rhwng Cymru a Lloegr yn y dyfodol. Mae'r ymrwymiadau hyn yn dangos ymroddiad y Llywodraeth i ddatganoli ac i wneud i ddatganoli weithio'n dda, ond dim ond rhan o'r stori yw hyn. Drwy godi lwfansau personol, rydym yn gostwng y dreth incwm i dros 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru, sy'n werth hyd at £805 y person y flwyddyn erbyn diwedd y Senedd hon. Erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf, byddwn wedi eithrio 155,000 o bobl rhag talu treth. Rydym wedi canslo'r dreth ar danwydd a gynlluniwyd gan y Llywodraeth ddiwethaf, gan gynnwys yr un a fwriadwyd ar gyfer mis Medi eleni, fel bod tanwydd yn awr 20c y litr yn rhatach i berchnogion y 1.75 miliwn o gerbydau yng Nghymru nag y byddai wedi bod fel arall.

We commenced delivery of our long-term economic plan back in 2010, and we have stuck to it—a plan that is delivering jobs, investment and economic growth. It is a plan that has replaced the debt-fuelled false prosperity of the last Government with sustainable growth, driven by the private sector, so that there are now more people in work in Wales than ever before. This, Deputy Presiding Officer, is a Government that has delivered for Wales and which, through our ambitious fourth legislative programme, outlined in the Queen's Speech, continues to deliver for Wales.

Dechreuasom gyflwyno ein cynllun economaidd hirdymor yn ôl yn 2010 ac rydym wedi cadw ato—cynllun sy'n darparu swyddi, buddsoddiadau a thwf economaidd. Mae'n gynllun sydd wedi sicrhau twf cynaliadwy wedi'i ysgogi gan y sector preifat yn lle ffyniant ffug seiliedig ar ddyled y Llywodraeth ddiwethaf, fel bod mwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru nag erioed o'r blaen. Ddirprwy Lywydd, dyma Lywodraeth sydd wedi cyflawni dros Gymru ac sydd, drwy ein pedwaredd raglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol a amlinellwyd yn Araith y Frenhines, yn parhau i gyflawni dros Gymru.

This programme will continue the process of building a stronger economy. We will strengthen the economy by giving small firms better access to finance, cutting more red tape, helping business to expand overseas and boosting investment in infrastructure. The small business enterprise and employment Bill will help the 193,000 small firms in Wales by making it easier for them to obtain finance. It will provide fair access to the £230 billion spent in the UK each year in the form of public procurement contracts and increase the availability and sources of finance for businesses that want to invest. It will also set deregulation targets to reduce the red tape that continues to inhibit small business growth.

Bydd y rhaglen yn parhau'r broses o adeiladu economi gryfach. Byddwn yn cryfhau'r economi drwy sicrhau bod cwmnïau bach yn gallu dod o hyd i gyllid yn haws, cael gwared ar fwy o fiwrocratiaeth, helpu busnesau i ehangu dramor a hybu buddsoddi mewn seilwaith. Bydd y Bil busnesau bach, menter a chyflogaeth yn helpu'r 193,000 o gwmnïau bach yng Nghymru drwy ei gwneud yn haws iddynt gael cyllid. Bydd yn darparu mynediad teg i'r £230 biliwn a werir yn y DU bob blwyddyn ar ffurf contractau caffael cyhoeddus ac yn cynyddu argaeledd a ffynonellau cyllid i fusnesau sydd eisiau buddsoddi. Bydd hefyd yn gosod targedau dadreoleiddio er mwyn lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n parhau i lesteirio twf busnesau bach.

The private sector in Wales has already created 93,000 new jobs over the past four years, but we recognise that there is still more that we can do to reduce the barriers that constrain the abilities of businesses to start up, innovate and grow. To provide further help to businesses and their employees, we will simplify the payment of national insurance for self-employed people through the national insurance contribution Bill, and clamp down on those who avoid making payments on behalf of their workers. Through the Infrastructure Bill, we will increase investment in infrastructure and enhance the United Kingdom's energy security and independence. Subject to consultation, this Bill will support the development of gas and oil from shale, and geothermal energy, potentially delivering the equivalent of up to 4 billion barrels of oil over the next 20 years. It will also introduce the right for communities to be offered the chance to buy a stake in new commercially renewable schemes.

Mae'r sector preifat yng Nghymru eisoes wedi creu 93,000 o swyddi newydd dros y pedair blynedd diwethaf ond rydym yn cydnabod bod llawer mwy y gallwn ei wneud i leihau'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar allu busnesau i sefydlu, arloesi a thyfu. Er mwyn darparu cymorth pellach i fusnesau a'u gweithwyr, byddwn yn symleiddio'r broses o dalu yswiriant gwladol ar gyfer pobl hunangyflogedig drwy'r Bil cyfraniadau yswiriant gwladol ac yn mynd i'r afael â'r rheini sy'n osgoi gwneud taliadau ar ran eu gweithwyr. Drwy'r Bil Seilwaith, byddwn yn cynyddu buddsoddiad yn y seilwaith ac yn gwella'r gwaith o ddiogelu ffynonellau ynni'r Deyrnas Unedig a'u hannibyniaeth. Yn amodol ar ymgynghoriad, bydd y Bil yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu nwy ac olew o siâl ac ynni geothermol, gan gyflenwi'r hyn sy'n cyfateb o bosibl i hyd at 4 biliwn casgen o olew dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd hefyd yn cyflwyno'r hawl i gymunedau gael cyfle i brynu cyfrannau mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy masnachol newydd.

A key priority for the Government will be to reward those who work hard. The pensions tax Bill will give much greater choice and flexibility to people at the point of retirement to decide how they spend or invest their pension savings. The private pensions Bill will introduce innovation into the private pensions market, giving people saving for retirement the choice of joining collective schemes that pool risks between members. By 2037, fully a quarter of the population of Wales will be over 65, some 290,000 more people than now, and it is right that they should have as much choice as possible in how they save for retirement and how they access the benefits that they have saved.

Un flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth fydd gwobrwyo'r rheini sy'n gweithio'n galed. Bydd y Bil treth pensiynau'n rhoi llawer mwy o ddewis a hyblygrwydd i bobl pan fyddant yn ymddeol i benderfynu sut y maent yn gwario neu'n buddsoddi eu cynilion pensiwn. Bydd y Bil pensiynau preifat yn creu arloesedd yn y farchnad bensiynau preifat, gan roi dewis i bobl sy'n cynilo ar gyfer ymddeol pa un a ydynt am ymuno â chynlluniau cyfunol sy'n cyfuno risgiau rhwng aelodau. Erbyn 2037, bydd chwarter poblogaeth Cymru dros 65 oed, tua 290,000 yn fwy o bobl nag yn awr, ac mae'n iawn iddynt gael cymaint o ddewis â phosibl o ran sut i gynilo ar gyfer ymddeol a sut i gael gafael ar y buddion a gynilwyd ganddynt.

We are also continuing our work to build a fairer and safer society. We will bring forward a Childcare Payments Bill to help working families with childcare costs by giving support equivalent to basic relief up to a maximum of £2,000 per annum for each child. The Serious Crime Bill will give law enforcement agencies more powers to deal with serious and organised crime and to ensure that those who commit serious crimes do not profit from those crimes. The Bill will also strengthen the protection of children by making it explicit that the offence of child cruelty includes cruelty that causes psychological harm. I would like at this point to commend the work of my honourable friend the Member for Ceredigion, who has campaigned for this and is showing such strong support to the coalition Government. [Laughter.]

Rydym hefyd yn parhau â'n gwaith ar adeiladu cymdeithas decach a mwy diogel. Byddwn yn cyflwyno Bil Taliadau Gofal Plant i helpu teuluoedd sy'n gweithio i dalu am gostau gofal plant drwy roi cymorth sy'n cyfateb i ostyngiad sylfaenol hyd at uchafswm o £2,000 y flwyddyn ar gyfer pob plentyn. Bydd y Bil Troseddau Difrifol yn cynnig mwy o bwerau i asiantaethau gorfodi'r gyfraith allu ymdrin â throseddau difrifol a threfnedig a sicrhau nad yw pobl sy'n cyflawni troseddau difrifol yn elwa o'r troseddau hynny. Bydd y Bil hefyd yn cryfhau trefniadau amddiffyn plant drwy ei gwneud yn glir fod troseddau creulondeb i blant yn cynnwys creulondeb sy'n achosi niwed seicolegol. Yn y fan hon, hoffwn ganmol gwaith fy nghyfaill anrhydeddus, yr Aelod dros Geredigion, sydd wedi ymgyrchu dros hyn ac sy'n dangos y fath gefnogaeth gref i Lywodraeth y glymblaid. [Chwerthin.]

The Armed Forces (Service Complaints and Financial Assistance) Bill will reaffirm and strengthen the complaints system in our armed forces and will ensure that we are able to provide more assistance to the charities and benevolent organisations that give so much vital support to personnel in our armed forces. I am glad to see, by the way, that the honourable Members here take such an interest in the wellbeing of our armed forces.

Bydd Bil y Lluoedd Arfog (Cwyno am y Lluoedd Arfog a Chymorth Ariannol) yn cadarnhau ac yn cryfhau system gwyno'r lluoedd arfog a bydd yn sicrhau ein bod yn gallu darparu mwy o gymorth i'r elusennau a'r sefydliadau llesiannol sy'n rhoi cymaint o gefnogaeth hanfodol i bersonél ein lluoedd arfog. Gyda llaw, rwy'n falch o weld bod yr Aelodau anrhydeddus yma yn cymryd y fath ddiddordeb yn lles ein lluoedd arfog.

The Modern Slavery Bill will strengthen the law to prevent slavery and human trafficking, and to improve support for victims of such crimes. The Bill will create an anti-slavery commissioner to ensure a more co-ordinated response to law enforcement. Of course, Wales has its own anti-slavery co-ordinator. We commend the creation of that office and we are now working with the Welsh Government to explore how the provisions of this Bill will connect with that important role.

Bydd y Bil Caethwasiaeth Fodern yn cryfhau'r gyfraith er mwyn atal caethwasiaeth a masnachu pobl ac yn gwella'r gefnogaeth i ddioddefwyr troseddau o'r fath. Bydd y Bil yn creu comisiynydd gwrthgaethwasiaeth i sicrhau ymateb mwy cydgysylltiedig o ran gorfodi'r gyfraith. Wrth gwrs, mae gan Gymru ei gydgysylltydd gwrthgaethwasiaeth ei hun. Rydym yn cymeradwyo'r penderfyniad i greu'r swydd honno ac rydym yn awr yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio sut y bydd darparu'r Bil yn cysylltu â'r rôl bwysig honno.

The social action, responsibility and heroism Bill will ensure that the 1 million people in Wales who volunteer their time to help others and those who provide help in emergencies, such as the floods that affected communities across the north Wales coast last winter, are better protected in the event of legal action if anything goes wrong.

Bydd y Bil gwroldeb, cyfrifoldeb a gweithredu cymdeithasol yn sicrhau bod miliwn o bobl yng Nghymru sy'n rhoi eu hamser yn wirfoddol i helpu eraill a'r rhai sy'n darparu cymorth mewn argyfwng, megis y llifogydd a effeithiodd ar gymunedau ar draws arfordir gogledd Cymru y gaeaf diwethaf, yn cael eu hamddiffyn yn well mewn achosion cyfreithiol os oes unrhyw beth yn mynd o'i le.

Through the recall of Members of Parliament Bill, we are introducing a mechanism by which MPs can be recalled in the event of serious wrongdoing. While it is intended that this Bill will apply only to Members of Parliament, I have written to the Presiding Officer here, asking for her views on whether a recall mechanism would be appropriate for Members of the Assembly. My colleague, the Secretary of State for Scotland, has written in similar terms to the Scottish Parliament, and the responses that we receive will help to inform our approach to recall in the context of the devolved legislatures.

Drwy'r Bil galw Aelodau Seneddol yn ôl, rydym yn cyflwyno trefniadau ar gyfer galw Aelodau Seneddol yn ôl mewn achosion o ddrwgweithredu difrifol. Er mai ar gyfer Aelodau Seneddol yn unig y bwriedir y Bil, rwyf wedi ysgrifennu at y Llywydd yma yn gofyn am ei barn ynglŷn ag a fyddai trefn ar gyfer galw yn ôl yn addas ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Mae fy nghydweithiwr, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, wedi ysgrifennu mewn modd tebyg at Senedd yr Alban a bydd yr ymatebion a dderbyniwn yn helpu i lywio ein dull o alw'n ôl yng nghyd-destun y deddfwrfeydd datganoledig.

Finally, the Wales Bill will continue its parliamentary passage in the new session, delivering more powers over taxation and borrowing to this Assembly and Welsh Ministers, and giving the Assembly the competence to determine its own budgetary procedures. I feel sure that you will welcome these powers and I have no doubt that you will exercise them wisely to encourage more growth and prosperity in the Welsh economy. Many of the Bills in the programme also have implications for Wales, and my office is working with other Whitehall departments to ensure that Welsh interests are fully taken into account as the legislation is developed. Deputy Presiding Officer, we are a Government that is committed to ensuring that devolution works, and we fully engage with the Welsh Government on those Bills that touch on devolved matters. Wherever legislative consent motions may be needed, we will work with the Welsh Government to ensure its support.

Yn olaf, bydd Bil Cymru yn parhau ei daith seneddol yn y sesiwn newydd, gan ddarparu mwy o bwerau trethu a benthyca i'r Cynulliad hwn a Gweinidogion Cymru a chan roi'r cymhwysedd i'r Cynulliad benderfynu ar ei weithdrefnau cyllidebol ei hun. Rwy'n siŵr y byddwch yn croesawu'r pwerau hyn ac nid oes gennyf amheuaeth y byddwch yn eu defnyddio'n ddoeth er mwyn annog mwy o dwf a ffyniant yn economi Cymru. Mae llawer o'r Biliau yn y rhaglen yn cynnwys goblygiadau i Gymru hefyd ac mae fy swyddfa'n gweithio gydag adrannau eraill Whitehall i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei datblygu. Ddirprwy Lywydd, rydym yn Llywodraeth sydd wedi ymrwymo i sicrhau bod datganoli'n gweithio ac rydym yn ymgysylltu'n llawn â Llywodraeth Cymru ar y Biliau hynny sy'n ymwneud â materion datganoledig. Lle bynnag y gallai fod angen cynigion cydsyniad deddfwriaethol, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei chefnogaeth.

The Government's legislative programme builds on the work that we have done since 2010 to deliver our long-term plan to build a stronger economy and a fairer society. It is a programme that will benefit people in Wales as it will benefit people right across the United Kingdom. It will help to strengthen our union and clearly shows the benefits that we all derive from being part of a strong and united kingdom. It will continue, Deputy Presiding Officer, the momentum of sustainable economic growth that we have seen over the last year, driven by a resurgent private sector. This is a legislative programme that delivers for Wales and the whole of the United Kingdom and I commend it to you today. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Mae rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn adeiladu ar y gwaith a wnaethom ers 2010 ar gyflawni ein cynllun hirdymor i adeiladu economi gryfach a chymdeithas decach. Mae'n rhaglen a fydd o fudd i bobl yng Nghymru gan y bydd o fudd i bobl ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd yn helpu i gryfhau ein hundeb ac yn dangos yn glir y manteision inni oll o fod yn rhan o deyrnas unedig a chref. Ddirprwy Lywydd, bydd yn parhau momentwm y twf economaidd cynaliadwy rydym wedi'i weld dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi'i ysgogi gan sector preifat sydd ar gynnydd. Mae hon yn rhaglen ddeddfwriaethol sy'n cyflawni dros Gymru a'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd ac fe'i cymeradwyaf i chi heddiw. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

15:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Secretary of State. I now call on the Minister for Local Government and Government Business, Lesley Griffiths.

Diolch i chi, Ysgrifennydd Gwladol. Galwaf yn awr ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths.

15:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

On behalf of the Welsh Government, I welcome you, Secretary of State for Wales, to the Assembly today and thank you for your opening speech, setting out the UK Government's legislative programme for the fourth and final session of the current parliament. We have made an initial assessment of the UK Government's legislative programme and its impact on Wales, based on the information that we have to date. I have written to the Presiding Officer, outlining this assessment, and I know that this has been made available to Members. We will continue to liaise with the UK Government over the coming months to find out as much as we can about the potential impacts of the proposed legislation and to ensure that Welsh interests are protected as much as possible. We will also be continuing to monitor the carry-over Bills from the last parliamentary session, the most significant of which is the Wales Bill.

Ar ran Llywodraeth Cymru, rwy'n eich croesawu chi, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i'r Cynulliad heddiw a diolch i chi am eich araith agoriadol yn nodi rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y bedwaredd sesiwn a sesiwn olaf y senedd gyfredol. Rydym wedi gwneud asesiad cychwynnol o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a'i heffaith ar Gymru yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd gennym hyd yn hyn. Rwyf wedi ysgrifennu at y Llywydd yn amlinellu'r asesiad a gwn ei fod ar gael i'r Aelodau. Byddwn yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU yn ystod y misoedd nesaf i ddarganfod cymaint ag y gallwn am effeithiau posibl y ddeddfwriaeth arfaethedig ac i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu gymaint ag y bo modd. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro'r Biliau a ddygwyd ymlaen o'r sesiwn seneddol ddiwethaf, a'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw Bil Cymru.

Of course, we are delighted to see that the UK Government is attempting to keep up with Wales on both environmental sustainability and tackling modern slavery. Imitation is, after all, the sincerest form of flattery. Here in Wales, we were the first of the UK nations to introduce a charge on single-use carrier bags. It is not every day that a Government is praised for introducing a charge on an everyday item. However, the charge on single-use carrier bags, which we introduced in October 2011, has won the support of both retailers and consumers. Importantly, we have substantially reduced the number of single-use carrier bags given away each year by retailers by up to 96%. This initiative has successfully encouraged wider behavioural change, where consumers now reuse their bags and do not really think twice about it. Our carrier bag charge was hailed as an exemplar by the parliamentary Environmental Audit Committee. We are very pleased to see that the UK Government is now considering following our progressive lead by introducing a similar scheme.

Wrth gwrs, rydym yn falch iawn o weld bod Llywodraeth y DU yn ceisio dal i fyny â Chymru ar fater cynaliadwyedd amgylcheddol a threchu caethwasiaeth fodern. Wedi'r cyfan, dynwared yw'r ffurf fwyaf didwyll ar weniaith. Yma yng Nghymru, ni oedd y cyntaf o blith gwledydd y DU i gyflwyno tâl am fagiau siopa untro. Nid bob dydd y caiff Llywodraeth ei chanmol am gyflwyno tâl am eitem bob dydd. Fodd bynnag, mae'r tâl am fagiau siopa untro, a gyflwynwyd gennym ym mis Hydref 2011, wedi denu cefnogaeth manwerthwyr a defnyddwyr fel ei gilydd. Yn bwysicach na dim, rydym wedi lleihau'n sylweddol—hyd at 96%—ar nifer y bagiau untro y bydd manwerthwyr yn eu rhoi allan. Mae'r fenter hon wedi llwyddo i ysgogi newid ymddygiad ehangach, a defnyddwyr yn awr yn ailddefnyddio'u bagiau heb feddwl ddwywaith am y peth mewn gwirionedd. Canmolodd y Pwyllgor Archwilio ein tâl am fagiau siopa untro fel patrwm i'w efelychu. Rydym yn falch iawn o weld bod Llywodraeth y DU bellach yn ystyried dilyn ein hesiampl flaengar drwy gyflwyno cynllun tebyg.

As you will know, Secretary of State, the Welsh Government is already doing considerable work in the sphere of tackling slavery, therefore we welcome the UK Government's plans to introduce its Modern Slavery Bill. We hope that the measure contained in your Bill will help us to build on the excellent work that we have already achieved in Wales over recent years. Indeed, the Welsh Government has been leading the way in the UK on tackling slavery. I am proud that Wales is the first country in the UK to appoint an anti-slavery co-ordinator, who works closely with a range of different organisations to raise awareness and co-ordinate joint activities to tackle slavery. I firmly believe that the only way that we will make Wales hostile to slavery is to have a multi-agency approach.

Fel y gwyddoch, Ysgrifennydd Gwladol, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gwneud gwaith sylweddol ym maes trechu caethwasiaeth, felly rydym yn croesawu cynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno ei Bil Caethwasiaeth Fodern. Rydym yn gobeithio y bydd y mesur a gynhwysir yn eich Bil yn ein helpu i adeiladu ar y gwaith rhagorol rydym eisoes wedi'i gyflawni yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain y ffordd yn y DU ar drechu caethwasiaeth. Rwy'n falch mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i benodi cydgysylltydd gwrthgaethwasiaeth sy'n gweithio'n agos gydag amrywiaeth o wahanol sefydliadau i godi ymwybyddiaeth a chydgysylltu gweithgareddau ar y cyd i fynd i'r afael â chaethwasiaeth. Rwy'n credu'n gryf mai'r unig ffordd o sicrhau bod Cymru yn elyniaethus tuag at gaethwasiaeth yw drwy ymagwedd amlasiantaethol.

Our significant achievements to date include developing a survivor care pathway to ensure consistency of support to survivors across Wales, rolling out approved awareness training programmes and achieving all-Wales coverage of our regional anti-slavery fora. We will monitor the progress of the Modern Slavery Bill and, in particular, we will consider the impact of the proposed anti-slavery commissioner to ensure that the role supports the work of our own co-ordinator.

Mae ein cyflawniadau sylweddol hyd yn hyn yn cynnwys datblygu llwybr gofal i oroeswyr er mwyn sicrhau cymorth cyson i oroeswyr ledled Cymru, gan gyflwyno rhaglenni hyfforddiant ymwybyddiaeth cymeradwy a sicrhau sylw ar draws Cymru gyfan i'n fforymau gwrthgaethwasiaeth rhanbarthol. Byddwn yn monitro cynnydd y Bil Caethwasiaeth Fodern ac yn benodol, byddwn yn ystyried effaith y comisiynydd gwrthgaethwasiaeth arfaethedig er mwyn sicrhau bod y rôl yn cefnogi gwaith ein cydgysylltydd ein hunain.

Turning to today's amendments, we have 11 amendments tabled to the motion and I will briefly give the Welsh Government's view on each one.

Gan droi at welliannau heddiw, cyflwynwyd 11 o welliannau i'r cynnig a byddaf yn rhoi barn Llywodraeth Cymru yn gryno ar bob un.

We support amendment 1, as we support in full the Silk commission's recommendations. We are, therefore, disappointed that Wales will not be able to independently vary the different rates of income tax.

Rydym yn cefnogi gwelliant 1, gan ein bod yn cefnogi argymhellion comisiwn Silk yn llawn. Rydym yn siomedig felly na fydd Cymru yn gallu amrywio gwahanol gyfraddau'r dreth incwm yn annibynnol.

We are abstaining on amendment 2. While we want progress on the Silk 2 recommendations, we have also made clear that we support the timetable in the Silk commission report, which involves a new Wales Bill in the next Parliament.

Rydym yn ymatal ar welliant 2. Er ein bod am weld cynnydd ar argymhellion Silk 2, rydym hefyd wedi gwneud yn glir ein bod yn cefnogi'r amserlen yn adroddiad comisiwn Silk sy'n cynnwys Bil Cymru newydd yn y Senedd nesaf.

We support amendment 3. We do not think that the UK Government's legislative programme does enough to address issues of economic insecurity and access to finance for business.

Rydym yn cefnogi gwelliant 3. Nid ydym yn credu bod rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn gwneud digon i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansicrwydd economaidd a mynediad at gyllid ar gyfer busnesau.

We oppose amendment 4. We cannot confirm our view on such a wide statement when we have not yet seen the full content of the programme. However, we know already that there are aspects of some of the Bills that cause concern and where we are not convinced they apply fairly across society.

Rydym yn gwrthwynebu gwelliant 4. Ni allwn gadarnhau ein barn ar ddatganiad mor eang pan nad ydym wedi gweld cynnwys y rhaglen yn llawn eto. Fodd bynnag, gwyddom eisoes fod agweddau ar rai o'r Biliau sy'n achosi pryder a lle nad ydym yn argyhoeddedig eu bod yr un mor deg ar draws y gymdeithas.

We oppose amendment 5. We have significant concerns about the fairness of the programme when looking at the benefits for those on high incomes compared to those on lower wages. This is non-devolved policy, of course, but we are working with the UK Government to make sure that the eligibility rules do not inadvertently disadvantage Welsh families.

Rydym yn gwrthwynebu gwelliant 5. Mae gennym bryderon sylweddol ynghylch tegwch y rhaglen wrth edrych ar y manteision ar gyfer pobl ar incwm uchel o'u cymharu â phobl ar gyflogau is. Mae hwn yn bolisi sydd heb ei ddatganoli wrth gwrs, ond rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr nad yw'r rheolau cymhwysedd yn anfwriadol yn gosod teuluoedd Cymru dan anfantais.

We support amendment 6. The new provision in the Serious Crime Bill will complement existing guidance in Wales, which already includes a definition of emotional abuse, on which agencies and professionals act to inform decisions about child welfare and protection.

Rydym yn cefnogi gwelliant 6. Bydd y ddarpariaeth newydd yn y Bil Troseddau Difrifol yn ategu canllawiau presennol yng Nghymru sydd eisoes yn cynnwys diffiniad o gam-drin emosiynol y mae asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn gweithredu arno er mwyn llywio penderfyniadau ynglŷn â lles ac amddiffyn plant.

We oppose amendment 7. This is a non-devolved matter and the private pensions Bill has not yet been introduced to Parliament. So, we are not yet in a position to assess its full implications.

Rydym yn gwrthwynebu gwelliant 7. Mae hwn yn fater sydd heb ei ddatganoli ac nid yw'r Bil pensiynau preifat wedi'i gyflwyno i'r Senedd eto. Felly nid ydym mewn sefyllfa eto i allu asesu ei oblygiadau llawn.

We oppose amendment 8. Decisions on national parks governance in England are not a matter for us. The governance review announced by the Minister for Culture and Sport will consider whether there is a need to improve accountability of national parks authorities and, if so, how to achieve that. It is not appropriate for us to pre-empt what the review panel might say.

Gwrthwynebwn welliant 8. Nid yw penderfyniadau ar lywodraethu parciau cenedlaethol yn Lloegr yn fater i ni. Bydd yr adolygiad llywodraethu a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn ystyried a oes angen gwella atebolrwydd awdurdodau parciau cenedlaethol ac os felly, sut y dylid cyflawni hynny. Nid yw'n briodol inni ragdybied yr hyn y gallai'r panel adolygu ei ddweud.

We oppose amendment 9. The UK Government's original targets for deficit and debt reduction, which it set out in 2010, have all been missed. It is expecting to borrow nearly £180 billion more over the five-year period between 2010-11 and 2015-16 than it initially planned. We have seen severe cuts to the budget for public spending in Wales. The Welsh Government budget will be down 10% in real terms over the same five-year period and there have also been cuts in non-devolved areas, such as the bedroom tax. We have the worst of both worlds: deficits higher than planned and spending cuts just as bad as we feared. The UK Government's legislative plans will not change this. So, it is wrong to claim that it will improve the financial wellbeing of the UK.

Rydym yn gwrthwynebu gwelliant 9. Ni chyrhaeddwyd yr un o dargedau gwreiddiol Llywodraeth y DU ar gyfer lleihau diffyg a dyled a osodwyd ganddi yn 2010. Mae'n disgwyl cael benthyg bron i £180 biliwn yn fwy dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2010-11 a 2015-16 nag a fwriadodd yn wreiddiol. Rydym wedi gweld toriadau difrifol i'r gyllideb ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Bydd cyllideb Llywodraeth Cymru i lawr 10% mewn termau real dros yr un cyfnod o bum mlynedd a chafwyd toriadau hefyd mewn meysydd heb eu datganoli, megis y dreth ystafell wely. Rydym yn cael y gwaethaf o'r ddau fyd: diffyg uwch nag a gynlluniwyd a thoriadau gwariant yr un mor ddrwg ag yr ofnem. Ni fydd cynlluniau deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn newid hyn. Felly, nid yw'n gywir honni y bydd yn gwella lles ariannol y DU.

We oppose amendment 10. This is a wide and vague statement. I cannot see how it can be justified on the basis of what we know about the content of the Queen's Speech. It is too soon to fully evaluate the Bills and their likely impact on Wales. However, we will work with the UK Government wherever we have the chance to ensure the best possible outcome for Wales from the legislative programme.

Gwrthwynebwn welliant 10. Mae hwn yn ddatganiad cyffredinol ac amwys. Ni allaf weld sut y gellir ei gyfiawnhau ar sail yr hyn a wyddom am gynnwys Araith y Frenhines. Mae'n rhy fuan i werthuso'r Biliau a'u heffaith debygol ar Gymru yn llawn. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU lle bynnag y bydd cyfle er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i Gymru o'r rhaglen ddeddfwriaethol.

Finally, we support amendment 11. While this is not a legislative proposal, we welcome the UK Government's plans to increase the personal allowance, as it will benefit those on low and middle-ranging incomes.

Yn olaf, rydym yn cefnogi gwelliant 11. Er nad yw'n gynnig deddfwriaethol, rydym yn croesawu cynlluniau Llywodraeth y DU i gynyddu'r lwfans personol gan y bydd o fudd i bobl ar incwm isel a chanolig.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, I would like to say to the Secretary of State that many people across the length and breadth of Wales will be deeply disappointed that your Government has not faced facts and introduced a Bill to repeal your deeply unpopular bedroom tax policy. [Interruption.] You had the opportunity but, sadly, you failed thousands of Welsh people by not acting. There is so much that you could learn from what we do here in Wales that would benefit the rest of the UK. In our housing Bill, a policy area that has drawn much mischievous and unwarranted criticism from one or two of your colleagues lately—[Interruption.]

I gloi, Ddirprwy Lywydd, hoffwn ddweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol y bydd llawer o bobl ar hyd a lled Cymru yn siomedig iawn nad yw eich Llywodraeth wedi wynebu ffeithiau a chyflwyno Bil i ddiddymu eich polisi treth ystafell wely amhoblogaidd iawn. [Torri ar draws.] Cawsoch y cyfle, ond yn anffodus, rydych wedi gwneud cam â miloedd o bobl Cymru trwy beidio â gweithredu. Mae cymaint y gallech ei ddysgu oddi wrth yr hyn a wnawn yma yng Nghymru a fyddai o fudd i weddill y DU. Yn ein Bil tai, maes polisi sydd wedi denu llawer o feirniadaeth gyfeiliornus ac anhaeddiannol gan un neu ddau o'ch cydweithwyr yn ddiweddar—[Torri ar draws.]

15:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order. Order. I can hear barracking on both sides, which is curious, given that the Labour Minister is speaking. However, I do require everyone to calm down, and hear the speeches.

Trefn. Trefn. Gallaf glywed heclo ar y ddwy ochr, sy'n rhyfedd o gofio mai'r Gweinidog Llafur sy'n siarad. Fodd bynnag, mae angen i bawb ymdawelu a chlywed yr areithiau.

15:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

We are taking serious action against rogue landlords—something that your Government refuses to do. This Bill also improves the way that we deal with homelessness in Wales, increasing our focus on prevention.

Rydym yn rhoi camau difrifol ar waith yn erbyn landlordiaid diegwyddor—rhywbeth y mae eich Llywodraeth yn gwrthod ei wneud. Mae'r Bil hwn hefyd yn gwella'r ffordd rydym yn ymdrin â digartrefedd yng Nghymru gan gynyddu ein ffocws ar ei atal.

We will be introducing a Bill at the end of this month that seeks to end domestic abuse, gender-based violence and sexual violence—progressive policies from a progressive Government. Yet, there was no similar measure in the Queen's Speech.

Byddwn yn cyflwyno Bil ar ddiwedd y mis hwn sy'n ceisio rhoi diwedd ar gam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol-polisïau blaengar gan Lywodraeth flaengar. Eto i gyd, nid oedd unrhyw fesur tebyg yn Araith y Frenhines.

As we have discovered over recent months, you and your Government are quick to criticise what we do here in Wales, but slow to learn from our example. With a general election next year, it is, sadly, probably too late to change your ways. Diolch.

Fel rydym wedi darganfod dros y misoedd diwethaf, rydych chi a'ch Llywodraeth yn barod iawn i feirniadu'r hyn rydym yn ei wneud yma yng Nghymru ond yn araf i ddysgu o'r hyn a wnawn. Gydag etholiad cyffredinol y flwyddyn nesaf, yn anffodus, mae'n rhy hwyr i chi newid eich ffyrdd yn ôl pob tebyg. Diolch.

15:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I have selected the 11 amendments to the motion. I call on Elin Jones to move amendments 1, 2 and 3, tabled in her name.

Rwyf wedi dethol yr 11 gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3 a gyflwynwyd yn ei henw.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1— Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu bod y model datganoli treth incwm a gynigir ar gyfer Cymru, ym Mil Cymru, yn cael ei gyfyngu gan yr hyn a elwir yn fecanwaith 'cyd-gerdded'.*

*Regrets that the model of income tax devolution proposed for Wales, in the Wales Bill, is constrained by the so-called 'lock-step' mechanism.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2— Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu'r diffyg cynigion yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU i symud ymlaen ag unrhyw feysydd datganoli pellach a argymhellwyd gan adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.*

*Regrets the lack of proposals in the UK Government's legislative programme to progress any of the areas of further devolution recommended by the second report of the Commission on Devolution in Wales.*

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y dylai rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU fod wedi cynnwys deddfwriaeth i ail-gydbwyso economi'r DU mewn modd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol ac yn hyrwyddo tegwch economaidd.*

*Believes that the UK Government's legislative programme should have included legislation to rebalance the UK economy in a way that tackles regional inequalities and promotes economic fairness.*

15:36

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw Plaid Cymru.

I move amendments 1, 2 a 3, in the name of Plaid Cymru.

Rwy'n croesawu'r Ysgrifennydd Gwladol i'n plith ni y prynhawn yma.

I welcome the Secretary of State to our midst this afternoon.

The UK Government's legislative programme is of importance to Wales, even as we in this place seek to take on greater responsibilities of self-government. My intention today is to focus on the aspects of the Queen's Speech that are directly relevant to the National Assembly, and to Welsh Governments—now and in the future.

Mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU o bwys i Gymru hyd yn oed wrth i ni yn y lle hwn geisio ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau hunanlywodraeth. Fy mwriad heddiw yw canolbwyntio ar yr agweddau ar Araith y Frenhines sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i Lywodraethau Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Just before doing so, I will mention our voting intention on other amendments. We will be voting against all amendments that are self-congratulatory or complacent in their view of the UK Government's attempts to regenerate our economy, especially given the current devastating cutbacks on our public services here. Neither will we be supporting the celebrity Lib Dem name-checking amendments. It is notable that Nick Clegg is not name-checked in any of these amendments. [Laughter.] Perhaps his current standing in the polls mean that Lib Dems here do not want to too closely align themselves with that particular brand.

Cyn gwneud hynny, soniaf am ein bwriadau o ran pleidleisio ar welliannau eraill. Byddwn yn pleidleisio yn erbyn yr holl welliannau sy'n hunanlongyfarchol neu'n hunanfodlon yn eu barn o ymdrechion Llywodraeth y DU i adfywio ein heconomi, yn enwedig o ystyried y toriadau dinistriol ar hyn o bryd ar ein gwasanaethau cyhoeddus yma. Ni fyddwn ychwaith yn cefnogi'r gwelliannau sy'n rhestru enwogion y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'n werth nodi nad yw enw Nick Clegg yn codi yn yr un o'r gwelliannau hyn. [Chwerthin.] Efallai fod ei safle presennol yn y polau yn golygu nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yma eisiau cysylltu eu hunain yn rhy agos â'r brand penodol hwnnw.

It was confirmed in the Queen's Speech that the UK Government will, as expected, continue to progress and complete the Wales Bill. There are some useful provisions in the Bill, but its main role should have been to deliver the work of the Silk commission in full, in order to deliver empowerment and responsibility to this place.

Cadarnhawyd yn Araith y Frenhines y bydd Llywodraeth y DU, yn ôl y disgwyl, yn parhau i ddatblygu a chwblhau Bil Cymru. Mae rhai darpariaethau defnyddiol yn y Bil ond cyflawni gwaith comisiwn Silk yn llawn ddylai ei brif rôl fod wedi bod, er mwyn grymuso ac ychwanegu at gyfrifoldebau'r lle hwn.

Our first amendment refers to the so-called lockstep mechanism in the Wales Bill. I almost feel as if I should offer an apology to the Welsh Conservatives for any angst that I may have caused them this week in having tabled this particular amendment. As we know, all four political party leaders in Wales—including the First Minister and the leader of the Conservative opposition—rightly oppose the lockstep, a mechanism that was rejected by the independent Silk and Holtham commissions as being unsuitable for Wales. In the words of Gerry Holtham, it is 'unusable'.

Mae ein gwelliant cyntaf yn cyfeirio at y system 'lockstep' fel y'i gelwir, ym Mil Cymru. Rwyf bron yn teimlo fel pe dylwn gynnig ymddiheuriad i'r Ceidwadwyr Cymreig am unrhyw ing y gallwn fod wedi'i achosi iddynt yr wythnos hon ar ôl cyflwyno'r gwelliant penodol hwn. Fel y gwyddom, mae arweinwyr y pedair plaid wleidyddol yng Nghymru—gan gynnwys y Prif Weinidog ac arweinydd gwrthblaid y Ceidwadwyr—yn gywir i wrthwynebu'r 'lockstep', system a wrthodwyd gan gomisiynau annibynnol Silk a Holtham fel rhai anaddas ar gyfer Cymru. Dywed Gerry Holtham nad yw'n ddefnyddiadwy.

What is important here on the lockstep is that we should not tie the hands of future Welsh Governments. We do not know what the economic situation will be in Wales by the time that these powers are devolved to us. We remember the last time that some fangled, intra-party-political compromise resulted in tying the hands of this place to Westminster Government Ministers and processes—the universally maligned legislative competence Order process, which we all united to get rid of as soon as it was in operation. How I remember the red meat levy LCO and Measure slowly making its way through repetitive scrutiny processes, both in the House of Commons and in the National Assembly. I will not even mention the trials of the Welsh language LCO and Measure.

Yr hyn sy'n bwysig yma ynglŷn â'r 'lockstep' yw na ddylem glymu dwylo Llywodraethau Cymru yn y dyfodol. Ni wyddom beth fydd y sefyllfa economaidd yng Nghymru erbyn yr adeg y datganolir y pwerau hyn inni. Rydym yn cofio'r tro diwethaf yr arweiniodd cyfaddawd carbwl rhwng pleidiau gwleidyddol at glymu dwylo'r lle hwn at Weinidogion a phrosesau Llywodraeth San Steffan-proses y gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol a bardduwyd gan bawb ac y cytunasom oll ein bod am gael gwared arno cyn gynted ag y daeth yn weithredol. Cofiaf yn iawn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar ardoll cig coch a'r Bil yn gwneud ei ffordd yn araf drwy brosesau craffu ailadroddus yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn y Cynulliad Cenedlaethol, heb sôn am dreialon Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesur y Gymraeg.

We should not repeat that mistake by introducing a lockstep on tax powers. Powers—both fiscal and legislative—should be devolved clearly and completely, so that they can be exercised effectively, with those exercising the powers being fully accountable to the people of Wales. We have learned this week that people are often unclear where responsibility lies—whether in the National Assembly or in Westminster. We should not make it less clear for them by introducing political constructs that tie the hands—lock the hands—of one elected institution to the other.

Ni ddylem ailadrodd y camgymeriad drwy gyflwyno 'lockstep' ar bwerau trethu. Dylid datganoli pwerau—ariannol a deddfwriaethol—yn eglur ac yn llwyr er mwyn eu rhoi mewn grym yn effeithiol, gyda'r rhai sy'n arfer y pwerau yn gwbl atebol i bobl Cymru. Rydym wedi dysgu yr wythnos hon fod pobl yn aml yn aneglur ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol—y Cynulliad Cenedlaethol neu San Steffan. Ni ddylem wneud pethau'n llai eglur iddynt drwy gyflwyno strwythurau gwleidyddol sy'n clymu dwylo—cloi dwylo—un sefydliad etholedig wrth sefydliad arall.

*Nick Ramsay a gododd—*

*Nick Ramsay rose—*

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Not today.

Ddim heddiw.

Our call today is for renewed cross-party unity in Wales against the lockstep. The situation in Britain is ever-changing. We know that the Conservative Party in Scotland, through its Strathclyde commission, has reacted favourably to proposals for the full devolution of income tax in that country, without any mention of a lockstep mechanism. It is a shame today if the Conservative Party in Wales cannot replicate those ambitions.

Yr hyn y galwn amdano heddiw yw undod ar draws y pleidiau yng Nghymru yn erbyn y 'lockstep'. Mae'r sefyllfa ym Mhrydain yn newid yn gyson. Gwyddom fod y Blaid Geidwadol yn yr Alban, drwy gomisiwn Strathclyde, wedi ymateb yn ffafriol i gynigion ar gyfer datganoli'r dreth incwm yn llawn yn y wlad honno heb yr un cyfeiriad at system 'lockstep'. Mae'n drueni heddiw os na all y Blaid Geidwadol yng Nghymru efelychu'r dyheadau hynny.

Referring to our amendment 2, we are still, of course, awaiting the UK Government's response to part 2 of the Silk commission's work. The Queen's Speech was an opportunity for the UK Government to have pledged to legislate in this Parliament, and it is a shame, in our opinion, that it did not take this opportunity.

Gan gyfeirio at ein gwelliant 2, rydym yn dal i aros wrth gwrs am ymateb Llywodraeth y DU i ran 2 o waith comisiwn Silk. Roedd Araith y Frenhines yn gyfle i Lywodraeth y DU addo deddfu yn y Senedd hon ac mae'n drueni yn ein barn ni na fanteisiodd ar y cyfle hwn.

Our amendment 3 refers to legislation on economic fairness. The Queen's Speech did not signal any change from the current UK Government trickle-down economic policy, favouring London and the south-east of England and hoping that other parts of the UK catch on to the coat tails of any growth in those favoured areas. Plaid Cymru believes that any UK Government, and any UK Treasury, should be legally bound to promote economic fairness in all regions and all countries of the UK.

Mae ein gwelliant 3 yn cyfeirio at ddeddfwriaeth ar degwch economaidd. Nid oedd Araith y Frenhines yn cynnig unrhyw arwydd o newid polisi economaidd presennol o'r brig i lawr Llywodraeth y DU, sy'n ffafrio Llundain a de-ddwyrain Lloegr gan obeithio bod rhannau eraill o'r DU yn dal wrth gynffon unrhyw dwf yn yr ardaloedd ffafriedig hynny. Cred Plaid Cymru y dylai unrhyw Lywodraeth y DU ac unrhyw Drysorlys y DU fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i hyrwyddo tegwch economaidd yn holl ranbarthau a holl wledydd y DU.

I gloi felly, y gwir yw bod yr hyn a fydd yn digwydd yn yr Alban yn ystod y misoedd nesaf yn debygol o olygu y bydd Llywodraeth yr Alban yn sicrhau mwy o arfau i dyfu ei heconomi ac i gyflawni cyfiawnder cymdeithasol. Mae angen i Gymru gael ein hymateb ni ein hunain hefyd, er mwyn osgoi cael ein gwthio fel cenedl i'r ymylon economaidd, cymdeithasol a chyfansoddiadol. Mae angen inni symud ymlaen â holl agenda Silk yn llawn, gan gynnwys rhannau 1 a 2, mewn ysbryd o gytundeb trawsbleidiol. Mae'r ddadl hon heddiw eto yn rhoi'r cyfle inni bwysleisio mai nid er mwyn plesio egos gwleidyddion yn y fan hon neu yn San Steffan y mae angen datganoli grymoedd, ond, yn hytrach, er lles pobl Cymru, er mwyn caniatáu integreiddiad effeithiol polisi cyhoeddus ag atebolrwydd llawn y Llywodraeth hon, a Llywodraethau'r dyfodol, am ei holl benderfyniadau i bobl Cymru.

To conclude, therefore, the truth is that what will happen in Scotland over the next few months is likely to mean that the Scottish Government will secure more tools to develop its economy and to achieve social justice. Wales needs its own response as well, to avoid being pushed as a nation to the periphery in economic, social and constitutional terms. We need to progress with the whole Silk agenda, including parts 1 and 2, in a spirit of cross-party agreement. This debate once again gives us an opportunity to emphasise that it is not to please the egos of politicians here or in Westminster that we need to devolve powers, but, rather, for the benefit of the people of Wales, in order to allow effective integration of public policy with full accountability of this Government, and the Governments of the future, for all decisions to the people of Wales.

15:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to move amendments 4, 5, 6, 7, 8 and 11, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliannau 4, 5, 6, 7, 8 a 11 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu'r ffaith y bydd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn parhau i adeiladu economi gryfach a chymdeithas decach.*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Welcomes that the UK Government's legislative programme will continue to build a stronger economy and a fairer society.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu'r cyhoeddiad yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar ofal plant di-dreth a fydd yn golygu y bydd oddeutu 83,600 o deuluoedd yng Nghymru yn cael budd o £2,000 oddi ar gost eu gofal plant.*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Welcomes the announcement in the UK Government's legislative programme on tax-free childcare which will mean that around 83,600 families in Wales will benefit from £2,000 off the cost of their childcare.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu'r ffaith y bydd y Bil Troseddau Difrifol, yn dilyn yr ymgyrch gan Aelod Seneddol Ceredigion, y Democrat Rhyddfrydol Cymreig Mark Williams, yn cynnwys darpariaeth i nodi'n glir fod creulondeb sy'n debygol o achosi niwed seicolegol i blentyn yn drosedd.*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Welcomes that the Serious Crimes Bill, following the campaign by Welsh Liberal Democrat MP for Ceredigion Mark Williams, will include provision to make it explicit that cruelty which is likely to cause psychological harm to a child is ân offence.*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu'r diwygiadau pensiwn chwyldroadol a gynigiwyd gan Weinidog y Democratiaid Rhyddfrydol Steve Webb sydd i'w cynnwys yn y Bil Pensiynau Preifat, a fydd yn rhoi rhyddid a diogelwch i bobl wedi ymddeol.*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Welcomes the revolutionary pension reforms proposed by Liberal Democrat Minister Steve Webb to be contained in the Private Pensions Bill, which will give people both freedom and security in retirement.*

*Gwelliant 8—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu'r ffaith y bydd y Draft Governance of National Parks (England) & the Broads Bill yn cynnwys darpariaethau ar gyfer etholiadau uniongyrchol ar gyfer awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn Lloegr, yn dilyn ymgyrchu gan Aelod Seneddol Brycheiniog a Sir Faesyfed, y Democrat Rhyddfrydol Roger Williams, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi diwygiadau tebyg ar waith yng Nghymru.*

*Amendment 8—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Welcomes that the Draft Governance of National Parks (England) & the Broads Bill will contain provisions for direct elections to National Park authorities in England, following campaigning by Welsh Liberal Democrat MP for Brecon and Radnorshire Roger Williams, and calls on the Welsh Government to implement similar reforms in Wales.*

*Gwelliant 11—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu'r ffaith y bydd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn rhoi mesurau allweddol ar waith i gynyddu ymhellach y lwfans personol i £10,500, gan adeiladu ar yr ymrwymiad ym maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer etholiad cyffredinol 2010 i gynyddu trothwy'r dreth incwm i£10,000.*

*Amendment 11—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Welcomes that the UK Government's legislative programme will implement key measures to increase further the personal allowance to £10,500, building on the Liberal Democrat 2010 general election manifesto commitment to raise the income tax threshold to £10,000.*

15:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 4, 5, 6, 7, 8 and 11 on the agenda on behalf of the Welsh Liberal Democrat group.

Cynigiaf welliannau 4, 5, 6, 7, 8 a 11 ar yr agenda ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

I begin by thanking the Secretary of State for Wales for his presence here this afternoon and for his opening speech. Deputy Presiding Officer, I believe that this Queen's Speech has a strong Liberal Democrat influence flowing through it—an influence that is pro-work, pro-business and pro-aspiration. It demonstrates how the Liberal Democrats in Government are delivering for people across the UK, securing the economic recovery and seeking to build a strong economy and a fairer society. The Queen's Speech builds upon the strong foundations that the coalition has laid over the past four years. The deficit is down by a third, UK unemployment is at its lowest level in five years, average earnings across the UK have grown by 1.7% in the last year, and inflation fell to 1.6% in March. Our economy is one of the fastest growing in the developed world. Taxes have been cut and the poorest children in our schools are receiving the help that they need to succeed in the education system.

Dechreuaf drwy ddiolch i Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ei bresenoldeb yma y prynhawn yma ac am ei araith agoriadol. Ddirprwy Lywydd, rwy'n credu bod dylanwad cryf y Democratiaid Rhyddfrydol yn llifo drwy Araith y Frenhines—dylanwad o blaid gwaith, o blaid busnesau ac o blaid uchelgais. Mae'n dangos sut y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Llywodraeth yn cyflawni ar gyfer pobl ledled y DU gan sicrhau'r adferiad economaidd a cheisio adeiladu economi gref a chymdeithas decach. Mae Araith y Frenhines yn adeiladu ar y sylfeini cadarn y mae'r glymblaid wedi'u gosod dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r diffyg wedi gostwng un rhan o dair, diweithdra yn y DU ar ei lefel isaf ers pum mlynedd, mae enillion cyfartalog ar draws y DU wedi codi 1.7% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chwyddiant wedi disgyn i 1.6% ym mis Mawrth. Mae ein heconomi yn un o'r rhai sy'n tyfu gyflymaf yn y byd datblygedig. Mae trethi wedi cael eu torri ac mae'r plant tlotaf yn ein hysgolion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo yn y system addysg.

Entering coalition may not have been an easy decision for me or my party. Being the junior partner in a coalition is never easy, but these are successes that the Liberal Democrats can be proud of. I am very proud, Elin Jones, to name-check my colleagues, who have campaigned so hard for the inclusion of their issues within the Queen's Speech. I am sure that if your MPs had influenced the Queen's Speech, you would want to name-check them, too.

Efallai nad oedd mynd yn rhan o glymblaid yn benderfyniad hawdd i mi na fy mhlaid. Nid yw bod yn bartner llai o faint mewn clymblaid byth yn hawdd ond mae'r rhain yn llwyddiannau y gall y Democratiaid Rhyddfrydol fod yn falch ohonynt. Elin Jones, rwy'n falch iawn o enwi fy nghydweithwyr sydd wedi ymgyrchu mor galed i gael y materion sydd o bwys iddynt wedi'u cynnwys yn Araith y Frenhines. Pe bai eich Aelodau Seneddol wedi dylanwadu ar Araith y Frenhines, byddech chi eisiau eu henwi hefyd.

The Queen's Speech reinforces the commitment within the Liberal Democrat manifesto in 2010 to raise the personal allowance to £10,000. In Government, we have managed to go even further—from 2015, the income tax threshold will rise to £10,500. This additional increase will lift another 14,000 people in Wales out of paying income tax altogether. Overall, the Government's personal allowance increases have lifted 155,000 people in Wales out of paying income tax. Cutting income tax for working people has been a top priority for the Liberal Democrats. It was on the front page of our 2010 manifesto and, in Government, we have delivered on it.

Mae Araith y Frenhines yn atgyfnerthu'r ymrwymiad ym maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol yn 2010 i godi'r lwfans personol i £10,000. Yn y Llywodraeth, rydym wedi llwyddo i fynd hyd yn oed ymhellach—o 2015 ymlaen, bydd y trothwy treth incwm yn codi i £10,500. Bydd y cynnydd ychwanegol yn eithrio 14,000 yn fwy o bobl rhag talu treth incwm yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae cynlluniau'r Llywodraeth i gynyddu lwfans personol wedi eithrio 155,000 o bobl yng Nghymru rhag talu treth incwm. Mae torri treth incwm i bobl sy'n gweithio wedi bod yn brif flaenoriaeth i'r Democratiaid Rhyddfrydol. Roedd ar dudalen flaen ein maniffesto yn 2010 ac rydym wedi cyflawni hyn fel Llywodraeth.

If I may, I will turn to pension reform. Reform of the pensions system is the major centrepiece of the Government's agenda. These are the biggest reforms to the pensions system since its inception and they have been conceived and driven by my Liberal Democrat pensions colleague, Steve Webb. We have already delivered a package of radical reform to create a fairer pensions system with a triple lock to protect the basic state pension and a simple non-means-tested single-tier pension and the auto-enrolment workplace pension that are helping millions of people save for their futures for the first time. Now we are going even further. The reforms in the pensions tax Bill will provide people with greater freedom of choice to access their pensions as they see fit, giving people total control over the money that they have put aside for their retirement. The private pensions Bill will introduce sweeping reforms to workplace pensions, which will give people greater certainty about the amount of income they will have in retirement.

Os caf fi, rwyf am droi at ddiwygio pensiynau. Diwygio'r system bensiynau yw canolbwynt pwysig agenda'r Llywodraeth. Dyma'r diwygiadau mwyaf i'r system bensiynau ers ei sefydlu ac maent wedi'u llunio a'u sbarduno gan fy nghydweithiwr pensiynau yn y Democratiaid Rhyddfrydol, Steve Webb. Rydym eisoes wedi cyflwyno pecyn o ddiwygiadau radical ar gyfer creu system bensiynau decach gyda chlo triphlyg i amddiffyn pensiwn sylfaenol y wladwriaeth a phensiwn un haen syml nad yw'n seiliedig ar brawf modd a'r pensiwn cofrestru awtomatig yn y gweithle sy'n helpu miliynau o bobl i gynilo ar gyfer eu dyfodol am y tro cyntaf. Nawr rydym yn mynd ymhellach hyd yn oed. Bydd diwygiadau'r Bil treth pensiynau yn rhoi cyfle i bobl a mwy o ryddid i ddewis o ran trefnu eu pensiynau fel y teimlant hwy sy'n addas gan roi rheolaeth lwyr i bobl ar yr arian y maent wedi'i neilltuo ar gyfer eu hymddeoliad. Bydd y Bil pensiynau preifat yn cyflwyno diwygiadau ysgubol i bensiynau'r gweithle a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd i bobl ynglŷn â faint o incwm a fydd ganddynt ar ôl ymddeol.

Could I turn to the issue of child neglect? We welcome very much the proposals within the Serious Crime Bill to extend the definition of child cruelty so that it covers emotional neglect and psychological harm. As the Secretary of State quite rightly pointed out, this is as a result of the strong campaigning from my colleague the MP Mark Williams, although, Secretary of State, you might like to go back and check the voting record. This Bill will mean that children will have the proper protection that they deserve. Neglect is the most common form of child abuse within families in the UK, accounting for 69% of all child protection cases, but few of these actually lead to a criminal conviction because the law, as currently drafted, is outdated. This law will offer better protection for children, recognising that emotional abuse can be just as damaging to a child's welfare as physical harm.

A gaf fi droi at fater esgeuluso plant? Rydym yn croesawu'n fawr y cynigion yn y Bil Troseddau Difrifol i ymestyn y diffiniad o greulondeb i blant i gynnwys esgeulustod emosiynol a niwed seicolegol. Fel y nododd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hollol gywir, canlyniad ymgyrchu cryf gan fy nghydweithiwr, yr Aelod Seneddol Mark Williams, yw hyn er efallai yr hoffech fwrw golwg arall ar y cofnod pleidleisio, Ysgrifennydd Gwladol. Bydd y Bil yn golygu y bydd plant yn cael eu hamddiffyn yn briodol fel y maent yn ei haeddu. Esgeulustod yw'r ffurf fwyaf cyffredin ar gam-drin plant mewn teuluoedd yn y DU, a dyna sydd i gyfrif am 69% o'r holl achosion amddiffyn plant, ond ychydig o'r rhain mewn gwirionedd sy'n arwain at gollfarn droseddol oherwydd bod y gyfraith, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn hen ffasiwn. Bydd y ddeddf hon yn diogelu plant yn well drwy gydnabod y gall cam-drin emosiynol fod yr un mor niweidiol i les plentyn â niwed corfforol.

Although it will not apply to Wales, we do very much welcome the Bill on the governance of national parks. Wales is in danger of being left behind in the democratisation of these particular institutions, with both England and Scotland now having an element of direct elections. I hope very much indeed that what the Welsh Government will do is understand the current democratic deficit that exists in Welsh national parks and follow the lead and seek to reform them.

Er na fydd yn gymwys i Gymru, rydym yn croesawu'n fawr y Bil llywodraethu parciau cenedlaethol. Mae Cymru mewn perygl o gael ei gadael ar ôl yn y broses o ddemocrateiddio'r sefydliadau penodol hyn, gyda Lloegr a'r Alban bellach yn cael elfen o etholiadau uniongyrchol. Rwy'n gobeithio yn fawr iawn mai'r hyn a wna Llywodraeth Cymru fydd deall y diffyg democrataidd presennol sy'n bodoli ym mharciau cenedlaethol Cymru a dilyn yr arweiniad a cheisio'u diwygio.

Finally, I turn to the issue of the Wales Bill and the Silk commission. I too would like to reiterate the thanks given by the Secretary of State to Paul Silk and the commissioners for all their hard work. The progress of the Wales Bill in implementing Silk part 1 is a massive step forward from where we have been in the past. Devolution has come a long way over the last years, as rightly outlined by Elin Jones, and the Wales Bill represents another positive step forward. We also very much welcome the commitments within the ideas set out in Silk commission part 2, which I believe will put Welsh devolution on a much stronger, firmer and more secure setting. However, as was said by the Minister for Local Government and Government Business, we too are supportive of the timeline set out in the report and, therefore, it is perfectly appropriate for there to be no legislative measures in this Queen's Speech to see the implementation of the Silk commission part two. That quite rightly is a matter for parties' manifestos and for legislation in the next Parliament.

Yn olaf, trof at fater Bil Cymru a chomisiwn Silk. Hoffwn innau hefyd ailadrodd diolch yr Ysgrifennydd Gwladol i Paul Silk a'r comisiynwyr am eu holl waith caled. Mae hynt Bil Cymru o ran gweithredu rhan 1 Silk yn gam enfawr ymlaen o ble'r ydym wedi bod yn y gorffennol. Mae datganoli wedi dod yn bell dros y blynyddoedd diwethaf, fel roedd Elin Jones yn gywir i ddweud ac mae Bil Cymru yn gam cadarnhaol arall ymlaen. Rydym hefyd yn croesawu'n fawr iawn yr ymrwymiadau yn y syniadau a amlinellwyd yn rhan 2 o gomisiwn Silk y credaf y byddant yn rhoi datganoli Cymreig mewn sefyllfa lawer cryfach, mwy cadarn a diogel. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, rydym ninnau hefyd yn gefnogol i'r amserlen a nodwyd yn yr adroddiad ac felly, mae'n gwbl briodol nad oes mesurau deddfwriaethol yn Araith y Frenhines y tro hwn ar gyfer gweithredu rhan dau o gomisiwn Silk. Mae'n gwbl briodol mai mater yw hynny ar gyfer maniffestos y pleidiau a deddfu yn ystod y Senedd nesaf.

As I said, Deputy Presiding Officer, in conclusion, there is a strong Liberal Democrat thread running through the Queen's Speech and I am pleased to support it here today.

Fel y dywedais, Ddirprwy Lywydd, rwy'n cloi drwy ddweud bod dylanwad cryf y Democratiaid Rhyddfrydol yn rhedeg drwy Araith y Frenhines ac rwy'n falch o'i chefnogi yma heddiw.

15:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Andrew R.T. Davies to move amendments 9 and 10, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Andrew R.T. Davies i gynnig gwelliannau 9 a 10 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 9— Paul Davies*

*Amendment 9—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU, fel yr amlinellir yn y rhaglen ddeddfwriaethol, i adfer lles ariannol yn y DU.*

*Welcomes the continued commitment of the UK Government, as outlined in the legislative programme, to restore financial well-being to the UK.*

*Gwelliant 10— Paul Davies*

*Amendment 10—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y bydd y Biliau yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn sicrhau dyfodol gwell a mwy disglair i bobl Cymru.*

*Believes the Bills contained within the UK Government's legislative programme will secure a better and brighter future for the people of Wales.*

15:49

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 9 and 10.

Cynigiaf welliannau 9 a 10.

I extend a very warm welcome to the Secretary of State to the Chamber this afternoon on his second visit. It was unfortunate that members of other parties were not prepared to listen to some of the very important and substantive measures that the Secretary of State brought forward. I found that particularly distasteful when the Secretary of State was addressing the issue around the Bill that will give greater powers to the service personnel who put their lives on the line for this country, and indeed the military covenant that this Government has introduced. It is something that Members opposite might wish to reflect on, given the way that these benches have pushed tirelessly to get a veterans card implemented here in Wales, to make sure that the service personnel in this country get the best possible treatment.

Estynnaf groeso cynnes iawn i'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Siambr y prynhawn yma ar ei ail ymweliad. Roedd yn anffodus nad oedd aelodau o bleidiau eraill yn barod i wrando ar rai o'r mesurau pwysig a sylweddol iawn a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Teimlais fod hynny'n arbennig o ddi-chwaeth gan fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynd i'r afael â'r Bil sy'n mynd i roi rhagor o bwerau i'r personél sy'n peryglu eu bywydau dros y wlad hon ac yn wir y cyfamod milwrol y mae'r Llywodraeth hon wedi'i gyflwyno. Mae'n rhywbeth y gallai'r Aelodau gyferbyn ei gadw mewn cof o ystyried y ffordd y mae'r meinciau hyn wedi gwthio'n ddiflino i roi cerdyn cyn-filwyr ar waith yma yng Nghymru er mwyn sicrhau bod personél y lluoedd arfog yn y wlad hon yn cael y driniaeth orau bosibl.

It is also worth reflecting on the fact that the whole drive of the Queen's Speech is about the economic performance of this country. In 2010, when the coalition Government took over, we were facing a precipice of disaster from the legacy of what Labour had left us and Gordon Brown and Tony Blair's profligacy with the public finance. It is worth reiterating the fact that unemployment today is at 6.6%, whereas it was 8.5% in 2010 here in Wales. It is worth reflecting on the fact that 14,000 people have been taken out of income tax altogether and 1.1 million people have seen an average real-terms gain because of the measures that this coalition Government has taken. It is worth reflecting on the changes to the childcare system that will see 20% of childcare costs, up to £2,000, offered to support working families. Up to 140,000 families in Wales will benefit from that. It is worth reflecting on the measures taken on the fuel duty escalator that the Labour Party was so keen to carry on funding, and which has seen a real-terms decrease in the price of fuel of 13p a litre, and which has put £7 into everyone's pocket every time they fill their car up. Those are real measures taken in a very difficult climate, when we are dealing with a deficit that was spiralling out of control. [Interruption.]

Mae hefyd yn werth ystyried y ffaith bod holl ysgogiad Araith y Frenhines yn ymwneud â pherfformiad economaidd y wlad hon. Yn 2010, pan ddaeth y Llywodraeth glymblaid i rym, roeddem yn sefyll uwch dibyn trychineb a etifeddasom gan Lafur ac afradlonedd Gordon Brown a Tony Blair gyda chyllid cyhoeddus. Mae'n werth ailadrodd y ffaith bod diweithdra heddiw yn 6.6%, tra'i fod yn 8.5% yn 2010 yma yng Nghymru. Mae'n werth ystyried y ffaith bod 14,000 o bobl wedi'u heithrio rhag talu treth incwm yn gyfan gwbl ac mae 1.1 miliwn o bobl wedi gweld cynnydd cyfartalog mewn termau real oherwydd y mesurau a roddwyd ar waith gan y Llywodraeth glymblaid hon. Mae'n werth ystyried y newidiadau i'r system gofal plant a fydd yn golygu bod 20% o gostau gofal plant, hyd at £2,000, yn cael ei gynnig i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio. Bydd hyd at 140,000 o deuluoedd yng Nghymru yn elwa o hynny. Mae'n werth ystyried y camau a gymerwyd mewn perthynas â'r esgynnydd treth tanwydd yr oedd y Blaid Lafur mor awyddus i barhau i'w gyllido ac sydd wedi gweld gostyngiad mewn termau real o 13c y litr ym mhris tanwydd ac sydd wedi rhoi £7 ym mhoced pawb bob tro y byddant yn llenwi eu car. Mae'r rhain yn fesurau go iawn a roddwyd ar waith mewn hinsawdd anodd iawn pan ydym yn ymdrin â diffyg a oedd yn mynd allan o reolaeth. [Torri ar draws.]

15:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Order. The hubbub is now getting quite ridiculous and I have Labour Members who hope to be called in the debate heckling. That is a very perilous activity, I do warn you. I call the leader of the opposition.

Trefn. Mae'r sŵn bellach yn mynd yn eithaf afresymol ac mae gen i Aelodau Llafur sy'n gobeithio cael eu galw i gymryd rhan yn y ddadl yn heclo. Mae hynny'n weithgaredd peryglus iawn, rwy'n eich rhybuddio. Galwaf ar arweinydd yr wrthblaid.

15:51

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I turn to the Queen's Speech and the content of the Bills presented in it and, in particular, the small business, enterprise and employment Bill, which much resembles the backbench Bill that my colleague Mohammad Asghar brought forward for consideration, and which has significant measures to improve the economic performance of small businesses and access to finance. It is a great regret that the Government here has not chosen to look at such measures that it could bring forward. It was, first, in our manifesto in 2011 and, above all, it was introduced, as I said, by Mohammad Asghar, one of our backbench Members.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Trof at Araith y Frenhines a chynnwys y Biliau a gyflwynwyd ynddi ac yn arbennig, y Bil busnesau bach, menter a chyflogaeth, sy'n debyg iawn i Fil y meinciau ôl a gyflwynwyd i'w ystyried gan fy nghydweithiwr, Mohammad Asghar, ac sy'n cynnwys mesurau arwyddocaol ar gyfer gwella perfformiad economaidd busnesau bach a mynediad at gyllid. Mae'n ofid mawr nad yw'r Llywodraeth yma wedi dewis edrych ar fesurau o'r fath y gallai eu cyflwyno. Roedd yn ein maniffesto ar gyfer 2011 yn gyntaf, ac yn fwy na hynny, cafodd ei gyflwyno gan Mohammad Asghar, un o'n Haelodau meinciau cefn, fel y dywedais.

The national insurance contributions Bill is another vital piece of legislation that the Government is bringing forward to make it more affordable to employ people. We all remember that, at the last general election, it was Labour policy to increase national insurance contributions and make it prohibitively more expensive to create employment in this country. Today, with the employment figures that we have, that is the critical endorsement of the policy that George Osborne and the coalition Government has led in London, which has increased economic prosperity, increased economic activity and, above all, has meant that more families today have pay packets going through their pockets rather than those families having to rely on benefits to bring home a weekly wage. That is something that we can be very proud of.

Mae'r Bil cyfraniadau yswiriant gwladol yn ddarn hanfodol arall o ddeddfwriaeth y mae'r Llywodraeth yn ei gyflwyno i wneud cyflogi pobl yn fwy fforddiadwy. Yn yr etholiad cyffredinol diwethaf, rydym oll yn cofio mai polisi Llafur oedd cynyddu cyfraniadau yswiriant gwladol a gwneud y broses o greu cyflogaeth yn afresymol o ddrud yn y wlad hon. Heddiw, gyda'r ffigurau cyflogaeth sydd gennym, dyna'r gymeradwyaeth o'r polisi y mae George Osborne a Llywodraeth y glymblaid wedi ei arwain yn Llundain, sydd wedi cynyddu ffyniant economaidd ac yn fwy na dim, wedi golygu bod mwy o deuluoedd heddiw â phecyn cyflog sy'n mynd drwy eu pocedi yn hytrach na'u bod yn gorfod dibynnu ar fudd-daliadau er mwyn dod â chyflog wythnosol adref. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn fod yn falch iawn ohono.

Also, the pensions tax Bill that will be presented to the House of Commons is a welcome addition to the architecture around pensions. It is vital that people are incentivised to save for their old age. It is vital that, if people have made that provision, they are able to spend that money as they see fit. That surely is good Conservative policy—trust people with their money and do not use the big brother mentality to make sure that you constrain the entrepreneurial spirit of this great country of ours.

Hefyd, mae'r Bil treth pensiynau a fydd yn cael ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin yn ychwanegiad i'w groesawu at y fframwaith pensiynau. Mae'n hanfodol bod pobl yn cael eu cymell i gynilo ar gyfer eu henaint. Os yw pobl wedi darparu ar gyfer hynny, mae'n hanfodol eu bod yn gallu gwario'r arian hwnnw fel yr ystyriant yn addas. Siawns nad yw hynny'n bolisi ceidwadol da—ymddiried mewn pobl gyda'u harian a pheidio â defnyddio meddylfryd 'y brawd mawr' i wneud yn siŵr eich bod yn cyfyngu ar ysbryd entrepreneuraidd y wlad wych hon o'r eiddom.

I welcome the Childcare Payments Bill and, above all, I think that there is a consensus around the Modern Slavery Bill that has been presented. Most probably, I would hope, it will enjoy universal support for the measures that it would seek to achieve. Only today, in many of the papers, we have the comments about slavery in the food industry, and other aspects of our daily lives that we take for granted. If you look behind, there is a whole landscape of difficult decisions that need to be taken by any Government, and I very much hope that the opposition parties in Westminster will support the Government in the introduction of this particular Bill.

Rwy'n croesawu'r Bil Taliadau Gofal Plant ac yn fwy na dim, rwy'n credu bod consensws ynglŷn â'r Bil Caethwasiaeth Fodern a gyflwynwyd. Yn ôl pob tebyg, byddwn yn gobeithio, caiff gefnogaeth gyffredinol i'r mesurau y byddai'n ceisio eu cyflawni. Mewn llawer o'r papurau heddiw ddiwethaf, gwelsom y sylwadau am gaethwasiaeth yn y diwydiant bwyd ac agweddau eraill ar ein bywydau bob dydd rydym yn eu cymryd yn ganiataol. Os edrychwch y tu hwnt i hyn, ceir tirwedd gyfan o benderfyniadau anodd y mae angen i unrhyw Lywodraeth eu cymryd ac rwy'n gobeithio yn fawr y bydd y gwrthbleidiau yn San Steffan yn cefnogi'r Llywodraeth wrth gyflwyno'r Bil penodol hwn.

I also welcome the social action, responsibility and heroism Bill. Time and again we hear of people who have put themselves on the line, stepped into a situation with all good intentions, who have then found themselves falling foul of the law and ended up in court or having libel action taken against them because they acted in good faith. The law does need to be clarified there and, again, this is a very welcome addition.

Rwyf hefyd yn croesawu'r Bil gwroldeb, cyfrifoldeb a gweithredu cymdeithasol. Dro ar ôl tro, clywn am bobl sydd wedi peryglu eu hunain drwy gamu i sefyllfa gyda bwriadau da ac sy'n cael eu hunain yn torri'r gyfraith ac yn wynebu achos llys neu achos o enllib yn eu herbyn oherwydd eu bod yn gweithredu'n ddidwyll. Mae angen mwy o eglurder ar y gyfraith yn hyn o beth ac unwaith eto, dyma ychwanegiad sydd i'w groesawu'n fawr.

As I touched on earlier, the service complaints Bill is something that is surely to be welcomed by all parties, I would hope. Again, I reiterate our support for a veterans card. In particular, I implore the Welsh Government to come forward. In fairness, I accept that the Minister has referred it to a working group, but I have to say that the previous Minister also referred it to a working group for consideration. We are now at the junction where we want to see action on this very important issue, so that we know whether a veterans card will be coming forward or not. I implore the Minister to do that.

Fel y crybwyllais yn gynharach, mae'r Bil cwynion y lluoedd arfog yn rhywbeth y dylai pob plaid ei groesawu, byddwn yn gobeithio. Unwaith eto, rwy'n ailadrodd ein cefnogaeth i gerdyn cyn-filwyr. Yn benodol, rwy'n erfyn ar Lywodraeth Cymru i ddod ymlaen. A bod yn deg, rwy'n derbyn bod y Gweinidog wedi cyfeirio'r mater at weithgor ond rhaid i mi ddweud bod y Gweinidog blaenorol hefyd wedi'i gyfeirio at weithgor i'w ystyried. Rydym bellach ar y gyffordd lle'r ydym eisiau gweld gweithredu ar y mater pwysig iawn hwn fel ein bod yn gwybod a fydd cerdyn cyn-filwyr yn cael ei gyflwyno ai peidio. Erfyniaf ar y Gweinidog i wneud hynny.

The Serious Crime Bill and the recall of MPs Bill are all issues that have been raised in Parliament by backbenchers. The Government has taken those points on board and I welcome those opportunities being taken forward as well.

Mae'r Bil Troseddau Difrifol a'r Bil galw Aelodau Seneddol yn ôl yn faterion sydd wedi'u codi yn y Senedd gan Aelodau'r meinciau cefn. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi sylw i'r pwyntiau hynny ac rwy'n croesawu'r bwriad i symud ymlaen ar y cyfleoedd hynny hefyd.

We have the Wales Bill that is progressing through the House at the moment. I very much offer my party's wholehearted support here in the Assembly to see that Bill delivered and gaining Royal Assent, so that there is greater accountability and responsibility attached to the responsibilities of whatever Government comes out of this institution. We all sign up to the fact that the Government here needs greater accountability and responsibility over the money it spends and I congratulate the Secretary of State for his endeavours in taking that through the House. I look forward to the Government succeeding in bringing it forward to Royal Assent so that those powers will be transferred.

Mae gennym Fil Cymru sy'n mynd rhagddo drwy'r Tŷ ar hyn o bryd. Rwy'n cynnig cefnogaeth lwyr fy mhlaid yma yn y Cynulliad i sicrhau bod y Bil hwnnw yn cael ei gyflwyno ac yn ennill Cydsyniad Brenhinol fel bod mwy o atebolrwydd a chyfrifoldeb ynghlwm wrth gyfrifoldebau pa bynnag Lywodraeth a ddeillia o'r sefydliad hwn. Rydym i gyd yn ymrwymo i'r ffaith bod y Llywodraeth yma angen mwy o atebolrwydd a chyfrifoldeb dros yr arian y mae'n ei wario a hoffwn longyfarch yr Ysgrifennydd Gwladol am ei ymdrechion i symud hynny drwy'r Tŷ. Edrychaf ymlaen at weld y Llywodraeth yn llwyddo i'w gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol er mwyn trosglwyddo'r pwerau hynny.

It is perfectly reasonable, on Silk 2, that the Government needs time to reflect on the important constitutional arguments that are going on. That will be a discussion and a debate for manifestos and, in particular, for the successful Conservative majority Government that will be delivered after 2015, which will ultimately deliver greater financial security and vibrancy, and above all a standing in the world that we can be truly proud of. It is also worth reflecting on the fact that, in a few months' time, Wales will be hosting the NATO summit, which shows what the Government in Westminster is doing to promote Wales on the international stage.

Ynglŷn â Silk 2, mae'n berffaith resymol fod angen amser ar y Llywodraeth i ystyried y dadleuon cyfansoddiadol pwysig sy'n cael eu gwyntyllu. Bydd honno'n drafodaeth ac yn ddadl ar gyfer maniffestos ac yn arbennig, ar gyfer y Llywodraeth Geidwadol lwyddiannus, fwyafrifol a ddaw i rym ar ôl 2015 a fydd yn y pen draw yn cynnig mwy o sicrwydd ariannol a bywiogrwydd, ac yn anad dim, statws yn y byd y gallwn fod yn wirioneddol falch ohono. Mae'n werth ystyried hefyd y ffaith y bydd Cymru yn cynnal uwchgynhadledd NATO mewn ychydig fisoedd, sy'n dangos yr hyn y mae'r Llywodraeth yn San Steffan yn ei wneud i hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Anyone who visits Gwydyr House cannot help but be impressed by the efforts that the Secretary of State puts forward in promoting Wales on the international stage. Without a shadow of a doubt, it is a shame that the Welsh Government here cannot pick up its act and achieve the same success that the UK Government has achieved. All you are achieving at the moment is 4.5% in inward investment; in the 1990s, the Welsh Development Agency used to achieve 15%. There is much work to be done, Secretary of State, for us to achieve our true potential. Wales has huge ambition. Under your stewardship and the UK Government's stewardship in London, we can achieve so much for Wales by working together. I implore the Welsh Government to work collaboratively with you to address the deep fuses that we have in health, education and the economy, instead of sitting idly by and allowing the decline in Wales's fortunes to continue.

Ni all neb sy'n ymweld â Thŷ Gwydyr beidio ag edmygu ymdrechion yr Ysgrifennydd Gwladol yn hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Heb amheuaeth, mae'n drueni na all Llywodraeth Cymru yma wella ei pherfformiad a sicrhau'r un llwyddiant ag y mae Llywodraeth y Du wedi'i gyflawni. Y cyfan rydych yn ei gyflawni ar hyn o bryd yw 4.5% mewn buddsoddiad o'r tu allan; yn y 1990au, arferai Awdurdod Datblygu Cymru gyflawni 15%. Mae llawer o waith i'w wneud, Ysgrifennydd Gwladol, i ni gyflawni ein gwir botensial. Mae gan Gymru uchelgais enfawr. O dan eich stiwardiaeth a stiwardiaeth Llywodraeth y DU yn Llundain, gallwn gyflawni cymaint dros Gymru drwy weithio gyda'n gilydd. Rwy'n erfyn ar y Llywodraeth Cymru i weithio gyda chi i fynd i'r afael â'r holltau dwfn ym maes iechyd, addysg a'r economi, yn hytrach nag eistedd yn ôl a chaniatáu i'r dirywiad yn ffyniant Cymru barhau.

15:58

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon ac i dynnu sylw at sut y bydd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, o dan arweiniad Ceidwadol, yn cefnogi busnesau bach yn fy etholaeth i. Byddaf felly'n canolbwyntio fy sylwadau y prynhawn yma ar gynigion penodol Llywodraeth y DU i gefnogi busnesau bach a chanolig eu maint.

I am pleased to have the opportunity to participate in the debate and to highlight how the UK Government's legislative programme, which is Conservative led, will support small businesses in my constituency. I will therefore concentrate my comments this afternoon on specific proposals made by the UK Government to support SMEs.

Mae llawer ohonoch yn y Siambr hon wedi ymweld â sir Benfro ar ryw adeg neu'i gilydd, a thra yno wedi sylwi ar yr ystod eang o fusnesau bach ar ei strydoedd mawr ac yn ei threfi a'i phentrefi. Yn wir, busnesau bach yw asgwrn cefn economi sir Benfro gyda'r rhan fwyaf o fusnesau yn cyflogi 10 o bobl neu lai. Felly, rwy'n croesawu'r Bil busnesau bach, menter a chyflogaeth a fydd yn cefnogi busnesau bach drwy ystod o fesurau, gan gynnwys lleihau baich rheoleiddio, helpu busnesau bach i gael eu talu yn gyflymach a symleiddio'r broses gaffael.

Many of you in this Chamber will have visited Pembrokeshire at some point or another and, whilst there, you will have noticed the broad range of small businesses on our high streets and in our towns and villages. Indeed, small businesses are the backbone of the Pembrokeshire economy with most businesses employing 10 people or fewer. Therefore, I welcome the small business, enterprise and employment Bill that will support small businesses through a range of measures, including lightening the regulatory burden, helping small businesses to be paid sooner, and simplifying the procurement process.

O ganlyniad i'r Bil hwnnw, rwy'n hynod falch y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sefydlu targedau dadreoleiddio ar gyfer pob Senedd ac yn cyflwyno hyrwyddwyr apeliadau newydd i ddiogelu busnesau rhag or-reoleiddio. Mae'r bobl busnes rwyf wedi siarad â hwy yn fy etholaeth yn parhau i fynegi pryderon am y rheolau a'r rheoliadau gormodol sy'n effeithio ar eu busnesau. Felly, mae sefydlu targedau pendant i leihau rheoleiddio yn sicr o help i'r bobl rwy'n eu cynrychioli. Rwy'n deall y bydd y Bil hefyd yn edrych ar gaffael cyhoeddus a'r angen i symleiddio'r broses fel bod busnesau bach yn cael mynediad teg at y farchnad gaffael gyhoeddus. Rwyf wedi dadlau ers tro bellach mai'r cam cyntaf i wella arferion caffael Cymru yw symleiddio prosesau caffael y sector cyhoeddus a chreu maes chwarae gwastad i fusnesau bach, felly rwy'n falch iawn o weld Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn deddfu yn y maes hwn.

As a result of that Bill, I am particularly pleased that the UK Government will establish deregulation targets for every Parliament and will introduce new appeals processes to protect businesses from over-regulation. The businesspeople I speak to in my constituency continuously express concerns about the excessive rules and regulations that are impacting their businesses. Therefore, establishing specific targets to reduce regulation is certain to help those people that I represent. I understand that the Bill will also look at public procurement and the need to simplify the process so that small businesses have fair access to the public procurement market. I have argued for some time now that the first step in improving procurement practices in Wales is to simplify our public procurement processes and to create a level playing field for small businesses, and therefore I am very pleased to see the UK Government legislate to this end.

Wrth gwrs, mae gan fusnesau bach a chanolig eu maint yn gyffredinol costau rheoli a gweinyddol is na chwmnïau mwy o faint, a gall hyn arwain at fusnesau bach a chanolig eu maint yn bod yn fwy cystadleuol wrth dendro am gontractau. Os bydd mwy o fusnesau bach a chanolig eu maint yn gallu tendro ac ennill contractau, yna bydd hynny'n golygu y bydd mwy o fusnesau bach mewn ardaloedd fel sir Benfro yn elwa, a bydd hynny'n arwain at wella ein heconomïau lleol. Rwy'n falch bod y Bil hwn wedi cael ei groesawu'n eang gan arweinwyr diwydiant ac arbenigwyr, gan gynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach.

Of course, small and medium-sized enterprises generally have lower management and administrative costs than larger companies, and this can lead to SMEs being more competitive in tendering for contracts. If more SMEs can tender and gain contracts, then that will mean that more small businesses in areas such as Pembrokeshire will benefit, and that will lead to improvements in our local economies. I am pleased that this Bill been given broad support by industry leaders and experts, including the Federation of Small Businesses.

Bydd y Bil hwn hefyd yn helpu landlordiaid tafarndai i gael bargen fwy teg, rhywbeth yr ydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, wedi bod yn ymgyrchu amdano ers peth amser. Rwy'n falch iawn y bydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn rhoi hawliau newydd i landlordiaid tafarndai sydd wedi'u clymu, o dan god statudol i'w helpu i gael bargen deg ar rent, gyda'r pŵer i gosbi cwmnïau tafarn sy'n torri'r rheolau.

This Bill will also assist pub landlords to get a fairer deal, something that we, on this side of the Chamber, have been campaigning for for some time. I am particularly pleased that this new legislation will give new rights to pub landlords who are tied, under a statutory code to help them get a fair deal on rent, with the power to penalise pub companies that break the rules.

Yn ôl yr Ymgyrch ar gyfer Cwrw Go Iawn, mae'r ystadegau diweddaraf, yn anffodus, yn dangos bod yna dair tafarn yn cau yr wythnos yng Nghymru. Mae'r diwydiant twristiaeth yn sir Benfro yn hynod o bwysig i'r economi leol ac, yn wir, i economi Cymru, gyda thafarndai yn rhan hanfodol o hynny. Os bydd nifer y tafarndai sy'n cau yn parhau, bydd hyn yn cael effaith enfawr ar y diwydiant twristiaeth, nid yn unig yn sir Benfro ond, yn wir, ar draws Cymru gyfan.

According to the Campaign for Real Ale, the latest statistics, unfortunately, show that three pubs a week close in Wales. The tourism industry in Pembrokeshire is extremely important to the local economy and, indeed, to the economy of the whole of Wales, and pubs play a crucial role in that. If the number of pubs closing continues, this will have a huge impact on the tourism industry, not only in Pembrokeshire, but, indeed, across the whole of Wales.

Bydd Aelodau ar draws y Siambr yn ymwybodol o'n hymgyrch i ddiogelu tafarndai a cheisio amddiffyn y rôl y mae tafarndai yn ei chwarae yn ein cymunedau. Rwy'n credu bod y Bil hwn a'n hymgyrch ni yn eistedd yn gyfforddus iawn ag agenda lleol fy mhlaid, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau cymunedol cryf a rhoi hawliau i bobl dros eu cymunedau.

Members across the Chamber will be aware of our campaign to safeguard pubs and to try to protect the role that pubs play in our communities. I think that this Bill and our campaign sit very comfortably with the local agenda of my party, with the aim of providing strong community services and giving people rights over their communities.

Rwyf hefyd yn falch o weld y Bil cyfraniadau yswiriant gwladol, a fydd yn symleiddio'r ffordd y mae cyfraniadau yswiriant gwladol yn cael eu casglu o'r hunangyflogedig. Bydd hyn, heb amheuaeth, hefyd o fudd i fusnesau bach. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i fusnesau lywio dwy broses wahanol ar gyfer dau ddosbarth cyfraniadau yswiriant gwladol, felly bydd y Bil hwn yn symleiddio'r broses i fusnesau.

I am also pleased to see the national insurance contributions Bill, which will simplify the way in which national insurance contributions are gathered for the self-employed. This, without doubt, will benefit small businesses. At present, businesses have to go through two different processes for two different classes of national insurance contributions, so this Bill will simplify the process for businesses.

Mae Araith y Frenhines yn sicr wedi dangos ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i fusnesau bach drwy gyhoeddi deddfwriaeth a fydd yn lleihau biwrocratiaeth a rhoi llawer mwy o hyblygrwydd i'n busnesau bach a chanolig eu maint. Mae cefnogi busnesau bach yn rhywbeth yr ydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, wedi canolbwyntio arno ers peth amser, fel yr ydym wedi dangos yn y dogfennau polisi yr ydym wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar. Yn amlwg, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn chwarae ei rhan; mae'n bryd i Lywodraeth Cymru wneud yr un peth.

The Queen's Speech has certainly shown the UK Government's commitment to small businesses by announcing legislation that will reduce bureaucracy and provide far more flexibility to our SMEs. Supporting small businesses is something that we, on this side of the Chamber, have concentrated on for some time, as we have demonstrated in the policy documents that we have published recently. Clearly, the UK Government is playing its part; it is time for the Welsh Government to do likewise.

16:03

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Others will, no doubt, highlight the paucity of Bills in the Queen's Speech. I would like to point out that, from a Welsh perspective, there is a far more serious omission, and that is the glaring lack of any distinctive Welsh voice on important social issues.

Yn ddiau, bydd eraill yn tynnu sylw at y prinder Biliau yn Araith y Frenhines. O safbwynt Cymru, hoffwn nodi hepgoriad llawer mwy difrifol ac amlwg, sef diffyg llais arbennig i Gymru ar faterion cymdeithasol pwysig.

Secretary of State, it is your duty to understand and reflect the concerns of the people of Wales, and to give leadership on those issues that matter most to the Welsh public; you have failed to do this spectacularly.

Ysgrifennydd Gwladol, eich dyletswydd yw deall ac adlewyrchu pryderon pobl Cymru a rhoi arweiniad ar y materion hynny sydd bwysicaf i'r cyhoedd yng Nghymru; mae eich methiant i wneud hynny'n drawiadol.

Most pressing is the need to scrap the pernicious bedroom tax. It is this tax that targets those people who are often the poorest and least able to defend themselves. In my constituency, as with constituencies across Wales, the bedroom tax provokes much anger, not just from those affected, but from the thousands of decent people who know and understand the difference between right and wrong. When I talk to my constituents—and I would remind the Secretary of State that they are his constituents, too—it is clear that they are appalled that your Government can be so vindictive.

Yr angen mwyaf yw cael gwared ar y dreth ystafell wely niweidiol. Y dreth hon sy'n targedu'r bobl dlotaf a lleiaf abl i amddiffyn eu hunain yn aml. Yn fy etholaeth i, fel mewn etholaethau ar draws Cymru, mae'r dreth ystafell wely yn ysgogi llawer o ddicter, nid yn unig gan y rhai yr effeithir arnynt, ond gan y miloedd o bobl weddus sy'n gwybod ac yn deall y gwahaniaeth rhwng da a drwg. Pan fyddaf yn siarad â'm hetholwyr—a byddwn yn atgoffa'r Ysgrifennydd Gwladol eu bod yn etholwyr iddo yntau hefyd—mae'n amlwg eu bod wedi'u brawychu y gall eich Llywodraeth fod mor greulon.

One such constituent is Julie Pithers. Julie has cerebral palsy and mental health difficulties, and is confined to a wheelchair. She lives alone in her specially adapted two-bedroomed flat, which has been her home for 14 years. Despite her severe disability, she lives as independently as she can. She is now being forced either to move or take in a lodger. Both options frighten her. As a result, she has £14 a week slashed from her housing benefit. The impact of the bedroom tax on Julie is grim. Already immobile and prone to the cold, she will cut down on heating rather than take a stranger into her house or move to another community and lose the small amount of social contact that she has.

Un o'r etholwyr hyn yw Julie Pithers. Mae parlys yr ymennydd ar Julie ac mae'n dioddef o anawsterau iechyd meddwl, ac yn gaeth i gadair olwyn. Mae'n byw ar ei phen ei hun mewn fflat wedi'i addasu'n arbennig a fu'n gartref iddi ers 14 mlynedd. Er gwaethaf ei hanabledd difrifol, mae'n byw mor annibynnol ag y gall. Mae hi'n awr yn cael ei gorfodi naill ai i symud neu i gymryd lojer. Mae'r ddau opsiwn yn codi ofn arni. O ganlyniad, mae £14 yr wythnos yn cael ei dorri oddi ar ei budd-dal tai. Mae effaith y dreth ystafell wely ar Julie yn ddifrifol. A hithau eisoes yn methu symud ac yn agored i oerfel, bydd yn cyfyngu ar wresogi yn hytrach na rhoi llety i ddieithryn yn ei thŷ neu symud i gymuned arall a cholli'r ychydig bach o gyswllt cymdeithasol sydd ganddi.

Both you, Secretary of State, and the leader of the opposition referred to the support needed for army veterans. Let me tell you about Christopher Caruana. He took a bullet in the chest while serving in the British army in Northern Ireland. He also has dysthymia, resulting from trauma, and osteoarthritis in both ankle and knee joints, and he has chronic physical problems arising from his bullet injury. He has lived in his specially adapted home for 27 years; his children live just around the corner, and they help to care for him. Now, your Government is forcing him to move away from his support group and writing off the cost of the extensive modifications to his home, all courtesy of the bedroom tax. Mr Caruana asked me to ask you, 'Where is the justice in forcing me out?'

Cyfeiriodd arweinydd yr wrthblaid a chithau, Ysgrifennydd Gwladol, at y cymorth sydd ei angen ar gyfer cyn-filwyr y fyddin. Gadewch i mi ddweud wrthych am Christopher Caruana. Cafodd fwled yn y frest tra oedd yn gwasanaethu yn y fyddin Brydeinig yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n dioddef hefyd o dysthymia yn deillio o drawma ac osteoarthritis yng nghymalau'r ffêr a'r pen-glin, ac mae ganddo broblemau corfforol cronig sy'n deillio o'i anaf bwled. Mae wedi byw yn ei gartref sydd wedi'i addasu'n arbennig ers 27 mlynedd; mae ei blant yn byw rownd y gornel ac maent yn helpu i ofalu amdano. Yn awr, mae eich Llywodraeth yn ei orfodi i symud oddi wrth y grŵp o bobl sy'n ei gynorthwyo ac anghofio cost yr addasiadau helaeth i'w gartref, hyn oll o ganlyniad i'r dreth ystafell wely. Gofynnodd Mr Caruana i mi ofyn i chi, 'Lle y mae'r cyfiawnder mewn cael fy ngorfodi allan?'

16:06

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:06

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No.

Na wnaf.

I would add, 'Where is the logic and where is your sense of duty to a man who has suffered as a result of serving his country?'

Byddwn yn ychwanegu, 'Lle y mae'r rhesymeg a lle y mae eich ymdeimlad o ddyletswydd i ddyn sydd wedi dioddef o ganlyniad i wasanaethu ei wlad?'

Secretary of State, on your elevation to the Cabinet—[Interruption.] It is like an old Etonian dinner break on the other side of the Chamber, is it not? Secretary of State, on your elevation to the Cabinet, you said,

Ysgrifennydd Gwladol, ar eich dyrchafiad i'r Cabinet—[Torri ar draws.] Mae fel oedd hi amser cinio yn Eton ar ochr arall y Siambr, onid yw? Ysgrifennydd Gwladol, ar eich dyrchafiad i'r Cabinet, dywedasoch,

'I have a huge ambition to see the quality of life in Wales flourish and prosper.'

'Mae gen i uchelgais mawr i weld ansawdd bywyd yng Nghymru yn ffynnu.'

It is clear that, for Julie and Christopher, and more than 30,000 others across Wales, these words have proved worthless. At the time of your promotion, you also said that you would make it the business of the Wales Office to improve the quality of people's lives. So, I want to assist you, Secretary of State, to repair your shattered reputation in Wales. In the public gallery today are Julie and Christopher, along with a number of others who are suffering the effects of the bedroom tax. Will you, Secretary of State, immediately after this session, meet this group, who are waiting upstairs to speak with you, to hear what they have to say and to give you the opportunity to explain to them how slashing a substantial slice of their meagre disposable income will improve their quality of life? I urge you, Secretary of State, to take up this offer and confirm that you will meet with them. It will help you to understand why the bedroom tax is so hated in Wales; it will help you to understand the real-life impact on vulnerable people; it will help you to represent their views at the Cabinet table; and, in short, it will help you to do your job and, even in the final dying moments of this dreadful Government, take the first steps towards gaining some semblance of personal credibility in Wales.

I Julie a Christopher a thros 30,000 o bobl eraill ledled Cymru, mae'n amlwg fod y geiriau hyn yn gwbl ddiwerth. Adeg eich dyrchafiad, dywedasoch hefyd y byddech yn sicrhau mai gwaith Swyddfa Cymru fyddai gwella ansawdd bywydau pobl. Felly, rwy'n awyddus i'ch helpu, Ysgrifennydd Gwladol, i wella eich enw da drylliedig yng Nghymru. Yn yr oriel gyhoeddus heddiw, mae Julie a Christopher, ynghyd â nifer o rai eraill sy'n dioddef gan effeithiau'r dreth ystafell wely. A wnewch chi, Ysgrifennydd Gwladol, gyfarfod â'r grŵp sy'n aros i fyny'r grisiau i siarad â chi yn syth ar ôl y sesiwn hon i glywed yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud ac i roi cyfle ichi esbonio iddynt sut y bydd torri tafell sylweddol o'u hincwm gwario prin yn gwella ansawdd eu bywydau? Rwy'n eich annog, Ysgrifennydd Gwladol, i fanteisio ar y cynnig hwn a chadarnhau y byddwch yn eu cyfarfod. Bydd yn eich helpu i ddeall pam y mae'r dreth ystafell wely yn cael ei chasáu i'r fath raddau yng Nghymru; bydd yn eich helpu i ddeall yr effaith ar fywydau go iawn pobl sy'n agored i niwed; bydd yn eich helpu i gyflwyno eu safbwyntiau wrth fwrdd y Cabinet; ac yn fyr, bydd yn eich helpu i wneud eich gwaith a hyd yn oed ym munudau olaf un y Llywodraeth ofnadwy hon, yn cymryd y camau cyntaf tuag at ennill rhithyn o hygrededd personol yng Nghymru.

16:08

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I associate myself with the comments of the previous Member regarding the effect of the bedroom tax on Wales. It was very well put; thank you, Mick Antoniw, for putting it so clearly.

Rwy'n cysylltu fy hun â sylwadau'r Aelod blaenorol ynghylch effaith y dreth ystafell wely ar Gymru. Cafodd ei roi yn dda iawn; diolch i chi, Mick Antoniw, am ei roi mor glir.

Let me address the main parts of the Queen's Speech. This Parliament has been called a 'zombie Parliament' in Westminster, but every zombie film I have ever watched has had more purpose and direction among the zombies than this Queen's Speech has. It is much more like a dead parrot Parliament—the more you poke it, the more lifeless it seems. I discern—[Interruption.] Would you like to intervene?

Gadewch i mi fynd i'r afael â phrif rannau Araith y Frenhines. Mae'r Senedd hon wedi cael ei galw'n 'Senedd sombis' yn San Steffan ond mae pob ffilm sombi rwyf wedi'i gwylio erioed wedi bod â mwy o bwrpas a chyfeiriad ymhlith y sombis nag Araith y Frenhines. Mae'n llawer tebycach i Senedd y parot marw —po fwyaf y prociwch, y mwyaf difywyd y mae'n ymddangos. Ni allaf ganfod—[Torri ar draws.] A fyddech chi'n hoffi ymyrryd?

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. You should not respond to sedentary remarks.

Trefn, trefn. Ni ddylech ymateb i sylwadau gan Aelod ar ei eistedd.

16:09

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thought they were seeking to intervene.

Roeddwn yn meddwl eu bod yn ceisio ymyrryd.

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I expect the same courtesy from Conservatives who hope to be called in this debate as from all other Members.

Rwy'n disgwyl yr un cwrteisi gan y Ceidwadwyr sy'n gobeithio cael eu galw yn y ddadl hon ag rwy'n ei ddisgwyl gan yr holl Aelodau eraill.

16:09

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

I discern no moral coherence or purpose to this Queen's Speech, and that which can be discerned faintly, such as fracking, is disturbing in its implications and, possibly, even in its physical implications for Wales. Yes, there are one or two proposals that individually we can welcome. Anything that tilts the landscape in favour of small businesses, as Paul Davies mentioned, is positive, and we look forward to the detail on that. The pledge to crack down on the minimum wage and pensions tax avoidance is something that we look forward to, and the limited progress on childcare is also something to be welcomed. There are other provisions that Plaid Cymru in Westminster has sought to work with in a constructive manner. However, at its heart, this Queen's Speech is a continuation of the destruction of the shared public realm that has supported the public good since the second world war. I have to say that it was really sad to see the Liberal Democrat leader today support the Queen's Speech so strongly. I have to say to you, Kirsty Williams, that the more you claim that this Queen's Speech is down to Liberal Democrat influence, the greater the number of pigeons that will come home to roost on election day. The partial architect of the welfare state that we have was one Liberal, Mr Beveridge, and it is his inheritance that the Liberal party is now dismantling.

Ni allaf ganfod unrhyw gydlyniad neu bwrpas moesol i Araith y Frenhines ac mae'r hyn y gellir ei ddirnad i raddau bach, fel ffracio, yn destun pryder braidd o ran ei oblygiadau ac o bosibl hyd yn oed, o ran ei oblygiadau ffisegol i Gymru. Oes, mae un neu ddau o gynigion y gallwn eu croesawu'n unigol. Mae unrhyw beth sy'n gogwyddo'r dirwedd o blaid busnesau bach yn gadarnhaol fel y soniodd Paul Davies ac edrychwn ymlaen at weld manylion hynny. Mae'r addewid i ymdrin yn llym â'r isafswm cyflog ac osgoi treth pensiynau yn rhywbeth rydym yn edrych ymlaen ato ac mae cynnydd cyfyngedig ym maes gofal plant hefyd yn rhywbeth i'w groesawu. Mae darpariaethau eraill y mae Plaid Cymru yn San Steffan wedi ceisio gweithio gyda hwy mewn modd adeiladol. Fodd bynnag, yn sylfaenol, mae Araith y Frenhines yn barhad o'r dinistr i dir y cyhoedd a rennir sydd wedi cefnogi lles y cyhoedd ers yr ail ryfel byd. Mae'n rhaid imi ddweud ei bod yn drist iawn i weld arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol heddiw yn cefnogi Araith y Frenhines mor gryf. Mae'n rhaid i mi ddweud wrthych, Kirsty Williams, po fwyaf yr honnwch mai dylanwad y Democratiaid Rhyddfrydol sydd wrth wraidd Araith y Frenhines, mwyaf oll o'ch honiadau a ddaw'n ôl i'ch taro ar eich pen ar ddiwrnod yr etholiad. Un o benseiri'r wladwriaeth les sydd gennym oedd y Rhyddfrydwr, Mr Beveridge, a'i etifeddiaeth ef y mae'r blaid Ryddfrydol wrthi'n awr yn ei datgymalu.

It was the late Rik Mayall who, in character as Alan B'Stard, stated:

Y diweddar Rik Mayall, drwy gymeriad Alan B'Stard, a ddywedodd:

'You know the really great thing about a fudged coalition is that neither of us need to carry out a single promise of our election manifestos.'

Wyddoch chi, y peth gwirioneddol wych am glymblaid garbwl yw nad oes angen i'r naill na'r llall ohonom gyflawni yr un o addewidion ein maniffestos etholiadol.

That has been so true of the Liberal Democrats, who have become nothing but useful idiots in propping up the Tory attack on the state. The attempt today to name individual MPs in amendments must show your desperation, and it also shows that poor Jenny Willott has nothing to hope for in her future.

Mae hynny wedi bod mor wir am y Democratiaid Rhyddfrydol. Nid ydynt wedi bod yn ddim mwy nag idiotiaid defnyddiol sy'n cynnal ymosodiad y Torïaid ar y wladwriaeth. Rhaid bod ymgais heddiw i enwi Aelodau Seneddol unigol mewn gwelliannau yn dangos eich anobaith ac mae hefyd yn dangos nad oes gan Jenny Willott druan ddim i obeithio amdano yn y dyfodol.

If you look in particular at the proposals related to Wales, we accept that the Queen's Speech does not deal with Silk part 2, but I have to say to the Secretary of State for Wales that Silk itself was a compromise agreed between the Government here, but also the whole Assembly, and your Government in the UK. We already had a piece of work in Wales done by Gerry Holtham that showed clearly how these things could be taken forward. You chose to take it forward as Silk. You then did not keep faith with Silk, because you introduced in the Wales Bill the lockstep, which was not only not recommended by Silk, but specifically ruled out by the earlier work of Gerry Holtham. I think that Silk part 1 was a lot easier for the UK Government to agree to, because it dealt with accountability. Silk part 2 deals with empowerment, and that is a dangerous word for a Conservative Government; it does not like it, and it does not like to see this Assembly become empowered to be properly responsible to the people of Wales, because with empowerment comes true emancipation, and with true emancipation comes proper democracy and accountability. It is no wonder that half of the people in Wales do not know who runs the NHS. We remain, at heart, an unemancipated nation, because we do not have that fully together.

Os edrychwch yn benodol ar y cynigion sy'n ymwneud â Chymru, rydym yn derbyn nad yw Araith y Frenhines yn ymdrin â rhan 2 Silk, ond rhaid i mi ddweud wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru fod Silk ei hun yn gyfaddawd a gytunwyd rhwng y Llywodraeth yma, ond hefyd y Cynulliad cyfan, a'ch Llywodraeth yn y DU. Rydym eisoes wedi gweld gwaith yn cael ei wneud yng Nghymru gan Gerry Holtham a oedd yn dangos yn glir sut y gellid datblygu'r pethau hyn. Dewisasoch fwrw ymlaen ag ef fel Silk. Yna, ni fuoch yn deyrngar i Silk gan i chi gyflwyno'r 'lockstep' ym Mil Cymru, a oedd nid yn unig yn system nad oedd Silk yn ei hargymell, ond a gafodd ei diystyru'n benodol yng ngwaith cynharach Gerry Holtham. Credaf fod rhan 1 Silk yn llawer haws i Lywodraeth y DU gytuno arni am ei bod yn ymdrin ag atebolrwydd. Mae rhan 2 Silk yn ymdrin â grymuso, sy'n air peryglus i Lywodraeth Geidwadol; nid yw'n ei hoffi ac nid yw'n hoffi gweld y Cynulliad hwn yn cael ei grymuso i fod yn briodol atebol i bobl Cymru, oherwydd gyda grymuso, daw rhyddfreinio go iawn a chyda rhyddfreinio go iawn, daw democratiaeth ac atebolrwydd go iawn. Nid yw'n syndod nad yw hanner y bobl yng Nghymru yn gwybod pwy sy'n rhedeg y GIG. Yn y bôn, rydym yn parhau i fod yn genedl heb ei rhyddfreinio gan nad ydym wedi cael trefn ar hyn oll.

The Queen's Speech singularly fails to address the biggest constitutional and political issue facing the UK, which is the decision of the people of Scotland on 18 September to go independent. This UK coalition Government claims that we are better together, but its every act has been to dismantle what the UK has achieved together since 1945: the integrity of the NHS, equity in education, and the protection of the most vulnerable and the poorest in society. If you end up, as a Government, buying water cannons because you are afraid of citizens on the street, you have got it wrong.

Mae Araith y Frenhines yn methu'n llwyr â mynd i'r afael â'r mater cyfansoddiadol a gwleidyddol mwyaf sy'n wynebu'r DU sef penderfyniad pobl yr Alban ar 18 Medi i fynd yn annibynnol. Mae Llywodraeth glymblaid y DU yn honni ein bod yn well gyda'n gilydd, ond mae pob un o'i gweithredoedd wedi datgymalu'r hyn y mae'r DU wedi'i gyflawni gyda'i gilydd ers 1945: uniondeb y GIG, cyfiawnder mewn addysg ac amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed a'r tlotaf mewn cymdeithas. Os mai pen draw hyn i chi fel Llywodraeth yw prynu canonau dŵr am eich bod yn ofni'r dinasyddion ar y stryd, rydych chi wedi bod yn gwneud y pethau anghywir.

You took, Secretary of State, the banking crisis, and instead of addressing the root issues around that, which are greed and an unfettered market, you perverted it to your own ideological ends to seek the end of the state and marketisation of our lives. So, we end up with the folly of an English Secretary of State wringing his hands over what has been introduced in some English schools, insisting on British values, when he has been instrumental—building on the foundations of Labour policy, it is true—in stripping away public accountability, public interest and the public good for those same schools. He is Govenstein, who created the monster that he now seeks to control. The result is that the people of Scotland will vote in masses for independence, not just nationalists.

Ysgrifennydd Gwladol, cymerasoch yr argyfwng bancio ac yn hytrach na mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a oedd yn gysylltiedig â hynny sef trachwant a marchnad ddilyffethair, gwyrasoch y peth i gyd-fynd â'ch nodau ideolegol eich hunain er mwyn ceisio rhoi diwedd ar y wladwriaeth a marchnadeiddio ein bywydau. Felly, yr hyn sydd gennym yw ffolineb cael Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr sy'n poeni am yr hyn a gyflwynwyd mewn rhai ysgolion yn Lloegr, gan fynnu gwerthoedd Prydeinig ag yntau wedi bod yn allweddol yn y broses o gael gwared ar atebolrwydd cyhoeddus—gan adeiladu ar sylfeini polisïau Llafur, mae'n wir—budd y cyhoedd a lles y cyhoedd gogyfer â'r union ysgolion hynny. Dyma Govenstein, a greodd yr anghenfil y mae'n awr yn ceisio'i reoli. Y canlyniad yw y bydd pobl yr Alban yn pleidleisio yn eu heidiau dros annibyniaeth, ac nid y cenedlaetholwyr yn unig.

I will conclude, Deputy Presiding Officer. Social democrats of all hues now see that British values are best kept by adopting them as Scottish values in an independent nation. One day, we will do the same.

Rwyf am gloi, Ddirprwy Lywydd. Mae democratiaid cymdeithasol o bob lliw yn awr yn gweld mai'r ffordd orau o gynnal gwerthoedd Prydeinig yw eu mabwysiadu fel gwerthoedd Albanaidd mewn cenedl annibynnol. Un diwrnod, byddwn ninnau'n gwneud yr un peth.

16:13

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very grateful to be called to contribute to this debate today and to have the opportunity to reflect on some of the key measures that the UK Government is taking to provide opportunities for people, and to reflect the impact of liberalism in the coalition Government.

Rwy'n ddiolchgar iawn i gael fy ngalw i gyfrannu at y ddadl hon heddiw ac i gael y cyfle i fyfyrio ar rai o'r mesurau allweddol y mae Llywodraeth y DU yn eu rhoi ar waith i ddarparu cyfleoedd i bobl ac i fyfyrio ar effaith rhyddfrydiaeth yn Llywodraeth y glymblaid.

Andrew R.T. Davies raised the image of a Tory majority Government a few minutes ago. I have to say that it sent shivers down my spine, Andrew, but for all the wrong reasons. Let me tell you that there are Liberal achievements in this Queen's Speech that I am proud, as a Liberal, to reflect on. The first of those that I wish to discuss are the measures in the Childcare Payments Bill, which you referred to in your speech. The Liberal Democrats have made helping parents with the cost of childcare a real priority in Government, and the announcement on childcare in the Queen's Speech is something that we have fought for. I am proud that we are delivering this in Government. The Childcare Payments Bill will offer working families up to £2,000 per year for each child, so that a family with two children under the age of 12 could benefit by up to £4,000 a year.

Cyfeiriodd Andrew R.T. Davies at y darlun o Lywodraeth Dorïaidd fwyafrifol ychydig funudau yn ôl. Mae'n rhaid I mi ddweud bod hynny wedi saethu ias I lawr fy asgwrn cefn, Andrew, ond am y rhesymau anghywir I gyd. Gadewch I mi ddweud wrthych fy mod, fel Rhyddfrydwr, yn falch fod cyflawniadau Rhyddfrydol I fyfyrio yn eu cylch yn Araith y Frenhines. Y cyntaf o'r rhai rwy'n dymuno'u trafod yw'r mesurau yn y Bil Taliadau Gofal Plant y cyfeiriodd eich araith atynt. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwneud helpu rhieni gyda chostau gofal plant yn flaenoriaeth go iawn yn y Llywodraeth ac mae'r cyhoeddiad ar ofal plant yn Araith y Frenhines yn rhywbeth rydym wedi ymladd amdano. Rwy'n falch ein bod yn cyflawni hyn yn y Llywodraeth. Bydd y Bil Taliadau Gofal Plant yn cynnig hyd at £2,000 y flwyddyn I deuluoedd sy'n gweithio ar gyfer pob plentyn, fel y gallai teulu gyda dau o blant o dan 12 oed fod hyd at £4,000 y flwyddyn ar eu helw.

We know, and we have discussed in this Chamber, that the high cost of childcare is a formidable barrier to encouraging more women to re-enter the workforce after having a family and I sincerely welcome measures that will have an active impact on improving the lives of those individuals. I would say that this also builds on progress that we have already made as Liberal Democrats in Government—15 hours of free childcare a week for three and four-year-olds and 40% of two-year-olds from September, as well as the shared parental leave that will see fathers' rights put on a more equal footing and allow both parents to achieve a much more positive and equal work-life balance.

Rydym yn gwybod, ac rydym wedi trafod yn y Siambr hon, fod cost uchel gofal plant yn rhwystr aruthrol i annog mwy o fenywod i ailymuno â'r gweithlu ar ôl cael teulu ac rwy'n croesawu mesurau a fydd yn cael effaith weithredol ar wella bywydau'r unigolion hynny. Byddwn yn dweud bod hyn hefyd yn adeiladu ar y cynnydd rydym eisoes wedi'i wneud fel Democratiaid Rhyddfrydol mewn Llywodraeth—15 awr o ofal plant am ddim yr wythnos i blant tair a phedair oed a 40% o blant dwy flwydd oed o fis Medi yn ogystal â'r cyfnod absenoldeb rhiant a rennir a fydd yn rhoi hawliau tadau ar sylfaen fwy cyfartal ac yn galluogi'r ddau riant i sicrhau cydbwysedd bywyd a gwaith llawer mwy cadarnhaol a chyfartal.

In contrast, I do worry about the piecemeal situation here in Wales. If you are lucky enough to live in a Flying Start area, you may be eligible for two-and-a-half-hours-a-day, five-days-a-week, 39-weeks-a-year provision for two to three-year-olds. However, constituents tell me that the inflexibility of this provision prevents them from using it to access work, because, after you have taken a child to their nursery placement and you have driven for half an hour to get to your work, you have an hour and a half in work before you have to go back to fetch them again. This is not a solution that enables women to get into the workplace and I would call on the Welsh Government to look at the inflexibility of the situation as we have it here.

Mewn cyferbyniad, rwy'n poeni am y sefyllfa dameidiog yma yng Nghymru. Os ydych yn ddigon ffodus i fyw mewn ardal Dechrau'n Deg, efallai y byddwch yn gymwys i gael darpariaeth am ddwy awr a hanner y dydd, bum diwrnod yr wythnos, 39 wythnos y flwyddyn i blant dwy i dair oed. Fodd bynnag, mae etholwyr yn dweud wrthyf fod anhyblygrwydd y ddarpariaeth hon yn eu hatal rhag ei defnyddio i gael gafael ar waith, oherwydd ar ôl i chi fynd â phlentyn i'w leoliad meithrin a gyrru am hanner awr i gyrraedd eich gwaith, mae gennych awr a hanner yn y gwaith cyn bod yn rhaid i chi fynd yn ôl eto. Nid yw'n ateb sy'n galluogi menywod i gael gwaith a byddwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar anhyblygrwydd y sefyllfa fel y mae.

I also welcome the small business enterprise and employment Bill, which will help to reduce the barriers that constrain the ability of businesses to start up, to innovate and to grow. Proposals within the Bill being led by Vince Cable will help small businesses to gain access to finance and facilitate access to £230 billion of public procurement contracts.

Rwyf hefyd yn croesawu'r Bil busnesau bach, menter a chyflogaeth a fydd yn helpu i leihau'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar allu busnesau i sefydlu, i arloesi ac i dyfu. Bydd cynigion yn y Bil sy'n cael eu harwain gan Vince Cable yn helpu busnesau bach i gael mynediad at gyllid ac yn hwyluso mynediad at £230 biliwn o gontractau caffael cyhoeddus.

In response to Simon Thomas, I would suggest that it is Jenny Willott, who is also taking action to tackle the abuse of zero-hours contracts through her work in the Department for Business, Innovation and Skills, is the one who is naming and shaming those employers who are not paying workers the national minimum wage, and I could also point out that Labour never took action on zero-hours contracts of employers—

Mewn ymateb i Simon Thomas, byddwn yn awgrymu mai Jenny Willott, sydd hefyd yn cymryd camau i drechu'r camddefnydd o gontractau dim oriau drwy ei gwaith yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, yw'r un sy'n enwi a chodi cywilydd ar y cyflogwyr hynny nad ydynt yn talu'r isafswm cyflog cenedlaethol i weithwyr a gallwn hefyd nodi nad yw Llafur erioed wedi cymryd camau yn erbyn contractau dim oriau gan gyflogwyr—

16:16

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:16

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have said no, thank you. When you were given an opportunity to take action right here on zero-hours contracts in the social care sector, you chose not to do so. It was too hard for you and you have the nerve to criticise others when they are actually taking effective action instead.

Rwyf wedi dweud na, diolch i chi. Pan gawsoch gyfle i roi camau ar waith yma ar gontractau dim oriau yn y sector gofal cymdeithasol, eich dewis oedd peidio â gwneud hynny. Roedd yn rhy anodd i chi ac mae gennych wyneb yn beirniadu pobl eraill sy'n rhoi camau effeithiol ar waith mewn gwirionedd yn lle hynny.

I also welcome the fact that within that Bill, red tape will be reviewed more regularly to ensure that it is up-to-date and still providing that appropriate balance between protection for workers and customers and giving businesses the freedom that they need to grow and to prosper. There will also be, as we have heard, support for our pubs following a long campaign by Greg Mulholland MP, and there will be a new statutory code and an independent adjudicator to ensure that publicans who are tied to a pub code are treated fairly. Landlords tied to large pub companies have struggled to make a decent living. We have seen the impact of this in every community in Wales and I hope that Members here will welcome the opportunity that this Bill presents to deliver for landlords a fairer settlement.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd biwrocratiaeth yn cael ei adolygu'n fwy rheolaidd yn y Bil hwnnw er mwyn sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn parhau i gynnig cydbwysedd priodol rhwng diogelu gweithwyr a chwsmeriaid a rhoi'r rhyddid sydd ei angen ar fusnesau i dyfu a ffynnu. Hefyd, fel y clywsom, bydd cymorth ar gael i dafarndai yn dilyn ymgyrch hir gan Greg Mulholland AS, a bydd cod statudol newydd a dyfarnwr annibynnol i sicrhau bod tafarnwyr sy'n cael eu clymu wrth god tafarn yn cael eu trin yn deg. Mae landlordiaid sydd wedi'u clymu wrth gwmnïau tafarn mawr wedi ei chael yn anodd gwneud bywoliaeth weddus. Rydym wedi gweld effaith hyn ym mhob cymuned yng Nghymru ac rwy'n gobeithio y bydd Aelodau yma yn croesawu'r cyfle y mae'r Bil hwn yn ei gyflwyno i gynnig setliad tecach i landlordiaid.

I would also like to refer briefly to the Infrastructure Bill, which continues the strong action that we are taking to tackle climate change. Since 2010, the amount of electricity generated from renewables has doubled and I am proud of the ambitious work of the Minister Ed Davey in this regard. The Infrastructure Bill will introduce new measures that will see England follow Wales with the plastic bag levy and I welcome it doing that. I am also particularly pleased that communities will be given the chance to buy a stake in local renewable electricity schemes so that they can gain a share in financial benefits there. This is an issue that has been raised by constituents in my own region and I hope that this will help them to accept those.

Hoffwn gyfeirio'n fyr hefyd at y Bil Seilwaith, sy'n parhau'r camau cryf rydym yn eu rhoi ar waith i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Ers 2010, mae'r trydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy wedi dyblu ac rwy'n falch o waith uchelgeisiol y Gweinidog, Ed Davey, yn hyn o beth. Bydd y Bil Seilwaith yn cyflwyno mesurau newydd a fydd yn golygu bod Lloegr yn dilyn Cymru gydag ardoll ar fagiau plastig ac rwy'n croesawu hynny. Rwyf hefyd yn arbennig o falch y bydd cymunedau yn cael cyfle i brynu cyfrannau mewn cynlluniau trydan adnewyddadwy lleol er mwyn iddynt allu cael cyfran o'r buddion ariannol yno. Mae hwn yn fater a godwyd gan etholwyr yn fy rhanbarth ac rwy'n gobeithio y bydd hyn yn eu helpu i gael hynny.

With regards to fracking, though, I have to say that a consultation is currently running on proposals to allow companies access to shale and geothermal activities. We do not support these proposals. The Welsh Liberal Democrats continue to oppose fracking and our policy is to deny planning permission for fracking operations until and unless safety and environmental protection concerns can be guaranteed to the highest standards.

O ran ffracio, fodd bynnag, rhaid imi ddweud bod ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd ar gynigion i ganiatáu i gwmnïau gyflawni gweithgareddau siâl a geothermol. Nid ydym yn cefnogi'r cynigion hyn. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn parhau i wrthwynebu ffracio a'n polisi yw gwadu caniatâd cynllunio ar gyfer gweithrediadau ffracio hyd nes ac oni bai y gellir gwarantu'r safonau uchaf o ran materion diogelwch ac amddiffyn yr amgylchedd.

16:16

## Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It would be wrong to say that there is nothing in this Queen's Speech to welcome: the anti-slavery Bill, which is very influenced by policies here in Wales, increased measures to protect children, more efforts to stop female genital mutilation, and measures on childcare are all there to be welcomed.

Byddai'n anghywir i ddweud nad oes dim byd yn Araith y Frenhines i'w groesawu: mae'r Bil gwrthgaethwasiaeth y dylanwadwyd yn fawr arno gan bolisïau yma yng Nghymru, yn cynnwys cynyddu mesurau i amddiffyn plant, mwy o ymdrechion i atal anffurfio organau cenhedlu benywod a mesurau ar ofal plant sydd oll i'w croesawu.

However, this Queen's Speech has a lack of coherence, there is no strong message binding all of these issues together and it is overall marked by the absence of the recognition of the problems that are facing people here in Wales today.

Fodd bynnag, mae diffyg cydlyniad yn perthyn i Araith y Frenhines. Nid oes neges gref yn rhwymo'r holl faterion hyn gyda'i gilydd a chaiff ei nodweddu'n gyffredinol gan absenoldeb unrhyw gydnabyddiaeth o'r problemau sy'n wynebu pobl yma yng Nghymru heddiw.

The Queen's Speech is actually taking place in a unique situation with, for the first time in Westminster, a fixed Parliament. Of course, they have always been fixed, as terms, here in the Assembly. It used to be said that the Prime Minister's greatest power was the power to call a general election. However, that has now gone and it certainly seems to me that this last year of a five-year fixed Parliament is being led by a coalition that has run out of momentum. At the moment, and during the debate—

Mewn gwirionedd, mae Araith y Frenhines yn digwydd mewn sefyllfa unigryw gyda Senedd tymor penodol yn San Steffan am y tro cyntaf. Wrth gwrs, mae'r tymhorau bob amser wedi bod yn benodol yma yn y Cynulliad. Arferid dweud mai pŵer mwyaf y Prif Weinidog oedd y pŵer i alw etholiad cyffredinol. Fodd bynnag, mae hynny bellach wedi mynd ac mae'n sicr yn ymddangos i mi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon o'r tymor penodol, fod y Senedd yn cael ei harwain gan glymblaid sydd wedi colli momentwm. Ar hyn o bryd, ac yn ystod y drafodaeth—

16:20 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:20 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No. The debate after the European election and following the Queen's Speech has been dominated by internal rows within the coalition parties. This week has all been about Theresa May and Michael Gove, which has led to a debate on British values, last week or the week before, it was Clegg and Cable, and the Queen's Speech has also taken place after a huge shift by voters in the European elections from traditional parties to a largely unknown party with unknown domestic policies. The Queen's Speech does not seem to respond to that in any way whatsoever.

Na wnaf. Mae'r ddadl ar ôl yr etholiad Ewropeaidd ac yn dilyn Araith y Frenhines wedi'i dominyddu gan ffraeo mewnol ymhlith pleidiau'r glymblaid. Mae'r sylw yr wythnos hon i gyd wedi bod ar Theresa May a Michael Gove sydd wedi arwain at ddadl ynglŷn â gwerthoedd Prydeinig. Yr wythnos diwethaf neu'r wythnos cyn hynny, Clegg a Cable oedd wrthi ac mae Araith y Frenhines hefyd wedi digwydd ar ôl symud enfawr gan etholwyr yn yr etholiadau Ewropeaidd tuag at blaid anhysbys i raddau helaeth gyda pholisïau domestig anhysbys. Nid yw'n ymddangos bod Araith y Frenhines yn ymateb i hynny mewn unrhyw ffordd o gwbl.

In the brief time that I have, I want to look at how the Queen's Speech addresses issues that affect children in Wales. In this Assembly, the Government Ministers have to consider every decision that they make and every law that they propose as it relates to children and what affect it has on children. What has not been addressed in this Queen's Speech is the devastating effect that the policy of the coalition has had on children. Only this week, the Social Mobility and Child Poverty Commission, established by the Government itself to see what progress is being made and to oversee the progress in eliminating child poverty, has said that the UK Government's child poverty strategy lacks credibility, and we have heard a lot about that in the questions asked here this afternoon.

Yn yr amser byr sydd gennyf, rwyf am edrych i weld sut y mae Araith y Frenhines yn mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar blant yng Nghymru. Yn y Cynulliad hwn, mae'n rhaid i Weinidogion y Llywodraeth ystyried pob penderfyniad a wnânt a phob deddf y maent yn ei chynnig yn ôl y modd y mae'n ymwneud â phlant a pha effaith y mae'n ei chael ar blant. Yr hyn na chafodd sylw yn Araith y Frenhines yw'r effaith ddinistriol y mae polisïau'r glymblaid wedi'u cael ar blant. Yr wythnos hon, dywedodd y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, a sefydlwyd gan y Llywodraeth ei hun i weld pa gynnydd sy'n cael ei wneud ac i oruchwylio cynnydd o ran dileu tlodi plant, fod strategaeth tlodi plant Llywodraeth y DU yn brin o hygrededd ac rydym wedi clywed llawer am hynny yn y cwestiynau a ofynnwyd yma y prynhawn yma.

The biggest problem is the coalition's decision to attack children's benefits and to attack tax credits for families in low-paid work. In Wales, we do not have any control over these benefits. That means that the Welsh Government has very little room for manoeuvre in tackling the effect that these changes on benefits have had. We are doing our best by providing free debt advice services and welfare benefits advice, but it is on the fringes. These matters are beyond our control. The Institute for Fiscal Studies has said that there will be a predicted increase in child poverty in the UK as a whole by the end of the decade, and real cuts to working-age benefits are a key reason behind rising poverty. In a recent the Child Poverty Action Group says that benefits for families with children are one of the most critical child poverty reduction tools available to Government. However, the Westminster Government has eroded the value of benefits. If you just look at child benefit, you will see that we have lost almost 15% of its value over this Parliament, because, of course, it has been frozen. It is a disgraceful situation that child benefit, which is the benefit that is directly there to help children, is one of the benefits that have been cut by this coalition Government, and I think that that is an absolute disgrace.

Y broblem fwyaf yw penderfyniad y glymblaid i ymosod ar fudd-daliadau plant ac i ymosod ar gredydau treth i deuluoedd mewn gwaith ar gyflog isel. Yng Nghymru, nid oes gennym unrhyw reolaeth dros y budd-daliadau hyn. Mae hynny'n golygu mai ychydig iawn o le i symud sydd gan Lywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael ag effaith y newidiadau ar fudd-daliadau. Rydym yn gwneud ein gorau drwy ddarparu gwasanaethau cyngor am ddim ar ddyledion a chyngor ar fudd-daliadau lles, ond pethau ymylol yw'r rhain. Mae'r materion hyn y tu hwnt i'n rheolaeth. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dweud y bydd cynnydd a ragwelwyd mewn tlodi plant ledled y DU erbyn diwedd y degawd ac mae toriadau gwirioneddol i fudd-daliadau oedran gweithio yn rheswm allweddol dros y cynnydd mewn tlodi. Mewn astudiaeth ddiweddar, mae'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant yn dweud mai budd-daliadau i deuluoedd â phlant yw un o'r adnoddau mwyaf allweddol ar gyfer lleihau tlodi plant sydd ar gael i Lywodraeth. Ond mae Llywodraeth San Steffan wedi erydu gwerth budd-daliadau. Os edrychwch ar fudd-dal plant, gwelwch ein bod wedi colli bron i 15% o'i werth dros gyfnod y Senedd hon oherwydd ei fod wedi cael ei rewi wrth gwrs. Mae'n sefyllfa warthus fod budd-dal plant, sef y budd-dal sydd yno'n uniongyrchol i helpu plant, yn un o'r budd-daliadau sydd wedi cael eu torri gan y Llywodraeth glymblaid hon a chredaf fod hynny'n warth pur.

Recent Save the Children research reports that 5 million children in Britain could be sentenced to a lifetime of poverty by 2020, because of benefits cuts. In Wales, cuts have hit the poorest families hardest, and we have evidence. Analysis in different parts of Wales shows that the poorest parts of Wales are being hit hardest by the cuts. It is children who are suffering from the consequences of this.

Mae adroddiadau diweddar gan Achub y Plant yn dweud y gallai 5 miliwn o blant ym Mhrydain gael eu dedfrydu i oes o dlodi erbyn 2020 oherwydd toriadau mewn budd-daliadau. Yng Nghymru, y teuluoedd sydd wedi'u taro galetaf gan y toriadau yw'r teuluoedd tlotaf ac mae gennym dystiolaeth o hynny. Mae dadansoddiadau mewn gwahanol rannau o Gymru yn dangos mai'r rhannau tlotaf o Gymru sy'n cael eu taro galetaf gan y toriadau. Plant sy'n dioddef canlyniadau hyn.

So, to me, that is the major challenge that the Queen's Speech has failed to address: the experience of children in Wales and in the UK, growing up in poverty with parents who are not able to give the attention and the nurturing that they want because of the stress that they are under in trying to get from one day to the next. Surely the most important thing that we can do as politicians and legislators is to legislate for the good of our children.

Felly, i mi, dyma'r brif her y mae Araith y Frenhines wedi methu â mynd i'r afael â hi: profiad plant yng Nghymru ac yn y DU sy'n tyfu i fyny mewn tlodi gyda rhieni nad ydynt yn gallu rhoi'r sylw a'r fagwraeth y dymunant eu rhoi oherwydd y straen sydd arnynt wrth geisio mynd o un diwrnod i'r llall. Onid y peth pwysicaf y gallwn ei wneud fel gwleidyddion a deddfwyr yw deddfu er lles ein plant?

16:24 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

At the academy awards this year, '12 Years a Slave' won the Oscar for the best motion picture. It tells the story of Solomon Northup, a free man living in New York in 1841, who was tricked by a slave trader into travelling to Washington, where he was kidnapped and sold into slavery. Sent to Louisiana, he experienced violence and the degrading of life as a slave while clinging to the hope that he would someday regain his freedom. This is a true story about events that took place over 170 years ago. However, there is increasing evidence that men, women and children in Britain today are being exploited by organised criminal gangs. This exploitation takes many forms. Some are through forced labour, being forced to take part in crime, and by being made to work in sex trade. Victims of human trafficking are often vulnerable people who can be exploited, either in their own countries or preyed upon overseas and moved across borders.

Yng ngwobrau'r academi eleni, '12 Years a Slave' a enillodd yr Oscar am y ffilm orau. Mae'n adrodd hanes Solomon Northup, dyn rhydd a oedd yn byw yn Efrog Newydd yn 1841 a gafodd ei dwyllo gan fasnachwr caethweision i deithio i Washington lle y cafodd ei herwgipio a'i werthu fel caethwas. Cafodd ei anfon i Louisiana a phrofodd drais a dirywiad bywyd fel caethwas tra glynai at y gobaith y byddai'n adennill ei ryddid rhyw ddydd. Mae hon yn stori wir am bethau a ddigwyddodd dros 170 mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth gynyddol fod dynion, menywod a phlant ym Mhrydain heddiw yn cael eu hecsbloetio gan gangiau troseddol cyfundrefnol. Mae camfanteisio o'r fath yn digwydd ar sawl ffurf. Camfanteisir ar rai drwy lafur gorfodol, cael eu gorfodi i gymryd rhan mewn troseddau a thrwy gael eu gorfodi i weithio yn y fasnach ryw. Yn aml, pobl agored i niwed yw'r bobl sy'n dioddef drwy fasnachu pobl, a chânt eu hecsbloetio yn eu gwledydd eu hunain neu dramor a'u symud ar draws ffiniau.

16:25 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

16:25 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

16:25 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member. I agree with him; he is addressing an important point, but does he know that the provisions in this Bill in the Queen's Speech do not address things like slave labour in Thailand to produce prawns for our supermarkets, which the tenant at 10 Downing Street seems to be very happy to allow to continue?

Diolch i'r Aelod. Rwy'n cytuno ag ef; mae'n trafod pwynt pwysig ond a yw'n gwybod nad yw'r darpariaethau yn y Bil yn Araith y Frenhines yn mynd i'r afael â phethau fel llafur caethweision yng Ngwlad Thai i gynhyrchu corgimychiaid ar gyfer ein harchfarchnadoedd, arfer y mae'n ymddangos bod tenant 10 Stryd Downing yn hapus iawn i ganiatáu iddo barhau?

16:25 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Just listen to my speech further and I will probably come back on that.

Gwrandewch ar fwy o fy araith ac mae'n fwy na thebyg y dof yn ôl at hynny.

Victims of human trafficking are often vulnerable people who can be exploited either in their own countries or preyed upon overseas and moved across borders. At Newport Crown Court in January this year, two people admitted trafficking two women into Wales from the Czech Republic for the purpose of prostitution. Commenting on this case, Nicola Rees of Crown Prosecution Services Wales said:

'Human trafficking is modern-day slavery and is totally unacceptable in a civilised society'

like Britain. It is imperative that we tackle the scourge of modern slavery. I recognise that this is not going to be easy. By its very nature, human trafficking is an unseen crime, whose victims live in fear. They are afraid not only of the traffickers but also of the police and other authorities that could help them, because so many of the victims are themselves involved in crime. The United Kingdom Government has already signalled its determination to stamp out modern slavery. The National Crime Agency has border policing and organised crime as two of its responsibilities. Training is being developed for the police and border officials to recognise the signs of slavery when they come across them, and specialist border anti-slavery teams have been appointed.

More needs to be done, which is why I welcome the Modern Slavery Bill. The Modern Slavery Bill will be the one of the first Acts of its kind in the whole world. This single Act will provide the power needed to investigate, prosecute and punish those involved in these appalling crimes. It will bring in tougher measures to deal with traffickers and enhanced protection for victims. Courts will be allowed to award life sentences to those found guilty and create a new order so that assets can be seized from those convicted and used more often to compensate the victims. The Bill will also increase protection for the victims of trafficking, to provide support, and to help them to recover from the ordeal that they have suffered. It will introduce a defence against prosecution for victims who are forced to commit acts of crime by the slave masters.

Cases like those of Solomon Northup have no place in the modern Britain and should be consigned to the history books. This Bill will help to ensure that those who exploit the vulnerable and trade on human misery will be brought to justice and receive the punishment that they deserve. I hope that the world will follow us. Thank you.

Yn aml, pobl agored i niwed yw'r bobl sy'n dioddef drwy fasnachu pobl, a chânt eu hecsbloetio yn eu gwledydd eu hunain neu dramor a'u symud ar draws ffiniau. Yn Llys y Goron Casnewydd ym mis Ionawr eleni, cyfaddefodd dau o bobl eu bod wedi masnachu dwy fenyw i mewn i Gymru o'r Weriniaeth Tsiec at ddibenion puteindra. Wrth sôn am yr achos hwn, dywedodd Nicola Rees o Wasanaeth Erlyn y Goron Cymru:

Caethwasiaeth fodern yw masnachu pobl ac mae'n gwbl annerbyniol mewn cymdeithas wâr

fel Prydain. Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â phla caethwasiaeth fodern. Rwy'n cydnabod nad yw hyn yn mynd i fod yn hawdd. O ran ei natur, trosedd anweledig yw masnachu pobl ac mae'r dioddefwyr yn byw mewn ofn. Maent yn ofni'r masnachwyr, a hefyd yr heddlu ac awdurdodau eraill a allai eu helpu gan fod cynifer o'r dioddefwyr eu hunain yn ymhél â throseddu. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes wedi nodi ei phenderfyniad i ddileu caethwasiaeth fodern. Dau o gyfrifoldebau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yw plismona ffiniau a throseddau cyfundrefnol. Mae hyfforddiant yn cael ei datblygu ar gyfer yr heddlu a swyddogion ffiniau iddynt allu adnabod arwyddion caethwasiaeth pan ddônt ar eu traws a phenodwyd timau gwrthgaethwasiaeth arbenigol.

Mae angen gwneud rhagor, a dyna pam rwy'n croesawu'r Bil Caethwasiaeth Fodern. Bydd y Bil Caethwasiaeth Fodern yn un o'r Deddfau cyntaf o'i bath yn y byd i gyd. Bydd y Ddeddf hon ynddi ei hun yn darparu'r pŵer sydd ei angen ar gyfer ymchwilio, erlyn a chosbi'r rhai sy'n ymhél â'r troseddau ofnadwy hyn. Bydd yn cyflwyno mesurau llymach i ymdrin â masnachwyr ac yn gwella diogelwch i ddioddefwyr. Bydd llysoedd yn cael rhoi dedfryd am oes i'r rhai a geir yn euog ac yn creu trefn newydd fel bod modd ymafael yn asedau'r rhai a geir yn euog a'u defnyddio'n amlach i ddigolledu dioddefwyr. Bydd y Bil hefyd yn rhoi mwy o ddiogelwch i ddioddefwyr masnachu pobl, yn darparu cymorth ac yn eu helpu i wella o'r profiad y maent wedi'i ddioddef. Bydd yn cyflwyno amddiffyniad rhag eu herlyn i ddioddefwyr sy'n cael eu gorfodi i gyflawni troseddau gan y meistri caethwasiaeth.

Nid oes lle i achosion fel rhai Solomon Northup yn y Brydain fodern a dylid eu cyfyngu am byth i'r llyfrau hanes. Bydd y Bil hwn yn helpu i sicrhau bod y rhai sy'n cam-fanteisio ar bobl agored i niwed ac yn masnachu mewn trallod dynol yn cael eu dwyn o flaen eu gwell ac yn cael y gosb a haeddant. Rwy'n gobeithio y bydd gweddill y byd yn ein dilyn. Diolch.

16:29 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The UK Government's remaining programme, announced in the Queen's Speech, did not make any specific measures to tackle regional inequality across Britain. With a few honourable exceptions, it is as if politicians in Westminster simply do not realise that the UK has one of the highest levels of regional inequality in the developed world. The UK's economic recovery, which we know started much later than originally expected, is praised to the hilt by the UK Government, but the quality of that recovery, the nature of the jobs, and the contracts being created are discussed much less often.

Nid yw'r rhaglen sy'n weddill gan Lywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines yn cyfeirio at unrhyw fesurau penodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol ar draws Prydain. Gyda rhai eithriadau anrhydeddus, ymddengys nad yw gwleidyddion yn San Steffan yn sylweddoli mai'r DU sydd ag un o'r lefelau uchaf o anghydraddoldeb rhanbarthol yn y byd datblygedig. Mae Llywodraeth y DU yn canmol adferiad economaidd y DU i'r cymylau, er iddo ddechrau'n llawer hwyrach nag a ddisgwylid yn wreiddiol, ond rhoddir llawer llai o sylw i ansawdd yr adferiad hwnnw, natur y swyddi a'r contractau sy'n cael eu creu.

The wealth disparity between the UK's countries and regions is the greatest in Europe. This is a situation that predates devolution, and according to the United Nations Economic Commission for Europe, industrial production in the UK has declined since 1990. We know that this industrial decline has been felt by nearly all of the constituencies and regions that we represent. This decline was not shared by most of the large, developed economies over the same period, and it shows the effects, I think, of the kind of unsustainable economic strategy that successive UK Governments have followed.

Y gwahaniaeth o ran cyfoeth rhwng gwledydd a rhanbarthau'r DU yw'r mwyaf yn Ewrop. Mae hon yn sefyllfa sy'n dyddio o gyfnod cyn datganoli ac yn ôl Comisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ewrop, mae cynhyrchiant diwydiannol y DU wedi dirywio ers 1990. Gwyddom fod bron pob un o'r etholaethau a'r rhanbarthau a gynrychiolwn wedi teimlo'r dirywiad diwydiannol hwn. Nid yw'r rhan fwyaf o economïau mawr, datblygedig wedi profi'r un dirywiad yn ystod yr un cyfnod ac rwy'n credu ei fod yn dangos effeithiau'r math o strategaeth economaidd anghynaladwy y mae Llywodraethau olynol y DU wedi'u dilyn.

Plaid Cymru, in our alternative Queen's Speech, proposes an economic fairness Bill. Of course, what we want is devolution of the whole range of fiscal powers, but we have always maintained that while we are part of the UK we should seek to ensure a fair distribution of resources across the state. An economic fairness Bill would place a legal duty on all UK Governments, regardless of their political persuasion, to rebalance the economy geographically. The constitution of Germany commits its administrations to seek the same objective. Under such a legal duty, disadvantaged economic regions would be prioritised for infrastructure investment. Issues such as fair funding, regional banking and incentives for the private sector could be dealt with much more quickly, and if this legislation were in place, I doubt very much that our communities would still be waiting today for clarification of whether the Valleys rail investment would be going ahead.

Mae Plaid Cymru, yn ein Haraith y Frenhines amgen, yn cynnig Bil tegwch economaidd. Wrth gwrs, yr hyn rydym ei eisiau yw datganoli'r ystod gyfan o bwerau cyllidol ond rydym bob amser wedi datgan, tra ydym yn rhan o'r DU dylem geisio sicrhau dosbarthiad teg o adnoddau ar draws y wladwriaeth. Byddai Bil tegwch economaidd yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar bob Llywodraeth y DU, beth bynnag fo'i daliadau gwleidyddol, i ail-gydbwyso'r economi yn ddaearyddol. Mae cyfansoddiad yr Almaen yn ymrwymo ei gweinyddiaethau i geisio'r un amcan. O dan ddyletswydd gyfreithiol o'r fath, byddai rhanbarthau economaidd dan anfantais yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Gellid ymdrin â materion fel ariannu teg, bancio rhanbarthol a chymhellion ar gyfer y sector preifat yn llawer cyflymach, a phe bai'r ddeddfwriaeth hon ar waith, rwy'n amau'n fawr iawn y byddai ein cymunedau yn dal i aros heddiw i glywed a yw'r buddsoddiad yn rheilffyrdd y Cymoedd yn mynd yn ei flaen.

At a time when unemployment in Wales has returned to its normal position, below the UK average, we need to ensure that our recovery is not built on the foundation of zero-hours contracts and low pay. The Queen's Speech promised to crack down on the exploitation of workers that is enabled by the insecurity and exclusivity of zero-hours contracts—that, of course, is the worst aspect of those contracts. I very much welcome the news that this is at least now a distinct possibility. Secretary of State, Members here on the Tory benches very much support zero-hours contracts—we know this from previous debates, and I am sure that they will be bitterly disappointed to see them interfered with.

Ar adeg pan fo diweithdra yng Nghymru wedi dychwelyd i'w safle arferol islaw cyfartaledd y DU, mae angen i ni sicrhau nad yw ein hadferiad wedi'i adeiladu ar sylfaen o gontractau dim oriau a chyflogau isel. Addawodd Araith y Frenhines gyfyngu ar y camfanteisio ar weithwyr sy'n deillio o ansicrwydd a chyfyngiadau'r contractau dim oriau hynny—dyna, wrth gwrs, yw'r agwedd waethaf ar y contractau hynny. Rwy'n croesawu'n fawr y newyddion fod hyn yn bosibilrwydd go iawn o leiaf. Ysgrifennydd Gwladol, mae Aelodau yma ar feinciau'r Torïaid yn cefnogi contractau dim oriau yn frwd—gwyddom hyn o ddadleuon blaenorol ac rwy'n siŵr y byddant yn siomedig iawn ynghylch unrhyw darfu arnynt.

Finally, the bedroom tax has been left untouched by the Queen's Speech. I think that this demonstrates the UK Government's—both parties, that is—total lack of regard for the hardship and suffering faced by some of the most vulnerable people in our society, as outlined earlier on by Mick Antoniw. Since this policy was first proposed for the social rented sector, it was clear to many observers that the estimated savings had been widely overestimated and, over a year since the policy came into effect, it is clear that they were right. Just to be clear again, this was introduced to the private rented sector in 1989 by Schedule 3 to the Rent Officers (Additional Functions) Order on deregulation of fair rents, and I am not quite sure why the Tories keep trying to disown this particular move. We have seen the cruelty and unfairness against those affected, who are forced to choose between falling into rent arrears, turning off the heating and going cold or going hungry. By failing to scrap the bedroom tax in the Queen's Speech, I think that the UK Government has once again shown that those who are vulnerable are of little concern.

Yn olaf, nid oedd Araith y Frenhines yn cyffwrdd â'r dreth ystafell wely. Rwy'n credu bod hyn yn dangos diffyg ystyriaeth lwyr Llywodraeth y DU—y ddwy blaid, hynny yw—o'r caledi a'r dioddefaint a wynebir gan rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, fel yr amlinellwyd yn gynharach gan Mick Antoniw. Gan fod y polisi hwn wedi'i gynnig gyntaf ar gyfer y sector rhentu cymdeithasol, roedd yn amlwg i lawer o sylwebyddion fod yr arbedion amcangyfrifedig wedi'u goramcangyfrif yn helaeth a thros flwyddyn ers i'r polisi ddod i rym, mae'n amlwg eu bod yn iawn. I fod yn glir eto, cyflwynwyd hyn ar gyfer y sector rhentu preifat yn 1989 drwy Atodlen 3 y Gorchymyn Swyddogion Rhenti (Swyddogaethau Ychwanegol) ar ddadreoleiddio rhenti teg ac nid wyf yn siŵr iawn pam y mae'r Torïaid yn parhau i geisio gwadu eu perchnogaeth ar y newid penodol hwn. Rydym wedi gweld y creulondeb a'r annhegwch yn erbyn y rhai yr effeithir arnynt, sy'n cael eu gorfodi i ddewis rhwng mynd i ddyled ar eu rhent, diffodd y gwres a dioddef yr oerfel neu fynd heb fwyd. Drwy fethu â chael gwared ar y dreth ystafell wely yn Araith y Frenhines, credaf fod Llywodraeth y DU wedi dangos unwaith eto fod y rhai sy'n agored i niwed yn peri fawr o ofid iddi.

Let us remember Lord Freud. He was appointed by Tony Blair to provide an independent review of a welfare-to-work system, despite readily admitting that he knew nothing about welfare. Now, his ideas were taken on board by the last Government and, I think, with enthusiasm by this one. This is a man who says that people who are poorer should be prepared to take the greatest risks, because they have the least to lose, and he portrays claimants as having made a lifestyle choice of being on the bread line, and says that people who go to food banks do so just because they can. He blames charities for making food available for the rise in food bank use.

Gadewch i ni gofio'r Arglwydd Freud. Cafodd ei benodi gan Tony Blair i ddarparu adolygiad annibynnol o system fudd-dal i waith, er iddo gyfaddef yn barod na wyddai ddim am les. Nawr, mabwysiadodd y Llywodraeth ddiwethaf ei syniadau gyda brwdfrydedd fel y mae hon wedi'i wneud. Dyma ddyn sy'n dweud y dylai pobl dlotach fod yn barod i ysgwyddo'r risgiau mwyaf am mai hwy sydd â'r lleiaf i'w golli. Mae'n portreadu hawlwyr fel pobl sydd wedi dewis byw mewn tlodi fel ffordd o fyw ac yn dweud bod pobl sy'n mynd i fanciau bwyd yn gwneud hynny'n unig am eu bod yn gallu. Mae'n beio elusennau sy'n sicrhau bod bwyd ar gael am y cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd.

Coming back to the bedroom tax—and just to finish—the evidence available to us shows the destructive effects of the bedroom tax for tenants and for social landlords. The number of empty larger properties is rising, as those on waiting lists are fearful of the bedroom tax. This is a failing policy if you judge it by its aims, and I think that if you have to justify it by making discretionary payments, it is a failure.

Gan ddychwelyd i'r dreth ystafell wely—ac i gloi—mae'r dystiolaeth sydd ar gael inni'n dangos effeithiau dinistriol y dreth ystafell wely ar denantiaid a landlordiaid cymdeithasol. Mae nifer y cartrefi mwy o faint sy'n wag ar gynnydd gan fod pobl ar restrau aros yn poeni am y dreth ystafell wely. Dyma bolisi sy'n methu os ydych yn ei farnu yn ôl ei amcanion ac rwy'n credu ei fod yn fethiant os oes rhaid i chi ei gyfiawnhau drwy daliadau yn ôl disgresiwn.

16:34 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I also want to contribute to this debate by saying that I, too, am disappointed by the measures in the Queen's Speech. The reason I am disappointed is that they do not address some of the issues that our very hard-working businesses and people in Wales face. Those are mostly around trying to make ends meet. Since 2010, families have seen their energy bills rise more than £300 on average, and businesses say that energy is the second biggest cost but they face, yet this Government has voted twice against Labour's proposed energy price freeze. This is despite that well-known left winger, David Davies MP, telling the Climate Change Commission for Wales very recently that energy prices were a real doorstep issue in his constituency, and I can assure you, Secretary of State, that they also are in mine and across Wales. Energy companies are clearly failing to pass on the benefits of falling wholesale prices. Indeed, they have failed to pass on the full savings of your Government's—not very green Government, I have to say—changes to green levies. Only yesterday, a spokeswoman for the energy companies was forced by the regulator into defending the position by saying that some energy companies have passed on some of the savings, mostly by way of allowing fixed-price deals for certainty over a longer period to the wealthiest consumers—in other words, passing at least some of the risk of price fluctuation back onto those very consumers.

Rwyf innau hefyd am gyfrannu at y ddadl hon drwy ddweud fy mod i hefyd wedi fy siomi gan y mesurau yn Araith y Frenhines. Y rheswm dros fy siom yw'r ffaith nad ydynt yn mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n wynebu ein busnesau a'n pobl weithgar iawn yng Nghymru. Mae'r materion hynny'n ymwneud gan mwyaf â cheisio cael dau ben llinyn ynghyd. Ers 2010, mae biliau ynni teuluoedd wedi codi mwy na £300 ar gyfartaledd ac mae busnesau'n dweud mai ynni yw'r gost fwyaf ond un a wynebant, ac eto mae'r Llywodraeth hon wedi pleidleisio ddwywaith yn erbyn cynnig Llafur i rewi prisiau ynni, a hynny er gwaethaf y ffaith bod yr Aelod Seneddol adain chwith adnabyddus hwnnw, David Davies, wedi dweud wrth Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ddiweddar iawn fod pris ynni yn destun pryder go iawn ar garreg y drws yn ei etholaeth. Gallaf eich sicrhau, Ysgrifennydd Gwladol, mai felly y mae yn fy etholaeth i ac ym mhob rhan o Gymru. Mae cwmnïau ynni yn amlwg yn methu â throsglwyddo manteision prisiau cyfanwerthu is ymlaen i'w cwsmeriaid. Yn wir, maent wedi methu â throsglwyddo arbedion llawn y newidiadau a wnaeth eich Llywodraeth—nad yw'n Llywodraeth werdd iawn, rhaid dweud—i ardollau gwyrdd. Ddoe ddiwethaf gorfodwyd llefarydd ar ran y cwmnïau ynni gan y rheoleiddiwr i amddiffyn ei safbwynt drwy ddweud bod rhai cwmnïau ynni wedi trosglwyddo rhai o'r arbedion, yn bennaf drwy ganiatáu bargeinion pris penodedig am sicrwydd dros gyfnod hwy i'r cwsmeriaid cyfoethocaf—mewn geiriau eraill, trosglwyddo o leiaf ran o risg amrywiad yn y pris yn ôl i'r union gwsmeriaid hynny.

I have to say that regardless of how amazing Eluned Parrott believes that the zero-hours contract measures in the small business, enterprise and employment Bill are, there is nothing guaranteeing a regular contract to those who usually work regular hours. There is no assurance that their take-home pay will be the same each month for the same work and no provision at all allowing them to budget effectively in order to meet these very high energy costs, among the other things that they have to face on a day-to-day basis.

Mae'n rhaid imi ddweud, waeth pa mor anhygoel yw'r mesurau ar gontractau dim oriau yn y Bil busnesau bach, menter a chyflogaeth yn ôl Eluned Parrott, nid oes dim yn gwarantu contract rheolaidd i rai sydd fel arfer yn gweithio oriau rheolaidd. Ni cheir sicrwydd y bydd eu cyflog terfynol yr un fath bob mis am yr un gwaith na darpariaeth o gwbl i'w galluogi i gyllidebu'n effeithiol er mwyn talu'r costau ynni uchel iawn hyn ymhlith y pethau eraill y mae'n rhaid iddynt eu hwynebu o ddydd i ddydd.

Secretary of State, the short point that I want to make is that, in Labour, we think that the energy regulator should have the power to force cuts in retail prices to match wholesale prices, as well as having a complete energy price freeze so that charges can go down but not up. So, Secretary of State, please tell me how the proposals in this Queen's Speech will mitigate the impact of these rising energy costs for both families and businesses in Wales?

Ysgrifennydd Gwladol, y pwynt cryno rwyf am ei wneud yw ein bod ni yn y Blaid Lafur yn credu y dylai'r rheoleiddiwr ynni gael y pŵer i orfodi toriadau yn y prisiau manwerthu i gyd-fynd â phrisiau cyfanwerthu, yn ogystal â rhewi prisiau ynni yn gyffredinol fel y gellir gostwng taliadau ond nid eu codi. Felly os gwelwch yn dda, Ysgrifennydd Gwladol, a wnewch chi ddweud wrthyf sut y bydd y cynigion yn Araith y Frenhines yn lliniaru effaith y costau ynni cynyddol ar deuluoedd a busnesau yng Nghymru?

16:36

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

When the Office for National Statistics reassessed the depth of Labour's great recession, it found that the fall in GDP between 2008 and 2009 was not 6.3%, as previously thought, but an even more staggering 7.2%—one of the sharpest falls in the national income of any economy in the world. Jump forward, and the International Monetary Fund now states that Britain will be the fastest growing major economy this year—higher than the United States and Germany.Last month, the National Institute of Economic and Social Research said that the UK economy is close to regaining its pre-financial crisis level of economic activity, and the British Chambers of Commerce upgraded its GDP growth forecast to 3.1% for 2014, the highest rate of growth since 2007, adding that businesses need confidence from Government to sustain investment into the future, and that is what this Queen's Speech delivers.

Pan ailasesodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddyfnder dirwasgiad mawr Llafur, gwelodd nad oedd y gostyngiad yn y CMC rhwng 2008 a 2009 yn 6.3%, fel y tybiwyd yn flaenorol, ond ei fod hyd yn oed yn fwy syfrdanol, sef 7.2% —un o'r gostyngiadau mwyaf sydyn yn incwm cenedlaethol yr un o economïau'r byd. Neidiwch ymlaen ac mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol bellach yn datgan mai Prydain fydd yr economi fawr sy'n tyfu gyflymaf eleni—yn gynt na'r Unol Daleithiau a'r Almaen. Y mis diwethaf, dywedodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol fod economi'r DU yn agos at adennill yr un lefel o weithgarwch economaidd â chyn yr argyfwng ariannol ac mae Siambrau Masnach Prydain wedi uwchraddio eu rhagolwg o dwf CMC i 3.1% ar gyfer 2014, y gyfradd uchaf o dwf ers 2007. Ychwanegodd fod busnesau angen hyder gan y Llywodraeth i gynnal buddsoddiad i'r dyfodol a dyna y mae Araith y Frenhines yn ei gynnig.

The small business, enterprise and employment Bill will help make the UK the most attractive place to start, finance and grow a business; it will raise the maximum fine for those who pay less than the minimum wage; it will ban zero-hours exclusivity clauses; and it will help small businesses access the public procurement market. The private pensions Bill will encourage saving, give greater control to employees in collective pension funds and give people complete control over how they access their pension. The national insurance contributions Bill will tackle avoidance of contributions and simplify their collection from the self-employed. The Serious Crime Bill will tackle psychological child abuse, child neglect and female genital mutilation, disrupt serious organised crime and strengthen powers to seize the proceeds of crime.

Bydd y Bil busnesau bach, menter a chyflogaeth yn helpu i sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf deniadol i sefydlu, ariannu a thyfu busnesau; bydd yn codi uchafswm y ddirwy i rai sy'n talu llai na'r isafswm cyflog; bydd yn gwahardd cymalau cyfyngol contractau dim oriau; a bydd yn helpu busnesau bach i gael mynediad i'r farchnad caffael cyhoeddus. Bydd y Bil pensiynau preifat yn annog cynilo, yn rhoi mwy o reolaeth i weithwyr dros gronfeydd pensiwn cyfunol ac yn rhoi rheolaeth lwyr i bobl dros y ffordd y maent yn trefnu eu pensiynau. Bydd y Bil cyfraniadau yswiriant gwladol yn mynd i'r afael â mater osgoi cyfraniadau ac yn symleiddio'r broses o'u casglu gan weithwyr hunangyflogedig. Bydd y Bil Troseddau Difrifol yn mynd i'r afael â cham-drin plant yn seicolegol, esgeuluso plant ac anffurfio organau cenhedlu benywod, yn cyfyngu ar droseddau difrifol trefnedig ac yn cryfhau pwerau i ymafael mewn elw troseddol.

As we have heard, finding affordable childcare is one of the biggest challenges faced by working families, and the Childcare Payments Bill will help by offering 20% support towards childcare costs—up to £2,000 per child. We have heard reference to the energy markets, and the regulator Ofgem has already triggered a market review, which starts this month, by the new competition body established by this UK Government.

Fel y clywsom, mae dod o hyd i ofal plant fforddiadwy yn un o'r heriau mwyaf y bydd teuluoedd sy'n gweithio yn eu hwynebu a bydd y Bil Taliadau Gofal Plant yn helpu drwy gynnig 20% o gymorth tuag at gostau gofal plant—hyd at £2,000 y plentyn. Rydym wedi clywed cyfeiriadau at y marchnadoedd ynni ac mae'r rheoleiddiwr Ofgem eisoes wedi ysgogi adolygiad o'r farchnad, sy'n dechrau y mis hwn, gan y corff cystadlu newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU.

In terms of the removal of the spare room subsidy—also known now as the bedroom tax—we must consider the context. Although the number of new social homes in Wales grew in the 1990s, up to 1997, the Labour Government cut it by nearly three quarters after devolution. According to its own statistics, the number of social homes for rent in Wales fell by 29%. I am glad that you find your own figures so funny—[Interruption.] I am glad—

O ran cael gwared ar y dreth ystafell sbâr—a elwir bellach hefyd yn dreth ystafell wely—rhaid inni ystyried y cyd-destun. Er bod nifer y cartrefi cymdeithasol newydd yng Nghymru wedi tyfu yn ystod y 1990au hyd at 1997, torrodd y Llywodraeth Lafur bron i dri chwarter oddi ar y nifer ar ôl datganoli. Yn ôl ei hystadegau ei hun, cafwyd gostyngiad o 29% yn nifer y cartrefi cymdeithasol ar gyfer eu rhentu yng Nghymru.  Rwy'n falch eich bod yn ystyried bod eich ffigurau eich hun mor ddoniol—[Torri ar draws.] Rwy'n falch—

16:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order; Mark, please. We are not allowed to shout in this Chamber. I have told you before that I am the only one who is allowed to shout and I do not like shouting at you. I want to hear reasoned debate.

Trefn, trefn; Mark, os gwelwch yn dda. Ni chaniateir inni weiddi yn y Siambr hon. Rwyf wedi dweud wrthych eisoes mai fi yw'r unig un sy'n cael gweiddi ac nid wyf yn hoffi gweiddi arnoch chi. Rwy'n awyddus i glywed dadl resymegol.

16:39 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am quoting, Deputy Presiding Officer, from the Welsh Government's own statistics website. It is concerning if disabled people with adapted homes are being hit by this, because the UK DWP guidance, issued as long as two years beforehand, said that they should be the first priority for discretionary housing payments. We know that 19 out of 22 authorities, unlike England, failed to draw down the extra money announced for 2013-14 in Wales; disgraceful. [Interruption.]

Rwy'n dyfynnu, Ddirprwy Lywydd, o wefan ystadegau Llywodraeth Cymru ei hun. Mae'n destun pryder os yw pobl anabl â chartrefi wedi'u haddasu yn cael eu taro gan hyn, gan fod cyfarwyddyd Adran Gwaith a Phensiynau y DU, a gyhoeddwyd cyn belled â dwy flynedd ymlaen llaw, yn dweud y dylid rhoi'r brif flaenoriaeth iddynt o ran taliadau tai yn ôl disgresiwn. Yn wahanol i Loegr, gwyddom fod 19 allan o 22 awdurdod wedi methu â thynnu'r arian ychwanegol a gyhoeddwyd ar gyfer 2013-14 i lawr yng Nghymru; gwarthus. [Torri ar draws.]

16:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

16:40 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not have time.

Nid oes gennyf amser.

Unlike this sneer and smear Labour Welsh Government, David Cameron's Government is about listening to business rather than lecturing it, lifting Britain up rather than doing Wales down. While David Cameron has a long-term economic plan to secure Britain's future, all Ed Miliband offers is the economic policies that got us into a mess in the first place. Conservatives are taking difficult long-term decisions to secure a better future for Britain and our children, rather than short-term political fixes that would leave us dependent on bail-outs and savage, externally imposed cuts. In Wales, dictatorship by the Labour ruling class is causing great damage, but still Ed Miliband hails it as his blueprint for Britain. Well, the two Eds—Miliband and Balls—were both in the cockpit for the biggest financial crash of the last 80 years, and both are in denial about their responsibility, itching to get behind the wheel again, insisting that things will be different this time. Let us be reminded that, on Labour's last UK watch, between 1997 and 2010, the UK Labour Government left the UK with the highest budget deficit in the world barring Greece and Ireland, having increased public spending faster than any other country on earth. Despite this spending boom, unemployment increased by 444,000; unemployment among young people rose by 285,000; one in five young people were left without a job,; more than 5 million people of working age—

Yn wahanol i'r Llywodraeth Lafur watwarus hon yng Nghymru, mae Llywodraeth David Cameron yn ymwneud â gwrando ar fyd busnes yn hytrach na phregethu wrtho, dyrchafu Prydain yn hytrach na bychanu Cymru. Mae gan David Cameron gynllun economaidd hirdymor i sicrhau dyfodol Prydain, ond y cyfan y mae Ed Miliband yn ei gynnig yw'r polisïau economaidd a barodd inni lanio yn y llanast yn y lle cyntaf. Mae'r Ceidwadwyr yn gwneud penderfyniadau hirdymor anodd er mwyn sicrhau dyfodol gwell i Brydain a'n plant yn hytrach nag atebion gwleidyddol byrdymor a fyddai'n ein gadael yn ddibynnol ar eraill i achub ein croen a thoriadau llym wedi'u cyfeirio o'r tu allan. Yng Nghymru, mae unbennaeth y dosbarth llywodraethol Llafur yn achosi niwed mawr ond mae Ed Miliband yn dal i'w arddel fel ei lasbrint ar gyfer Prydain. Wel, roedd y ddau Ed—Miliband a Balls—wrth y llyw pan ddigwyddodd methiant ariannol mwyaf yr 80 mlynedd diwethaf ac mae'r ddau'n gwadu eu cyfrifoldeb ac yn ysu am gael bod wrth y llyw unwaith eto, gan fynnu y bydd pethau'n wahanol y tro hwn. Gadewch inni atgoffa ein hunain fod Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU rhwng 1997 a 2010 yn gyfrifol am y diffyg cyllidebol mwyaf yn y byd ac eithrio Gwlad Groeg ac Iwerddon ar ôl cynyddu gwariant cyhoeddus yn gyflymach nag unrhyw wlad arall ar y ddaear. Er gwaethaf y gwariant mawr, cafwyd cynnydd o 444,000 yn nifer y di-waith; cododd diweithdra ymhlith pobl ifanc 285,000; roedd un o bob pump o bobl ifanc heb swydd; roedd mwy na 5 miliwn o bobl o oedran gweithio—

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conclude now, please.

Dowch i ben yn awr os gwelwch yn dda.

16:41 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—lived in workless households; numbers in poverty rose by nearly 400,000; and numbers in severe poverty rose by nearly 800,000. These facts illustrate the sheer scale of Labour's demolition job and the insanity of inviting them back.

[Parhau.]—yn byw ar aelwydydd di-waith; cynyddodd nifer y bobl a oedd mewn tlodi bron i 400,000; a chynyddodd nifer y bobl a oedd mewn tlodi difrifol bron i 800,000. Mae'r ffeithiau hyn yn dangos cymaint oedd dinistr Llafur a gwallgofrwydd eu gwahodd yn ôl.

16:42 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I tried to be generous, in looking at the Queen's Speech, as I always like to try to be generous and my glass has always been half full. However, that said, I will move on.

Ceisiais fod yn hael wrth edrych ar Araith y Frenhines gan fy mod bob amser yn hoffi bod yn hael, a hanner llawn yw fy ngwydr bob amser wedi bod. Ar ôl dweud hynny, fodd bynnag, symudaf ymlaen.

I was interested in what Lesley Griffiths said: that the UK Government has much to learn from Wales. She looked at the single-use carrier bag law, which you are looking to bring in, and we have to accept that as one of the flagships of this Government here in Wales, and there are lots of other things as well. I am sure that you, Secretary of State for Wales, will remember your time as an Assembly Member here quite fondly, when we were in the old Chamber, and you will know the aspirations that we had then. You indicated in your opening speech that you wanted to work with the Welsh Government, and wanted to work closely with it. So, being from north Wales, I live in hope. Many in north Wales know that you live in Hope, and you die in Caergwrle; that is the story that comes behind it, the difference being that people who would have died in Caergwrle, in a house fire in a new-build home, will not, because this Labour Government has introduced a Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011 that will make sprinklers available in all new-build homes. So, for one, I know that 'Live in Hope, die in Caergwrle' will not apply here.

Roedd gennyf ddiddordeb yn yr hyn a ddywedodd Lesley Griffiths: bod gan Lywodraeth y DU lawer i'w ddysgu gan Gymru. Edrychodd ar y ddeddf bagiau siopa untro rydych yn bwriadu ei chyflwyno a rhaid inni dderbyn hynny fel un o gamau blaengar y Llywodraeth hon yng Nghymru, ac mae sawl peth arall hefyd. Rwy'n siŵr eich bod chi, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn cofio eich amser fel Aelod Cynulliad yma gyda chryn anwyldeb, pan oeddem yn yr hen Siambr, a byddwch yn gwybod am ein dyheadau bryd hynny. Dywedasoch yn eich araith agoriadol eich bod am gydweithio â Llywodraeth Cymru ac am weithio'n agos gyda hi. Felly, gan fy mod yn dod o'r gogledd, rwy'n byw mewn gobaith—neu yn yr Hob, sef Hope yn Saesneg. Mae llawer yn y gogledd yn gwybod eich bod chi'n byw yn Hope ac yn marw yn Caergwrle (you live in Hope and you die in Caergwrle); dyna'r stori sy'n gefndir i hynny. Nid yw hynny'n wir bellach am bobl a fyddai wedi marw yng Nghaergwrle mewn tân mewn cartref a adeiladwyd o'r newydd, am fod y Llywodraeth Lafur hon wedi cyflwyno Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 a fydd yn sicrhau bod system chwistrellu ar gael ym mhob cartref a adeiladir o'r newydd. Rwy'n gwybod felly nad yw 'byw yn Hope a marw yng Nghaergwrle' yn wir yn yr achos hwn.

I want to say to you that I cannot believe that a sprinkler can cause so much disdain among the coalition UK Government. People in England are now telling me that they are now seeing what this brave Welsh Government has done here by implementing sprinkler systems. What I say to you is this: please, use all the information that we gathered, and use all the information that the Assembly Government has gathered, for the sake of all those people who do not want to die in a house fire when that can be prevented by a simple sprinkler system.

Rwyf am ddweud wrthych na allaf gredu y gall system chwistrellu achosi cymaint o ddirmyg ymhlith Llywodraeth glymblaid y DU. Yn Lloegr, mae pobl bellach yn dweud wrthyf eu bod yn awr yn gweld beth y mae'r Llywodraeth ddewr hon yng Nghymru wedi'i wneud yma trwy weithredu'r systemau chwistrellu. Yr hyn rwy'n dweud wrthych yw hyn: os gwelwch yn dda, defnyddiwch yr holl wybodaeth a gasglwyd gennym a defnyddiwch yr holl wybodaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i chasglu, er mwyn yr holl bobl hynny nad ydynt eisiau marw mewn tân mewn tŷ pan ellir atal hynny rhag digwydd drwy system chwistrellu syml.

So, I will remain optimistic that, as you are beginning to learn, as this UK Government is beginning to learn from the Welsh Government here. In the short space of time you have left in your tenure as Secretary of State for Wales before the next general election, I hope that you will see sense and start talking to the Welsh Government housing people, talking to the fire service, but, above all, talking to communities that desperately want to see the domestic fire safety Measure, bravely put in here, replicated in England.

Felly, byddaf yn parhau'n obeithiol y byddwch yn dechrau dysgu, y bydd Llywodraeth y DU yn dechrau dysgu gan Lywodraeth Cymru yma. Yn y cyfnod byr o amser sydd gennych yn weddill fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru cyn yr etholiad cyffredinol nesaf, rwy'n gobeithio y gwelwch synnwyr ac y dechreuwch siarad gyda phobl tai Llywodraeth Cymru, gyda'r gwasanaeth tân, ond yn anad dim, gyda chymunedau sy'n daer am weld y Mesur diogelwch tân domestig, a sefydlwyd yn ddewr yma, yn cael ei efelychu yn Lloegr.

16:45 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful to have the opportunity to take part in today's debate on the final Queen's Speech of this Parliament.

Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl heddiw ar Araith y Frenhines olaf y Senedd hon.

Opposition parties have accused this Queen's Speech of having little content and being a sign that the Government is running out of ideas. I would refute this, pointing out that there are 28 Bills planned to be passed during this session of Parliament, compared to the 26 that were included in the final two Queen's Speeches of the last, discredited Labour Government. Conservatives do not believe in legislating for the sake of it and I am proud to support a Government that is committed to legislating less and legislating better. This is something that the Welsh Government could learn much from.

Mae'r gwrthbleidiau wedi cyhuddo Araith y Frenhines o fod yn brin o gynnwys ac yn arwydd fod y Llywodraeth yn mynd yn brin o syniadau. Byddwn yn gwrthod hyn gan nodi bod bwriad i basio 28 o Filiau yn ystod y sesiwn Seneddol hon o'i gymharu â'r 26 a oedd wedi'u cynnwys yn nwy Araith y Frenhines olaf y Llywodraeth Lafur lawn anfri ddiwethaf. Nid yw'r Ceidwadwyr yn credu mewn deddfu er mwyn deddfu ac rwy'n falch o gefnogi Llywodraeth sy'n ymrwymo i ddeddfu llai a deddfu'n well. Mae hyn yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ddysgu llawer ohono.

We need to take the Queen's Speech in the context of it being the final one of this Parliament. The coalition has achieved much. We entered Government four years ago, inheriting a financial mess and being told that our long-term economic plan would not work. The deficit has been reduced, income tax cut, and more jobs created. Even here in Wales, the reliance on public sector employment has been broken and private sector jobs have been increased. Labour and Plaid do not like to hear this, but the Conservative-led Government, with the help of our Lib Dem colleagues, has started to turn our country around.

Mae angen i ni ystyried Araith y Frenhines yng nghyd-destun y ffaith mai hon yw Araith olaf y Senedd hon. Mae'r glymblaid wedi cyflawni llawer. Daethom yn Llywodraeth bedair blynedd yn ôl, ar ôl etifeddu llanast ariannol a chael gwybod na fyddai ein cynllun economaidd hirdymor yn gweithio. Mae'r diffyg wedi'i leihau, treth incwm wedi'i thorri a mwy o swyddi wedi'u creu. Hyd yn oed yma yng Nghymru, mae'r ddibyniaeth ar gyflogaeth y sector cyhoeddus wedi cael ei thorri a nifer y swyddi yn y sector preifat wedi cynyddu. Nid yw Llafur a Phlaid Cymru yn hoffi clywed hyn ond mae Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr, gyda chymorth ein cydweithwyr o blith y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi dechrau rhoi ein gwlad ar y trywydd iawn.

We are lucky to have a Welsh Labour Government to continue to highlight the damage that the Labour Government continues to do in Wales. One look at the mess there is in terms of waiting lists and the continued slippage in educational standards only goes to demonstrate that.

Rydym yn ffodus o gael Llywodraeth Lafur Cymru i barhau i dynnu sylw at y difrod y mae'r Llywodraeth Lafur yn parhau i'w wneud yng Nghymru. Mae un cipolwg ar y llanast yno o ran rhestrau aros a'r llithro parhaus yn y safonau addysgol yn dangos hynny.

I too, like Paul Davies, want to focus my contribution on the small businesses, enterprise and employment Bill and the draft Bill to directly elect members to national park authorities. The small businesses Bill is designed to help all UK businesses so that the UK is the most attractive place to start a business, to finance a business and to grow a business. Most employers in Wales are small business employers. While this Assembly has some responsibility for what is included in this Bill, there are three things that I feel are worth focusing on.

Fel Paul Davies, rwyf i hefyd am ganolbwyntio fy nghyfraniad ar y Bil busnesau bach, menter a chyflogaeth a'r Bil drafft ar ethol aelodau'n uniongyrchol i awdurdodau parciau cenedlaethol. Mae'r Bil busnesau bach wedi'i lunio i helpu pob busnes yn y DU fel mai'r DU yw'r lle mwyaf deniadol i sefydlu busnes, i ariannu busnes ac i dyfu busnes. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yng Nghymru yn gyflogwyr busnesau bach. Er bod peth cyfrifoldeb gan y Cynulliad hwn am yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Bil, mae tri pheth y teimlaf ei bod hi'n werth canolbwyntio arnynt.

The increase in the maximum fine to £20,000 per employee for those employers not paying the minimum wage should be welcomed. This Government is the first to name and shame employers. It is worth noting that, last year, penalties for non-payment were almost seven times higher than in Labour's last year of Government. Coupled with the raising of the personal tax allowance, taking millions out of tax altogether, and the national insurance holiday that has recently been brought in, this Government is truly supporting employment and business.

Dylid croesawu'r cynnydd yn uchafswm y ddirwy i £20,000 am bob cyflogai i'r cyflogwyr hynny nad ydynt yn talu'r isafswm cyflog. Y Llywodraeth hon yw'r gyntaf i enwi a chodi cywilydd ar gyflogwyr. Mae'n werth nodi bod cosbau am beidio â thalu bron i saith gwaith yn uwch y llynedd nag yn ystod blwyddyn olaf y Llywodraeth Lafur. Yn ogystal â chodi'r lwfans treth personol a eithriodd filiynau rhag talu treth o gwbl a'r gwyliau yswiriant gwladol a gyflwynwyd yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth hon mewn gwirionedd yn cefnogi cyflogaeth a busnes.

The Bill also includes more support for those on zero-hours contracts. I fully appreciate that such contracts have their place. Some workers, but not all, are glad of the flexibility that they provide. However, again, we need to ensure that such contracts are not abused by employers. I welcome the steps taken in the Queen's Speech to address exclusivity in zero-hours contracts. It will ban those contracts and will hopefully remove the restrictions that can be placed on employees working for more than one company, if on such a contract. This appears to me to be a restraint of trade, letting the employer have the upper hand offering little or no hours while stopping employees working elsewhere. I am sure that there are others in this Chamber who will welcome that development.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mwy o gymorth i rai ar gontractau dim oriau. Rwy'n llwyr werthfawrogi bod lle i gontractau o'r fath. Mae rhai gweithwyr, er nad pob un, yn falch o'r hyblygrwydd a gynigiant. Fodd bynnag, unwaith eto, mae angen i ni sicrhau nad yw cyflogwyr yn camddefnyddio contractau o'r fath. Rwy'n croesawu'r camau yn Araith y Frenhines i fynd i'r afael â chyfyngiadau contractau dim oriau. Bydd yn gwahardd y contractau hynny a gobeithio y bydd yn cael gwared ar y cyfyngiadau y gellir eu gosod ar weithwyr sy'n gweithio i fwy nag un cwmni, os ydynt ar gontract o'r fath. Mae'n ymddangos i mi mai ataliad ar fasnach yw hyn, gan adael y cyflogwr i gael y llaw uchaf drwy gynnig ond ychydig o oriau os o gwbl ac atal gweithwyr rhag gweithio mewn mannau eraill. Rwy'n siŵr y bydd eraill yn y Siambr hon yn croesawu'r fath ddatblygiad.

The final aspect of the Queen's Speech that I would like to touch upon is the draft national park authorities' election Bill. I appreciate that this applies to England, but statements have already been made by Kirsty Williams about democratic accountability in the national park authorities in England. This was included in the Welsh Conservative 2011 election manifesto, where we called for direct election to national park authorities in Wales. While we see those measures being taken in England, regrettably they are not being taken in Wales.

Yr agwedd olaf ar Araith y Frenhines yr hoffwn ei chrybwyll yw'r Bil drafft ar ethol awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Rwy'n sylweddoli mai ymwneud â Lloegr y mae hwn ond gwnaed datganiadau eisoes gan Kirsty Williams ynghylch atebolrwydd democrataidd yn awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn Lloegr. Cafodd hyn ei gynnwys ym maniffesto Ceidwadwyr Cymru 2011, lle y galwem am ethol aelodau'n uniongyrchol i awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Er ein bod yn gweld y mesurau hynny'n digwydd yn Lloegr, yn anffodus nid ydynt yn cael eu defnyddio yng Nghymru.

I very much welcome the support that the coalition Government is giving to growing our economy, to improving employment prospects in Wales and to furthering and bettering the outcomes of ordinary people in Wales.

Rwy'n croesawu'n fawr y cymorth y mae'r Llywodraeth glymblaid yn ei roi i ddatblygu ein heconomi, i wella rhagolygon cyflogaeth yng Nghymru ac i hyrwyddo a gwella canlyniadau pobl gyffredin yng Nghymru.

16:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I invite the Secretary of State to respond.

Rwy'n gwahodd yr Ysgrifennydd Gwladol i ymateb.

16:50

## David Jones

Senedd.tv
Fideo Video

*Ysgrifennydd Gwladol Cymru / The Secretary of State for Wales*

Thank you, Deputy Presiding Officer. It has been a typically energetic and lively debate, which I, for one, have thoroughly enjoyed. It is always an unalloyed pleasure to return here. I understand that I have a permanent seat in this Chamber, Deputy Presiding Officer, and I must make this visit a more regular occurrence. [Interruption.]

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Mae wedi bod yn ddadl nodweddiadol o egnïol a bywiog ac rwyf i, yn un, wedi mwynhau'n fawr. Mae hi bob amser yn bleser digymysg cael dychwelyd yma. Rwy'n deall bod gennyf sedd barhaol yn y Siambr hon, Ddirprwy Lywydd, ac mae'n rhaid i mi wneud yr ymweliad hwn yn ddigwyddiad mwy rheolaidd. [Torri ar draws.]

I was very pleased to hear the remarks by the Minister for local government. She mentioned a number of matters that I think are worthy of comment. She mentioned the issue of the United Kingdom Government emulating Welsh Government policy on, for example, carrier bags. I am entirely happy to welcome the Welsh Government's innovation, and I think that the fact that the United Kingdom is hoping to emulate that policy is actually an example of the strength of devolution. Administrations from all parts of the United Kingdom should see what is happening in other parts of the UK and, where the policy is sensible, seek to emulate it. So, I am not in any sense territorial about that; I commend the Welsh Government for that.

Rwy'n falch iawn o glywed sylwadau'r Gweinidog llywodraeth leol. Soniodd am nifer o faterion y credaf eu bod yn deilwng o sylw. Soniodd am Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn efelychu polisi Llywodraeth Cymru ar fagiau plastig er enghraifft. Rwy'n gwbl fodlon croesawu arloesedd Llywodraeth Cymru ac rwy'n meddwl bod y ffaith bod y Deyrnas Unedig yn gobeithio efelychu'r polisi hwnnw mewn gwirionedd yn enghraifft o gryfder datganoli. Dylai gweinyddiaethau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig weld beth sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU ac os yw'r polisi'n synhwyrol, dylent geisio'i efelychu. Felly, nid wyf yn diriogaethol ynglŷn â hynny mewn unrhyw ystyr; rwy'n cymeradwyo Llywodraeth Cymru am hynny.

I would also like, particularly, to commend the innovation of the anti-slavery co-ordinator. I know that this is an indication that the Welsh Government takes the issue of modern slavery seriously. Equally, I am grateful that the Minister welcomed the modern slavery Bill, which, I feel, will do a great deal to enhance the role of the anti-slavery co-ordinator here. We will be creating the role of the anti-slavery commissioner, who will have overarching responsibility for this policy. I am sure that she and her colleagues will be working very closely with the United Kingdom Government in ensuring that our policies are aligned and work successfully together.

Hoffwn hefyd gymeradwyo arloesedd y cydgysylltydd gwrthgaethwasiaeth yn benodol. Gwn fod hyn yn arwydd bod Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch caethwasiaeth fodern. Yn yr un modd, rwy'n ddiolchgar bod y Gweinidog wedi croesawu'r Bil caethwasiaeth fodern a fydd yn gwneud llawer iawn i wella swyddogaeth y cydgysylltydd gwrthgaethwasiaeth yma. Byddwn yn creu swyddogaeth comisiynydd gwrthgaethwasiaeth gyda chyfrifoldeb cyffredinol am y polisi hwn. Rwy'n siŵr y bydd hi a'i chydweithwyr yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod ein polisïau'n cyd-fynd ac yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd.

I was also grateful to see that she welcomed the increase in personal allowances. There has been a great deal of talk in this afternoon's debate about the issue of poverty. Nothing, of course, does more to alleviate poverty—it seems unnecessary to say—than to put more money into people's pockets. I, for one, am proud that this Government has already taken a huge number of Welsh taxpayers out of tax altogether, and has, in fact, increased the personal allowances to the extent that, by the end of this Parliament, every Welsh taxpayer will be receiving an extra £805, provided, of course, they exceed the threshold.

Roeddwn yn falch o weld hefyd ei bod yn croesawu'r cynnydd yn y lwfansau personol. Bu llawer o sôn yn y ddadl y prynhawn yma am dlodi. Nid oes dim yn gwneud mwy i leddfu tlodi, wrth gwrs—mae i'w weld yn rhywbeth nad oes angen ei ddweud—na rhoi mwy o arian ym mhocedi pobl. Rwyf fi, yn un, yn falch bod y Llywodraeth hon eisoes wedi eithrio nifer enfawr o drethdalwyr Cymru rhag talu treth yn gyfan gwbl ac yn wir, cynyddodd y lwfansau personol i'r graddau y bydd pob trethdalwr yng Nghymru erbyn diwedd y Senedd hon yn cael £805 yn ychwanegol, cyn belled â'u bod uwchlaw'r trothwy wrth gwrs.

She mentioned the issue of the spare room subsidy, or, as she prefers to characterise it, the bedroom tax. Indeed, this was mentioned particularly by Mr Mick Antoniw, who I remember fondly from last year; I am glad to see that he has developed increased self-confidence, because he did not deliver his speech with his arms folded this time.

Soniodd am y cymhorthdal ystafell sbâr neu fel y mae'n well ganddi ei disgrifio, y dreth ystafell wely. Yn wir, tynnwyd sylw penodol at hyn gan Mr Mick Antoniw a gofiaf yn annwyl ers y llynedd; rwy'n falch o weld ei fod wedi datblygu mwy o hunanhyder gan na thraddododd ei araith â'i freichiau wedi'u plygu y tro hwn.

It is quite interesting, and I think that Labour's policy on the spare room subsidy requires some analysis. It has no plans at all to restore the spare room subsidy for the private rented sector, whereas it does in the case of the public rented sector; I am not entirely sure what the difference is. [Interruption.] However, if he would be kind enough to listen, he extended a kind invitation to me to meet his constituents. I have made arrangements for a room to be available after this session to meet his constituents. Perhaps, while he is at it, he might like to attend the meeting too—I would be grateful if he did, although it may be that his constituents do not want him to be there—because he might like to explain to them why, when the opportunity was available for Pontypridd council to apply for a share of the £20 million that was available for discretionary payments, it neglected to do so. I have to say—[Interruption.]

Mae'n eithaf diddorol ac rwy'n meddwl bod polisi Llafur ar y cymhorthdal ystafell sbâr yn galw am beth dadansoddi. Nid oes gan Lafur gynlluniau o gwbl i adfer y cymhorthdal ystafell sbâr ar gyfer y sector rhentu preifat er bod ganddynt gynlluniau i wneud hynny ar gyfer y sector rhentu cyhoeddus; nid wyf yn gwbl siŵr beth yw'r gwahaniaeth. [Torri ar draws.] Fodd bynnag, pe bai'n ddigon caredig i wrando, estynnodd wahoddiad caredig imi gyfarfod â'i etholwyr. Rwyf wedi gwneud trefniadau i ystafell fod ar gael ar ôl y sesiwn hon i gwrdd â'i etholwyr. Tra'i fod wrthi, efallai y byddai ef yn hoffi mynychu'r cyfarfod hefyd—byddem yn ddiolchgar iawn iddo am wneud er efallai na fydd ei etholwyr eisiau iddo fod yno. Efallai y byddai'n hoffi egluro iddynt pam fod cyngor Pontypridd, pan gafodd gyfle i wneud cais am gyfran o'r £20 miliwn a oedd ar gael ar gyfer taliadau yn ôl disgresiwn, wedi methu â gwneud hynny. Rhaid i mi ddweud—[Torri ar draws.]

16:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I even have members of the Government—the most senior members of the Government—now shouting out. It is unacceptable; we cannot run this session as if it is a circus. You will listen to the Secretary of State calmly and politely.

Trefn. Mae hyd yn oed aelodau o'r Llywodraeth—aelodau mwyaf blaenllaw'r Llywodraeth—yn gweiddi yn awr; ni allwn gynnal y sesiwn hon fel pe bai'n syrcas. Gwrandewch ar yr Ysgrifennydd Gwladol yn bwyllog ac yn gwrtais.

16:55

## David Jones

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

I hate to use the expression 'crocodile tears', but that is very much what the honourable gentleman's contribution sounded like.

Mae'n gas gen i ddefnyddio'r ymadrodd 'dagrau crocodeil' ond dyna i raddau helaeth oedd cyfraniad y gŵr anrhydeddus yn swnio'n debyg iddo.

16:55 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:55 **David Jones**

Senedd.tv Fideo Video

No, I have listened to Mr Antoniw, and I will be delighted to have an extended conversation with him after this session.

Na, rwyf wedi gwrando ar Mr Antoniw a byddaf yn falch iawn o gael sgwrs estynedig gydag ef ar ôl y sesiwn hon.

The contribution from Elin Jones was interesting. She referred to the Silk commission, and part 2 of the Silk commission, and enquired as to when that would be delivered. We are, at the moment, examining carefully the recommendations of part 2 of the Silk report. As she knows, we intend that the recommendations will inform the Conservative Party manifesto at the next general election—as, no doubt, it will for Plaid Cymru. However, I remind her that, in fact, the Silk report itself acknowledged that its recommendations in part 2 would very likely not be delivered until after the general election.

Mae'r cyfraniad gan Elin Jones yn ddiddorol. Cyfeiriodd at gomisiwn Silk, a rhan 2 comisiwn Silk, a gofynnodd pryd y byddai hynny'n cael ei gyflawni. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych yn ofalus ar argymhellion rhan 2 adroddiad Silk. Fel y gŵyr, y bwriad yw defnyddio'r argymhellion ar gyfer llywio maniffesto'r Blaid Geidwadol ar gyfer yr etholiad cyffredinol nesaf—fel y bydd Plaid Cymru yn ei wneud, yn ddiau. Fodd bynnag, rwy'n ei hatgoffa bod adroddiad Silk ei hun mewn gwirionedd wedi cydnabod na fyddai ei argymhellion yn rhan 2 yn debygol iawn o gael eu cyflwyno tan ar ôl yr etholiad cyffredinol.

Kirsty Williams quite rightly commended the measures in the Queen's Speech. She commended also the role of the Liberal Democrats, and quite rightly, too. I am very proud of what this coalition Government has done for this country. I remind Members that, when we came to power, we inherited the worst set of economic circumstances that any incoming Government ever has. I believe that the two coalition parties coming together have done a huge amount to improve quality of life in this country and to restore its economic credibility.

Yn gwbl briodol, canmolodd Kirsty Williams y mesurau yn Araith y Frenhines. Hefyd, canmolodd rôl y Democratiaid Rhyddfrydol, ac roedd hynny'n gwbl briodol hefyd. Rwy'n falch iawn o'r hyn y mae'r Llywodraeth glymblaid wedi'i wneud dros y wlad hon. Pan ddaethom i rym, atgoffaf yr aelodau ein bod wedi etifeddu'r set waethaf o amgylchiadau economaidd a wynebodd unrhyw Lywodraeth newydd erioed. Rwy'n credu bod y ddwy blaid glymblaid yn dod at ei gilydd wedi gwneud llawer iawn i wella ansawdd bywyd yn y wlad hon ac i adfer ei hygrededd economaidd.

Andrew Davies, the leader of the opposition, reminded us once again of the legacy that we inherited. He said, quite rightly, that we should be proud, as indeed we are proud, of taking so many people out of tax altogether. He talked about the private pensions Bill, which of course means that people will now be trusted with their savings. If people can be trusted to save for their retirement, then they should be trusted to dispose of their pension pot. He talked, as did Mohammad Asghar, about the importance of the Modern Slavery Bill. It is, in fact, maybe a sad commentary on our society that, 180 years after it was formally abolished, we need to address that issue again. He talked about the social action, responsibility and heroism Bill, which I hope will do a great deal to put to rest the risk-averse culture that has grown up in this country over the years. He mentioned, too, and quite rightly, the NATO summit, which will be coming to Newport in September. It will be the biggest ever international event of its kind. I am proud that it is coming to Wales, and I want to see Wales benefitting from the economic opportunities that it affords. I look forward to working with the First Minister—as, indeed, we are doing already—to make sure that Wales maximises that benefit.

Cawsom ein hatgoffa unwaith eto gan Andrew Davies, arweinydd yr wrthblaid, am yr hyn a etifeddwyd gennym. Dywedodd yn ddigon teg y dylem fod yn falch, ac yn wir, rydym yn falch, o eithrio cymaint o bobl rhag talu treth yn gyfan gwbl. Soniodd am y Bil pensiynau preifat sy'n golygu, wrth gwrs, ein bod yn ymddiried mewn pobl i drefnu eu cynilion. Os gellir ymddiried mewn pobl i gynilo ar gyfer eu hymddeoliad, yna dylid ymddiried ynddynt i drefnu eu pot pensiwn. Fel y gwnaeth Mohammad Asghar, siaradodd am bwysigrwydd y Bil Caethwasiaeth Fodern. Efallai ei fod yn adlewyrchiad trist ar ein cymdeithas fod angen i ni fynd i'r afael â chaethwasiaeth eto 180 o flynyddoedd ar ôl iddo gael ei ddiddymu'n ffurfiol. Siaradodd am y Bil gwroldeb, cyfrifoldeb a gweithredu cymdeithasol y gobeithiaf ei weld yn gwneud llawer iawn i leddfu'r diwylliant gwrth-risg sydd wedi datblygu yn y wlad hon dros y blynyddoedd. Soniodd hefyd yn gwbl briodol am uwchgynhadledd NATO sy'n dod i Gasnewydd ym mis Medi. Dyma'r digwyddiad rhyngwladol mwyaf erioed o'i fath. Rwy'n falch ei fod yn dod i Gymru ac rwy'n awyddus i weld Cymru yn elwa ar y cyfleoedd economaidd y mae'n eu cynnig. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Prif Weinidog—fel rydym eisoes yn ei wneud yn wir—er mwyn sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar y budd hwnnw.

Paul Davies talked about the small business, enterprise and employment Bill. In fact, I think that this is the essence of Conservatism—to encourage people at whatever stage of life, of whatever rank in life to improve themselves. The small business, enterprise and employment Bill will give small businesses a break. He also talked about the importance of pubs, which are central to our communities.

Soniodd Paul Davies am y Bil busnesau bach, menter a chyflogaeth. Yn wir, rwy'n credu mai dyma hanfod Ceidwadaeth—annog pobl ar ba bynnag gyfnod mewn bywyd neu ar ba safle bynnag i wella eu hunain. Bydd y Bil busnesau bach, menter a chyflogaeth yn cynnig cyfle i fusnesau bach. Soniodd hefyd am bwysigrwydd tafarndai sy'n ganolog i'n cymunedau.

Simon Thomas delivered an interesting speech. I cannot remember much of what he said, because, frankly, it was of very little significance at all.

Cyflwynodd Simon Thomas araith ddiddorol. Ni allaf gofio llawer o'r hyn a ddywedodd am nad oedd ynddi lawer a oedd ag unrhyw arwyddocâd o gwbl a bod yn onest.

Eluned Parrott referred to childcare and, once again, the Liberal Democrats and the Conservatives can be proud that we are giving more people the opportunity to go to work and supporting working families.

Cyfeiriodd y Eluned Parrott at ofal plant ac unwaith eto, gall y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr fod yn falch ein bod yn rhoi cyfle i ragor o bobl fynd i weithio a chefnogi teuluoedd sy'n gweithio.

Julie Morgan—I am always delighted to see Julie Morgan, because she is an old colleague of mine from Parliament—talked about her welcome for the childcare provision. She talked about child poverty, and of course child poverty is an issue. However, I remind Members, once again, that the best way to alleviate child poverty is to get more people into work. I am proud that, under this Government, we have seen more people in employment in Wales than at any time before.

Siaradodd Julie Morgan—rwyf bob amser yn falch iawn o weld Julie Morgan am ei bod yn hen gydweithiwr imi o'r Senedd—am ei chroeso i'r ddarpariaeth gofal plant. Siaradodd am dlodi plant ac wrth gwrs bod tlodi plant yn broblem. Fodd bynnag, rwy'n atgoffa'r Aelodau unwaith eto mai'r ffordd orau i liniaru tlodi plant yw cael mwy o bobl mewn gwaith. O dan y Llywodraeth hon, rwy'n falch ein bod wedi gweld mwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru nag ar unrhyw adeg o'r blaen.

Jocelyn Davies talked about regional inequality. She is right to say that we need to catch up, but Wales is catching up. Employment in Wales is now growing at a fast rate. That is partly to do with the efforts of our Government, of which I am proud, and I would like to commend the Welsh Government for interventions such as Jobs Growth Wales, which, once again, is an example of how we can work more closely together. There is no territoriality about this about this. All parties in Wales want to see Wales do better, and if we align our policies, we will see Wales do better.

Soniodd Jocelyn Davies am anghydraddoldeb rhanbarthol. Mae hi'n gywir i ddweud bod angen i ni ddal i fyny, ond mae Cymru yn dal i fyny. Mae cyflogaeth yng Nghymru yn awr yn tyfu'n gyflym. Rwy'n falch o'r ffaith bod hynny'n ymwneud yn rhannol ag ymdrechion ein Llywodraeth a hoffwn ganmol Llywodraeth Cymru am ymyriadau o'r fath fel Twf Swyddi Cymru sydd unwaith eto'n enghraifft o'r modd y gallwn weithio'n agosach gyda'n gilydd. Nid oes elfennau tiriogaethol yn perthyn i hyn. Mae'r holl bleidiau yng Nghymru am weld Cymru'n gwneud yn well ac o gysoni ein polisïau, byddwn yn gweld Cymru yn gwneud yn well.

Ann Jones, you and I are never going to agree about sprinklers. We have to have regard to the fact that we need more houses for more people than ever before. If you examine what professional house builders such as Persimmon Homes and Redrow have to say, I am afraid your arguments do not—. Yes, I will give way.

Ann Jones, nid ydych chi a finnau byth yn mynd i gytuno ynglŷn â systemau chwistrellu. Mae'n rhaid inni ystyried y ffaith bod arnom angen mwy o dai i fwy o bobl nag erioed o'r blaen. Os edrychwch ar yr hyn sydd gan adeiladwyr tai proffesiynol megis Persimmon Homes a Redrow i'w ddweud, mae arnaf ofn nad yw eich dadleuon yn—. Gwnaf, fe ildiaf.

17:00

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You cite Persimmon Homes. It made a statement that it was not going to build north of Pontypridd because of the sprinkler legislation and other regulations. When I wrote to ask how many units it had built in the Rhondda postcode areas in the 10 years before, it told me that it could not remember that it had built any. So, it is dishonest of it to claim that regulation and the sprinklers are doing down house building, and it is dishonest of you to make that claim as well.

Soniwch am Persimmon Homes. Mae'r cwmni wed gwneud datganiad nad oedd yn mynd i adeiladu i'r gogledd o Bontypridd oherwydd y ddeddfwriaeth chwistrellu a rheoliadau eraill. Pan ysgrifennais i ofyn faint o unedau roeddynt wedi'u hadeiladu yn ardaloedd cod post y Rhondda yn y 10 mlynedd flaenorol, dywedodd wrthyf na allai gofio ei fod wedi adeiladu yno o gwbl. Felly, mae'n anonest yn honni bod rheoleiddio a'r systemau chwistrellu yn cyfyngu ar adeiladu tai ac rydych chi'n anonest yn gwneud y fath honiad hefyd.

17:01

## David Jones

Senedd.tv Fideo Video

Mr Andrews, I object to being called dishonest. You can agree with me—

Mr Andrews, rwy'n gwrthwynebu cael fy ngalw'n anonest. Gallwch gytuno â mi—

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. He did not call you dishonest.

Trefn. Nid oedd yn eich galw chi'n anonest.

17:01 **David Jones**

Senedd.tv Fideo Video

He did say that it was dishonest of me.

Dywedodd fy mod yn anonest yn gwneud yr honiad.

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I was listening very carefully. He called that company—

Trefn. Roeddwn yn gwrando'n astud iawn. Galwodd y cwmni hwnnw—

17:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I called him as well. [Laughter.]

Ac yntau hefyd. [Chwerthin.]

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you will withdraw that. You may question the logic and the facts, but you are not allowed to call the Secretary of State dishonest.

Wel, tynnwch hynny'n ôl. Gallwch gwestiynu'r rhesymeg a'r ffeithiau ond ni chaniateir i chi alw'r Ysgrifennydd Gwladol yn anonest.

17:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think he is being economical with the truth.

Rwy'n credu ei fod yn ddarbodus iawn gyda'r gwirionedd.

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are not allowed to use any euphemism. You must just say that you disagree and that you do not think he has interpreted the facts correctly. Just say that you agree with my interpretation.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio mwytheiriau. Rhaid i chi ddweud eich bod yn anghytuno ac nad ydych yn credu ei fod wedi dehongli'r ffeithiau yn gywir. Dywedwch eich bod yn cytuno gyda fy nehongliad, dyna'i gyd.

17:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

His interpretation of the facts is wrong. I withdraw the other remarks.

Mae ei ddehongliad o'r ffeithiau yn anghywir. Rwy'n tynnu'r sylwadau eraill yn ôl.

17:01 **David Jones**

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for that withdrawal. The fact is that houses will not be built in Wales provided that the sprinkler regulation continues. [Interruption.] Let me say this: in 2013, the number of new home completions in Wales declined by 12%. In England, they increased by 28%. Do you want to make matters worse, Ann, because that is what your policy is doing? [Interruption.] However, we will never agree.

Diolch i chi am eu tynnu'n ôl. Y ffaith yw na chaiff tai eu hadeiladu yng Nghymru cyhyd â bod y rheoliadau chwistrellu'n parhau. [Torri ar draws.] Gadewch i mi ddweud hyn: yn 2013, gostyngodd nifer y cartrefi newydd a gwblhawyd yng Nghymru 12%. Yn Lloegr, gwelwyd cynnydd o 28%. A ydych eisiau gwneud pethau'n waeth, Ann, oherwydd dyna mae eich polisi'n ei wneud? [Torri ar draws.] Fodd bynnag, ni wnawn ni byth gytuno.

Antoinette Sandbach concluded the debate, and she reminded us again of the financial mess that this UK Government inherited. Under this UK Government, Britain is now turning the corner. Wales is doing better. I am proud of what we are doing, and I will say to the Welsh Government that this is the challenge: if you will work with us, Wales will improve more rapidly. If you persist, as you do in some respects, with a territorial isolationist attitude, Wales will get poorer.

Daeth Antoinette Sandbach â'r ddadl i ben gan ein hatgoffa eto o'r llanast ariannol a etifeddodd Llywodraeth y DU. O dan y Llywodraeth hon, mae Prydain yn awr yn troi'r gornel. Mae Cymru yn gwneud yn well. Rwy'n falch o'r hyn rydym yn ei wneud a dywedaf wrth Lywodraeth Cymru mai dyma'r her: os gweithiwch gyda ni, bydd Cymru yn gwella yn gynt. Os parhewch i goleddu agwedd diriogaethol ac ynysig, fel rydych chi'n ei wneud mewn rhai ffyrdd, bydd Cymru yn mynd yn dlotach.

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the First Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

17:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

'Work with us but you're all wrong'; that is what the Secretary of State just said. I welcome the Secretary of State back to the place where he first began full-time politics, in what has become a very curious process. I do not think that any of us find it particularly easy these days, whoever the occupant of the position of Secretary of State is, that we have this process today, when the Secretary of State turns up here, and sits above us with an adviser—something that is not granted to other Members. In fairness to him, he is obliged to be here and has to defend the record of one Government in another legislature to another Government's Ministers. It is about time this process was changed, in my view. It cannot be done very easily—I understand that—but I am grateful anyway that the Secretary of State here, even though this entire process now seems very incongruous, particularly after the 2011 referendum.

'Gweithiwch gyda ni, ond rydych i gyd yn anghywir'; dyna mae'r Ysgrifennydd Gwladol newydd ei ddweud. Rwy'n croesawu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ôl i'r man lle y dechreuodd ar yrfa wleidyddol amser llawn, yn yr hyn sydd wedi datblygu'n broses ryfedd iawn. Pwy bynnag yw'r Ysgrifennydd Gwladol, nid wyf yn credu bod neb ohonom yn ystyried y broses hon heddiw yn arbennig o hawdd y dyddiau hyn, pan ddaw'r Ysgrifennydd Gwladol yma i eistedd uwch ein pennau gyda'i ymgynghorydd—rhywbeth nad yw Aelodau eraill yn ei gael. Er tegwch iddo, mae'n rhaid iddo ddod yma ac amddiffyn record Llywodraeth mewn deddfwrfa arall i Weinidogion Llywodraeth arall. Mae'n hen bryd newid y broses yn fy marn i. Ni ellir gwneud hynny'n hawdd—deallaf hynny—ond rwy'n ddiolchgar beth bynnag bod yr Ysgrifennydd Gwladol yma, er bod y broses gyfan hon bellach yn ymddangos yn anghydweddol iawn, yn enwedig ar ôl y refferendwm 2011.

The Secretary of State joins us as a time when his own party is in disarray in Wales. We see members of the Conservative Party actively tweeting against their own leader in Wales, without any action being taken.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymuno â ni ar adeg pan fo'i blaid ei hun mewn anhrefn yng Nghymru. Rydym yn gweld aelodau o'r Blaid Geidwadol yn mynd ati i drydar yn erbyn eu harweinydd eu hunain yng Nghymru heb i unrhyw gamau gael eu cymryd yn eu herbyn.

Before I address the points that other Members have made, I would like to give the leader of the opposition an opportunity, in fairness, with regard to amendment 1, which he was silent on—the lockstep. Is his party going to support amendment 1 or not? He has bottled it. He has been sat upon by the Secretary of State. [Laughter.] You are bigger than him, and yet we all know what his views were on the lockstep. Today, he is utterly silent and devoid of leadership. Let us see what they do to try to avoid that. He has failed utterly to answer the question that has been put.

Cyn i mi fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau eraill, a bod yn deg, hoffwn roi cyfle i arweinydd yr wrthblaid mewn perthynas â gwelliant 1 y bu'n dawel yn ei gylch—y 'lockstep'. A yw ei blaid yn mynd i gefnogi gwelliant 1 ai peidio? Mae wedi cael ei fygu. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i fygu. [Chwerthin.] Rydych yn fwy nag ef ac eto rydym i gyd yn gwybod beth oedd ei farn am y 'lockstep'. Heddiw, mae'n hollol dawel ac yn amddifad o arweiniad. Gadewch inni weld beth a wnânt i geisio osgoi hynny. Mae wedi methu yn llwyr ag ateb y cwestiwn sydd wedi'i roi.

17:04 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I find it particularly distasteful that the First Minister of Wales, a constituency Member whose own hospital has patients saying that they are living in hell, is deriving any satisfaction without delivering a speech to the Secretary of State that is deserving of the First Minister of this institution. That is the problem.

Rwy'n ei chael hi'n arbennig o annymunol fod Prif Weinidog Cymru, Aelod o'r etholaeth lle mae cleifion yn ei ysbyty ei hun yn dweud eu bod yn byw yn uffern, yn cael unrhyw foddhad o fethu â chyflwyno araith i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n deilwng o Brif Weinidog y sefydliad hwn. Dyna'r broblem.

17:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is the most pathetic answer I have ever heard from any party leader in this Chamber at any time. It is an issue of absolute importance for us, as we consider income tax varying powers, and he has been completely unable to answer the most basic questions. We all know why. His party is entirely divided on it. There he is saying that the people of Wales would have had to accept income tax varying powers and he is unable to state his own party's position today on the very issue of the lockstep. The people of Wales will make their judgment.

Dyna'r ateb mwyaf pathetig a glywais erioed gan arweinydd plaid yn y Siambr hon ar unrhyw adeg. Mae'n fater o bwys absoliwt wrth inni ystyried pwerau amrywio treth incwm, ac mae wedi methu'n llwyr ag ateb y cwestiynau mwyaf sylfaenol. Rydym i gyd yn gwybod pam. Mae ei blaid yn gwbl ranedig ar y mater. Mae'n dweud y byddai pobl Cymru wedi gorfod derbyn pwerau i amrywio treth incwm ac nid yw'n gallu datgan safbwynt ei blaid ei hun heddiw ar union fater y 'lockstep'. Caiff pobl Cymru ddatgan eu barn.

When it comes to some of the issues that the Secretary of State has raised, he is right to say that good work has been done in terms of Wylfa B. We welcome, of course, the prison that is coming to the north of Wales. We welcome the Wales Bill, although, of course, with some reservations. We welcome the work that has been done in terms of the Barnett floor, if I can put it that way.

O ran rhai o'r materion y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u codi, mae'n iawn i ddweud bod gwaith da wedi'i wneud ynghylch Wylfa B. Rydym yn croesawu'r carchar sy'n dod i ogledd Cymru wrth gwrs. Rydym yn croesawu Bil Cymru, ond gyda rhai amheuon wrth gwrs. Rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed o ran dull ariannu gwaelodol Barnett, os caf ei roi felly.

There are still some issues outstanding. The train that the Prime Minister launched with his comments back in October in terms of rail electrification has yet to arrive. However, we do acknowledge the good work that is being done in discussions with the Department for Transport and the spirit in which those discussions were entered into.

Mae rhai materion sy'n weddill o hyd. Mae'r trên a lansiodd y Prif Weinidog gyda'i sylwadau yn ôl ym mis Hydref ar drydaneiddio rheilffyrdd eto i gyrraedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gwaith da sy'n cael ei wneud mewn trafodaethau â'r Adran Drafnidiaeth a'r ysbryd y cynhaliwyd y trafodaethau hynny.

I can say that there are some issues, of course, upon which we could not agree. It is still incongruous and wrong that the people of Wales, for example, have less control over their own natural resources than do the people of England, Scotland and Northern Ireland. That will have to be addressed in the second part of the Silk report and, indeed, in any legislation that follows that. Yes, no-one can argue that people should have greater control over their pensions, but that does not apply to those outside the private sector, of course. So, if it applies to one lot of people, why does it not apply to others? That is a question that needs to be answered.

Gallaf ddweud bod rhai materion na allem gytuno arnynt wrth gwrs. Mae'n dal i fod yn anghydweddol ac yn anghywir fod gan bobl Cymru, er enghraifft, lai o reolaeth dros eu hadnoddau naturiol eu hunain na phobl Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn rhaid mynd i'r afael â hynny yn ail ran adroddiad Silk ac yn wir, mewn unrhyw ddeddfwriaeth sy'n dilyn hynny. Ni all unrhyw un ddadlau na ddylai pobl gael mwy o reolaeth dros eu pensiynau ond nid yw hynny'n berthnasol i'r rhai y tu allan i'r sector preifat wrth gwrs. Felly, os yw'n berthnasol i un criw o bobl, pam nad yw'n berthnasol i eraill? Dyna gwestiwn sydd angen ei ateb.

He was generous enough to acknowledge the work that is being done by Welsh Government. Jobs Growth Wales is not an example of joint working; it is an example of the Welsh Government delivering on its main manifesto promise, which is why nearly 10,000 young people in Wales are now in a position where they have a job or are in training. I urge him to follow the example that we have set in other ways in Wales: the fact that council tax is far lower in Wales than it is in England; the fact that we have the education maintenance allowance in Wales; the fact that we have not tripled tuition fees in Wales; and the fact that we do not have a tablet tax here in Wales. The leader of the opposition says that somehow, they want people to have more time and ability to spend their own money, but he is tax mad. Tax mad. The tablet tax, more tuition fees and no education maintenance allowance are all things that take money out of the pockets of ordinary working people—

Roedd yn ddigon hael i gydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru. Nid yw Twf Swyddi Cymru yn enghraifft o gydweithio; mae'n enghraifft o Lywodraeth Cymru yn cyflawni ei phrif addewid maniffesto a dyna pam y mae bron i 10,000 o bobl ifanc yng Nghymru bellach mewn swydd neu'n cael hyfforddiant. Rwy'n ei annog i ddilyn yr esiampl rydym wedi'i gosod mewn ffyrdd eraill yng Nghymru: y ffaith bod y dreth gyngor yn llawer is yng Nghymru nag yn Lloegr; y ffaith bod gennym lwfans cynhaliaeth addysg yng Nghymru; y ffaith nad ydym wedi treblu ffioedd dysgu yng Nghymru; a'r ffaith nad oes gennym dreth dabledi yma yng Nghymru. Mae arweinydd yr wrthblaid yn dweud eu bod am i bobl gael mwy o amser rywsut a'r gallu i wario eu harian eu hunain, ond mae'n ffoli ar drethi. Wedi ffoli ar drethi. Mae'r dreth dabledi, mwy o ffioedd dysgu a dim lwfans cynhaliaeth addysg i gyd yn bethau sy'n mynd ag arian o bocedi pobl gyffredin sy'n gweithio—

17:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Three years—

Tair blynedd—

17:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

If he wants to intervene and give an explanation as to how he will vote on amendment 1, I will give him another chance, but he is not going to do that, because I can see that the knives are already sticking out of his back, even as he sits in his seat. So, why would he put himself in that vulnerable position?

Os yw'n dymuno ymyrryd ac egluro sut y bydd yn pleidleisio ar welliant 1, rhoddaf gyfle arall iddo, ond nid yw'n mynd i wneud hynny, oherwydd gallaf weld y cyllyll yn ei gefn eisoes wrth iddo eistedd yn ei sedd. Felly pam y byddai'n gosod ei hun yn y fath sefyllfa fregus?

Let me turn to some of the comments that have been made by other speakers. In terms of Kirsty Williams's point, I agree with much of what she said, as I agree with much of what Elin Jones said. The only issue with the child cruelty legislation, which is a technical issue, although I have no quarrel at all with the actual thrust of the legislation, is that it might be devolved. This is something that we have to look at very carefully; it is not an issue that should derail such legislation, but we must be aware of how this might affect devolved competence.

Gadewch imi droi at rai o'r sylwadau a wnaed gan siaradwyr eraill. O ran pwynt Kirsty Williams, rwy'n cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd fel rwy'n cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd Elin Jones. Yr unig broblem gyda'r ddeddfwriaeth creulondeb plant, sy'n fater technegol er nad wyf yn anghytuno â phrif ergyd y ddeddfwriaeth, yw y gellid ei datganoli. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid inni edrych arno'n ofalus iawn; nid yw'n fater a ddylai rwystro deddfwriaeth o'r fath ond mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol o sut y gallai effeithio ar gymhwysedd datganoledig.

I turn again to the leader of the opposition—he has given me much to mine today. He talks about economic performance. Unemployment in Wales is at 6.8%. It is at the UK average and why is that? It is because of the work that we have done as a Government. I will generously acknowledge what the UK Government has done as well, but who brought Pinewood into Wales? The Welsh Government. Who brought the Avox jobs into Wrexham? The Welsh Government. Who brought the investments into Tata into Wales? The Welsh Government, after discussions. We are now in a position where we are getting an increasing percentage of investment from abroad into Wales.

Trof eto at arweinydd yr wrthblaid—mae wedi rhoi llawer o ddeunydd imi heddiw. Mae'n sôn am berfformiad economaidd. Mae diweithdra yng Nghymru wedi cyrraedd 6.8%, sef y cyfartaledd yn y DU, a pham hynny? Mae'n deillio o'r gwaith rydym wedi'i wneud fel Llywodraeth. Byddaf yn hael yn cydnabod yr hyn y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud hefyd ond pwy ddaeth â Pinewood i Gymru? Llywodraeth Cymru. Pwy ddaeth â swyddi Avox i Wrecsam? Llywodraeth Cymru. Pwy ddaeth â'r buddsoddiadau yn Tata i Gymru? Llywodraeth Cymru, ar ôl trafodaethau. Rydym yn awr mewn sefyllfa lle'r ydym yn denu canran gynyddol o fuddsoddiad tramor i Gymru.

To compare the situation to what it was in the 1990s is wrong. There was less competition in the 1990s and the jobs that came in were low-paid jobs that disappeared somewhere else as soon as somewhere else cheaper became available. We are delivering jobs that are sustainable and that is why our unemployment rate is historically so low. It is right to say that we have put in place the policies that are needed in order for Wales to have long-term economic growth and long-term skilled jobs, which is not what his party did. Skills were not important as far as his party was concerned in the 1980s.

Mae cymharu'r sefyllfa â'r hyn ydoedd yn y 1990au yn anghywir. Roedd llai o gystadleuaeth yn y 1990au ac roedd y swyddi a ddaeth i mewn yn swyddi cyflog isel a ddiflannodd i rywle arall cyn gynted ag y daeth rhywle arall rhatach ar gael. Rydym yn darparu swyddi sy'n gynaliadwy a dyna pam y mae ein cyfradd ddiweithdra wedi bod mor isel. Mae'n iawn i ddweud ein bod wedi gweithredu'r polisïau sydd eu hangen er mwyn sicrhau twf economaidd hirdymor i Gymru a swyddi crefftus hirdymor, nid yr hyn a wnaeth ei blaid ef. Nid oedd sgiliau'n bwysig i'w blaid ef yn y 1980au.

We took control of Cardiff Airport. He wanted the airport to shut. He wanted to see the airport close and British Airways Maintenance go with it. We took action. We invested in the airport. There is nearly a 10% increase in passenger numbers and we now have an airport that is thriving—far better than ever it was under the previous ownership. [Interruption.]

Daeth Maes Awyr Caerdydd o dan ein rheolaeth. Roedd ef am i'r maes awyr gau. Roedd eisiau gweld y maes awyr yn cau a British Airways Maintenance gydag ef. Rhoddwyd camau gweithredu ar waith gennym. Aethom ati i fuddsoddi yn y maes awyr. Mae cynnydd o bron i 10% yn nifer y teithwyr a bellach mae gennym faes awyr sy'n ffynnu'n llawer gwell nag a wnaeth erioed o dan y perchennog blaenorol. [Torri ar draws.]

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order. This is the First Minister's reply. It is not his reply with a running commentary from the leader of the opposition. Please listen to what the First Minister has to say. I call on the First Minister.

Trefn. Dyma ymateb y Prif Weinidog. Nid ei ymateb i sylwebaeth ar y pryd gan arweinydd yr wrthblaid. Os gwelwch yn dda, gwrandewch ar yr hyn sydd gan y Prif Weinidog i'w ddweud. Galwaf ar y Prif Weinidog.

17:10

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would not mind a running commentary if it was relevant and talked about the lockstep, but, of course, I follow your guidance, Deputy Presiding Officer.

Ni fyddai ots gennyf sylwebaeth ar y pryd pe bai'n berthnasol ac yn trafod y 'lockstep', ond wrth gwrs, dilynaf eich arweiniad, Ddirprwy Lywydd.

Therefore, we invested in the airport. Those jobs are now safe, the airport is growing and British Airways Maintenance is growing. He wished to see the whole lot shut and to do nothing. I remind him of that very strongly.

Felly, buddsoddasom yn y maes awyr. Mae'r swyddi hynny'n awr yn ddiogel, y maes awyr yn tyfu ac mae British Airways Maintenance yn tyfu. Roedd ef am weld y cyfan yn cau a gwneud dim byd. Rwyf am ei atgoffa o hynny'n bendant iawn.

We all listened to the speech that was given by Mick Antoniw. The reality is that people are affected by the bedroom tax. I have to remind the Secretary of State that Pontypridd council is not a unitary authority. Rhondda Cynon Taf is the unitary authority where Pontypridd is placed. I would have hoped that he would have known that, but, nevertheless, he tried to make that point. However, the reality is that I come across people all the time who are worse off because of the bedroom tax. They are working people, quite often, and yet they are being hit the hardest. Mick Antoniw was explaining the situation with his constituents whom he named, in fairness, and yet we still had heckling from the Conservative benches. Byron Davies, particularly, heckled away.

Gwrandawodd pawb ohonom ar araith Mick Antoniw. Y realiti yw bod pobl yn cael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely. Rhaid imi atgoffa'r Ysgrifennydd Gwladol nad awdurdod unedol yw cyngor Pontypridd. Rhondda Cynon Taf yw'r awdurdod unedol ar gyfer Pontypridd. Byddwn wedi gobeithio y byddai'n gwybod hynny ond ceisiodd wneud y pwynt er hynny. Fodd bynnag, y gwir amdani yw fy mod yn cyfarfod â phobl drwy'r amser sy'n waeth eu byd oherwydd y dreth ystafell wely. Yn aml iawn, maent yn bobl sy'n gweithio ac eto, dyma'r bobl sy'n cael eu taro galetaf. Roedd Mick Antoniw yn egluro'r sefyllfa gyda'i etholwyr ac enwodd hwy, a bod yn deg. Eto i gyd, roeddem yn dal i gael heclo o feinciau'r Ceidwadwyr. Roedd Byron Davies, yn arbennig, yn heclo'n ffri.

Could I say to the Member Byron Davies that it is about time that he did the job that he is paid to do and turned up at the committee that he is paid to attend? Then he could start lecturing other Members in this Chamber and then he could start lecturing people who have been hit by the bedroom tax. It is not only distasteful, but disappointing and disgraceful that somebody in that position should attack those people who are the lowest paid in our society and who are having to pay more for their accommodation. He should take a long, hard look at himself.

A gaf fi ddweud wrth yr Aelod Byron Davies ei bod yn hen bryd iddo wneud y gwaith y mae'n cael ei dalu i'w wneud a mynychu'r pwyllgor y mae'n cael ei dalu i'w fynychu? Yna gallai ddechrau pregethu wrth Aelodau eraill y Siambr hon a phregethu wrth bobl sydd wedi cael eu taro gan y dreth ystafell wely. Mae hyn nid yn unig yn annymunol, ond mae'n siom ac yn warth fod rhywun yn y fath sefyllfa yn ymosod ar y bobl sy'n cael eu talu leiaf yn ein cymdeithas ac sy'n gorfod talu mwy am eu llety. Dylai edrych gartref yn gyntaf.

When it comes to Eluned Parrott and what she said, I have to say to the Member that there is no doubt that competence to deal with zero-hours contracts rests with the UK Government. Naming and shaming is not good enough. The UK Government could, if it wished to, take forward legislation without controversy in terms of competence and deal with this issue. If Jenny Willott wishes to do that, that is something that is open to her, but naming and shaming will never do the trick. There is no doubt that UK Government has competence on this issue. There are issues regarding our competence here with regard to what happened with a previous Bill.

O ran Eluned Parrott a'r hyn a ddywedodd, rhaid imi ddweud wrth yr Aelod nad oes amheuaeth mai Llywodraeth y DU sydd â'r cymhwysedd i ymdrin â chontractau dim oriau. Nid yw enwi a chodi cywilydd yn ddigon da. Pe bai'n dymuno gwneud hynny, gallai Llywodraeth y DU gyflwyno deddfwriaeth o ran cymhwysedd heb unrhyw ddadl, ac ymdrin â'r mater hwn. Os yw Jenny Willott yn dymuno gwneud hynny, mater iddi hi yw hynny, ond ni fydd enwi a chodi cywilydd byth yn ddigon. Nid oes amheuaeth fod gan Lywodraeth y DU gymhwysedd ar y mater hwn. Mae problemau ynghlwm wrth ein cymhwysedd yma o ran yr hyn a ddigwyddodd gyda Bil blaenorol.

Let me turn now to what Mark Isherwood said: Labour's great recession. It is the common consensus in the financial world that the recession began as a result of events on 9 August 2007 with the financial markets in the USA. The recession affected every country in western Europe and beyond. It was not just about Britain; it was every country in western Europe and beyond. What was the response that his party made at the time? 'Let the banks fail.' 'Let the banks fail', was what was said, 'Let Northern Rock go. Let the rest of them go. That is what we want to see—the raw edge of capitalism'. The reality is that if his party had been in Government at that time, the depression of the 1930s would have been a picnic, and yet here he stands, suggesting that somehow, over the last four years, simply getting back to the position that we were in in 2010 is, in some way, an achievement of his party and his Government.

Gadewch i mi droi yn awr at yr hyn a ddywedodd Mark Isherwood: dirwasgiad mawr Llafur. Y consensws cyffredin yn y byd ariannol yw bod y dirwasgiad wedi dechrau o ganlyniad i ddigwyddiadau ar 9 Awst 2007 gyda marchnadoedd ariannol yn yr Unol Daleithiau. Effeithiodd y dirwasgiad ar bob gwlad yng ngorllewin Ewrop a thu hwnt. Nid mater a oedd yn ymwneud â Phrydain yn unig ydoedd; roedd yn ymwneud â phob gwlad yng ngorllewin Ewrop a thu hwnt. Beth oedd ymateb ei blaid ar y pryd? 'Gadewch i'r banciau fethu.' 'Gadewch i'r banciau fethu', dyna a ddywedwyd, 'Gadewch i Northern Rock fynd. Gadewch i'r gweddill ohonynt fynd. Dyna'r ydym am ei weld—ymyl grai cyfalafiaeth'. Pe bai ei blaid wedi bod mewn Llywodraeth ar y pryd, y realiti yw y byddai dirwasgiad y 1930au wedi bod yn fawr o ddim byd mewn cymhariaeth ac eto, mae'n sefyll yma gan awgrymu rywsut, dros y pedair blynedd diwethaf, y byddai mynd yn ôl at y sefyllfa roeddem ynddi yn 2010 yn gyflawniad ar ran ei blaid a'i Lywodraeth mewn rhy fodd.

Let me turn to the issue—I hesitate to get involved with the sprinklers issue. I know the differences in opinion between the Secretary of State and the Member for the Vale of Clwyd. However, the reality is that construction figures in Wales are outstripping those of the UK. That is the reality: 6% up, and 1.8% down as far as the UK is concerned. That is not an indication that, somehow, house building in Wales is being held back. Help to Buy-Cymru, of course, has been exceptionally successful in terms of allowing new entrants into the market to buy their houses.

Gadewch imi droi at y mater—rwy'n oedi rhag cymryd rhan ym mater systemau chwistrellu. Rwy'n gwybod am y gwahaniaeth barn rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd. Fodd bynnag, y gwir amdani yw bod ffigurau adeiladu Cymru yn well na rhai'r DU. Dyna'r realiti: 6% i fyny, a 1.8% i lawr yn achos y DU. Nid yw hynny'n arwydd rywsut fod adeiladu tai yng Nghymru yn cael ei lesteirio. Wrth gwrs, mae Cymorth i Brynu Cymru wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran galluogi newydd-ddyfodiaid i ddod i mewn i'r farchnad i brynu eu tai.

Coming to what Antoinette Sandbach said, what I have to say to her, considering I know her opinions on these issues, is that, yes, things are improving. We can, of course, argue as to who is responsible and who should take credit for that, but I have to say to her that all this means nothing if the UK leaves the EU, because, in those circumstances, the Welsh economy and, I believe, the UK economy would collapse. We have 150,000 jobs that are dependent on our membership of the EU. We have farmers and there is £260 million-worth of subsidy going to farmers in Wales that would not come here. If we think that money would come from Whitehall to Wales to pay for our farmers, I can tell you that I have dealt with DEFRA and there is no way that it will send that money here. Therefore, Welsh farmers would collapse without membership of the EU, the access to markets that that gives and the subsidies that they receive. Also, the fact is that our large manufacturers in Wales are parts of European operations. They are not UK operations, and they will leave the UK if the UK is not a member of the EU. That is not to say, and I do not want to get into this debate again, that there is not a need for reform and, in some ways, I support the Prime Minister, in terms of what he is trying to do to reform the institutions of the European Union; I think that that is fair. However, to jeopardise our membership is a disaster, as far as our economy is concerned.

Gan ddod at yr hyn a ddywedodd Antoinette Sandbach, yr hyn sy'n rhaid imi ei ddweud wrthi ag ystyried fy mod yn gwybod ei barn ar y materion hyn yw, ydynt, mae pethau'n gwella. Wrth gwrs, gallwn ddadlau ynghylch pwy sy'n gyfrifol a phwy ddylai gymryd y clod am hynny, ond rhaid imi ddweud wrthi nad yw hyn oll yn golygu dim os yw'r DU yn gadael yr UE, oherwydd yn yr amgylchiadau hynny, yn fy marn i, byddai economi'r DU yn methu. Mae gennym 150,000 o swyddi sy'n dibynnu ar ein haelodaeth o'r UE. Mae gennym ffermwyr ac mae gwerth £260 miliwn o gymhorthdal yn mynd i ffermwyr yng Nghymru na fyddai'n dod yma. Os ydym o'r farn y byddai'r arian yn dod o Whitehall i Gymru i dalu am ein ffermwyr, gallaf ddweud wrthych fy mod wedi ymdrin â DEFRA ac nid oes unrhyw ffordd y byddai'n anfon yr arian yma. Felly byddai ffermwyr Cymru yn methu pe na baem yn aelodau o'r UE, gyda'r mynediad y mae hynny'n ei gynnig i farchnadoedd a'r cymorthdaliadau a gânt. Hefyd, mae'n ffaith bod ein cynhyrchwyr mawr yng Nghymru yn rhan o weithrediadau Ewropeaidd. Nid gweithrediadau'r DU mohonynt a byddent yn gadael y DU pe na bai'r DU yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Nid yw hynny'n gyfystyr â dweud—ac nid oes arnaf eisiau cychwyn ar y ddadl hon eto—nad oes angen diwygio ac mewn rhai ffyrdd, rwy'n cefnogi'r Prif Weinidog o ran yr hyn y mae'n ceisio ei wneud i ddiwygio'r sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd; rwy'n meddwl fod hynny'n deg. Ond byddai peryglu ein haelodaeth yn drychineb i'n heconomi.

I will end on this point, Deputy Presiding Officer. We have seen, over the past week, conflict within the UK Government. We are used to conflict between the coalition parties, but we now see conflict between different Ministers and conduct that, I have to say, if I were the Prime Minister, would have led to them losing their jobs, but that is the reality of the situation in London. I have to say that what we need to see is what we have in Wales: a united, strong, decisive and principled Government. That is what we have in Wales, and that is what we need in the UK: a Government that delivers for people, that is fair, that delivers on the economy, delivers on health, delivers on education, delivers on fairness, delivers on social justice, and delivers on opportunity. I look forward to that year coming in 2015.

Rwyf am gloi ar y pwynt hwn, Ddirprwy Lywydd. Dros yr wythnos ddiwethaf, rydym wedi gweld gwrthdaro yn y Llywodraeth y DU. Rydym wedi arfer â gwrthdaro rhwng pleidiau'r glymblaid ond rydym bellach yn gweld gwrthdaro rhwng gwahanol Weinidogion ac mae'n rhaid imi ddweud pe bawn i yn esgidiau'r Prif Weinidog, byddai'r ymddygiad a welsom wedi peri iddynt golli eu swyddi ond dyna realiti'r sefyllfa yn Llundain. Rhaid imi ddweud mai'r hyn sydd angen inni ei weld yw'r hyn sydd gennym yng Nghymru: Llywodraeth gref, unedig, egwyddorol a phendant. Dyna sydd gennym yng Nghymru a dyna beth sydd ei angen arnom yn y DU: Llywodraeth sy'n cyflawni ar gyfer pobl, sy'n deg, sy'n cyflawni o ran yr economi, yn cyflawni ym maes iechyd, yn cyflawni ym maes addysg, yn cyflawni o ran tegwch, yn cyflawni o ran cyfiawnder cymdeithasol ac yn cyflawni o ran cyfle. Edrychaf ymlaen at weld hynny'n dod yn 2015.

17:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection. [Assembly Members: 'Oh.'] Therefore, we will conduct the voting electronically. [Interruption.] Order. In accordance with Standing Order 11.15, the Business Committee has decided that any votes that are necessary will take place immediately after this debate. We will now proceed to the first vote. Before I actually call it, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. [Aelodau'r Cynulliad: 'O.'] Felly, byddwn yn cynnal y bleidlais yn electronig. [Torri ar draws.] Trefn. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.15, mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu y bydd unrhyw bleidleisio sy'n angenrheidiol yn digwydd yn syth ar ôl y ddadl hon. Symudwn ymlaen yn awr at y bleidlais gyntaf. Cyn i mi ei galw, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5522

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 12.*

*Amendment agreed: For 40, Against 0, Abstain 12.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5522

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 9, Yn erbyn 17, Ymatal 26.*

*Amendment not agreed: For 9, Against 17, Abstain 26.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5522

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 35, Yn erbyn 17, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 35, Against 17, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5522

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 17, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5522

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 26, Ymatal 9.*

*Amendment not agreed: For 17, Against 26, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5522

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 31, Yn erbyn 0, Ymatal 21.*

*Amendment agreed: For 31, Against 0, Abstain 21.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5522

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 5, Yn erbyn 26, Ymatal 21.*

*Amendment not agreed: For 5, Against 26, Abstain 21.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5522

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 5, Yn erbyn 26, Ymatal 21.*

*Amendment not agreed: For 5, Against 26, Abstain 21.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5522

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 17, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 10 to motion NDM5522

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 17, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 11 i gynnig NDM5522

Result of the vote on amendment 11 to motion NDM5522

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 31, Yn erbyn 0, Ymatal 21.*

*Amendment agreed: For 31, Against 0, Abstain 21.*

Cynnig NDM5522 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM522 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2014/2015.

1. Notes the content of the UK Government's legislative programme 2014/2015.

2. Yn gresynu bod y model datganoli treth incwm a gynigir ar gyfer Cymru, ym Mil Cymru, yn cael ei gyfyngu gan yr hyn a elwir yn fecanwaith 'cyd-gerdded'.

2. Regrets that the model of income tax devolution proposed for Wales, in the Wales Bill, is constrained by the so-called 'lock-step' mechanism.

3. Yn credu y dylai rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU fod wedi cynnwys deddfwriaeth i ail-gydbwyso economi'r DU mewn modd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol ac yn hyrwyddo tegwch economaidd.

3. Believes that the UK Government's legislative programme should have included legislation to rebalance the UK economy in a way that tackles regional inequalities and promotes economic fairness.

4. Yn croesawu'r ffaith y bydd y Bil Troseddau Difrifol, yn dilyn yr ymgyrch gan Aelod Seneddol Ceredigion, y Democrat Rhyddfrydol Cymreig Mark Williams, yn cynnwys darpariaeth i nodi'n glir fod creulondeb sy'n debygol o achosi niwed seicolegol i blentyn yn drosedd.

4. Welcomes that the Serious Crimes Bill, following the campaign by Welsh Liberal Democrat MP for Ceredigion Mark Williams, will include provision to make it explicit that cruelty which is likely to cause psychological harm to a child is ân offence.

5. Yn croesawu'r ffaith y bydd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn rhoi mesurau allweddol ar waith i gynyddu ymhellach y lwfans personol i £10,500, gan adeiladu ar yr ymrwymiad ym maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer etholiad cyffredinol 2010 i gynyddu trothwy'r dreth incwm i £10,000.

5. Welcomes that the UK Government's legislative programme will implement key measures to increase further the personal allowance to £10,500, building on the Liberal Democrat 2010 general election manifesto commitment to raise the income tax threshold to £10,000.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5522 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5522 as amended.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 35, Yn erbyn 12, Ymatal 5.*

*Motion agreed: For 35, Against 12, Abstain 5.*

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 17:20.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 17:20.*

## Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Gofalwyr

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones, a gwelliant 3 yn enw Paul Davies.*

## Welsh Liberal Democrats Debate: Carers

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones, and amendment 3 in the name of Paul Davies.*

17:20 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Aled Roberts i wneud y cynnig.

I call on Aled Roberts to move the motion.

Cynnig NDM5524 Aled Roberts

Motion NDM5524 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cefnogi Wythnos Gofalwyr 2014 sy’n cydnabod ac yn dathlu cyfraniad mwy na 370,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, sy’n darparu cymorth amhrisiadwy i deulu a ffrindiau.

1. Supports Carers Week 2014 which recognises and celebrates the contribution of more than 370,000 unpaid carers in Wales, who provide invaluable support to family members and friends.

2. Yn nodi’r dystiolaeth gynyddol o rôl hynod heriol gofalu, a all gael effaith andwyol ar iechyd, cyfleoedd cyflogaeth, gweithgarwch cymdeithasol a hamdden y rhai sy’n rhoi gofal yn ddi-dâl.

2. Notes the growing evidence on the incredibly demanding role of caring, which can have an adverse impact on the health, employment opportunities, social and leisure activities of those providing unpaid care.

3. Yn nodi canfyddiadau adroddiad ‘Prepared to Care?’ 2013 a ganfu bod 75 o ofalwyr heb fod yn barod am rôl ofalu ac nid oedd 81 y cant yn ymwybodol o’r cymorth sydd ar gael, sy’n aml yn golygu bod gofalwyr yn teimlo’n agored i niwed ac yn ynysig.

3. Notes the findings of the 2013 ‘Prepared to Care?’ report which found that 75 per cent of carers were unprepared for a caring role and 81 per cent were not aware of the support available, which often leaves carers feeling vulnerable and isolated.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) cefnogi ymgyrch ymwybyddiaeth i annog hunan-nodi a mynediad i gymorth a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl gofalwyr;

a) support an awareness campaign to encourage self-identification and access to support and improve public understanding of the role of carers;

b) datblygu gwybodaeth i gyflogwyr gynorthwyo gweithwyr sy’n ceisio cael cydbwysedd rhwng eu gwaith a’u rolau gofalu; ac

b) develop information for employers to support workers seeking to balance their work and caring roles; and

c) gweithio gyda darparwyr addysg i gynnig darpariaeth mwy hyblyg i alluogi gofalwyr o bob oed i gael mynediad i gyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant.

c) work with education providers to provide more flexible provision to enable carers of all ages to access opportunities for education and training.

17:20

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. Cynigiaf y cynnig.

Thank you. I move the motion.

Ein bwriad ni, wrth gyflwyno’r ddadl hon heddiw, yw cefnogi Wythnos Gofalwyr 2014, ac, wrth ddweud hynny, rydym yn cydnabod rôl hanfodol gofalwyr wrth edrych ar ôl aelodau teulu, ffrindiau ac anwyliaid. Mae data’r cyfrifiad yn dangos bod nifer y gofalwyr yng Nghymru wedi cynyddu o 340,000 yn 2001 i 370,000 yn 2011. Yn fwy arwyddocaol, mae’r cynnydd mwyaf ymhlith y rhai sy’n darparu dros 20 awr o ofal di-dâl, gyda bron 104,000 o bobl yng Nghymru yn darparu dros 50 awr o ofal di-dâl bob wythnos.

Our intention, in presenting this debate today, is to support Carers Week 2014, and, in saying that, we recognise the critical role of carers in looking after family members, friends and loved ones. Census data show that the number of carers in Wales increased from 340,000 in 2001 to 370,000 in 2011. More significantly, the biggest increase has been among those providing over 20 hours of unpaid care, with nearly 104,000 people in Wales providing over 50 hours of unpaid care a week.

Mae hyn, mae’n amlwg, yn effeithio yn enfawr ar fywyd gofalwyr, o bosibl ar eu harian, eu hiechyd, eu lles a’u perthnasau. Mae profiad pob gofalwr yn wahanol, wrth gwrs. Fodd bynnag, p’un a ydynt yn darparu cymorth i ffrind neu berthynas sy’n sâl, sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd meddwl, neu sy’n gaeth yn y cartref, un peth sy’n gyffredin i bob gofalwr yw’r ymrwymiad personol y maent yn ei gynnig drwy neilltuo’u hamser ac ynni, gofal a chymorth, i helpu rhywun maent yn agos atynt.

This, evidently, has a great impact on the lives of carers, possibly on their finances, their health, their welfare, and their relationships. The experience of every carer is different, of course. However, whether they provide support for a friend or relation who is sick, who has a disability or mental health condition, or who is stuck at home, the one thing that is common to all carers is the personal commitment that they offer by setting aside their time and energy, care and support, to help someone they are close to.

Rydym yn croesawu'r cam ymlaen drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n cynnig mwy o hawliau i ofalwyr yng Nghymru, ond mae'n rhaid inni barhau hefyd i geisio gwella'r cymorth sydd ar gael i'r rheini sy'n darparu gofal. Rhaid croesawu'r ffaith bod y diffiniad o ofalwr yn cael ei ymestyn, yn hytrach na jest edrych ar adegau o argyfwng yn unig. Mae hyn yn ategu'r gwaith a wnaethpwyd dros y ffin gan Norman Lamb, yn Lloegr, lle mae'r diwygiadau mwyaf i'r system gofal cymdeithasol yn y 60 mlynedd diwethaf yn cymryd lle ar hyn o bryd.

We welcome the step forward through the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, which offers more rights to carers in Wales, but we must also continue to try to improve the support available to those who provide care. We have to welcome the fact that the definition of a carer will be extended, rather than just looking at times of crisis only. This echoes the work that has been done across the border by Norman Lamb, in England, where the greatest reforms to the social care system in more than 60 years are taking place at present.

Rydym yn edrych ymlaen at gyflwyno'r hawliau newydd yng Nghymru yn 2016, ond, yn y cyfamser, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i drafod a gwella'r gefnogaeth ar gyfer gofalwyr. Yn benodol, rhaid inni sicrhau bod ein byrddau iechyd lleol yn parhau i weithio efo cynghorau lleol er mwyn i'r strategaethau o dan Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 fod yn effeithiol a chael eu monitro'n rheolaidd.

We are looking forward to the introduction of new rights in Wales in 2016, but, in the meantime, it is vital that we continue to discuss and improve the support for carers. Specifically, we have to ensure that our local health boards continue to work with local councils in order to ensure that the strategies under the Carers Strategies (Wales) Measure 2010 are effective and are monitored regularly.

Mae ein cynnig y prynhawn yma yn canolbwyntio ar yr angen i godi ymwybyddiaeth ac annog cymorth ymarferol yn gynharach. Yn yr adroddiad 'Prepared to Care?' y llynedd, canfuwyd nad yw 81% o'r gofalwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael a'u bod yn teimlo'n ynysig. Mae ymchwil newydd eleni, gan Gynhalwyr Cymru, yn dangos mai dim ond un gofalwr o bob tri sy'n teimlo ei fod yn derbyn digon o gymorth, ac mae'r ffigur yn gostwng i un ym mhob pedwar ymysg gofalwyr sy'n ferched. Mae mudiadau yn y trydydd sector, megis y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr a NEWCIS—Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru—yn y gogledd, yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi gofalwyr. Fe gafodd rhai ohonom gyfle i groesawu rhai o'r mudiadau i'r Senedd ddoe ar gyfer dathliad Cynghrair Cynhalwyr Cymru.

Our motion this afternoon focuses on the need to raise awareness and to encourage practical support at an earlier stage. The 'Prepared to Care?' report, last year, found that 81% of carers are not aware of the support that is available and they feel isolated. New research this year, by Carers Wales, shows that only one in three carers feel that they receive sufficient support, and this figure falls to one in every four carers who are female. Third sector organisations, such as the Carers Outreach Service and NEWCIS—the North East Wales Carers Information Service —in north Wales, play a vital role in supporting carers. Some of us had an opportunity to welcome some of these bodies to the Senedd yesterday for a Wales Carers Alliance meeting.

Wrth gwrs, mae nifer o'n gofalwyr yn dioddef y tu ôl i ddrysau caeedig oherwydd nad ydynt hwy eu hunain yn cydnabod eu bod yn ofalwyr wrth iddynt ymgymryd â rôl gofalu am aelod o'r teulu neu un o'u hanwyliaid. Mae ymchwil yn dangos nad oedd 65% o bobl â chyfrifoldeb gofalu yn nodi eu hunain fel gofalwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf, a bod 32% ohonynt yn methu gwneud hynny o fewn y pum mlynedd cyntaf. Fel y dywedodd un a wnaeth ymateb i arolwg Cynhalwyr Cymru, 'Doeddwn i ddim yn gweld fy hun fel gofalwr; dim ond gwneud yr hyn sydd ei angen ar gyfer fy mam-yng-nghyfraith anabl oeddwn'. Dywedodd cyfarwyddwr Cynhalwyr Cymru, Keith Bowen, fod yr arolwg hwn yn alwad i ddeffro. Mae'n amlwg ac yn frawychus meddwl bod angen inni fel cymdeithas ddangos dealltwriaeth ehangach o'r goblygiadau gofalu yn 2014. Felly, tra bod Llywodraeth Cymru yn argyhoeddedig o'r newidiadau a ddaw i rym yn 2016, rydym yn credu bod angen mwy o weithredu ar lawr gwlad er mwyn gwella'r gydnabyddiaeth o rôl gofalwyr. Mae problemau'n codi hefyd o ran ariannu rhai o'r mudiadau lleol hyn. Er i'r arian gael ei gyflwyno dros bedair blynedd, yn hytrach na dros y tair blynedd a welwyd yn y lle cyntaf, mae gostyngiad wedi bod o ran y gyllideb yn ystod 2013.

Of course, a number of our carers suffer behind closed doors because they do not themselves recognise that they are carers as they undertake the role of caring for a family member or loved one. Research shows that 65% of people with a caring responsibility did not identify themselves as carers in the first year, and 32% of them did not do so within the first five years. As one respondent to a Carers Wales survey said, 'I didn't see myself as a carer; I was only doing what was necessary for my disabled mother-in-law'. The director of Carers Wales, Keith Bowen, said that this survey was a wake-up call. It is evident and alarming to think that we as a society need to demonstrate a broader understanding of the implications of caring in 2014. Therefore, while the Welsh Government is convinced of the changes that will come into force in 2016, we believe that we need more action on the ground in order to improve recognition of the role of carers. There are also problems that arise in terms of funding some of these local bodies. Even though funding over four years, rather than the three years seen originally, has been introduced, there has been a reduction in the budget during 2013.

Mae yna un fenter ardderchog sy'n cael ei rheoli gan Wasanaeth Cynnal Gofalwyr Gogledd Orllewin Cymru y mae angen imi sôn amdani heddiw. Mae'r fenter hon yn penodi swyddog cymorth gofalwyr o fewn Ysbyty Gwynedd. Wrth i'r swyddog hwnnw weithio'n agos â thîm gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Gwynedd i nodi'r gofalwyr, darparu gwybodaeth a chymorth i ofalwyr cleifion mewnol neu ofalwyr sy'n gleifion mewnol eu hunain, mae gwir fudd yn dod o'r prosiect hwnnw. Nod y prosiect o fewn y flwyddyn gyntaf oedd cefnogi 120 o ofalwyr newydd, ond mae mwy na dwbl y ffigur hwnnw wedi eu cefnogi o fewn y flwyddyn gyntaf. Mae hefyd wedi cynyddu ymwybyddiaeth o rôl gofalwyr ymhlith staff yr ysbyty.

There is one excellent initiative that is being managed by the Carers Outreach Service North West Wales that I want to talk about today. This initiative has seen the appointment of a carers support officer within Ysbyty Gwynedd. As that officer works closely with the social service team in Gwynedd Council to identify carers, provide information and support to carers of in-patients or carers who are in-patients themselves, that project provides great benefits. The aim of the project in the first year was to support 120 new carers, but more than double that figure have been supported in the first year. It has also raised awareness of the role of carers among staff in the hospital.

Mae hon yn un esiampl o gynllun bach yn cael ei wireddu mewn un ysbyty, ond mae posibiliad i gyflwyno'r math hwn o brosiect ar draws pob ysbyty er mwyn i'r gofalwyr gael y gefnogaeth hon a, gwell fyth, er mwyn i staff o fewn yr ysbytai wir ddeall anghenion ein gofalwyr. Bydd fy nghyfaill Eluned Parrott yn sôn am y gwaith y mae angen ei wneud i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ymhlith cyflogwyr.

This is one example of a small scheme that is being realised in one hospital, but it would be possible to introduce this kind of project across all hospitals so that carers can have this support, and, better still, so that staff within the hospitals can truly understand the needs of our carers. My colleague Eluned Parrott will talk about the work that needs to be done to raise awareness of carers among employers.

17:27

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Detholwyd y tri gwelliant i'r cynnig ac felly rwy'n galw ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

The three amendments to the motion have been selected and therefore I call Lindsay Whittle to move amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and re-number accordingly:*

*Yn nodi bod 11,000 o blant yn ofalwyr.*

*Notes that there are 11,000 children who are carers.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 4 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 4 and re-number accordingly:*

*Yn nodi bod yr adroddiad 'Prepared to Care?' yn nodi'r trafferthion ariannol y mae gofalwyr yn eu hwynebu ac yn gresynu fod newidiadau i hawliau nawdd cymdeithasol wedi effeithio'n niweidiol ar ofalwyr a'u teuluoedd.*

*Notes that the 'Prepared to Care?' report identified the financial difficulties that face carers, and regrets that changes to social security entitlements have adversely affected carers and their families.*

17:27

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 1 and 2.

Cynigiaf welliannau 1 a 2.

Amendment 1 in the name of Elin Jones draws attention to the need to acknowledge the fact that so many carers in Wales are under the age of 18 and need support from a variety of agencies: 11,000 children are carers here in Wales.

Mae gwelliant 1 yn enw Elin Jones yn tynnu sylw at yr angen i gydnabod y ffaith bod cynifer o ofalwyr yng Nghymru o dan 18 oed ac angen cymorth gan amrywiaeth o asiantaethau: mae 11,000 o blant yn ofalwyr yma yng Nghymru.

I would also like to speak to amendment 2 in the name of Elin Jones. Members will be aware from much of the debate today and from recent cases in Wales of how the UK Government's welfare reforms and bedroom tax have caused huge stress for carers who have been penalised for having what the authorities regard as an unnecessary spare bedroom. We need to support this amendment to make it quite clear that we in Wales do not accept the coalition's totally unfair treatment of carers.

Hoffwn siarad hefyd am welliant 2 yn enw Elin Jones. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o lawer o'r ddadl heddiw ac o achosion diweddar yng Nghymru sut y mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU a'r dreth ystafell wely wedi peri straen enfawr i ofalwyr sydd wedi cael eu cosbi am fod â'r hyn y mae'r awdurdodau yn ei hystyried yn ystafell wely sbâr ddiangen. Mae angen inni gefnogi'r gwelliant hwn er mwyn ei gwneud yn gwbl glir nad ydym yng Nghymru yn derbyn y modd cwbl annheg y mae'r glymblaid yn trin gofalwyr.

We will be supporting Paul Davies's amendment 3 regarding the right to respite for carers—no-one can vote against that, really. Carers do have a full assessment of their needs, which would include the right to respite as a break from caring, but I think that it is worth re-emphasising it, so we will be supporting that.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 3 Paul Davies ynghylch yr hawl i seibiant ar gyfer gofalwyr-ni all neb bleidleisio yn erbyn hynny mewn gwirionedd. Mae asesiad llawn o'u hanghenion yn cael ei roi i ofalwyr, a fyddai'n cynnwys yr hawl i seibiant fel toriad o ofalu, ond rwy'n meddwl ei bod yn werth ei ail-bwysleisio, felly byddwn yn cefnogi hynny.

On the point of amendment 2, instead of rewarding hard-working people who choose to care for their loved ones, often under very stressful circumstances, here we have a Government in London that chooses to make things more difficult. To go through some of the welfare changes that we now have inflicted upon us, the bedroom tax means that disabled people who have spare rooms for carers to stay overnight will lose out financially. The discretionary housing payment does not cover everyone affected. It will mean that couples, where one person cares for another, will have to share a room even if the medical condition makes this inappropriate. The abolition—

O ran gwelliant 2, yn hytrach na gwobrwyo pobl sy'n gweithio'n galed ond sy'n dewis gofalu am eu hanwyliaid, yn aml o dan amgylchiadau anodd iawn, mae gennym Lywodraeth yn Llundain sy'n dewis gwneud pethau'n fwy anodd. I fynd drwy rai o'r newidiadau lles sydd wedi'u gorfodi arnom, mae'r dreth ystafell wely yn golygu y bydd pobl anabl sydd ag ystafelloedd sbâr i ofalwyr aros dros nos yn colli allan yn ariannol. Nid yw'r taliad tai yn ôl disgresiwn yn cynnwys pawb yr effeithir arnynt. Bydd yn golygu bod cyplau, lle y mae un person yn gofalu am un arall, yn gorfod rhannu ystafell hyd yn oed os yw'r cyflwr meddygol yn gwneud hynny'n amhriodol. Mae diddymu—

17:29 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:29 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, this is so important and, with respect, as your Government is imposing these, I do not think that you have a right to.

Wel, mae hyn mor bwysig, a chyda pharch, gan mai eich Llywodraeth sy'n gorfodi hyn nid wyf yn credu bod gennych hawl i ymyrryd.

The abolition of the disability living allowance has reduced the incomes of disabled people. The welfare system is bureaucratic and complex, and navigating it often prevents some carers from maximising their income. [Interruption.] You really should listen. The total amount of unclaimed carers allowance in the UK is over £1 billion, which, on a pro-rata basis, equates to £50 million—that is £50 million lost from the Welsh economy. I want to concentrate, however, on the provision of help and support for younger carers, especially children. I am pleased that the Welsh Government's carers strategy, published last year, drew attention to the needs of young carers, as did the Social Services and Well-being (Wales) Bill.

Mae diddymu'r lwfans byw i'r anabl wedi lleihau incwm pobl anabl. Mae'r system les yn fiwrocrataidd ac yn gymhleth ac mae'r broses yn atal rhai gofalwyr rhag sicrhau cymaint o incwm ag y gallant. [Torri ar draws.] Dylech wrando wir. Mae cyfanswm y lwfans gofalwyr sydd heb ei hawlio yn y DU dros £1 biliwn, sydd ar sail pro rata yn cyfateb i £50 miliwn—sef £50 miliwn a gollwyd o economi Cymru. Rwyf am ganolbwyntio, fodd bynnag, ar y ddarpariaeth o gymorth a chefnogaeth i ofalwyr iau, yn enwedig plant. Rwy'n falch bod strategaeth gofalwyr Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd y llynedd wedi tynnu sylw at anghenion gofalwyr ifanc, fel y gwnaeth y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

One of the most innovative ideas related to the needs of young carers was the ID badge scheme in Flintshire. This was an idea that was recommended by the young people themselves, who were frustrated by having to explain time and again to different people that being a carer for someone in the family puts enormous pressures on them. The Access to Action scheme meant that having an ID card showing that they were carers meant that they could be recognised by teachers and, most importantly, by pharmacists in particular. I cannot emphasise enough the vital role that schools, in particular, could and should be playing in making adjustments for young carers. The domestic duties that they have to do for a parent, for example, mean that they might need to have extra time to hand in their homework, to be allowed to come to school a little later than other pupils, or maybe leave a little earlier, on occasions. In 'The Carers Strategy for Wales 2013', published last year, a commitment was made to commission a study on ID cards and produce guidelines for local authorities that wish to set up this type of scheme. It is now time to produce a report on this scheme, and let us make these cards available for all young carers across Wales.

Un o'r syniadau mwyaf arloesol yn ymwneud ag anghenion gofalwyr ifanc oedd y cynllun bathodyn adnabod yn Sir y Fflint. Dyma syniad a argymhellwyd gan y bobl ifanc eu hunain, a oedd yn teimlo'n rhwystredig wrth orfod egluro dro ar ôl tro i wahanol bobl fod gofalu am rywun yn y teulu yn rhoi pwysau enfawr arnynt. Golygodd y cynllun A2A fod cael cerdyn adnabod a ddangosai eu bod yn ofalwyr yn golygu y byddai athrawon, ac yn fwyaf pwysig, fferyllwyr yn arbennig yn eu hadnabod. Ni allaf bwysleisio digon y rhan hanfodol y gallai ac y dylai ysgolion yn arbennig ei chwarae o ran addasu trefniadau ar gyfer gofalwyr ifanc. Mae'r dyletswyddau sy'n rhaid iddynt eu gwneud yn y cartref i riant, er enghraifft, yn golygu y gallai fod angen amser ychwanegol arnynt i gyflwyno eu gwaith cartref, i gael dod i'r ysgol ychydig yn hwyrach na disgyblion eraill neu efallai i adael ychydig yn gynharach ar adegau. Yn 'Strategaeth Gofalwyr Cymru 2013', a gyhoeddwyd y llynedd, gwnaed ymrwymiad i gomisiynu astudiaeth ar gardiau adnabod a chynhyrchu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n dymuno sefydlu'r math hwn o gynllun. Mae bellach yn bryd cynhyrchu adroddiad ar y cynllun hwn a gadewch inni sicrhau bod y cardiau hyn ar gael i bob gofalwr ifanc ledled Cymru.

I am keen to know exactly what help young carers get in learning how to carry out essential tasks for those they are helping to look after—what training are they getting, for example, on how to lift an adult without straining themselves? Are they getting enough information on administrating medication? Do we know whether these young people are getting the help they need from social services? What part does the voluntary sector play in giving much-needed assistance? I know that Barnardo's Cymru has been very active on the ID scheme in Flintshire. If we are going to satisfy ourselves that young carers are not suffering academically, emotionally and physically, we must listen to what they are telling us. What they are telling us, from reports that I have read—and I will conclude with this—is that there needs to be awareness training for staff in schools and colleges about the challenges faced by young carers. They need help in finding and keeping a job, assistance to make sure they know where to turn to for help if they are finding it difficult to cope, and having the opportunity at last, as young people, to enjoy the social and leisure activities that others in their age group enjoy. They really do deserve that. I am proud to support this.

Rwy'n awyddus i wybod yn union pa gymorth y mae gofalwyr ifanc yn ei gael i ddysgu sut i gyflawni tasgau hanfodol ar gyfer y rhai y maent yn helpu i ofalu amdanynt—pa hyfforddiant maen nhw'n ei gael, er enghraifft, ar sut i godi oedolyn heb wneud niwed iddynt eu hunain? A ydynt yn cael digon o wybodaeth am weinyddu meddyginiaeth? A ydym yn gwybod a yw'r bobl ifanc hyn yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt gan y gwasanaethau cymdeithasol? Pa ran y mae'r sector gwirfoddol yn ei chwarae wrth roi cymorth mawr ei angen? Gwn fod Barnardos Cymru wedi bod yn weithgar iawn ar y cynllun Cardiau Adnabod yn Sir y Fflint. Os ydym yn mynd i fodloni ein hunain nad yw gofalwyr ifanc yn dioddef yn academaidd, yn emosiynol ac yn gorfforol, mae'n rhaid i ni wrando ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym. Yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym, yn ôl yr adroddiadau a ddarllenais—a byddaf yn gorffen gyda'r pwynt hwn—yw bod angen cael hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff mewn ysgolion a cholegau am yr heriau a wynebir gan ofalwyr ifanc. Mae arnynt angen help i ddod o hyd i swydd a'i chadw, cymorth i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod ble i droi am gymorth os ydynt yn ei chael hi'n anodd ymdopi, a chael y cyfle o'r diwedd, fel pobl ifanc, i fwynhau'r gweithgareddau cymdeithasol a hamdden y mae eraill yn eu grŵp oedran yn eu mwynhau. Maent yn wir yn haeddu hynny. Mae'n bleser gennyf gefnogi hyn.

17:32

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 3 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I call on Darren Millar to move amendment 3, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pwysigrwydd seibiant i ofalwyr ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i sefydlu hawl gofalwyr i seibiant.*

*Notes the importance of respite to carers and calls upon the Welsh Government to take action to establish a carers' right to respite.*

17:32 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 3.

Cynigiaf welliant 3.

It is a pleasure to be able to participate in this debate today in this very important week that recognises the contribution of carers across Wales, and the role they undertake in caring for family members or close friends. I think it is worth reminding ourselves of the statistics. We know that, while just one in 10 people expect to become a carer at some point in their lives, it is actually six out of 10 of us that will have a caring role and responsibility at some point. We know, with the ageing demographics here in Wales, that those numbers look set to increase here in the future. There are 370,000 people in Wales already caring for a family member or close friend, and we know that these figures will increase.

Mae'n bleser gennyf allu cymryd rhan yn y ddadl hon heddiw yn yr wythnos hynod bwysig hon sy'n cydnabod cyfraniad gofalwyr o bob cwr o Gymru, a'r gwaith y maent yn ei wneud wrth ofalu am aelodau o'r teulu neu ffrindiau agos. Credaf ei bod yn werth i ni atgoffa ein hunain o'r ystadegau. Rydym yn gwybod, er mai dim ond un o bob 10 o bobl sy'n disgwyl bod yn ofalwr ar ryw adeg yn eu bywydau, mewn gwirionedd mae chwech o bob 10 ohonom yn wynebu rôl a chyfrifoldeb gofalu ar ryw bwynt. Gyda'r ddemograffeg yn heneiddio yma yng Nghymru, gwyddom fod y niferoedd hynny yn debygol o gynyddu yma yn y dyfodol. Mae 370,000 o bobl yng Nghymru eisoes yn gofalu am aelod o'r teulu neu ffrind agos, a gwyddom y bydd y ffigurau hyn yn cynyddu.

The Carers Week YouGov poll that was undertaken this week, which has been referred to, named emotional strain as one of the top three concerns of carers, and finding it too stressful or upsetting as one of their main worries. Carers are very proud indeed of what they do, and rightly so. Most do it out of love, with many not claiming some of the benefits that sometimes they are entitled to. As a society, we should not take it for granted in terms of the role that they perform. We know that carers need a break once in a while, and that is the purpose of the amendment that we have tabled today. I am very pleased that it has been supported by the Liberal Democrats and Plaid Cymru, and I very much hope that the Government will be able to support it too.

Mae arolwg barn Wythnos Gofalwyr YouGov a gynhaliwyd yr wythnos hon, y cyfeiriwyd ato eisoes, wedi nodi straen emosiynol fel un o dri phrif bryder gofalwyr, a'r straen a'r gofid eithafol fel un o'u prif bryderon. Mae gofalwyr yn falch iawn o'r hyn y maent yn ei wneud, fel y dylent fod. Mae'r mwyafrif yn ei wneud oherwydd cariad at anwyliaid, a llawer heb fod yn hawlio rhai o'r budd-daliadau y gallent weithiau eu hawlio. Fel cymdeithas, ni ddylem gymryd y rôl y maent yn ei chyflawni yn ganiataol. Rydym yn gwybod bod angen seibiant ar ofalwyr bob yn hyn a hyn, a dyna yw diben y gwelliant yr ydym wedi'i gyflwyno heddiw. Rwy'n falch iawn ei fod wedi cael ei gefnogi gan y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru, ac rwy'n mawr obeithio y bydd y Llywodraeth yn gallu ei gefnogi hefyd.

We know that, for many working as carers, the value of respite care is obvious. Many carers, particularly those with heavier caring burdens, lead very busy, stressful lives, and they need and deserve to have access to breaks from their caring responsibilities. I have had people coming into my constituency surgeries, in the same way that other Assembly Members have today, who are at the end of their tether, and that burn-out point, because of the fact that they have just been unable to access a brief respite period in order to recharge their batteries, so they can go back re-energised to fulfil the caring role that they perform so well, and let us not forget, which saves the taxpayer many millions of pounds every single year.

Gwyddom fod gofal seibiant yn amlwg yn werthfawr i lawer sy'n gweithio fel gofalwyr. Mae llawer o ofalwyr, yn enwedig rhai sydd â beichiau gofalu trymach, yn byw bywydau prysur iawn, llawn straen, ac mae angen iddynt ac maent yn haeddu gallu cael seibiant oddi wrth eu cyfrifoldebau gofalu. Rwyf wedi cael pobl yn dod i mewn i'm cymorthfeydd yn fy etholaeth, yr un fath ag Aelodau Cynulliad eraill heddiw, sydd ar ben eu tennyn, ac yn llwyr ddiffygio, am eu bod newydd fethu â chael mynediad i gyfnod seibiant byr er mwyn adennill eu nerth, fel y gallant ailgydio yn eu rôl ofalu y maent yn ei chyflawni cystal wedi'u hadfywio, a gadewch inni beidio ag anghofio, rôl sy'n arbed miliynau lawer o bunnoedd i'r trethdalwyr bob blwyddyn.

Hafal's recent Let's Get Physical! campaign highlighted that 80% of carers have seen a negative impact on their physical health as a result of caring. Many put that down to the lack of practical support that they receive. It made the point as an organisation that sacrificing your own wellbeing will not do you or the person you are caring for any favours at all. It is really important that people are able to enjoy a good quality of life and that carers are able to maintain their own health while looking after the needs of others.

Amlygodd ymgyrch ddiweddar Hafal, Caffael ar y Corfforol!, fod 80% o ofalwyr wedi gweld effaith negyddol ar eu hiechyd corfforol o ganlyniad i ofalu. Roedd llawer yn dweud bod hynny'n deillio o'r diffyg cefnogaeth ymarferol y maent yn ei dderbyn. Gwnaeth y pwynt fel sefydliad na fydd aberthu eich lles eich hun yn gwneud lles i chi na'r person rydych yn gofalu amdano o gwbl. Mae'n bwysig iawn bod pobl yn gallu mwynhau ansawdd bywyd da a bod gofalwyr yn gallu cynnal eu hiechyd eu hunain wrth ofalu am anghenion pobl eraill.

The Welsh Government's own research has stated that, for four out of five carers, their first point of contact with any statutory agency is with community-based health services. It is imperative that local health boards do more to signpost carers to appropriate advice and support. It is a shame that that sort of information is not necessarily shared in GP surgeries and at other points of access into primary care services in the way that it ought to be.

Yn ôl ymchwil Llywodraeth Cymru ei hun, wrth gysylltu ag asiantaeth statudol, mae pwynt cyswllt cyntaf pedwar allan o bob pump gofalwr gyda gwasanaethau iechyd yn y gymuned. Mae'n hanfodol bod byrddau iechyd lleol yn gwneud mwy i gyfeirio gofalwyr at gyngor a chymorth priodol. Mae'n drueni nad yw'r math hwnnw o wybodaeth yn cael ei rannu o reidrwydd mewn meddygfeydd a mannau eraill lle ceir mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol yn y ffordd y dylai.

I want to pay tribute to the fantastic work of Crossroads Care in my constituency and the other caring organisations that have these established networks. It is only when people come together with their peers who are in similar caring roles that they can share experiences and talk about how they have been able to navigate systems in order to get the support that they have needed for themselves and their loved ones. I want to pay tribute to the work that they have done. We know that the Children's Commissioner for Wales is going to be launching his report into short breaks for disabled children and their families in about a fortnight's time. I will be very interested to hear what the Welsh Government's response is to that, once the report has been published.

Hoffwn dalu teyrnged i waith gwych Gofal Croesffyrdd yn fy etholaeth a'r sefydliadau gofalu eraill sydd â'r rhwydweithiau sefydledig hyn. Dim ond pan fydd pobl yn dod at ei gilydd gyda'u cymheiriaid sydd mewn rolau gofalu tebyg y gallant rannu profiadau a siarad am sut y maent wedi gallu canfod eu ffordd drwy systemau er mwyn cael y gefnogaeth y maent ei hangen ar gyfer eu hunain a'u hanwyliaid. Hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith y maent wedi'i wneud. Gwyddom fod Comisiynydd Plant Cymru yn mynd i fod yn lansio ei adroddiad ar seibiannau byr i blant anabl a'u teuluoedd ymhen tua phythefnos. Bydd gennyf gryn ddiddordeb yn yr ymateb y bydd gan Lywodraeth Cymru i hynny, unwaith y cyhoeddir yr adroddiad.

Of course, we recognise the caring responsibilities of young people across Wales. They do a tremendous job, very often having to balance school, college and other commitments with the role they perform at home. I, too, recognise the specific needs that those carers sometimes have and the failure, particularly of education services within local authorities, to recognise those specific needs and ensure that there is proper protection and recognition within the school environment of people's caring responsibilities.

Wrth gwrs, rydym yn cydnabod cyfrifoldebau gofalu pobl ifanc o bob cwr o Gymru. Maent yn gwneud gwaith aruthrol, yn aml iawn yn gorfod cydbwyso ysgol, coleg ac ymrwymiadau eraill â'r rôl y maent yn ei chyflawni gartref. Rwyf fi, hefyd, yn cydnabod yr anghenion penodol sydd gan y gofalwyr hynny weithiau a methiant gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn arbennig i gydnabod yr anghenion penodol hynny ac i sicrhau bod amddiffyniad a chydnabyddiaeth briodol o gyfrifoldebau gofalu pobl o fewn amgylchedd yr ysgol.

Time has unfortunately failed me, but I am delighted that we are having this debate. I am very pleased to support the Liberal Democrats' motion and very grateful for the support for our amendment.

Yn anffodus, daeth fy amser i ben, ond rwy'n falch iawn ein bod yn cael y ddadl hon. Rwy'n falch iawn o gefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol ac yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth o blaid ein gwelliant.

17:37 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We tabled this motion today so that we had an opportunity across the Chamber to celebrate the role of carers in our society. Aled Roberts has already mentioned the invaluable role that carers play in supporting family, friends and loved ones. Darren Millar is absolutely right—and how often do I have the chance to say that, Darren? [Laughter.]—that we must not take these individuals for granted. As a group, these individuals have an enormous impact on our society. They provide nearly £8 billion-worth of care in Wales, according to Carers UK. That is a truly staggering figure and shows how many people we meet in every walk of life are carers and how many of those people are therefore fighting every day of their lives to balance the needs of their work, school, education or college with the needs of their caring responsibilities.

Rydym yn cyflwyno'r cynnig hwn heddiw er mwyn i'r Siambr gyfan gael cyfle i ddathlu rôl gofalwyr yn ein cymdeithas. Mae Aled Roberts eisoes wedi sôn am y rôl amhrisiadwy y mae gofalwyr yn ei chwarae wrth gefnogi teulu, ffrindiau ac anwyliaid. Mae Darren Millar yn llygad ei le—a pha mor aml ydw i'n cael y cyfle i ddweud hynny, Darren? [Chwerthin.]—sef bod yn rhaid inni beidio â chymryd yr unigolion hyn yn ganiataol. Fel grŵp, mae'r unigolion hyn yn cael effaith enfawr ar ein cymdeithas. Maent yn darparu gofal sy'n werth £8 biliwn bron yng Nghymru, yn ôl Carers UK. Mae hwnnw'n ffigur gwirioneddol syfrdanol ac mae'n dangos faint o bobl rydym yn eu cyfarfod ar daith bywyd sy'n ofalwyr a sawl un o'r bobl hynny, felly, sy'n ymlafnio'n feunyddiol i gydbwyso anghenion eu gwaith, ysgol, addysg neu goleg ag anghenion eu cyfrifoldebau gofalu.

I want to reflect on trying to find ways to find that balance. We need to work with employers to raise awareness of the needs of carers in the workplace and the benefits of offering flexibility to staff with caring responsibilities. According to the 'Prepared to Care?' report, over three million people across the UK juggle work and caring. Just under two thirds of those who responded to the survey were not prepared for the impact that taking on caring responsibilities would have on their career. Just under half said that they had had to give up work because of their caring role, which has clear implications on their household income and leaves many carers struggling to make ends meet.

Rwyf am bwyso a mesur dulliau o ddod o hyd i'r cydbwysedd hwnnw. Mae angen i ni weithio gyda chyflogwyr i godi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr yn y gweithle a'r manteision a geir o gynnig hyblygrwydd i staff sydd â chyfrifoldebau gofalu. Yn ôl yr adroddiad 'Prepared to Care?' mae dros dair miliwn o bobl ledled y DU yn mynd i'r gwaith ac yn gofalu hefyd. Roedd ychydig llai na 66% o'r ymatebwyr yn dweud nad oeddynt yn gwbl barod ar gyfer yr effaith y byddai cymryd cyfrifoldebau gofalu yn ei chael ar eu gyrfa. Dywedodd ychydig llai na 50% eu bod wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio oherwydd eu rôl gofalu, sydd â goblygiadau clir ar incwm eu haelwyd ac yn gadael llawer o ofalwyr yn cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd.

More employers are offering flexible working conditions, but this needs to become commonplace. Our motion calls for better information for employers to support workers seeking to balance their work and caring roles by highlighting options for workplace practices such as flexible or remote working. In particular, this would support those—most frequently, women—who take on the primary caring role in a household providing support for both children and adult family members with care needs.

Mae rhagor o gyflogwyr yn cynnig amodau gwaith hyblyg, ond mae angen i hyn ddod yn rhywbeth cyffredin. Mae ein cynnig yn galw am well gwybodaeth i gyflogwyr er mwyn cefnogi gweithwyr sy'n ceisio cael cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u rolau gofalu drwy dynnu sylw at opsiynau ar gyfer arferion yn y gweithle megis gweithio hyblyg neu weithio o bell. Yn benodol, byddai hyn yn cefnogi'r rhai—menywod, gan amlaf—sy'n cyflawni'r rôl gofalu sylfaenol ar aelwyd gan ddarparu cefnogaeth i blant ac i oedolion y teulu sydd ag anghenion gofal.

As well as the employers themselves, there need to be greater awareness among employees to recognise and support carers within their own team so that those carers do not face casual discrimination or unconscious stigmatisation, and I would welcome the Welsh Government's views on how we can improve that situation. Ultimately, employers who are willing and able to offer staff flexibility when they need it will benefit as much as the employee, because they will then have a people in their workforce that are even more loyal and that are more able than they had been before to balance their work and home lives effectively. However, crucially, it will enable the skills, experience and talent of those carers to be retained in the workforce and will allow them to make a positive and continuing contribution to those businesses, too. I truly believe that, in a positive economy, this is something that we should be pushing forward.

Yn ogystal â'r cyflogwyr eu hunain, mae angen mwy o ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr i gydnabod a chefnogi gofalwyr o fewn eu tîm eu hunain fel nad yw'r gofalwyr hynny yn wynebu gwahaniaethu achlysurol neu stigmateiddio anymwybodol, a byddwn yn croesawu barn Llywodraeth Cymru ar sut y gallwn wella'r sefyllfa honno. Yn y pen draw, bydd cyflogwyr sy'n fodlon ac sy'n gallu cynnig hyblygrwydd i staff pan fydd arnynt ei angen, yn elwa cymaint â'r gweithiwr, oherwydd wedyn bydd ganddynt bobl yn eu gweithlu sydd hyd yn oed yn fwy ffyddlon ac sy'n fwy abl nag oeddynt cynt i sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd cartref yn effeithiol. Fodd bynnag, yn bennaf oll, bydd yn sicrhau bod y gweithlu'n gallu cadw sgiliau, profiad a thalent y gofalwyr hynny, a'u galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol a pharhaus i'r busnesau hynny, hefyd. Rwy'n credu'n wirioneddol, mewn economi gadarnhaol, fod hyn yn rhywbeth y dylem fod yn ei hyrwyddo.

I also want to raise the challenges that are facing young carers in particular, and I recognise the situation that Plaid Cymru raises in its first amendment, which is that the 2011 census revealed that there are 11,500 unpaid child carers in Wales, with Wales having the highest proportion of young carers providing unpaid care across England and Wales.

Rwyf hefyd am godi'r heriau sy'n wynebu gofalwyr ifanc yn arbennig, ac rwy'n cydnabod y sefyllfa y mae Plaid Cymru'n ei chodi yn ei gwelliant cyntaf, sef bod cyfrifiad 2011 yn dangos bod 11,500 o ofalwyr plant di-dâl yng Nghymru, gyda Chymru â'r gyfran uchaf o ofalwyr ifanc sy'n darparu gofal di-dâl ar draws Cymru a Lloegr.

However, the Princess Royal Trust for Carers believes that this number is actually far higher, because many young carers are hidden from the statistics. Some, perhaps, simply do not realise that what they do out of love and duty for a parent in need is, in fact, a caring responsibility. Others may feel that they do not wish to come forward due to the stigma of admitting that they care for a loved one, particularly if that loved one is suffering from an alcohol or drugs problem, or a mental health problem. They fear that they will be stigmatised in their social circles if they admit to it. This, of course, is going to have an impact on a child's health and wellbeing, but also on their ability to enjoy their childhood. It then has a continuing impact into that child's adult life, because it will have an impact on their school life and their ability to succeed and achieve in their educational career. I believe that, for young carers, we must do more to support engagement in educational opportunities.

Fodd bynnag, mae Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr yn credu bod y rhif hwn yn llawer uwch mewn gwirionedd, gan fod llawer o ofalwyr ifanc yn cael eu cuddio o'r ystadegau. Nid yw rhai, efallai, yn sylweddoli bod yr hyn maent yn ei wneud oherwydd eu cariad a'u dyletswydd at riant mewn angen, mewn gwirionedd, yn gyfystyr â chyfrifoldeb gofalu. Efallai na fydd eraill yn teimlo eu bod am gyfaddef oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â gofalu am anwylyd, yn enwedig os yw'n dioddef o broblem gydag alcohol neu gyffuriau, neu broblem iechyd meddwl. Maent yn ofni y byddant yn cael eu stigmateiddio yn eu cylchoedd cymdeithasol os ydynt yn datgelu hyn. Mae hyn, wrth gwrs, yn mynd i gael effaith ar iechyd a lles y plentyn, a hefyd ar eu gallu i fwynhau eu plentyndod. Mae wedyn yn cael effaith barhaus ar fywyd y plentyn hwnnw fel oedolyn, oherwydd bydd yn cael effaith ar ei fywyd ysgol a'i allu i lwyddo a chyflawni yn ei yrfa addysgol. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni wneud mwy i gefnogi ymgysylltiad mewn cyfleoedd addysgol ar gyfer gofalwyr ifanc.

Young carers themselves have highlighted the need for greater awareness among teachers of the impact that caring has on a young person. Many carers end up leaving school at the age of 16 due to the pressure of their caring role; they leave education at the earliest signpost, only to return, perhaps, to education in later life. I pay tribute to the work of the Open University in Wales, which has recently produced an excellent report on extending opportunities for carers that has some key recommendations for supporting and engaging carers in higher education. I hope that the Welsh Government will look at those and start looking at ways in which we can work together to ensure that young carers have an opportunity to build a career, a life and a future for themselves.

Mae gofalwyr ifanc eu hunain wedi amlygu'r angen am fwy o ymwybyddiaeth ymhlith athrawon o effaith gofalu ar berson ifanc. Mae llawer o ofalwyr yn y pen draw yn gadael yr ysgol yn 16 oed oherwydd pwysau eu rôl gofalu; maent yn gadael addysg ar y cyfle cynharaf, gan ddychwelyd i'r maes addysg, o bosibl, yn ddiweddarach mewn bywyd. Rwy'n talu teyrnged i waith y Brifysgol Agored yng Nghymru, sydd yn ddiweddar wedi cynhyrchu adroddiad rhagorol ar ymestyn cyfleoedd i ofalwyr sydd â rhai argymhellion allweddol ar gyfer cefnogi ac ymgysylltu â gofalwyr mewn addysg uwch. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar y rheini a dechrau edrych ar ffyrdd y gallwn gydweithio er mwyn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael cyfle i adeiladu gyrfa, bywyd a dyfodol ar eu cyfer eu hunain.

17:42

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We all praise the army of carers who selflessly dedicate their lives to supporting and looking after their family members and friends. We talk about the economic value of their work and recognise that, without their contribution, our health and social care services would collapse. We pay tribute to their commitment, dedication and the sacrifices that they make. We call them heroes. However, actually, these words mean nothing if we do not back them up with policies and legislation that support carers to keep on caring and have the chance of some kind of life for themselves as well.

Rydym i gyd yn canmol y fyddin o ofalwyr anhunanol sy'n cysegru eu bywydau i gefnogi a gofalu am aelodau o'u teulu a ffrindiau. Rydym yn siarad am werth economaidd eu gwaith ac yn cydnabod y byddai ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn chwalu heb eu cyfraniad. Rydym yn talu teyrnged i'w hymrwymiad, eu hymroddiad a'r aberth a wnânt. Rydym yn eu galw'n arwyr. Serch hynny, mewn gwirionedd, nid yw'r geiriau hyn yn golygu dim os nad ydym yn eu cefnogi â pholisïau a deddfwriaeth sy'n cynorthwyo gofalwyr i barhau i ofalu a chael cyfle i gael rhyw fath o fywyd eu hunain hefyd.

I am proud of our approach in Wales. Aled Roberts, in his opening remarks, acknowledged that the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 will transform the way in which social services are delivered, providing new rights for carers to ensure that they receive the help that they need. It will also require assessments for carers and the development of care plans that can include respite care, and Darren Millar spoke about how important that is.

Rwy'n falch o'n dull gweithredu yng Nghymru. Yn ei sylwadau agoriadol, cydnabu Aled Roberts y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu, gan roi hawliau newydd i ofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Bydd hefyd yn ofynnol asesu gofalwyr a datblygu cynlluniau gofal sy'n gallu cynnwys gofal seibiant, a siaradodd Darren Millar am ba mor bwysig yw hynny.

This comes against the backdrop of welfare reform, where carers of disabled people may lose their entitlement to carers allowances as a result of the move from disability living allowance to the personal independence payment. Under universal credit, a carer will be entitled only to a carer or disability element—not both—leaving some carers with health problems worse off.

Daw hyn yn erbyn cefndir o ddiwygio lles, lle y gall gofalwyr pobl anabl golli eu hawl i lwfansau gofalwyr o ganlyniad i symud o lwfans byw i'r anabl i'r taliad annibyniaeth bersonol. O dan gredyd cynhwysol, bydd gofalwr ddim ond yn gymwys i elfen gofalwr neu elfen anabledd—nid y ddwy—gan adael rhai gofalwyr sydd â phroblemau iechyd yn waeth eu byd.

However, the reform that I particularly want to focus my attention on this afternoon is the bedroom tax, and the indefensible fact that families with disabled children are not exempt from it and that this penalises carers. Members will be familiar with the case of my constituents, Paul and Sue Rutherford—grandparents and full-time carers to Warren, a 14-year-old boy with a rare genetic disorder, as well as epilepsy, severe learning disabilities and skeletal problems. His disabilities affect every single part of his life and he needs round-the-clock care. A couple of weeks ago, Paul and Sue lost their case in the High Court against the bedroom tax.

Fodd bynnag, y diwygiad rwy'n arbennig o awyddus i ganolbwyntio fy sylw arno'r prynhawn yma yw'r dreth ystafell wely, a'r ffaith na ellir ei chyfiawnhau, a'r ffaith na ellir ei hamddiffyn sef nad yw teuluoedd sydd â phlant anabl yn cael eu heithrio rhagddi a bod hyn yn cosbi gofalwyr. Bydd Aelodau'n gyfarwydd ag achos fy etholwyr, Paul a Sue Rutherford—nain a thaid a gofalwyr llawn amser i Warren, bachgen 14 mlwydd oed ag anhwylder genetig prin, yn ogystal ag epilepsi, anableddau dysgu difrifol a phroblemau ysgerbydol. Mae ei anableddau yn effeithio ar bob un rhan o'i fywyd ac mae angen gofal dydd a nos. Ychydig wythnosau'n ôl, collodd Paul a Sue eu hachos yn yr Uchel Lys yn erbyn y dreth ystafell wely.

The Prime Minister makes great play of the suggestion that disabled people are exempt from the bedroom tax. However, if this were the case, the Rutherfords would never have even been in court, because they are both disabled themselves. In fact, there are only two very narrow circumstances under which disabled people are exempt. Some children who cannot share with their siblings are exempt, as are some adults who need a room for overnight carers. The heads of 18 major charities told the Prime Minister in an open letter that his claims have caused frustration and given families false hope, but there have been no moves to rectify this.

Mae'r Prif Weinidog yn gwneud yn fawr o'r awgrym bod pobl anabl yn cael eu heithrio o'r dreth ystafell wely. Fodd bynnag, os yw hyn yn wir, ni fyddai'r Rutherfords byth wedi bod yn y llys hyd yn oed, oherwydd eu bod ill dau'n anabl eu hunain. Yn wir, dim ond dau amgylchiad cul iawn sy'n galluogi i bobl anabl gael eu heithrio. Mae rhai plant nad ydynt yn gallu rhannu gyda'u brodyr a'u chwiorydd wedi'u heithrio, fel y mae rhai oedolion sydd angen ystafell ar gyfer gofalwyr dros nos. Dywedodd penaethiaid 18 o brif elusennau wrth y Prif Weinidog mewn llythyr agored fod ei honiadau wedi achosi rhwystredigaeth a rhoi gobaith ffug i deuluoedd, ond nid oes unrhyw gamau ar y gweill i gywiro hyn.

The Rutherfords are fighters and, after a huge media campaign, they eventually won discretionary housing payments to make up the bedroom tax shortfall. They face the same fight next year and the year after, and the year after that. However, they did not take this case on for themselves; they took the case forward for all the carers of disabled children in their situation who just do not have the fight in them. The absurdity of this is that Warren's grandparents, his carers, are being penalised for under-occupying a home specifically built for Warren by the local authority, with Welsh Government funding, to fit the severity of his needs. What a waste if he was forced to downsize and have all of that built again and the bespoke adaptations ripped out because another family did not need them. They do not even have a spare room. Warren's needs are such that he needs around-the-clock, 2:1 care from carers. Paul and Sue provide the bulk of that care, dedicating their entire lives to ensuring that Warren is well cared for, happy and loved. They have help from paid carers at some point most days and, some nights of the week, the paid carers stay overnight in a room that is also home to Warren's equipment, and that is a so-called 'spare room'.

Mae'r Rutherfords yn bobl benderfynol ac, ar ôl ymgyrch enfawr yn y cyfryngau, yn y pen draw llwyddasant i ennill taliadau tai yn ôl disgresiwn i wneud iawn am ddiffyg y dreth ystafell wely. Maent yn wynebu'r un frwydr y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn wedyn, a'r flwyddyn ar ôl hynny. Fodd bynnag, nid er eu lles eu hunain y bu iddynt frwydro'r achos hwn; bu iddynt ymgymryd â'r achos er lles yr holl ofalwyr i blant anabl a oedd yn wynebu'r un sefyllfa ond nad oedd ganddynt y nerth i wynebu'r frwydr. Yr hyn sy'n gwbl hurt am y sefyllfa yw bod nain a thaid Warren, ei ofalwyr, yn cael eu cosbi am dan-feddiannu cartref a adeiladwyd yn benodol ar gyfer Warren gan yr awdurdod lleol, gyda chyllid Llywodraeth Cymru, er mwyn cyfateb i ddifrifoldeb ei anghenion. Dyna wastraff fyddai ei orfodi i symud i dŷ llai ac ailgodi'r holl addasiadau yno gan rwygo'r addasiadau pwrpasol o'r llety gwreiddiol am nad oedd eu hangen ar deulu arall. Nid oes ganddynt hyd yn oed ystafell sbâr. Mae anghenion Warren yn golygu bod angen gofal dydd a nos 2:1 arno gan ofalwyr. Paul a Sue sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r gofal hwnnw, gan aberthu eu bywyd cyfan er mwyn sicrhau bod Warren yn hapus, yn cael gofal da ac yn cael ei garu. Maent yn cael cymorth gan ofalwyr cyflogedig ar ryw adeg bron bob dydd ac ar rai nosweithiau o'r wythnos mae gofalwyr cyflogedig yn aros dros nos mewn ystafell sydd hefyd yn gartref i offer Warren, a dyna yw'r hyn a elwir yn 'ystafell sbâr'.

The Rutherfords argued that disabled adults were not charged the bedroom tax if they needed overnight care, so why should the carers of disabled children pay it? The judge did not agree, and said that he had to make a decision in the context of extreme national financial austerity. Perhaps, then, he should have reflected on the fact that Paul and Sue do a job that would otherwise cost the taxpayer £0.25 million each year to provide. The DWP said that it was pleased by the court's decision; I was not. The Rutherfords have my support if they decide to appeal, and I hope for the sake of carers everywhere that other Members will back them, too.

Dadleuodd y Rutherfords nad yw oedolion anabl yn gorfod talu treth ystafell wely os ydynt angen gofal dros nos, felly pam y dylai gofalwyr plant anabl dalu'r dreth? Nid oedd y barnwr yn cytuno, a dywedodd ei fod wedi gwneud penderfyniad yng nghyd-destun cyni ariannol cenedlaethol eithafol. Efallai, felly, y dylai fod wedi ystyried y ffaith bod Paul a Sue yn gwneud gwaith a fyddai fel arall yn costio £0.25 miliwn y flwyddyn bob blwyddyn i'r trethdalwr ei ddarparu. Dywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei bod yn falch gan benderfyniad y llys; nid oeddwn innau. Mae'r Rutherfords yn cael fy nghefnogaeth os ydynt yn penderfynu apelio, ac rwy'n gobeithio er lles gofalwyr ym mhob man y bydd Aelodau eraill yn eu cefnogi, hefyd.

I have visited the Rutherfords at home, and they have extended the same invitation to David Cameron. I hope that he takes them up on that offer so that he can better understand their role as carers and end the preposterous situation where carers of disabled children are penalised for being so 'unreasonable' as to need a room for equipment and so 'indulgent' as to have paid carers on duty overnight.

Rwyf wedi ymweld â'r Rutherfords gartref, ac maent wedi estyn yr un gwahoddiad i David Cameron. Rwy'n gobeithio y bydd yn derbyn y gwahoddiad er mwyn iddo ddeall yn well eu rôl fel gofalwyr a rhoi diwedd ar y sefyllfa afresymol lle mae gofalwyr plant anabl yn cael eu cosbi am fod mor 'afresymol' â mynnu ystafell ar gyfer offer a bod mor 'wastraffus' â chyflogi gofalwyr i fod ar ddyletswydd dros nos.

17:47 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to respond briefly to what Rebecca Evans has said. I very much sympathise with the case in terms of parents with disabled children, and I have taken up cases myself and made representations on them. However, in the case of the Rutherfords, if I remember the judgment correctly, the judge ruled against them not necessarily because of the needs of the country, but because they were in receipt of discretionary housing payments, and his ruling was that there was no reason to believe that that discretionary housing payment would cease. In fact, discretionary housing payments have been put in place in local authorities all over the country to try to mitigate the impact of this measure, albeit that the measure itself needs to be amended and changed to exclude carers of disabled children. However, that is the situation. We have to understand that the Government has responded to that by putting DHP in place.

Hoffwn ymateb yn fyr i'r hyn a ddywedodd Rebecca Evans. Rwy'n cydymdeimlo'n fawr iawn ag achos rhieni â phlant anabl, ac rwyf wedi mynd i'r afael ag achosion fy hun a chyflwyno sylwadau arnynt. Fodd bynnag, yn achos y Rutherfords, os cofiaf y dyfarniad yn gywir, roedd y barnwr yn dyfarnu yn eu herbyn nid o reidrwydd oherwydd anghenion y wlad, ond oherwydd eu bod yn derbyn taliadau tai disgresiwn, ac yn ôl ei ddyfarniad nid oedd unrhyw reswm i gredu y byddai'r taliad tai disgresiwn hwnnw'n dod i ben. Yn wir, mae taliadau tai disgresiwn wedi cael eu rhoi ar waith mewn awdurdodau lleol ledled y wlad i geisio lliniaru effaith y mesur hwn, er bod angen diwygio a newid y mesur ei hun er mwyn eithrio gofalwyr plant anabl. Fodd bynnag, dyna'r sefyllfa. Mae'n rhaid i ni ddeall bod y Llywodraeth wedi ymateb i hynny drwy roi taliadau disgresiwn yn eu lle.

The experience of every carer across the UK will be unique, and this is highlighted by the range of organisations here at the Senedd yesterday in support of Carers Week 2014. According to Macmillan Cancer Support in Wales, there are 55,000 carers of people living with cancer, yet 49% of cancer carers are not accessing the support available to them. According to the MS Society, 71% of people with MS receive unpaid care and support from a friend or family member, and the long-term nature of MS means that caring responsibilities have a huge impact on a carer's own quality of life. Similarly, caring for someone with Parkinson's can be a challenging and long-term commitment. As a person's symptoms develop over time, it places increasing demands on carers. Individuals with cystic fibrosis will require physiotherapy every day, which can be performed by a carer. Due to joint problems causing pain and mobility issues, they may be reliant on a loved one to help with everyday tasks, such as washing, dressing or taking medication.

Bydd profiad pob gofalwr ledled y DU yn unigryw, ac amlygwyd hyn ddoe gan yr amrywiaeth o sefydliadau a ddaeth i'r Senedd i gefnogi Wythnos Gofalwyr 2014. Yn ôl Cymorth Canser Macmillan yng Nghymru, mae 55,000 o ofalwyr sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda chanser, ac eto nid yw 49% o ofalwyr pobl â chanser yn defnyddio'r cymorth sydd ar gael ar eu cyfer. Yn ôl y Gymdeithas MS, mae 71% o bobl ag MS yn derbyn gofal a chymorth di-dâl gan ffrind neu aelod o'r teulu, ac mae natur hirdymor MS yn golygu bod cyfrifoldebau gofalu yn cael effaith enfawr ar ansawdd bywyd y gofalwr ei hun. Yn yr un modd, gall gofalu am rywun sydd â chlefyd Parkinson fod yn ymrwymiad heriol a thymor hir. Wrth i symptomau rhywun ddatblygu dros gyfnod o amser, mae'n gosod galwadau cynyddol ar ofalwyr. Bydd yn rhaid i unigolion gyda ffibrosis systig gael ffisiotherapi bob dydd, a gall gofalwr gyflawni'r gwaith. Oherwydd problemau gyda'r cymalau, sy'n achosi poen a thrafferthion wrth symud, efallai y byddant yn dibynnu ar anwylyd i'w helpu gyda thasgau bob dydd, fel ymolchi, gwisgo neu gymryd meddyginiaeth.

Hafal highlights that there are specific and unique issues for carers of people with serious mental health problems, as often they are receiving compulsory treatments against their will, which can lead to tension, conflict and feelings of guilt among families. People living with a serious mental illness are extremely vulnerable, with highly complex needs. Their symptoms may be episodic, and it will often be the carers who spot the first signs that the person is becoming unwell, yet, all too often, families and carers feel that they have to wait until the person they care for is in crisis before they receive any help or support.

Mae Hafal yn amlygu bod yna faterion penodol ac unigryw ar gyfer gofalwyr pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol, gan eu bod yn aml yn cael triniaethau gorfodol yn erbyn eu hewyllys, a all arwain at densiwn, gwrthdaro a theimladau o euogrwydd ymhlith teuluoedd. Mae pobl sy'n byw gyda salwch meddwl difrifol yn hynod o agored i niwed, a chanddynt anghenion cymhleth iawn. Gall eu symptomau fod yn ysbeidiol, ac yn aml bydd y gofalwr yn sylwi ar yr arwyddion cyntaf fod y person yn mynd yn sâl, ac eto, yn rhy aml, mae teuluoedd a gofalwyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt aros nes bod y person y maent yn gofalu amdano mewn argyfwng cyn eu bod yn cael unrhyw help neu gefnogaeth.

Although these examples highlight the unique role of carers, common to most is the feeling that carers are often being ignored or excluded by health and social care professionals from the care and treatment planning process. Families and carers want ongoing engagement with professionals through their loved one's care, and contact with health services.

Er bod yr enghreifftiau hyn yn tynnu sylw at rôl unigryw gofalwyr, y peth mwyaf cyffredin i'r mwyafrif yw'r teimlad bod gofalwyr yn aml yn cael eu hanwybyddu neu eu heithrio gan weithwyr iechyd proffesiynol a gofal cymdeithasol. Dymuniad teuluoedd a gofalwyr yw cael ymgysylltiad parhaus â gweithwyr proffesiynol yn ystod gofal eu hanwylyd, a chyswllt â gwasanaethau iechyd.

To support these families and carers in looking after loved ones, as well as looking after themselves, as caring can often be a very demanding role, it is important to improve links with GPs and primary care, as community-based health services are often the first port of call for many carers. There is more and more evidence that the health of carers often suffers from the emotional and physical strain of caring through the depression and isolation that many carers feel, or other health problems such as back problems. GPs should be encouraged to recognise these signs and, in turn, should be helping carers to recognise the caring role that they play and ensure that they can be signposted to information and support as early as possible.

Er mwyn cefnogi'r teuluoedd a'r gofalwyr hyn i ofalu am anwyliaid, yn ogystal â gofalu amdanynt eu hunain, gan fod gofalu'n aml yn gallu bod yn rôl heriol iawn, mae'n bwysig gwella cysylltiadau â meddygon teulu a gofal sylfaenol, gan mai gwasanaethau iechyd yn y gymuned yn aml yw'r man cysylltu cyntaf i lawer o ofalwyr. Mae mwy a mwy o dystiolaeth bod iechyd gofalwyr yn aml yn dioddef yn sgîl y straen emosiynol a chorfforol sy'n gysylltiedig â gofalu gan achosi iselder ac unigrwydd i lawer o ofalwyr, neu broblemau iechyd eraill megis problemau cefn. Dylai meddygon teulu gael eu hannog i adnabod yr arwyddion hyn a thrwy hynny helpu gofalwyr i gydnabod y rôl gofalu y maent yn ei hysgwyddo a sicrhau y gellir eu cyfeirio at wybodaeth a chefnogaeth cyn gynted ag y bo modd.

Sixty four per cent of those who responded to the recent carers Wales survey said that support from their GPs would help them to do their role well. In England, the NHS is developing an action plan on how to recognise and help carers, which will also highlight the key role that GPs will be expected to play in directing them towards useful advice, support and assistance. As part of the Care Act 2014, the UK Government has introduced the Better Care fund, which is a single pooled budget to support health and social care services to work more closely together in local areas. We urge the Welsh Government to examine what measures can be taken to enable GPs to better identify carers at the outset, so that they can receive timely support. Some ideas suggested by the Royal College of General Practitioners include appointing a carers champion in all GP surgeries, maintaining a carers register within the GP practice and improving GP access by allocating routine appointments at convenient times for carers.

Dywedodd chwe deg pedwar y cant o'r rhai a ymatebodd i arolwg diweddar Cymru ar ofalwyr y byddai cefnogaeth gan eu meddygon teulu yn eu helpu i wneud eu rôl yn well. Yn Lloegr, mae'r GIG yn datblygu cynllun gweithredu ar sut i gydnabod a helpu gofalwyr, a fydd hefyd yn tynnu sylw at y rôl allweddol y bydd disgwyl i feddygon teulu ei hysgwyddo wrth eu cyfeirio at gyngor, cefnogaeth a chymorth defnyddiol. Fel rhan o Ddeddf Gofal 2014, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cronfa Better Care, sy'n gyllideb gyfun sengl i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gydweithio'n agosach mewn ardaloedd lleol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i archwilio pa gamau y gellir eu cymryd i alluogi meddygon teulu i nodi gofalwyr yn well ar y dechrau, er mwyn iddynt allu cael cymorth amserol. Mae rhai o'r syniadau a awgrymwyd gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn cynnwys penodi hyrwyddwr gofalwyr ym mhob meddygfa leol, cadw cofrestr o ofalwyr yn y practis meddyg teulu a gwella mynediad meddygon teulu drwy drefnu apwyntiadau rwtîn ar adegau sy'n gyfleus i ofalwyr.

One issue that has been raised in my casework is the blue badge scheme. This is important for many carers who may be escorting the person they care for to the doctor or to access local services. I was disappointed to read that the Deputy Minister intends to remove GPs from the assessment process, which will mean unqualified council officers making assessments of a person's disability. If a blue badge is awarded on medical grounds, can the Deputy Minister clarify what training council officers will receive to enable them to make a diagnosis for people with mental health issues, which may not be clearly identifiable? I fail to see how a diagnosis can be made without the involvement of a medical professional or occupational therapist.

Un mater sydd wedi'i godi yn fy ngwaith achos yw'r cynllun bathodyn glas. Mae hyn yn bwysig i lawer o ofalwyr a all fod yn hebrwng y person y maent yn gofalu amdano at y meddyg neu i gael mynediad i wasanaethau lleol. Siom i mi oedd darllen bod y Dirprwy Weinidog yn bwriadu cael gwared ar feddygon teulu o'r broses asesu, sy'n golygu mai swyddogion anghymwysedig y cyngor fydd yn gwneud asesiadau o anabledd unigolyn. Os dyfernir bathodyn glas ar sail feddygol, a all y Dirprwy Weinidog egluro pa hyfforddiant fydd swyddogion y cyngor yn ei gael i'w galluogi i wneud diagnosis ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, nad yw o bosibl yn hawdd ei adnabod? Ni allaf weld sut y gellir gwneud diagnosis heb gynnwys gweithiwr iechyd proffesiynol neu therapydd galwedigaethol.

In conclusion, it is also disappointing that we still do not have the toolkit promised by the Deputy Minister to help councils to administer the scheme, and I hope that this will be available very shortly.

I gloi, mae hefyd yn siom ein bod yn dal i fod heb gael y pecyn cymorth a addawyd gan y Dirprwy Weinidog i helpu cynghorau i weinyddu'r cynllun, ac rwy'n gobeithio y bydd hyn ar gael yn fuan iawn.

17:52

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Women have always been the main carers of people, and when their work was unpaid it was assumed that they would always carry the can when people became unwell or were disabled. There is now much more emphasis on the importance of carers, as women have to work as much as men in order to make ends meet. We cannot always assume that women will be available to do the caring, and that has given a much more refined debate about the important role of carers, but also the support that we as a society need to give to carers, whether they are male or female.

Menywod sydd wedi ysgwyddo rôl y prif ofalwyr erioed, a phan oedd eu gwaith yn ddi-dâl tybiwyd mai nhw a fyddai bob amser yn gwneud y gwaith pan fyddai pobl yn mynd yn sâl neu yn anabl. Erbyn hyn mae llawer mwy o bwyslais ar bwysigrwydd gofalwyr, gan fod yn rhaid i fenywod weithio cymaint â dynion er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd. Ni allwn bob amser gymryd yn ganiataol y bydd menywod ar gael i wneud y gofalu, ac mae hynny wedi mireinio'r ddadl am rôl bwysig gofalwyr, ond hefyd y cymorth y dylai cymdeithas ei roi i ofalwyr, yn ddynion neu'n fenywod.

In the Senedd at lunch time, we had the diabetes stakeholder annual event to celebrate and to listen to people who have diabetes. Among the people who came along was a young girl who has developed type 1 diabetes. She had huge difficulty, once she had been diagnosed, in getting back into school because the school assumed that her mother would always come to the school to administer the insulin that she needed. It took some time to get alternative arrangements in place to enable the mother to not have to do that. We need to make sure that when people develop a condition or a disability that they are, as far as possible, able to go on living the life they lived before with the appropriate support, and that they are not discriminated against, not least because we as a society need people to keep as fit and well as possible. Diabetes is a very good example of that—just because you are diagnosed with diabetes does not mean that you cannot stay well with the appropriate support.

Yn y Senedd yn ystod amser cinio, cawsom ddigwyddiad blynyddol rhanddeiliaid diabetes i ddathlu ac i wrando ar bobl sydd â diabetes. Ymhlith y bobl a ddaeth ynghyd oedd merch ifanc sydd wedi datblygu diabetes math 1. Ar ôl cael diagnosis, cafodd anhawster mawr i fynd yn ôl i'r ysgol gan fod yr ysgol yn tybio y byddai ei mam yn dod i'r ysgol bob tro i weinyddu'r inswlin ar ei chyfer. Cymerodd gryn amser i roi trefniadau amgen ar waith i alluogi'r fam i beidio â gorfod gwneud hynny. Pan fo pobl yn datblygu cyflwr neu anabledd mae angen i ni wneud yn siŵr cyn belled ag y bo modd, eu bod yn gallu parhau i fyw'r bywyd roeddynt yn ei fyw o'r blaen gyda'r cymorth priodol, ac nad ydynt yn dioddef gwahaniaethu, yn enwedig gan ein gan fel cymdeithas angen i bobl gadw mor iach a heini ag y bo modd. Mae diabetes yn enghraifft dda iawn o hynny—nid yw cael diagnosis o ddiabetes yn golygu na allwch chi barhau'n iach gyda'r cymorth priodol.

Voluntary organisations that champion the conditions of particular individuals with particular conditions also have a responsibility to ensure that they are also championing the needs of the carers of those people. Peter Black just mentioned the challenges that there are in looking after somebody with Parkinson's disease, and I just wanted to talk a little bit about one of my constituents who has Parkinson's and the important support that his main carer is getting, which is enabling him to stay in his own home. His carer, as in many situations, is his long-standing spouse, who obviously wants to look after her husband who has Parkinson's disease. However, just as her husband is now well into his third age, so is she not in the first flood of youth, and, without the support that she has had both from the voluntary sector and the local authority, she would probably have collapsed by now, because this gentleman has had this condition for six years. Given the support that he is getting—the 20 hours of personal care that they are receiving—it enables her to have the time that she needs to look after her own needs as well as to continue to be the main carer for her husband.

Mae gan sefydliadau gwirfoddol sy'n hyrwyddo cyflyrau unigolion penodol sydd â chyflyrau penodol hefyd gyfrifoldeb am sicrhau eu bod hefyd yn hyrwyddo anghenion gofalwyr y bobl hynny. Mae Peter Black newydd sôn am y sialensiau sy'n gysylltiedig â gofalu am rywun â chlefyd Parkinson, ac roeddwn i eisiau siarad ychydig am un o fy etholwyr sydd â Parkinson a'r gefnogaeth bwysig mai ei brif ofalwr yn ei gael, sy'n ei alluogi i aros yn ei gartref ei hun. Ei ofalwr, fel mewn llawer o sefyllfaoedd, yw ei briod ers amser hir, sy'n amlwg yn awyddus i ofalu am ei gŵr sydd â chlefyd Parkinson. Fodd bynnag, gan fod ei gŵr bellach mewn gwth o oedran, mae ei wraig hefyd yn heneiddio, a heb y cymorth y mae hi wedi ei gael gan y sector gwirfoddol a'r awdurdod lleol fel ei gilydd, mae'n debygol y byddai wedi diffygio'n llwyr erbyn hyn, oherwydd mae'r cyflwr hwn wedi bod ar ei gŵr ers chwe blynedd. O ystyried y gefnogaeth a gaiff—yr 20 awr o ofal personol y maent yn eu cael—mae hyn yn ei galluogi hi i gael yr amser sydd ei angen arni i ofalu am ei hanghenion ei hun yn ogystal ag i barhau i fod yn brif ofalwr am ei gŵr.

One of the things that was most interesting about the support that they get is that Diverse Cymru played a very important role in helping them to advertise for the personal assistant that they had been assessed as being eligible for, and then supported them to interview two of the people who applied. We have to remember that the personal support that such people are getting is around very intimate personal care—somebody coming into their home—so they need to be a suitably discreet and sympathetic individual who will fit in with that family. It works extremely well with the successful applicant, who is an ex-military police officer, who arrives every morning at about 8.30 a.m. to get the gentleman washed and dressed, which enables his wife to get the breakfast for both of them. Since he has now started to fall backwards when he gets up at night to go to the loo, they have to have someone sleeping in one night a week, so that the carer is getting at least one night's good sleep a week.

Un o'r pethau mwyaf diddorol am y gefnogaeth y maent yn ei chael yw bod Diverse Cymru wedi chwarae rhan bwysig iawn yn eu helpu i hysbysebu am gynorthwyydd personol y cawsant eu hasesu eu bod yn gymwys ar ei gyfer, ac yna wedi eu cefnogi i gyfweld dau o'r bobl a ymgeisiodd. Mae'n rhaid i ni gofio bod y cymorth personol y mae pobl o'r fath yn ei gael yn ymwneud â gofal personol iawn—gyda rhywun yn dod i mewn i'w cartref—felly mae angen iddynt fod yn unigolion gofalus a chynnil sy'n addas ar gyfer y teulu hwnnw. Mae pethau'n gweithio'n arbennig o dda gyda'r ymgeisydd llwyddiannus, sy'n gyn-swyddog gyda heddlu'r fyddin. Mae'n cyrraedd bob bore am oddeutu 8:30 i ymolchi a gwisgo'r gŵr, sy'n galluogi ei wraig i baratoi brecwast ar gyfer y ddau ohonynt. Gan ei fod bellach wedi dechrau syrthio tuag yn ôl wrth godi yn ystod y nos i fynd i'r tŷ bach, mae'n rhaid iddynt gael rhywun i ddod i gysgu yn y tŷ un noson yr wythnos, fel bod y gofalwr yn cael cwsg da am un noson yr wythnos o leiaf.

Overall, I feel that this is a really good example of patient-centred care around the needs of the individual. It really is a testament to the work of both Cardiff council's social services and Diverse Cymru in enabling this elderly couple to go about their daily lives in the way that we all like to do—get out, go shopping, see friends, go to the park—and this is an excellent example of that.

Ar y cyfan, rwy'n teimlo bod hyn yn enghraifft dda iawn o ofal sy'n canolbwyntio ar y claf sy'n cwmpasu anghenion yr unigolyn. Mae wir yn destament i waith gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Caerdydd a Diverse Cymru wrth alluogi'r pâr oedrannus hwn i fyw eu bywydau bob dydd yn y ffordd rydym i gyd yn hoffi ei wneud—mynd allan, mynd i siopa, ymweld â ffrindiau, mynd i'r parc—ac mae hyn yn enghraifft wych o hynny.

17:58 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas.

I call on the Deputy Minister for Social Services, Gwenda Thomas.

17:58 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

Diolch. Hoffwn i ddiolch i Aled Roberts am ysgogi'r ddadl ar ofalwyr heddiw. Mae Wythnos y Gofalwyr yn gyfle delfrydol inni gydnabod y gwaith rhagorol y mae gofalwyr yn ei wneud yn ddyddiol i helpu pobl ledled Cymru.

Thank you. I would like to thank Aled Roberts for initiating this debate on carers today. Carers Week is an ideal opportunity for us to recognise the exemplary work that carers do on a daily basis to assist people across Wales.

Fel y clywsom, rydym yn amcangyfrif bod tua 370,000 o ofalwyr yng Nghymru, ac mae 90,000 ohonyn nhw'n gofalu am aelod o'r teulu neu ffrind am o leiaf 50 awr yr wythnos. Mae cyfran uchel o'r gofal sy'n cael ei ddarparu i bobl mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru yn cael ei rhoi am ddim gan y teulu a ffrindiau. Felly, hoffwn ddiolch iddyn nhw i gyd am y gwaith y maen nhw'n ei wneud bob dydd i helpu eu teulu a'u ffrindiau. Rwy'n cadarnhau y byddaf yn parhau i gefnogi pob un ohonynt.

As we have heard, we estimate that there are approximately 370,000 carers in Wales, and that 90,000 of them provide care to a family member or friend for at least 50 hours a week. A high proportion of the care provided to people in communities across Wales is provided free of charge by friends and family members. Therefore, I would like to thank each and every one of them for the work that they do every day to help their friends and family members. I confirm that I will continue to support each and every one of them.

Mae gofalwyr yn rhoi llawer iawn o'u hamser i'w rôl ofalu, felly mae'n bwysig iawn eu bod nhw'n cael amser i'w hunain. Fe allai hynny'n syml fod yn saib o'u dyletswyddau gofalu, ond gallai hefyd fod yn amser iddyn nhw fanteisio ar y cyfle i fynd allan i weithio neu i gael addysg neu hyfforddiant.

Carers give a great deal of time to their caring role, so it is very important that they have time for themselves. That could be simply a break from caring responsibilities, but it could also be time for them to take advantage of the opportunity to access work, education or training.

We support the proposed motion by Aled Roberts, which links closely to the key themes in our refreshed carers strategy for Wales, which I launched last year. I wish I had the time to go through that strategy to perhaps remind us of it and how we got to that refreshed strategy, having had consensus here and with our partners outside. However, of course, it is available for us all to refresh our memory online.

Rydym yn cefnogi'r cynnig a gynigiwyd gan Aled Roberts, sy'n cysylltu'n agos â'r themâu allweddol yn ein strategaeth gofalwyr ar ei newydd wedd i Gymru, a lansiwyd gennyf y llynedd. Hoffwn pe buasai gennyf yr amser i fynd drwy'r strategaeth honno er mwyn ein hatgoffa o bosibl amdani a sut y daethom at y strategaeth honno ar ei newydd wedd, ar ôl cael consensws yma a chyda'n partneriaid tu allan. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae ar gael i ni i gyd ar-lein os ydym am brocio'r cof.

The Social Services and Well-being (Wales) Act significantly strengthens the rights of carers. The definition of carers has been broadened to include those who provide, or intend to provide, care. The Act places a duty on local authorities to undertake a carer's assessment where it appears that they have a need for support. A carer no longer needs to be providing

'a substantial amount of care on a regular basis'

to be eligible for assessment. Identifying carers early, as we have heard this afternoon—I believe that Lindsay Whittle mentioned this, as did Darren Millar, according to my note here—is essential, if we are to provide them with appropriate support. For most carers, their first point of contact with a statutory agency is with primary care. Therefore, under the Carers Strategies (Wales) Measure, GPs are required to establish lists of carers within their area, and Peter Black made that point.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cryfhau hawliau gofalwyr yn sylweddol. Mae'r diffiniad o ofalwyr wedi cael ei ehangu i gynnwys y rhai sy'n darparu, neu sy'n bwriadu darparu, gofal. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad gofalwr os yw'n ymddangos bod arnynt angen cefnogaeth. Bellach, nid oes angen i ofalwr fod yn darparu

'swm sylweddol o ofal yn rheolaidd'

i fod yn gymwys i'w asesu. Fel y clywsom y prynhawn yma—credaf fod Lindsay Whittle wedi crybwyll hyn, fel y gwnaeth Darren Millar, yn ôl y nodyn sydd gennyf— mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod gofalwyr yn gynnar os ydym am ddarparu cymorth priodol iddynt. I'r rhan fwyaf o ofalwyr, gofal sylfaenol yw eu pwynt cyswllt cyntaf gydag asiantaeth statudol. Felly, o dan Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru), mae'n ofynnol i feddygon teulu sefydlu rhestrau o ofalwyr yn eu hardal, a gwnaeth Peter Black y pwynt hwnnw.

Ensuring that carers have access to information and advice is something that is regularly raised with me. This is a key theme within our carers strategy, and the Social Services and Well-being (Wales) Act will ensure that a single point of access is established, to be known as the information advice and assistance service.

Mae sicrhau bod gan ofalwyr fynediad at wybodaeth a chyngor yn rhywbeth sy'n cael ei godi gyda mi yn rheolaidd. Mae hon yn thema allweddol o fewn ein strategaeth gofalwyr, a bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn sicrhau bod un pwynt mynediad yn cael ei sefydlu, a elwir yn wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Our carers strategy focuses on supporting carers in their life outside the caring role, whether this is in relation to leisure, education, training or employment; I do believe that this has taken on the gender issue that Jenny Rathbone mentioned. We recognise how difficult it can be to maintain employment alongside a caring role. Eluned Parrott has highlighted this this afternoon. We are working with Carers Alliance Wales on information for employers, to raise awareness and enable them to support people working for them who have caring responsibilities. This can include introducing modern workplace practices, such as flexible and remote working, to ease the pressure of balancing work and care. We will promote the adoption of awards for employers who support carers in the workplace, including the carer friendly employer recognition award and the small practice workplace health award. I take Eluned Parrott's point on employees here, and perhaps I can look at that.

Mae ein strategaeth gofalwyr yn canolbwyntio ar gefnogi gofalwyr yn eu bywyd y tu allan i'r rôl ofalu, boed hynny mewn perthynas â hamdden, addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth; credaf fod hyn wedi ystyried mater rhyw a grybwyllwyd gan Jenny Rathbone. Rydym yn cydnabod pa mor anodd y gall fod i gynnal cyflogaeth ochr yn ochr â rôl gofalu. Nododd Eluned Parrott hyn y prynhawn yma. Ynghyd â Chynghrair Cynhalwyr Cymru, rydym yn gweithio ar wybodaeth i gyflogwyr, er mwyn codi eu hymwybyddiaeth a'u galluogi i gefnogi pobl sy'n gweithio iddynt sydd â chyfrifoldebau gofalu. Gall hyn gynnwys cyflwyno arferion gweithle cyfoes, megis gweithio hyblyg ac o bell, i leddfu'r pwysau wrth gydbwyso dyletswyddau gwaith a gofal. Byddwn yn hyrwyddo mabwysiadu gwobrau i gyflogwyr sy'n cefnogi gofalwyr yn y gweithle, gan gynnwys gwobr i gydnabod cyflogwr sy'n ystyriol o ofalwyr a gwobr iechyd gweithle bach. Rwy'n derbyn pwynt Eluned Parrott ar weithwyr yma, ac efallai y caf edrych ar hynny.

We support the two amendments tabled by Elin Jones. We recognise the difficulties and pressures that carers face. These are even greater for young carers, which is why our carers strategy includes a theme that focuses specifically on support for young carers. I regularly meet with young carers to listen to their issues and concerns. We have taken action in response to this, including the development of a young carers toolkit, and this is proving very helpful indeed. I am sure that Lindsay Whittle will be interested in that. This has been shared with all schools and local authorities in Wales, as is the work we are taking forward on young carers ID cards, which you also mentioned, Lindsay Whittle.

Rydym yn cefnogi'r ddau welliant a gyflwynwyd gan Elin Jones. Rydym yn cydnabod yr anawsterau a'r pwysau y mae gofalwyr yn eu hwynebu. Mae'r rhain hyd yn oed yn fwy i ofalwyr ifanc, a dyna pam mae ein strategaeth gofalwyr yn cynnwys thema sy'n canolbwyntio'n benodol ar gefnogaeth i ofalwyr ifanc. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â gofalwyr ifanc i wrando ar eu problemau a'u pryderon. Rydym wedi cymryd camau i ymateb i hyn, gan gynnwys datblygu pecyn cymorth i ofalwyr ifanc, ac mae hyn wedi bod o gymorth mawr iawn. Rwy'n siŵr y bydd gan Lindsay Whittle ddiddordeb yn hynny. Mae hyn wedi cael ei rannu gyda'r holl ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru, fel y mae'r gwaith rydym yn ei wneud ar gardiau adnabod i ofalwyr ifanc, a grybwyllwyd gennych hefyd, Lindsay Whittle.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 18:04.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 18:04.*

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

In relation to Elin Jones's second amendment, welfare reform is not a devolved matter, as we have already heard this afternoon; however, we are concerned about the impact of benefit changes. A key commitment in our tackling poverty action plan is to ensure that people are aware of the benefits they are entitled to, including the carers allowance. Welsh Government currently funds free specialist welfare benefit and debt advice across Wales through Citizens Advice Cymru, known as 'Better Advice, Better Lives' and in my constituency, I recently launched a campaign to raise awareness of the carers allowance, and I am grateful for the cross-party support that was received locally. It was also supported by Sarah Rochira and Neath Port Talbot carers' services; my colleague David Rees was there also. I believe that taking account of the local level has an advantage. I believe that by taking the message locally, as we did in Neath Port Talbot, it has spread the word about carers allowance, which, I agree, is very important indeed. However, I would make a strong appeal with regard to what we call the bedroom tax. We have heard harrowing evidence this afternoon, and again from Rebecca Evans. It really is becoming apparent, I believe, that carers and the people they care for are being affected very badly. I think that there is now a need to appeal for at least an exemption for these very worthy cases as the evidence does accumulate as to how it adversely affects people who need care and the people who are providing it.

Ynglŷn ag ail welliant Elin Jones, nid yw diwygio lles yn fater sydd wedi'i ddatganoli, fel y clywsom eisoes y prynhawn yma; serch hynny, mae effaith y newidiadau i fudd-daliadau yn destun pryder i ni. Ymrwymiad allweddol yn ein cynllun gweithredu ar drechu tlodi yw sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, gan gynnwys y lwfans gofalwyr. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n ariannu cyngor arbenigol di-dâl ar ddyledion a budd-daliadau lles ledled Cymru drwy Cyngor ar Bopeth Cymru, sef 'Cyngor Da, Byw'n Well' ac yn fy etholaeth, yn ddiweddar, lansiais ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r lwfans gofalwyr, ac rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth drawsbleidiol a dderbyniwyd yn lleol. Cafodd ei gefnogi hefyd gan Sarah Rochira a gwasanaethau gofalwyr Castell-nedd Port Talbot; roedd fy nghydweithiwr, David Rees yno hefyd. Rwy'n credu bod ystyried pethau ar lefel leol yn fantais. Trwy ystyried y neges yn lleol, fel y gwnaethom yng Nghastell-nedd Port Talbot, credaf fod hyn wedi lledaenu'r gair am lwfans gofalwyr, sydd, rwy'n cytuno, yn bwysig iawn yn wir. Fodd bynnag, hoffwn wneud apêl daer ynglŷn â'r hyn a elwir gennym yn dreth ystafell wely. Clywsom dystiolaeth ddirdynnol y prynhawn yma, ac eto gan Rebecca Evans. Mae'n dod yn gwbl amlwg, mi gredaf, fod hyn yn cael effaith ddrwg iawn ar ofalwyr a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Credaf fod angen apelio yn awr i'r achosion teilwng iawn hyn gael eu heithrio o leiaf, gan fod yna dystiolaeth yn cronni o ran sut y mae'n cael effaith andwyol ar bobl sydd angen gofal a'r bobl sy'n ei ddarparu.

We support the proposed amendment by Paul Davies, which recognises the need for carers to have access to respite care. The Carers Strategies (Wales) Measure 2010 states:

Rydym yn cefnogi'r gwelliant a gynigiwyd gan Paul Davies, sy'n cydnabod yr angen i ofalwyr gael mynediad at ofal seibiant. Mae Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 yn datgan:

'It must never be assumed that carers can or will provide care.'

'Ni ddylid byth gymryd yn ganiataol y gall gofalwyr ddarparu gofal nac y byddant yn darparu gofal.'

Darren Millar made this point. Carers can choose whether or not they will care, and the level of support that they are prepared to offer. The amount of caring that they can and are willing to do must be negotiated and regularly reviewed. This remains our intention, and there is a commitment within the carers' strategy to ensuring that carers have access to alternative respite services.

Gwnaeth Darren Millar y pwynt hwn. Gall gofalwyr ddewis a fyddant yn gofalu ai peidio, a lefel y cymorth y maent yn barod i'w gynnig. Rhaid trafod ac adolygu'n rheolaidd y gofal y gallant ac y maent yn barod i'w ddarparu. Dyma yw ein bwriad o hyd, ac mae ymrwymiad o fewn y strategaeth gofalwyr i sicrhau bod gofalwyr yn cael mynediad at wasanaethau seibiant amgen.

The development of a care plan should include alternative care options for when the carer is not available to provide care and support. This should not just include contingency or emergency arrangements, but arrangements to support carers in their life outside their caring role. This could be their own personal requirements in relation to employment, education, training, development or leisure needs.

Wrth ddatblygu cynllun gofal, dylid cynnwys opsiynau gofal amgen ar gyfer adegau pan nad yw'r gofalwr ar gael i ddarparu gofal a chymorth. Ni ddylai'r cynllun gynnwys trefniadau wrth gefn neu mewn argyfwng yn unig. Dylai hefyd gynnwys trefniadau i gefnogi gofalwyr yn eu bywydau y tu allan i'w rôl fel gofalwyr. Gallai hyn fod ar gyfer eu gofynion personol eu hunain mewn perthynas ag anghenion cyflogaeth, addysg, hyfforddiant, datblygiad neu hamdden.

Finally, I reiterate my thanks to all carers across Wales for the significant contribution that they make to the lives of the families and friends they care for, and to society in Wales. Diolch yn fawr.

Yn olaf, hoffwn ddiolch unwaith eto i'r holl ofalwyr ymhob cwr o Gymru am y cyfraniad sylweddol y maent yn ei wneud i fywydau'r teuluoedd a'r ffrindiau y maent yn gofalu amdanynt, ac i gymdeithas yng Nghymru. Diolch yn fawr.

18:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to reply to the debate.

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

18:07 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank everyone for their contributions to this afternoon's debate.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau at y ddadl y prynhawn yma.

I remember very clearly, following my late mother's stroke, taking the morning off from chairing the health committee in the first term of this National Assembly to attend a multidisciplinary team meeting to plan her discharge from the infamous Mynydd Mawr Hospital—a hospital that, despite many efforts by many Ministers for health and many NHS chief executives to close it down, has remained resolute until recently. [Laughter.] Understandably, the focus of that meeting was very much about my mum, but it was naturally assumed by those around the room that my father would be providing the vast majority of her care. When, at the end of the meeting, I asked the professionals what support would be available to meet my father's needs, they looked at him with raised eyebrows and said, 'Why, Mr Williams? Do you feel that you have needs?' I am pleased to say that I think that things have changed—at least, I really hope that things have changed over the decade that has since passed. However, when you read some of the statements in the 'State of Caring 2014' report, I wonder whether things really have changed for all carers in Wales.

Rwy'n cofio'n glir iawn, yn dilyn strôc fy niweddar fam, cymryd y bore i ffwrdd o gadeirio'r pwyllgor iechyd yn nhymor cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol hwn i fynychu cyfarfod tîm amlddisgyblaethol i gynllunio ei rhyddhau o Ysbyty nid anenwog Mynydd Mawr—ysbyty sydd wedi, er gwaethaf ymdrechion lu gan lawer o Weinidogion iechyd a llawer o brif weithredwyr y GIG i'w gau, wedi goroesi'n gadarn tan yn ddiweddar. [Chwerthin.] Yn ddealladwy, roedd ffocws y cyfarfod hwnnw yn gyfan gwbl ar fy mam, ond roedd y rhai a oedd yn yr ystafell yn tybio'n naturiol mai fy nhad a fyddai'n darparu'r rhan helaeth o'i gofal. Ar ddiwedd y cyfarfod, pan ofynnais i'r gweithwyr proffesiynol pa gymorth a fyddai ar gael i ddiwallu anghenion fy nhad, edrychasant arno gydag aeliau wedi'u codi a dweud, 'Pam, Mr Williams? A ydych yn teimlo bod gennych anghenion? ' Rwy'n falch o ddweud fy mod yn credu bod pethau wedi newid—o leiaf, rwy'n gobeithio o waelod calon fod pethau wedi newid dros y degawd sydd wedi mynd heibio ers hynny. Fodd bynnag, pan ddarllenwch rai o'r datganiadau yn yr adran 'State of Caring 2014', tybed a yw pethau wedi newid mewn gwirionedd ar gyfer yr holl ofalwyr yng Nghymru.

I believe that, over the years, Welsh Governments of varying colours—and this Assembly as a whole—have endeavoured to respond to the needs of carers. However, we must redouble our efforts to ensure that the legislation that we have passed, the strategies that we have agreed and published, and, indeed, the financial resources that have been made available, are really delivering real outcomes for carers in our communities, the length and breadth of Wales. The statistics in the 'State of Caring 2014' report would suggest perhaps that they are not. Only 8% of people said that they felt that their role as carers was valued and seen as valuable by society, and 49% of carers felt that society did not think or consider them at all. So, as I say, it is time, once again, to redouble our efforts in this area.

Dros y blynyddoedd, credaf fod Llywodraethau Cymru o wahanol liwiau—a'r Cynulliad hwn yn ei gyfanrwydd—wedi ceisio ymateb i anghenion gofalwyr. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddyblu ein hymdrechion i sicrhau bod y ddeddfwriaeth rydym wedi ei phasio, y strategaethau rydym wedi cytuno arnynt a'u cyhoeddi ac, yn wir, yr adnoddau ariannol sydd wedi'u neilltuo, mewn gwirionedd yn cyflawni canlyniadau go iawn ar gyfer gofalwyr yn ein cymunedau, ar hyd a lled Cymru. Byddai'r ystadegau yn yr adroddiad 'State of Caring 2014' yn awgrymu efallai nad yw hyn yn wir. Dim ond 8% o bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo bod eu rôl fel gofalwyr yn cael ei gwerthfawrogi a'i bod yn cael ei hystyried yn un werthfawr gan gymdeithas, ac roedd 49% o ofalwyr yn teimlo nad oedd cymdeithas yn meddwl amdanynt nac yn eu hystyried o gwbl. Felly, fel y dywedaf, mae'n bryd, unwaith eto, i ddyblu ein hymdrechion yn y maes hwn.

Lindsay, Eluned and Rebecca talked about the issue of children and child carers, who are particularly vulnerable, I feel. They can be particularly vulnerable in having their voices heard. Indeed, they can be vulnerable even in trying to speak out, for fear of what that might mean for their families. I have certainly met young carers who were fearful that, had they spoken out, they would have been taken away by services, because they think that those family structures cannot work in those ways.

Siaradodd Lindsay, Eluned a Rebecca am blant a gofalwyr plant, sy'n arbennig o agored i niwed, rwy'n teimlo. Gallant fod yn arbennig o agored i niwed o safbwynt cael eu lleisiau wedi eu clywed. Yn wir, gallant fod yn agored i niwed hyd yn oed wrth geisio siarad yn agored, oherwydd ofn yr hyn y gallai hynny ei olygu i'w teuluoedd. Rwy'n sicr wedi cwrdd â gofalwyr ifanc a oedd yn ofni, pe baent yn siarad allan, y byddent yn cael eu dwyn ymaith gan y gwasanaethau, oherwydd eu bod yn credu na all y strwythurau teuluol hynny weithio yn y ffyrdd hynny.

We must do more to ensure that educational establishments are more attuned to identifying young people with caring needs in their institutions and that they support them in doing that, along with making them feel normal—above all else, that is what children want to feel; they want to feel the same as their peers and they want to feel normal.

Mae'n rhaid i ni wneud mwy i sicrhau bod sefydliadau addysgol yn fwy sensitif i adnabod pobl ifanc sydd ag anghenion gofal yn eu sefydliadau a'u bod yn eu cefnogi i wneud hynny, ynghyd â gwneud iddynt deimlo'n normal—yn anad dim arall, dyna sut mae plant eisiau teimlo; maent am deimlo'r un fath â'u cyfoedion ac maent eisiau teimlo'n normal.

Eluned talked about the desirability of keeping carers economically active by proper engagement with employers. It is not just a question of keeping carers economically active during their caring, but also of helping them to get back to work and into the workplace, should their caring responsibilities come to an end, as that can be particularly challenging if people have had a long break from their jobs because of their caring responsibilities.

Soniodd Eluned am ba mor ddymunol ydyw i gadw gofalwyr yn economaidd weithgar trwy ymgysylltu'n briodol â chyflogwyr. Nid dim ond mater o gadw gofalwyr yn economaidd weithgar yn ystod eu gofalu, ond hefyd eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith ac ymuno â'r gweithle, pe bai eu cyfrifoldebau gofalu yn dod i ben, oherwydd gall hynny fod yn arbennig o anodd os yw pobl wedi cael seibiant hir o'u swyddi oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.

Darren Millar and the Tory amendment talk about breaks. The provision of breaks for carers is absolutely crucial, and they must be breaks that are flexible to meet individuals' needs. For some people, that might be just a couple of hours a week to pop out to get the shopping done, or simply to relieve the stress. For others, a more prolonged period, in blocks of maybe a week or a weekend, or sometimes even a fortnight, would better meet their particular needs. We also need to encourage carers to take up breaks when they are available. With caring, there can come an immense sense of guilt about needing help and a break at all. I remember very clearly that my mother would be booked into Mynydd Mawr, only for me to ring up on the day that she was supposed to go in to give my dad a week off and hear her in the living room. I would say to my dad, 'Woah, what happened; did the break fall through?' 'Oh, no', he would say, 'I couldn't make her go; she didn't want to and I didn't want to make her'. Constantly, carers put their own needs behind those of the individuals they care for, and often, we need to say loud and clear: 'You have permission to take a break and to put yourself first'. Many carers simply do not do that. As we said in our motion this afternoon, they simply do not even recognise themselves as having a caring role.

Mae Darren Millar a gwelliant y Torïaid yn crybwyll seibiant. Mae darparu seibiannau i ofalwyr yn hollol hanfodol, a rhaid iddynt fod yn seibiannau sy'n hyblyg i ddiwallu anghenion unigolion. I rai, gallai hynny olygu awr neu ddwy i ffwrdd yr wythnos i fynd allan i siopa, neu i fynd allan i leddfu straen. I eraill, byddai cyfnod hwy, mewn blociau o wythnos efallai neu benwythnos, neu weithiau hyd yn oed bythefnos, yn diwallu eu hanghenion penodol yn well. Mae angen i ni hefyd annog gofalwyr i fanteisio ar y seibiannau pan fyddant ar gael. Gyda gofal, gall yr angen am gymorth a seibiant greu ymdeimlad o euogrwydd aruthrol. Rwy'n cofio'n glir iawn fel y byddai trefniant yn cael ei wneud i'm mam fynd i mewn i Fynydd Mawr, dim ond i mi ffonio ar y diwrnod yr oedd hi i fynd yno er mwyn rhoi wythnos i ffwrdd i fy nhad a'i chlywed hi yn yr ystafell fyw. Byddwn yn dweud wrth fy nhad, 'Gan bwyll, beth a ddigwyddodd; a gafodd y trefniant ei ganslo? ' 'O, na', y byddai'n dweud, 'Doeddwn i ddim yn gallu ei gorfodi hi i fynd; doedd hi ddim eisiau mynd a doeddwn i ddim eisiau ei gorfodi '. Yn gyson, mae gofalwyr yn rhoi eu hanghenion eu hunain ar ôl rhai'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt, ac yn aml, mae angen inni ddweud yn uchel ac yn glir: 'Rydych chi wedi cael caniatâd i gymryd egwyl ac i roi eich hun yn gyntaf'. Yn syml, nid yw llawer o ofalwyr yn gwneud hynny. Fel i ni ddweud yn ein cynnig y prynhawn yma, nid ydynt yn syml hyd yn oed yn cydnabod bod ganddynt rôl ofalu.

Health, I think, continues to be a particular frustration, especially for those who are caring for people with a mental illness. I understand the issues of confidentiality and not betraying confidences that medical professionals have, but people caring for people who have a mental illness want to be involved; they need to be involved and they need to be kept informed of what services are being planned.

Credaf fod iechyd yn parhau i fod yn rhwystredigaeth arbennig, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n gofalu am bobl â salwch meddwl. Rwy'n deall materion cyfrinachedd a pheidio â bradychu cyfrinachau sydd gan weithwyr proffesiynol meddygol, ond mae pobl sy'n gofalu am bobl sydd â salwch meddwl am gael eu cynnwys; mae angen iddynt gael eu cynnwys ac mae angen iddynt gael gwybod pa wasanaethau sy'n cael eu cynllunio.

As I said, Deputy Presiding Officer, I know that this is an issue that has been very close to your heart and your campaigning over the years, and I want to thank colleagues for the tone and nature of this afternoon's debate. However, I would like to close by once again thanking all of those in our communities who are providing care, saving this country an awful lot of money, providing services that we simply could not afford to provide. I hope that the promises in the new legislation will become a reality, but not the concerns that are out there in the community about potentially being charged for some of the services, about potentially having more caring responsibilities placed upon them, as we look at eligible need and what constitutes eligibility, so that all that is good in the legislation will come to pass while the fears that are out there do not. I thank those people for doing what they do, and the voluntary sector agencies that support them in doing that.

Fel y dywedais, Ddirprwy Lywydd, gwn fod hwn yn fater sydd wedi bod yn agos iawn at eich calon a'ch ymgyrchu dros y blynyddoedd, ac rwyf am ddiolch i gydweithwyr am naws a natur y ddadl y prynhawn yma. Fodd bynnag, hoffwn gloi drwy unwaith eto ddiolch i bawb o'r rheini yn ein cymunedau sy'n darparu gofal, gan arbed llawer iawn o arian y wlad hon, yn darparu gwasanaethau na allem fforddio eu darparu. Rwy'n gobeithio y bydd yr addewidion yn y ddeddfwriaeth newydd yn cael eu gwireddu, ond nid y pryderon sydd allan yno yn y gymuned ynghylch codi tâl am rai o'r gwasanaethau o bosibl, am gael mwy o gyfrifoldebau gofalu ar eu hysgwyddau o bosibl, wrth i ni edrych ar angen cymwys a'r hyn y mae cymhwysedd yn ei olygu, fel y bydd popeth sy'n dda yn y ddeddfwriaeth yn cael ei wireddu, ond na fydd hynny'n wir am yr ofnau sydd allan yna. Rwy'n diolch i'r bobl hynny am wneud yr hyn y maent yn ei wneud, a'r asiantaethau yn y sector gwirfoddol sy'n eu cefnogi i wneud hynny.

18:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is an objection. Therefore I defer voting until voting time, which now follows.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio, sydd bellach yn dilyn.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:14

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5524.

Result of the vote on motion NDM5524.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 38, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 38, Against 11, Abstain 0.*

18:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I ask those Members who are now going to leave the Chamber to do so quickly and quietly.

Gofynnaf i'r Aelodau hynny sydd yn awr yn mynd i adael y Siambr i wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 18:15.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 18:15.*

18:15

# Dadl Fer: Datganoli: Ysgogwr Arloesedd

# Short Debate: Devolution: A Driver of Innovation

Senedd.tv Fideo Video

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Symudaf yn awr at y ddadl fer a galwaf ar Julie Morgan i siarad am y pwnc a ddewisiwyd ganddi.

I now move to the short debate and I call on Julie Morgan to speak on the topic she has chosen.

18:15

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. I am very pleased to have the opportunity to have this debate on 'Devolution: a driver of innovation'. I have agreed that Mike Hedges and Julie James will both have one minute after I speak.

Diolch yn fawr iawn i chi. Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i gael y ddadl hon ar 'Datganoli: gyrrwr arloesedd'. Rwy'n cytuno y bydd Mike Hedges a Julie James yn cael un funud yr un ar ôl i mi siarad.

A period of 15 years of devolution has meant many things to many people, but one angle that I think that we have not properly explored is devolution as a test bed of different policies and laws. By having Wales, Scotland and Northern Ireland being able to initiate new ways of doing things, it has meant that England and the Government in Westminster do not have to reinvent the wheel when it comes to introducing innovative measures there. This year, 2014, is remarkable proof of this. We have already debated this a bit in the Queen's Speech debate this afternoon. The Queen's Speech last week made a commitment to instituting a compulsory charge for plastic bags in England and the Minister for Local Government and Government Business raised that in her contributions today. Wales has already pioneered this within the UK; although, of course, it originated in the Irish Republic. Many of the initiatives that we think of as new things have come from other places all over the world.

Mae cyfnod o 15 mlynedd o ddatganoli wedi golygu llawer o bethau i lawer o bobl, ond un ongl y credaf nad ydym wedi ei harchwilio yn iawn yw datganoli fel mainc arbrofi ar gyfer gwahanol bolisïau a chyfreithiau. Gyda Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gallu cychwyn ffyrdd newydd o wneud pethau, mae wedi golygu nad oes yn rhaid i Loegr a'r Llywodraeth yn San Steffan ail-greu'r olwyn o safbwynt cyflwyno mesurau arloesol yno. Mae eleni, 2014, yn brawf nodedig o hyn. Rydym eisoes wedi trafod rhywfaint ar hyn yn y ddadl ar Araith y Frenhines y prynhawn yma. Cafwyd ymrwymiad yn Araith y Frenhines yr wythnos diwethaf i gychwyn codi tâl gorfodol am fagiau plastig yn Lloegr a chrybwyllodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth hynny yn ei chyfraniadau heddiw. Mae Cymru eisoes wedi arwain y gad gyda hyn yn y DU; er, wrth gwrs, fod y syniad yn deillio yng Ngweriniaeth Iwerddon. Mae llawer o'r mentrau y credwn sy'n bethau newydd wedi dod o fannau eraill o bedwar ban byd.

Secondly, this September, the free school meals initiative will kick off in England; after a huge amount of squabbling among the coalition partners, it is now going ahead. This is a number of years after Wales's free school breakfasts came into being. England is making an inferior choice in opting for free lunches instead of free breakfasts because a child's brain, to be at its best for learning, needs proper, healthy food at breakfast time, rather than lunch time. However, the coalition has taken this issue on board—the importance of nutrition for education and learning—following something that Wales started some years ago.

Yn ail, ym mis Medi eleni, bydd y fenter prydau ysgol am ddim yn cychwyn yn Lloegr; ar ôl llawer iawn o ffraeo ymhlith partneriaid y glymblaid, mae bellach yn mynd yn ei blaen. Mae hyn yn digwydd flynyddoedd lawer ar ôl cyflwyno brecwast ysgol am ddim yng Nghymru. Mae Lloegr yn gwneud dewis israddol drwy ddewis cinio am ddim yn hytrach na brecwast am ddim oherwydd er mwyn i ymennydd plentyn fod ar ei orau ar gyfer dysgu, mae angen bwyd iawn, iach amser brecwast arno, yn hytrach nag amser cinio. Fodd bynnag, mae'r glymblaid wedi ystyried y mater hwn— pwysigrwydd maeth ar gyfer addysg a dysgu—yn sgîl rhywbeth a ddechreuodd Cymru rai blynyddoedd yn ôl.

So, although 2014-15 is really a vintage year for this sort of imitation, this has been going on for almost the whole of the 15 years of devolution and it can take many forms. This morning, there was an article in the 'Western Mail' about this debate, and I have had phone calls throughout the day saying, 'Why have you not mentioned this? Why have you not mentioned that?' Basically, there are so many things that have been initiated here and that have been taken up in other parts of the UK. Of course, our most popular measure, I think, was the bus pass, which was pioneered in Wales and was taken up in England, but it was introduced in a much less generous way in England.

Felly, er bod 2014-15 yn ddi-os yn flwyddyn heb ei hail ar gyfer y math hwn o efelychu, mae hyn wedi bod yn digwydd fwy neu lai gydol 15 mlynedd datganoli a gall gymryd sawl ffurf. Y bore yma, roedd erthygl yn y 'Western Mail' am y ddadl hon, ac rwyf wedi cael galwadau ffôn drwy'r dydd yn dweud, 'Pam nad ydych wedi sôn am hyn? Pam nad ydych wedi sôn am y llall?' Yn y bôn, mae cymaint o bethau sydd wedi cael eu cychwyn yma ac sydd wedi'u mabwysiadu gan rannau eraill o'r DU. Wrth gwrs, ein mesur mwyaf poblogaidd, credaf, oedd y tocyn bws, a gafodd ei arloesi yng Nghymru ac a fabwysiadwyd yn Lloegr, ond a gafodd ei gyflwyno mewn ffordd llawer llai hael yn Lloegr.

Take smoking in public places being banned; I think that this Assembly can be very proud that it was the first of the four legislative bodies covering the UK to vote for a ban. The actual vote here was the first, but then the UK Government, which was a Labour Government, spent quite a long time before it was convinced that this was the way to go forward. The Assembly did not have the legislative powers at that time to bring it in itself. In 2004-05, as a Member of Parliament, I brought forward a private Members' Bill on smoking in public places in Wales. I shared this Bill with Baroness Ilora Finlay, who took it through the House of Lords, and then I took it through the House of Commons, where it unfortunately fell at the last hurdle because of a lack of time. At that time, Wales could not legislate on its own account and, at that point, Westminster would not do it. However, it helped to create a climate and Scotland and Northern Ireland went for it and, eventually, the UK Government came around to the Welsh Assembly's way of thinking. So, I think that we have had a tremendous influence on the smoking in public places issue, even though we were not able to legislate first on it.

Cymerwch wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus; rwy'n meddwl y gall y Cynulliad hwn fod yn falch iawn mai ef oedd y cyntaf o'r pedwar corff deddfwriaethol sy'n cwmpasu'r DU i bleidleisio am waharddiad. Y bleidlais go iawn yma oedd y gyntaf, ond yna treuliodd Llywodraeth y DU, a oedd yn Llywodraeth Lafur, gryn amser cyn iddi gael ei hargyhoeddi mai dyma'r ffordd ymlaen. Nid oedd gan y Cynulliad y pwerau deddfwriaethol ar y pryd i ddod â hi i rym ei hun. Yn 2004-05, fel Aelod Seneddol, cyflwynais Fesur Aelod Preifat ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru. Rhennais y Mesur hwn gyda'r Farwnes Ilora Finlay, a'i cyflwynodd drwy Dŷ'r Arglwyddi, ac yna euthum i â'r Mesur drwy Dŷ'r Cyffredin, lle yn anffodus iddo syrthio ar y rhwystr olaf oherwydd diffyg amser. Ar y pryd, ni allai Cymru ei hun ddeddfu ac, ar y pwynt hwnnw, nid oedd San Steffan yn fodlon gwneud. Fodd bynnag, bu'n gymorth i greu hinsawdd ac aeth yr Alban a Gogledd Iwerddon amdani ac, yn y pen draw, darbwyllwyd Llywodraeth y DU gan ffordd y Cynulliad Cenedlaethol o feddwl. Felly, rwy'n meddwl i ni gael dylanwad aruthrol ar fater ysmygu mewn mannau cyhoeddus, er na fu modd i ni fod y cyntaf i ddeddfu arno.

The Children's Commissioner for Wales legislation—which was quite a long time ago—was much more straight forward. Again, as a Member of Parliament, I was part of the process of getting that legislation through Westminster. The Westminster Government did legislate at the Assembly's request to set up the children's commissioner office and, again, I do not think that the Assembly at that time ever claimed any originality in setting up such an office, because the idea was unashamedly copied from the Norwegian ombudsman. I remember coming down to a meeting here in the Assembly at that time, where the Norwegian ombudsman, I believe, talked about what they were doing in Norway. I think that bringing in the children's commissioner has been an outstanding step forward. England then, having seen how the system was bedding down in Wales, legislated to set one up in England, although at the time it lacked the full independence of the Welsh model. Of course, the office of the children's commissioner and its powers are now being reviewed and I hope that it will gain even more strength. Despite the fact that it was the Westminster Government that had to legislate for this in the beginning, I think that we can definitely chalk that up as a first for the Assembly in the UK.

Roedd deddfwriaeth Comisiynydd Plant Cymru—a oedd gryn amser yn ôl—yn llawer symlach. Unwaith eto, fel Aelod Seneddol, roeddwn yn rhan o'r broses o gael y ddeddfwriaeth honno drwy San Steffan. Deddfodd Llywodraeth San Steffan ar gais y Cynulliad i sefydlu swyddfa y comisiynydd plant ac, unwaith eto, ni chredaf fod y Cynulliad ar y pryd erioed wedi honni gwreiddioldeb wrth sefydlu swydd o'r fath, oherwydd copïwyd y syniad yn ddigywilydd o ombwdsmon Norwy. Rwy'n cofio dod i lawr i gyfarfod yma yn y Cynulliad ar y pryd, lle'r oedd ombwdsmon Norwy, mi gredaf, yn sôn am yr hyn yr oeddynt yn ei wneud yn Norwy. Rwy'n credu bod cyflwyno comisiynydd plant wedi bod yn gam rhagorol ymlaen. Ar ôl gweld sut roedd y system wedi ymsefydlu yng Nghymru, aeth Lloegr ati wedyn i ddeddfu i sefydlu un yn Lloegr, er ar y pryd nad oedd ganddo annibyniaeth llawn model Cymru. Wrth gwrs, mae swyddfa'r comisiynydd plant a'i bwerau yn cael eu hadolygu yn awr ac rwy'n gobeithio y bydd yn cael hyd yn oed mwy o rym. Er gwaethaf y ffaith mai Llywodraeth San Steffan a orfu deddfu ar gyfer hyn yn y dechrau, rwy'n meddwl y gallwn yn sicr ei hawlio fel cyntaf i'r Cynulliad yn y DU.

Sometimes, as with free prescriptions, not just for pensioners, but for other adults as well, or with children's rights legislation, Scotland or Northern Ireland have followed us, or both, but not always Westminster. Northern Ireland and Scotland have both abolished prescription charges, but England has not abolished prescription charges. Children's rights legislation was passed here, I think it was four years ago, incorporating the UN Convention on the Rights of the Child into our Government's actions. Legislation about children is then at the heart of the Government. That, I understand, is the basis of similar legislation being prepared in Scotland. So, there is a whole range of initiatives that have started here and have actually spread through the different countries of the UK.

Weithiau, fel gyda phresgripsiynau am ddim, nid yn unig i bensiynwyr, ond i oedolion eraill yn ogystal, neu gyda deddfwriaeth hawliau plant, mae'r Alban neu Ogledd Iwerddon wedi ein dilyn ni, neu'r ddau, ond nid bob amser San Steffan. Mae Gogledd Iwerddon a'r Alban ill dau wedi diddymu taliadau presgripsiwn, ond nid yw Lloegr wedi diddymu taliadau presgripsiwn. Pasiwyd deddfwriaeth hawliau plant yma, credaf bedair blynedd yn ôl, gan ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghamau gweithredu ein Llywodraeth. Felly mae deddfwriaeth ynghylch plant wrth galon y Llywodraeth. Dyna, rwy'n ei ddeall, yw sail deddfwriaeth debyg sy'n cael ei pharatoi yn yr Alban. Felly, mae ystod eang o fentrau sydd wedi eu dechrau yma ac wedi lledaenu mewn gwirionedd drwy wahanol wledydd y DU.

Finance Wales, which was set up here in 2001, has been in the spotlight recently with a number of reports. What is quite clear is that, in England, to avoid setting up a 'Finance North East of England' and a 'Finance North West of England', these two English regions asked Finance Wales to supply that service on an outsourced basis. Again, what we were providing in Wales was something that England also wanted to have, and used what we had set up here in Wales. I think I would also argue that the coalition's British Business Bank is based on taking the model of Finance Wales and expanding its remit to the UK and to bigger projects outside the SME sector.

Mae Cyllid Cymru, a sefydlwyd yma yn 2001, wedi bod yn y penawdau yn ddiweddar yn sgîl nifer o adroddiadau. Yr hyn sy'n hollol amlwg, er mwyn osgoi sefydlu 'Cyllid Gogledd Ddwyrain Lloegr' a 'Cyllid Gogledd Orllewin Lloegr', yw bod y ddau ranbarth yma yn Lloegr wedi gofyn i Cyllid Cymru gyflenwi'r gwasanaeth ar sail allanol. Unwaith eto, roedd yr hyn roeddem yn ei ddarparu yng Nghymru yn rhywbeth roedd Lloegr hefyd am ei gael, ac aethant ati i ddefnyddio'r hyn roeddem wedi ei sefydlu yma yng Nghymru. Credaf y byddwn hefyd yn dadlau bod Banc Busnes Prydain y glymblaid yn seiliedig ar gymryd model Cyllid Cymru ac ehangu ei gylch gwaith i'r DU ac i brosiectau mwy y tu allan i'r sector busnesau bach a chanolig.

So, what about the initiatives that we have had here in Wales that actually have not been adopted, and the debate about whether they will be adopted? What about the foundation phase? Again, that was copied from other countries. It was from Scandinavia, and I know that many people visited Scandinavia to see how the foundation phase worked. I personally think that it has been one of the outstanding innovations of this Welsh Government. Certainly, I have visited the foundation phase in my constituency in Cardiff North and seen the absolute pleasure that the children have in playing in the wonderful rich environment of the open air, growing vegetables, having little corners to play in, and all the freedom to do it, in a way that I think is absolutely pioneering. We have not actually seen any sign of that happening in England, and when you have heard debates about it, it is very rarely mentioned that Wales is doing this. I have heard quite a lot of debates about play and what children do, on the radio and on the television, and the fact that this has happened here in Wales does not seem to be well known beyond Wales.

Felly, beth am y mentrau rydym wedi'u cael yma yng Nghymru nad ydynt mewn gwirionedd wedi cael eu mabwysiadu, a'r ddadl ynghylch a fyddant yn cael eu mabwysiadu? Beth am y cyfnod sylfaen? Unwaith eto, copïwyd hynny o wledydd eraill. Daeth o Sgandinafia, a gwn fod llawer o bobl wedi ymweld â Sgandinafia i weld sut roedd y cyfnod sylfaen yn gweithio. Yn bersonol, credaf ei fod wedi bod yn un o ddatblygiadau arloesol mwyaf trawiadol Llywodraeth Cymru. Yn sicr, rwyf wedi ymweld â'r cyfnod sylfaen yn fy etholaeth yng Ngogledd Caerdydd ac wedi gweld y pleser llwyr y mae'r plant yn ei gael yn chwarae yn amgylchedd cyfoethog hyfryd yr awyr agored, yn tyfu llysiau, yn cael corneli bach i chwarae ynddynt a phob rhyddid i wneud hynny, mewn ffordd y credaf sy'n gwbl arloesol. Nid ydym mewn gwirionedd wedi gweld unrhyw arwydd bod hynny'n digwydd yn Lloegr, a phan fyddwch wedi clywed dadleuon am y peth, anaml iawn y crybwyllir bod Cymru yn gwneud hyn. Rwyf wedi clywed cryn dipyn o ddadleuon am chwarae a'r hyn y mae plant yn ei wneud, ar y radio ac ar y teledu, ac nid yw'n ymddangos bod y ffaith fod hyn wedi digwydd yma yng Nghymru fel pe bai'n wybyddus y tu hwnt i Gymru.

If you look at one of the most recent innovative things that we have done, which is the Human Transplantation (Wales) Act 2013, and the opt-out system that we have introduced, I feel fairly convinced that that is something that will be followed by the other countries in the UK. I know that it has been a controversial issue to bring in, but certainly, when I was in Westminster, there were lots of private Members' debates on this issue and lots of backbench-initiated debates. I think the climate is there so that, when they see what happens in Wales, it is very likely that it might happen in Westminster.

Os ydych yn edrych ar un o'r pethau arloesol diweddaraf rydym wedi'i wneud, sef Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, a'r system optio allan rydym wedi'i chyflwyno, rwy'n teimlo'n weddol argyhoeddedig bod hynny'n rhywbeth a fydd yn cael ei ddilyn gan wledydd eraill y DU. Gwn bod ei gyflwyno wedi bod yn fater dadleuol, ond yn sicr, pan roeddwn yn San Steffan, roedd llawer o ddadleuon Aelodau preifat ar y mater hwn a llawer o ddadleuon wedi'u sbarduno gan y meinciau cefn. Rwy'n meddwl bod yr hinsawdd yno, a phan welant yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru, ei bod yn debygol iawn y gallai ddigwydd yn San Steffan.

I have just run through a very small number of the initiatives that have happened in Wales and have spread throughout the UK. It is very important to do this because I sometimes feel that, recently, we have been a bit browbeaten by this endless business of comparing Wales to England and looking at public services. You sometimes feel that the Assembly and devolution is not being portrayed for the innovative success it has been. I am quite convinced that devolution will continue to drive innovation in many ways. We need to celebrate that and it is really important that we make people know about it.

Rwyf newydd amlinellu nifer fach iawn o'r mentrau sydd wedi digwydd yng Nghymru ac wedi lledaenu ar draws y DU. Mae'n bwysig iawn gwneud hyn gan fy mod yn teimlo weithiau, yn ddiweddar, ein bod ni wedi cael ein llethu braidd gan y busnes diddiwedd yma o gymharu Cymru â Lloegr ac edrych ar wasanaethau cyhoeddus. Weithiau rydych yn teimlo nad yw'r Cynulliad a datganoli yn cael eu portreadu yng ngoleuni'r llwyddiant arloesol a fu. Rwy'n eithaf sicr y bydd datganoli yn parhau i yrru arloesedd mewn sawl ffordd. Mae angen i ni ddathlu hynny ac mae'n bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod pobl yn gwybod am y peth.

18:26 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I thank Julie Morgan for a minute in this debate and thank her even more for reminding us of many of the things that have happened in this Assembly—many of the very good things. Perhaps some of us have forgotten, because they were some time ago.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i Julie Morgan am funud yn y ddadl hon a diolch iddi hyd yn oed yn fwy am ein hatgoffa o'r pethau niferus sydd wedi digwydd yn y Cynulliad—llawer o'r pethau da iawn. Efallai bod rhai ohonom wedi anghofio, oherwydd eu bod beth amser yn ôl.

Devolution gives us the opportunity for local solutions to local problems. Never again will a Tory Secretary of State for Wales use Wales for a monetarist experiment. We also have to accept that not all initiatives will work as hoped. Westminster has a long record of this, from the poll tax to the bedroom tax. There appears to be a time lag between what works in Wales and Westminster eventually taking action on it. So, I expect, very confidently, an organ donation Bill and a sprinkler Bill for England sometime in 2016 or 2017.

Mae datganoli yn rhoi cyfle i ni ddod o hyd i atebion lleol i broblemau lleol. Ni fydd Ysgrifennydd Gwladol Torïaidd Cymru fyth eto'n defnyddio Cymru ar gyfer arbrawf ariannol. Mae'n rhaid i ni hefyd dderbyn na fydd pob menter yn gweithio fel roeddem wedi ei obeithio. Mae gan San Steffan hanes hir o hyn, o dreth y pen i'r dreth ystafell wely. Mae'n ymddangos bod oedi mewn amser rhwng yr hyn sy'n gweithio yng Nghymru a San Steffan yn y pen draw yn gweithredu yn ei gylch. Felly, rwy'n disgwyl, yn hyderus iawn, y gwelwn Fil rhoi organau a Bil chwistrellu ar gyfer Lloegr rywbryd yn 2016 neu 2017.

18:27 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just want to point out a couple of other things that people do not really appreciate. The Secretary of State mentioned it, but not in the Welsh context, and that is our excellent procurement practice, which we have been lauded for across Europe, which we certainly do not shout about enough. Our excellent youth involvement through Funky Dragon and the cherishing of youth involvement in our democracy are two of the things that I would like to mention. The third, which we also seldom mention, is the fact that we are close to our population and constituents in a way that Westminster simply is not for the most part. For example, innovative projects like the Swansea bay campus and the Trinity Saint David university's expansion in Swansea have only happened because the Welsh Government is close to the heart of the innovative research and design process that is necessary to push those things forward. So, it is not just about legislation, it is about the way we work, our ethics, our culture and our practices. We should shout about that loud and long.

Rwyf am dynnu sylw at ambell beth arall nad yw pobl yn eu gwerthfawrogi mewn gwirionedd. Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol at hyn, ond nid yng nghyd-destun Cymru, sef ein harferion caffael rhagorol, sydd wedi'u canmol ledled Ewrop, ond yn sicr heb eu brolio ddigon gennym ni. Mae ein cyfranogiad ieuenctid ardderchog drwy'r Ddraig Ffynci a'r pwys a roddwn ar gynnwys pobl ifanc yn ein democratiaeth yn ddau o'r pethau yr hoffwn eu crybwyll. Y trydydd, sy'n rhywbeth arall rydym prin yn sôn amdano, yw'r ffaith ein bod yn agos at ein poblogaeth a'n hetholwyr mewn ffordd nad yw San Steffan ar y cyfan. Er enghraifft, mae prosiectau arloesol fel campws bae Abertawe ac ehangu prifysgol y Drindod Dewi Sant yn Abertawe ond wedi digwydd oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn agos at galon y gwaith ymchwil arloesol a'r broses ddylunio sy'n angenrheidiol i wthio'r pethau hynny ymlaen. Felly, nid oes a wnelo'n unig â deddfwriaeth, ond mae a wnelo â'r ffordd rydym yn gweithio, ein moeseg, ein diwylliant a'n harferion. Dylem ganu eu clodydd yn uchel ac yn ddiflino.

18:28 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i ymateb i'r ddadl—Lesley Griffiths.

I call the Minister for Local Government and Government Business to reply to the debate—Lesley Griffiths.

18:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I think that Julie Morgan is absolutely right: devolution has allowed for innovative measures to be developed in Wales. Julie mentioned several of our policies and initiatives and, you are quite right, we do not have the time to mention them all.

Credaf fod Julie Morgan yn llygad ei lle: mae datganoli wedi caniatáu i fesurau arloesol gael eu datblygu yng Nghymru. Crybwyllodd Julie nifer o'n polisïau a'n mentrau ac, rydych yn llygad eich lle, nid oes gennym yr amser i sôn am bob un ohonynt.

Devolution has allowed us also to develop policies and initiatives that take into account the sometimes unique circumstances of our citizens, as Mike Hedges mentioned. It has also given us the opportunity to develop creative solutions to problems that affect all parts of the UK. In the Queen's Speech last week, which outlined the UK Government's legislative programme, there was a reference to its plans for implementing a charge for single-use carrier bags, as we heard earlier this afternoon from the Secretary of State for Wales. We introduced that policy here in Wales in October 2011, and it has been hailed as an exemplar by the parliamentary Environmental Audit Committee. It has won the support of both retailers and consumers alike.

Mae datganoli wedi caniatáu i ni hefyd ddatblygu polisïau a mentrau sy'n cymryd i ystyriaeth amgylchiadau unigryw ar brydiau ein dinasyddion, fel y soniodd Mike Hedges. Mae hefyd wedi rhoi cyfle i ni ddatblygu atebion creadigol i broblemau sy'n effeithio ar bob rhan o'r DU. Yn Araith y Frenhines yr wythnos diwethaf, a oedd yn amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, roedd cyfeiriad at ei chynlluniau i godi tâl am fagiau untro, fel y clywsom yn gynharach y prynhawn yma gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cyflwynwyd y polisi hwn gennym yng Nghymru ym mis Hydref 2011, ac mae wedi ei ganmol fel esiampl gan Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol y senedd. Mae wedi ennill cefnogaeth manwerthwyr a defnyddwyr fel ei gilydd.

Wales was the first nation in the UK to introduce such a charge, but it has proved so successful that I do believe that other countries are now following suit. The charge has led to a substantial reduction in the number of single-use carrier bags given away each year by retailers. It reduces our consumption of valuable resources and decreases the unsightly litter on our streets. Another thing it does is enable many charities to benefit from the proceeds of the sale of the bags.

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno tâl o'r fath, ond mae wedi llwyddo i'r fath raddau fel y credaf fod gwledydd eraill yn awr am ddilyn yr un trywydd. Mae'r tâl wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y bagiau untro sy'n cael eu dosbarthu bob blwyddyn gan fanwerthwyr. Mae'n lleihau ein defnydd o adnoddau gwerthfawr ac yn lleihau'r sbwriel hyll ar ein strydoedd. Peth arall y mae'n ei wneud yw galluogi nifer o elusennau i elwa ar enillion gwerthiant y bagiau.

The origins of this policy also show how our processes can stimulate innovation. The introduction of the charge came about following a petition to the National Assembly for Wales. It was submitted by one person. I was a backbencher on the committee that looked at this. We do not require a fixed number of signatures to allow a petition to be considered; we only ask that it meets the requirements set out in Standing Orders. Again, I think that it shows Wales that the process of our Government also facilitates innovation and encourages participation by the people we represent.

Mae tarddiad y polisi hwn hefyd yn dangos sut y gall ein prosesau ysgogi arloesedd. Cyflwynwyd y tâl yn sgîl deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd ei chyflwyno gan un person. Roeddwn yn aelod o'r meinciau cefn ar y pwyllgor a oedd yn edrych ar hyn. Nid oes angen nifer penodol o lofnodion i ni ganiatáu i ddeiseb gael ei hystyried; rydym ond yn gofyn iddi fodloni'r gofynion a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Unwaith eto, credaf ei fod yn dangos i Gymru fod proses ein Llywodraeth hefyd yn hyrwyddo arloesedd ac yn annog cyfranogiad gan y bobl rydym yn eu cynrychioli.

Julie Morgan mentioned that Wales is the first country in the UK to have an opt-out system for consent to organ donation. It is absolutely a far-reaching piece of legislation. It is not without its controversy, but I think that it shows that we do not shy away from dealing with the most difficult issues. This piece of legislation will, potentially, affect everyone living in Wales. It is the subject of considerable interest in the rest of the UK and internationally, and I think that it shows Wales at its most innovative and courageous.

Crybwyllodd Julie Morgan mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gael system o optio allan o ganiatâd i roi organau. Mae'n ddarn pellgyrhaeddol o ddeddfwriaeth, yn ddi-os. Mae'n bwnc dadleuol i raddau, ond rwy'n meddwl ei fod yn dangos nad ydym yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth ddelio â'r materion mwyaf dyrys. Bydd y darn hwn o ddeddfwriaeth, o bosibl, yn effeithio ar bawb sy'n byw yng Nghymru. Mae'n destun cryn ddiddordeb yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol, ac rwy'n meddwl ei fod yn dangos Cymru ar ei mwyaf arloesol a dewr.

By changing the way that people choose to be an organ donor in Wales to a soft opt-out system, we will bring about a revolution in consent and save and transform dozens more lives every year. I think that that Act, above all, shows how far we have come in our devolution journey and how we are using our powers wisely.

Drwy newid y ffordd y mae pobl yn dewis i fod yn rhoddwyr organau yng Nghymru i system feddal o optio allan, byddwn yn cymell chwyldro o safbwynt rhoi caniatâd ac yn arbed a thrawsnewid dwsinau o fywydau a mwy bob blwyddyn. Credaf fod y Ddeddf honno, yn anad dim, yn dangos pa mor bell rydym wedi dod ar ein taith datganoli a sut rydym yn defnyddio ein pwerau'n ddoeth.

Turning to other examples of innovative legislation, one that is very close to my heart is that which now makes food hygiene ratings compulsory. Many people talk about that as Wales again leading the way.

Gan droi at enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth arloesol, un sy'n agos iawn at fy nghalon yw'r un sydd bellach yn gwneud sgoriau hylendid bwyd yn orfodol. Mae llawer o bobl yn siarad am hynny o safbwynt Cymru unwaith eto yn arwain y ffordd.

Another difficult issue that I think that we have dealt with—again, I mentioned this this afternoon in my contribution to the Queen's Speech debate—is the way that we have tackled slavery. It requires a cross-border approach, and I really believe that Wales is leading on the work across the UK. We recognised several years ago that we needed a strategic and co-ordinated approach, and we are the first country to appoint an anti-slavery co-ordinator, who works closely with a range of different organisations, because I truly believe that the only way that we will tackle this dreadful crime is to have a multi-agency approach. As we heard this afternoon, the UK Government is now considering appointing an anti-slavery commissioner, who will fulfil a similar role.

Mater anodd arall rwy'n meddwl i ni ddelio ag ef-unwaith eto, rwy'n crybwyll hyn y prynhawn yma yn fy nghyfraniad i'r ddadl am Araith y Frenhines—yw'r ffordd rydym wedi mynd i'r afael â chaethwasiaeth. Mae'n gofyn am ymagwedd drawsffiniol, ac rwy'n gwbl grediniol fod Cymru ar flaen y gad gyda'r gwaith hwn ar draws y DU. Bu i ni gydnabod sawl blwyddyn yn ôl bod angen dull strategol a chydlynol, a ni oedd y wlad gyntaf i benodi cydlynydd gwrth-gaethwasiaeth, sy'n gweithio'n agos gydag ystod o wahanol sefydliadau, oherwydd credaf i'r carn mai dim ond drwy fabwysiadu dull amlasiantaethol y gallwn fynd i'r afael â'r drosedd ofnadwy hon. Fel y clywsom y prynhawn yma, mae Llywodraeth y DU yn awr yn ystyried penodi comisiynydd gwrth-gaethwasiaeth, a fydd yn cyflawni rôl debyg.

Similarly, we are leading the way in combating violence against women, domestic abuse and sexual violence, and we will shortly introduce a Bill to enshrine in legislation our commitment to tackling these endemic social problems. This will place a duty on Welsh Ministers to promote prevention, protection and support, with a view to reducing the rates of such violence and achieving more positive outcomes for victims and potential victims.

Yn yr un modd, rydym yn arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a byddwn yn cyflwyno Bil maes o law i ymgorffori mewn deddfwriaeth ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol endemig hyn. Bydd hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo atal, diogelu a chymorth, gyda golwg ar leihau cyfraddau trais o'r fath a chyflawni canlyniadau mwy cadarnhaol ar gyfer dioddefwyr a dioddefwyr posibl.

As I said at the beginning, one of the advantages of devolution is our ability to legislate on issues that affect the people of Wales. Sometimes, these can be very local issues. We did this with the Control of Horses (Wales) Act 2014, which gives local authorities the practical powers that they need to deal with fly-grazing and the abandonment of horses. Stakeholders have very much welcomed our approach as an example of a Government listening to the farming industry and taking prompt action to tackle a compelling problem. They are now calling on Westminster to follow suit.

Fel y dywedais ar y dechrau, un o fanteision datganoli yw ein gallu i ddeddfu ar faterion sy'n effeithio ar bobl Cymru. Weithiau, gall y rhain fod yn faterion lleol iawn. Gwnaethom hyn yn achos Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014, sy'n rhoi'r pwerau ymarferol sydd eu hangen ar awdurdodau lleol i ddelio â phori anghyfreithlon a gadael ceffylau. Mae rhanddeiliaid wedi croesawu ein dull yn fawr iawn fel enghraifft o Lywodraeth yn gwrando ar y diwydiant ffermio ac yn cymryd camau buan i fynd i'r afael â phroblem enbyd. Erbyn hyn maent yn galw ar San Steffan i wneud yr un peth.

Looking more widely than at individual policies, we are innovative in the holistic approach to promoting the long-term wellbeing of the citizen. Tackling poverty is a key example. It is a top priority for the Welsh Government; we are the only part of the UK that has both a Minister and a Deputy Minister for Tackling Poverty, and they work with other Ministers to ensure that we have a sustained cross-Government focus on improving outcomes for low-income households. As part of the tackling poverty action plan, we have set clear targets for what we want to achieve and on which we can be held to account.

Wrth edrych yn ehangach nag ar bolisïau unigol, rydym yn arloesol yn yr ymagwedd gyfannol at hyrwyddo lles hirdymor y dinesydd. Mae trechu tlodi yn enghraifft allweddol. Mae'n un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru; ni yw'r unig ran o'r DU sydd â Gweinidog a Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, ac maent yn gweithio gyda Gweinidogion eraill er mwyn sicrhau bod gennym ffocws parhaus ar draws y Llywodraeth ar wella canlyniadau i deuluoedd incwm-isel. Fel rhan o gynllun gweithredu trechu tlodi, rydym wedi gosod targedau clir ar gyfer yr hyn rydym am ei gyflawni a'r hyn y gellir ein dwyn i gyfrif yn ei gylch.

The UK's Social Mobility and Child Poverty Commission recently welcomed the collaborative approach being taken to tackle poverty in Wales. The commission commented that there are several areas where other countries in the United Kingdom could learn from the experience of Wales—something that I pointed out to the Secretary of State earlier this afternoon.

Yn ddiweddar, croesawodd Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU y dull cydweithredol sydd ar waith i drechu tlodi yng Nghymru. Dywedodd y comisiwn bod sawl maes arall lle y gallai gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig ddysgu o brofiad Cymru—rhywbeth y tynnais sylw'r Ysgrifennydd Gwladol ato yn gynharach y prynhawn yma.

We are also committed to ensuring the full participation of our young people as citizens and valued members of society—something that Julie James referred to with Funky Dragon and encouraging youth democracy in Wales. In 2001, as Julie Morgan said, we were the first country in the UK to introduce an independent children's commissioner, who champions the rights of children and makes representations to the Welsh Government and others on the views of children and young people and the key issues that affect them. The commissioner challenges Ministers and other agencies in Wales to take young people's views very seriously indeed. Again, since 2001, all other parts of the UK have followed suit and introduced their own children's commissioners.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau cyfranogiad llawn ein pobl ifanc fel dinasyddion ac aelodau gwerthfawr o gymdeithas—rhywbeth y cyfeiriodd Julie James ato gyda Draig Ffynci ac annog democratiaeth ieuenctid yng Nghymru. Yn 2001, fel y dywedodd Julie Morgan, ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno comisiynydd plant annibynnol, sy'n hyrwyddo hawliau plant ac yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ac eraill ar farn plant a phobl ifanc a'r materion allweddol sy'n effeithio arnynt. Mae'r comisiynydd yn herio Gweinidogion ac asiantaethau eraill yng Nghymru i ystyried barn pobl ifanc o ddifrif. Unwaith eto, ers 2001, mae pob rhan arall o'r DU wedi dilyn yr un trywydd a chyflwyno eu comisiynwyr plant eu hunain.

Wales is driving the agenda for the whole of the UK on children's and young people's rights, and, in 2011, the National Assembly passed the groundbreaking Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which gives further effect to the United Nations Convention on the Rights of the Child. The duties under the Measure are ambitious and crucial in securing positive outcomes for children and young people in Wales. They build a culture within Government that respects, promotes and upholds children's rights. No other administration in the UK has yet given further effect to the UNCRC, but I know that Welsh Government officials are working closely with their colleagues around the UK to provide support on taking this issue forward in domestic legislation.

Mae Cymru yn gyrru'r agenda ar gyfer y DU gyfan ym maes gwasanaethau plant a hawliau pobl ifanc ac, yn 2011, pasiodd y Cynulliad Cenedlaethol y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 arloesol, sy'n rhoi grym pellach i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r dyletswyddau o dan y Mesur yn uchelgeisiol ac yn hanfodol wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Maent yn adeiladu diwylliant o fewn y Llywodraeth sy'n parchu, yn hyrwyddo ac yn cynnal hawliau plant. Nid oes unrhyw weinyddiaeth arall yn y DU hyd yma wedi rhoi grym pellach i'r Confensiwn, ond gwn fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr ledled y DU i ddarparu cymorth ar ddatblygu'r mater hwn mewn deddfwriaeth ddomestig.

We are focused on the wellbeing of our future generations. We have led the way by introducing free breakfasts in primary schools. That was part of our programme for government commitments, and is an integral part of our wider work to improve food and nutrition in schools, which is being maintained by local authorities in Wales. It is the intention that free breakfast provision will improve the opportunities and quality of life for young people living in Wales and reduce the health inequalities arising from a poor diet. Those are just some of the innovative policies and legislation that we are leading on in Wales. I have not had time to discuss the Communities First programme, our work on resilience, or our Flying Start programme, to name just a few.

Rydym yn canolbwyntio ar les cenedlaethau'r dyfodol. Rydym wedi arwain y ffordd drwy gyflwyno brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd. Roedd hynny'n rhan o'n rhaglen ar gyfer ymrwymiadau y llywodraeth, ac mae'n rhan annatod o'n gwaith ehangach i wella bwyd a maeth mewn ysgolion, sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd y ddarpariaeth brecwast am ddim yn gwella cyfleoedd ac ansawdd bywyd ar gyfer pobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd sy'n deillio o ddiet gwael. Dyna ddim ond rhai o'r polisïau a'r ddeddfwriaeth arloesol rydym yn arwain arnynt yng Nghymru. Nid wyf wedi cael amser i drafod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ein gwaith ar wytnwch, na'n rhaglen Dechrau'n Deg, i enwi dim ond rhai.

I have talked about how our policies are influencing the rest of the UK and how Wales is leading the way in proposing solutions to the problems faced by the individuals and the communities that we represent. I sincerely hope that Whitehall and Westminster will be open to learning from us, as well as the other devolved administrations.

Rwyf wedi sôn am sut y mae ein polisïau yn dylanwadu ar weddill y DU a sut mae Cymru ar flaen y gad yn cynnig atebion i'r problemau sy'n wynebu'r unigolion a'r cymunedau rydym yn eu cynrychioli. Rwy'n mawr obeithio y bydd Whitehall a San Steffan yn agored i ddysgu oddi wrthym, yn ogystal â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

I think we have much to be proud of. Devolution has given us the opportunity to think differently and do things differently. Our processes of governing allow our citizens to take an active part in policy development and allow us to develop measures that truly meet their needs. As was said earlier, we have been criticised, but I think we have much to be proud of. You only have to look at the excellent work that we do to show that we can fight back against the Tory war on Wales.

Credaf fod gennym lawer i fod yn falch ohono. Mae datganoli wedi rhoi cyfle i ni feddwl yn wahanol a gwneud pethau'n wahanol. Mae ein prosesau llywodraethu caniatáu i'n dinasyddion gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu polisi ac yn ein galluogi i ddatblygu mesurau sy'n diwallu eu hanghenion go iawn. Fel y dywedais yn gynharach, rydym wedi cael ein beirniadu, ond credaf fod gennym lawer i fod yn falch ohono. Nid oes ond rhaid i chi edrych ar y gwaith rhagorol rydym yn ei wneud i ddangos ein bod yn gallu ymladd yn ôl yn erbyn y rhyfel Torïaidd ar Gymru.

18:36 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

Thank you very much, Minister. That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:36.*

*The meeting ended at 18:36.*